



Cyfarfod

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD IAU, 14EG HYDREF, 2021

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

Lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 7 Hydref 2021)

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

AELODAETH (19)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Aled Ll. Evans
Berwyn Parry Jones
Paul John Rowlinson
Sedd Wag

Aled Wyn Jones
Peredur Jenkins
Gethin Glyn Williams

Huw Gruffydd Wyn Jones
W. Gareth Roberts
E. Selwyn Griffiths

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
John Pughe Roberts
Richard Medwyn Hughes

Dewi Wyn Roberts
Angela Russell

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Sedd Wag

Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd Sion W. Jones

Aelod Lleyg (1)

Mrs Sharon Warnes

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

5 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 15 Gorffennaf 2021 fel rhai cywir

5. CYFRIFON TERFYNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021 A'R ARCHWILIAD PERTHNASOL

11 - 143

Cyflwynir:

- Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;
- Adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru;
- Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1).

I ystyried a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr

6. CYLLIDEB REFENIW 2021/22 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2021

144 - 168

I dderbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau

7. RHAGLEN GYFALAF 2021/22 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2021

169 - 178

I dderbyn yr wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet

8. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

179 - 191

I dderbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau cyffredinol sy'n deillio o'r lliithriadau, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion

9. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL

192 - 219

Derbyn yr adroddiad, sylwebu ar y cynnwys a chefnogi'r gweithrediadau sydd eisoes wedi'u cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol

10. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2021/22 220 - 224

Derbyn diweddariad ar y cynnydd yn erbyn cynllun archwilio mewnol 2021/22

11. TROSOLWG O'R PROSIECT PRENTISIAETHAU 225 - 231

Cyflwyno trosolwg o'r Prosiect Prentisiaethau gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau

Gwahoddir y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i ystyried y wybodaeth a gyflwynir

12. CADW'R BUDD YN LLEOL 232 - 235

Cyflwyno adroddiad yn dilyn cais y Pwyllgor Archwilio i dderbyn diweddariad ar gynnydd un o'r prosiectau blaenoriaeth o fewn Cynllun y Cyngor sef **Prosiect Cadw'r Budd yn Lleol**.

13. ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 236 - 275

Sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn fodlon bod y camau gweithredu grëwyd mewn ymateb i argymhellion adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 15/7/21

Presenoldeb:

Cynghorwyr: Cadeirydd: Cynghorydd John Pughe Roberts

Aled Ll Evans, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Berwyn P Jones, Dewi Roberts, Paul Rowlinson ac Angela Russell

Sharon Warnes (Aelod Lleyg)

Swyddogion:

Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Huw Ynr (Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd:

Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid)
Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol)
Alan Hughes (Archwilio Cymru)
Yvonne Thomas (Archwilio Cymru)
Nia Medi Williams (Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru)
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr R Medwyn Hughes, Huw W Jones a Gethin Glyn Williams

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 27 Mai a 17 Mehefin 2021 fel rhai cywir.

5. ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU

Cyflwynwyd tri adroddiad yn diweddarau'r Pwyllgor ar waith Chwarter 1 Archwilio Cymru.

- Diweddariad Chwarterol: hyd at 30 Mehefin 2021
- Adolygiad Cynnydd Bargen Twf Gogledd Cymru – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUE)
- Ymateb Rheolwyr i gynnydd rhaglen waith BUE

Croesawyd Alan Hughes (Archwilio Cymru) a Nia Williams (BUE) i'r cyfarfod i gyflwyno eu sylwadau / ymatebion. Cyfeiriwyd at raglen waith Archwilio Cymru gan amlygu bod y rhaglen yn grynodedb defnyddiol o'r gwaith lleol, y gwaith cenedlaethol a'r gwaith sydd yn cael ei weithredu gan arolygwyr eraill yn ystod y cyfnod.

Yng nghyd-destun adroddiad cynnydd Bargen Twf Gogledd Cymru (BUE) cyflwynwyd chwe cynnig ar gyfer ffyrdd y gallai'r cynghorau drwy'r BUE wella eu gallu i gyflawni eu nodau cyffredinol. Amlygwyd bod BUE wedi sefydlu fframwaith llywodraethu clir, er nad yw pob elfen yn weithredol, ynghyd a Swyddfa Rheoli Portffolio gydag adnoddau da i gefnogi a chyflawni'r gwaith.

Cyflwynwyd ymateb i'r chwe maes gwella gan Reolwyr BUE ar ffurf rhaglen waith gydag eglurhad cryno o'r cynlluniau a'r gwaith sydd wedi ei osod ar gyfer cyflawni. Trafodwyd y meysydd gwaith yn unigol ac ymhelaethwyd ar y canlyniadau i sicrhau rheolaeth a chynnydd yn y chwe maes dan sylw.

Diolchwyd am yr adroddiadau

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r ymatebion ar heriau 'byw' oedd yn wynebu'r Swyddogion, amlygwyd bod llawer o waith yn cael ei wneud i geisio cadw balans drwy osod amserlen realistig a pharhau i gynllunio ymlaen. Ategwyd bod achosion busnes pob prosiect yn heriol iawn a bod sefydlu'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol rhanbarthol yn cyflwyno heriau ychwanegol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â rheoli risgiau, nodwyd pwysigrwydd y gofrestr risg ar angen i adnabod risgiau yn fuan ynghyd a diweddarau ac addasu'r gofrestr yn rheolaidd. Yn ogystal â gorfod sefydlu prosiectau i adfer yr economi o ganlyniad i covid 19, cyfeiriwyd at esiampl o ymateb i her o fewn y sector dwristiaeth o fethu cael staff i weithio yn y sector - cafodd y Prosiect Talent Twristiaeth ei addasu i ymateb i broblemau'r sector. Yn ychwanegol, amlygwyd bod ffactorau allanol hefyd yn heriol. Gyda'r prosiectau yn cael eu hariannu gan ddwy lywodraeth gwelir ofynion y grantiau yn cael eu haddasu ar-hap mewn ymateb i newidiadau ym mlaenoriaethau'r llywodraethau hynny.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r adnoddau sylweddol sydd yn cael eu defnyddio i sicrhau llwyddiant BUE a'r angen i Cyngor Gwynedd (fel yr awdurdod lletya) gael ei ddigolledu yn llawn, nodwyd mai cyfrifoldeb y swyddogion yw sicrhau bod y symiau cywir yn cael eu hawlio. Ategwyd bod cyllidebau pwrpasol wedi eu gosod a bod lefelau cyflogaeth yn realistig

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â Chyngor Busnes Merswy Dyfrdwy yn tynnu allan o'r Bartneriaeth, nodwyd nad oedd y Cyngor Busnes yn cyfrannu yn ariannol at y Bartneriaeth ac mai pwysau gwaith un unigolyn oedd y rheswm dros ymadael. Er hynny, amlygwyd bod perthynas dda yn parhau gyda'r Cyngor Busnes gyda chyfarwyddwr y Cyngor Busnes yn flaengar iawn. Defnyddiwyd enghraifft o ddigwyddiadau sydd yn cael eu cynnal ar y cyd i hyrwyddo'r Cynllun Twf i amlygu partneriaeth iach.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pherthynas BUE gyda Rhaglen Arfor, nodwyd bod perthynas dda rhwng Rhaglen Arfor a phedwar Cynllun Twf Cymru gyda nifer o brosiectau tebyg yn cael eu hystyried. Fel modd o osgoi dyblygu gwaith, amlygwyd bod rhannu ymarfer da am ddatblygiad cynlluniau yn llwyddiannus iawn. Derbyniwyd yr awgrym y byddai de Gwynedd yn debygol o dderbyn buddion o fod yn rhan o Gynllun Twf y Canolbarth a bod angen cyfoethogi'r berthynas yma.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiadau**6. ADOLYGIAD Ffordd GWYNEDD**

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Cefnogaeth Corfforaethol y Cynghorydd Nia Jeffreys yn cyflwyno casgliadau Archwilio Cymru i adolygiad a wnaed o Ffordd Gwynedd. Adroddwyd bod Archwilio Cymru wedi cynnal adolygiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym maes gofal cymdeithasol oedolion o fewn y Cyngor yn 2019 ac o ganlyniad i'r adolygiad hwnnw cytunwyd y byddai'n fuddiol cynnal adolygiad dilynol o gynnydd Ffordd Gwynedd ar draws holl wasanaethau'r Cyngor

Ategwyd bod y Pwyllgor Archwilio hefyd wedi amlygu dymuniad i sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i adolygu'r cynnydd sydd wedi ei gyflawni yn enw Ffordd Gwynedd ac yn dilyn trafodaeth mewn Gweithgor Craffu (4/5/21) cytunwyd amseru'r gwaith yn ystod yr Hydref eleni.

Yn unol â dymuniad y Prif Weithredwr i gynnal adolygiad fydd yn adnabod sut ac i ba raddau mae egwyddorion y *Ffordd Gwynedd* o weithio wedi eu gwreiddio ar draws y Cyngor, ystyriwyd bod sefydlu'r Grŵp Tasg a Gorffen yn amserol gyda'r Prif Weithredwr yn cydweithio gyda'r Aelodau i lunio briff ar gyfer yr adolygiad. Ystyriwyd bod y llythyr a dderbyniwyd gan Archwilio Cymru, a oedd yn crynhoi casgliadau eu hadolygiad, yn gosod rhaglen waith cychwynnol i'r Grŵp Tasg a Gorffen.

Cyfeiriwyd at rai o gasgliadau'r adolygiad. Er bod y Cyngor wedi trawsnewid elfennau o'r ffordd y mae'n gweithio, ystyriwyd bod rhai camsyniadau cyffredin ynghyd a rhwystrau sydd yn atal cynnydd pellach ac yn cyfyngu'r gallu iddo wreiddio fel ffordd reddfodol o weithio.

Ategododd Alan Hughes (Archwilio Cymru) ei fod yn croesawu ymateb y Cyngor i'r adolygiad ac i'r bwriad o sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen fel modd o adolygu ymhellach.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod canlyniad adolygiad yr Archwilwyr yn crynhoi yn dda'r materion ymarferol sydd angen ailymweld a hwy
- Croesawu'r adroddiad a'r ymateb positif i hyrwyddo'r camau nesaf
- Bod modd gwneud gwell defnydd o ddata
- Bod angen cefnogi swyddogion i ymroi i'w gwaith
- Bod angen sicrhau bod y 'Ffordd Gwynedd' yn cael ei wreiddio
- Bod darganfyddiadau'r Grŵp Tasg i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio wedi iddynt gwblhau'r adolygiad
- Bod pryder mewn ymateb rhai staff i ymholiadau trigolion Gwynedd

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol ei fod yn croesawu'r sylwadau gan dderbyn bod Ffordd Gwynedd yn waith parhaus ac y dylid cyfeirio unrhyw bryderon am ddiffyg gweithredu fel bod modd gwella'r sefyllfa. Ategododd bod bwriad cynnal sesiwn rhannu gwybodaeth gyda aelodau'r Grŵp Tasg a Gorffen fel eu bod yn gwbl gyfarwydd ag hanfodion Ffordd Gwynedd. Nodwyd bod enghreifftiau da diweddar o ddefnyddio data yn effeithiol ond adroddwyd bod cydnabyddiaeth eisoes gan Dim Rheoli'r Cyngor bod lle i wella a bod ychwaneg o waith i wreiddio'r egwyddorion sylfaenol ar draws y Cyngor.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad**

- Cytuno sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen er mwyn cydweithio gyda'r Prif Weithredwr i gynnal adolygiad o sut ac i ba raddau y mae egwyddorion y 'Ffordd Gwynedd' o weithio wedi gwreiddio ar draws y Cyngor
- Ethol y Cynghorwyr John Pughe Roberts, Medwyn Hughes, Selwyn Griffiths, Peredur Jenkins a Sharon Warnes yn aelodau o'r Grŵp Tasg a Gorffen
- Bod y Grŵp Tasg a Gorffen yn cyflwyno adroddiad o ddarganfyddiadau'r adolygiad i'r Pwyllgor pan fydd wedi ei gwblhau

7. TREFNIADAU RHEOLI RISG

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol (Refeniw a Risg) yn diweddarau'r Pwyllgor ar ddatblygiadau i'r trefniadau rheoli risg a'r camau gweithredu nesaf. Atgoffwyd yr Aelodau mai un o gyfrifoldebau statudol y Pwyllgor yw adolygu ac asesu trefniadau'r Awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol, yn unol â Rhan 81 (1)(c) Mesur Llywodraeth Lleol (Cymru) 2011.

Eglurwyd bod y gofrestr risg yn ddogfen fyw ac yn cael ei diweddarau'n briodol er mwyn adlewyrchu gwir sefyllfa'r Cyngor. Gyda chefnogaeth yr Adran TG, lanswyd Cofrestr Risg Corfforaethol ar ei newydd wedd ym Mawrth 2021 gan hwyluso'r drefn o gadw'r gofrestr ar Sharepoint yn hytrach na thaflen Excel. Adroddwyd bod y system newydd yn cynnig cyfleuster hwylus i ddefnyddiwr ym mhob adran flaenoriaethu, diweddarau ac adolygu'r gofrestr, ond bod gwaith parhaus angen ei wneud i sicrhau bod defnydd y gofrestr yn gyson ar draws y Cyngor. Ategwyd bod esblygiad trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor hefyd yn cynnwys trafodaeth ffurfiol ar y gofrestr risg mewn cyfarfodydd rheoli perfformiad adrannol unwaith y flwyddyn. Ystyriwyd bod hyn yn ysgogiad i adrannau ddiweddarau'r gofrestr a'r camau gweithredu sy'n cael eu datblygu i liniaru risgiau.

Eglurwyd cyd-destun y disgwyliad gan nodi bod 300 o risgiau ar y gofrestr gan gynnwys pedwar heb eu sgorio. Trafodwyd y drefn sgorio a'r angen i liniaru'r risg hwnnw mor isel â phosib o fewn yr adnoddau ar ymdrech sydd ar gael o fewn yr Adrannau.

Gwnaed cais i'r Aelodau gyflwyno sylwadau ynglŷn â'r dull gorau o gyflwyno'r adroddiad i'r dyfodol. Amlygwyd bod 23 risg uchel iawn wedi eu cynnwys fel atodiad i'r adroddiad a phwysleisiwyd mai'r Adrannau eu hunain oedd wedi gosod y sgôr. Derbyniwyd yr angen i gysoni'r drefn ac er bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda phob adran i herio pob sgôr uchel iawn, adroddwyd bod yr Adrannau yn gyfforddus gyda'r sgôr a gyflwynwyd ar y gofrestr. Atgoffwyd yr aelodau mai cyfrifoldeb y Pwyllgor yw sicrhau bod trefn rheoli risg mewn lle ac nad oedd hynny'n golygu ystyried pob risg unigol mewn manylder. Er hynny, petai'r Pwyllgor yn dymuno derbyn mwy o wybodaeth am risg benodol, yna byddai modd gwahodd yr Adrannau i gyfarfod i ymhelaethu ar y risg hwnnw.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- angen adolygu effaith ffyrlo
- angen adolygu sgôr twristiaeth
- prinder difrifol mewn darpariaeth breswyl a nyrsio a gofal cartref - angen adolygu'r sgôr ac ystyried risgiau ymadawiad staff o'r gwasanaethau hyn
- diogelwch staff morwrol – angen blaenoriaethu camerâu corff i'r gwasanaeth

Sylwadau ynglŷn â chynnwys a fformat yr adroddiad i'r dyfodol:

- angen cysoni penawdau
- angen cysoni sylwadau / risgiau cyn cyflwyno i bwyllgor - rhai o'r risgiau yn 'waith bob dydd yr adran'.

- Angen adnabod y rhai sydd wirioneddol yn 'catastroffig' a 'dinistriol'
- Angen data, gwybodaeth, tystiolaeth galed ar sut mae'r sgôr yn cael ei osod
- Byddai'n ddefnyddiol cynnwys y sgôr 'tebygolrwydd' ac 'effaith' yn ogystal â'r sgôr risg, fel bod modd i'r aelodau weld sut mae'r sgôr risg wedi ei gyfrifo
- Awgrym cyflwyno gostyngiad sgôr fyddai'n adlewyrchu cynlluniau lliniaru wedi eu gweithredu yn llwyddiannus ynghyd a chynnydd mewn sgôr oherwydd ffactorau allanol sydd yn cynyddu'r risg - amlygu effaith a thebygolrwydd

Mewn ymateb i'r sylwadau nododd Pennaeth Cefnogaeth Corfforaethol bod cydnabyddiaeth i rai o'r sylwadau yn cael eu hadlewyrchu ym mlaenoriaethau Cynllun Gwella'r Cyngor e.e., cynllunio'r gweithlu ynghyd ac iechyd a diogelwch staff.

Mewn ymateb i awgrym gan aelod fod rhai adrannau yn sgorio risgiau yn uchel iawn fel modd o ddenu arian ychwanegol i'r Adran, nodwyd bod trefniadau ffurfiol yn eu lle i adolygu a herio pob bid ariannol sydd yn cael ei gyflwyno. Felly, hyd yn oed petai adrannau unigol yn gwneud yr hyn a awgrymwyd byddai'r drefn gynhwysfawr o adolygu bidiau yn adnabod hyn.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad fel diweddariad ar y camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i sicrhau bod cofrestr risg gyflawn yn ei lle ac yn cael ei chynnal**
- **Derbyn y risgiau uchaf y mae'r Cyngor yn eu hwynebu gan argymhell cysoni'r drefn sgorio ymysg adrannau**

8. GWYDNWCH SYSTEMAU TG - DIOGELWCH SEIBR

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan Pennaeth Cynorthwyol Cyllid -Technoleg Gwybodaeth yn diweddarau'r Pwyllgor o wytnwch diogelwch seibr Cyngor Gwynedd a'r ddarpariaeth sydd mewn lle i liniaru'r risg o ymosodiad seibr. Trafodwyd y camau hynny sydd yn eu lle i geisio atal ymosodiad ynghyd a'r rhai sydd yn ymateb yn effeithiol i'r risgiau hynny. Cyfeiriwyd at ddau achos lleol diweddar oedd yn tystiolaethu bod ymosodiadau seibr yn fygythiad realisitig ac felly'n herio'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth i sicrhau gwytnwch eu hamddiffynfeydd a'u gallu i adfer eu hunain o sefyllfa fregus petai'r amddiffynfeydd hynny yn methu.

Cyfeiriwyd at y risgiau a'r mesurau sydd yn eu lle ac amlygwyd bod y gwasanaeth wedi penodi Prentis Diogelwch Seibr i ymuno a'r tîm yn Medi 2021. Ategwyd bod drwg weithredwyr yn addasu eu dulliau o ymosodiadau seibr yn rheolaidd ac felly'r Cyngor yn adolygu eu mesurau yn gyson gyda chefnogaeth trydydd parti. Nodwyd bod y Cyngor, yn bresennol, mewn lle da, ond bod elfen o risg yn bodoli bob amser.

Diolchwyd am yr adroddiad ac am y gwaith mae'r Gwasanaeth yn ei wneud i amddiffyn y Cyngor rhag ymosodiadau seibr. Ategwyd bod rhaid derbyn bod y Gwasanaeth yn gwneud pob dim o fewn eu gallu ac y dylai pawb fod yn ffyddiog bod y Gwasanaeth yn gweithredu yn briodol.

Mewn ymateb i gwestiwn os oedd risg ymosodiad seibr wedi ei gynnwys ar y gofrestr risg gorfforaethol, cadarnhawyd bod y risg wedi ei gynnwys ac wedi ei asesu fel 'risg canolig'

PENDERFYNIAD:

- **Derbyn y wybodaeth**
- **Diolch i'r Adran Technoleg Gwybodaeth am eu cefnogaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 11.55

CADEIRYDD

CYFARFOD	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
DYDDIAD	14 Hydref 2021
TEITL	Cyfrifon Terfynol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 a'r Archwiliad perthnasol
PWRPAS	Cyflwyno – <ul style="list-style-type: none">• Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;• Adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru;• Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1).
ARGYMHELLIAD	Ystyried a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr
AWDUR	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

1. CYFRIFON 2020/21

Gyda'r pandemig Covid-19 yn parhau, bu i Lywodraeth Cymru ymestyn yr amserlen ar gyfer cwblhau y cyfrifon am yr ail flwyddyn yn olynol. Er hynny, llwyddodd y Cyngor i gwblhau'r Datganiad o'r Cyfrifon 2020/21 o fewn yr amserlen wreiddiol gan ryddhau'r cyfrifon i'r Archwilwyr 28 Mai 2021. Cyflwynwyd y Datganiad o Gyfrifon 2020/21 (amodol ar archwiliad) i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 17 Mehefin 2021, pryd bu craffu priodol.

Mae'r cyfrifon terfynol yn dilyn archwiliad yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu 14 Hydref 2021, sydd o fewn yr amserlen statudol ddiwygiedig o 30 Tachwedd 2021 eleni.

2. ARCHWILIAD GAN ARCHWILIO CYMRU AR RAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Nodwyd yng nghyfarfod Mehefin fod y cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, a chyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar eu prif ddarganfyddiadau.

3. DATGANIADAU ARIANNOL ÔL-ARCHWILIAD AM 2020/21

Cyflwynir yma hefyd y fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2020/21. Mae'r prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn rhan 16 ac Atodiad 3 o adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru.

4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried a chymeradwyo'r –

- Adroddiad 'ISA260' gan Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Gwynedd
- Datganiad o'r Cyfrifon 2020/21 (ôl-archwiliad)

5. LLYTHYR CYNRYCHOLAETH

Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth, yn electronig eleni (Atodiad 1 i adroddiad Archwilio Cymru) wedi i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gymeradwyo'r uchod.

6. TYSTYSGRIF YR ARCHWILYDD PENODEDIG

Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Adrian Crompton) yn cyhoeddi'r tystysgrif ar y cyfrifon.

Cyngor Gwynedd

DATGANIAD O'R CYFRIFON 2020/21

Adran Cyllid
www.gwynedd.llyw.cymru



MYNEGAI

	Tudalen
Adroddiad Naratif	2 - 7
Datganiad Cyfrifoldebau	8
Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu	9
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	10
Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau	11
Y Fantolen	12
Datganiad Llif Arian	13
Nodiadau i'r Cyfrifon	14 – 83
Atodiad A – Y Gronfa Degwm	84
Atodiad B – Cronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan	85
Atodiad C – Datganiad llywodraethu Blynnyddol	86 - 105
Adroddiad yr Archwilydd	106 - 108
Geirfa	109 - 110

ADRODDIAD NARATIF

Rhagarweiniad

Mae cyfrifon Cyngor Gwynedd am 2020/21 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 9 i 87.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:

- **Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu** – Er nad yw'n ddatganiad statudol, mae'n dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau (grantiau llywodraeth, treth cyngor a trethi busnes) gan awdurdodau lleol o'i gymharu â'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio neu eu hennill gan Awdurdodau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Hwn yw prif gyfrif refeniw'r Cyngor. Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol derbyniol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae awdurdodau yn codi trethiant i gyflenwi gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Dangosir y sefyllfa trethiant yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.
- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan yr Awdurdod, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae sefyllfa trethiant yn cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.
- **Y Fantolen** - Sydd yn datgan sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2021.
- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyngor yn ystod 2020/21 at ddibenion refeniw a chyfalaf.
- **Cyfrifon Cronfa'r Degwm a Chronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan.**

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol a cefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisiâu Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

Gweledigaeth a Blaenoriaethau Gwynedd

Mae gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor wedi eu cynnwys yng Nghynllun Cyngor Gwynedd a gafodd ei adolygu ym mis Mawrth 2021. Mae'r Cynllun yn cefnogi gweledigaeth y Cyngor, sef, gweld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu, a'n bod fel pobl yn :

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel,
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud,
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd,
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau,
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg,
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosibl,
- Cael manteisio ar harddwch naturiol y Sir.

Yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r uchod fel ein Amcanion Llesiant.

Mae yna ddwy brif ran i Gynllun y Cyngor, sef Blaenoriaethau Gwella sy'n disgrifio'r prif feysydd rhoddir sylw iddynt yn ystod y flwyddyn, ynghyd â'n saith Amcan Llesiant a'r Cynlluniau Adrannol sy'n disgrifio holl waith dydd i ddydd y Cyngor. Mae'n amlwg mai'r prif effaith ar waith Cyngor Gwynedd yn ystod 2020/21, fel pob awdurdod lleol arall, oedd pandemig Covid-19. Mae manylion Cynllun y Cyngor ynghyd ag ein hymateb i'r pandemig yn ystod 2020/21 ar gael yn:

[https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%
c3%afau/Cynlluniau-corfforaethol-a-strategaethau/Cynllun-Cyngor-Gwynedd-2018-23.aspx](https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%c3%afau/Cynlluniau-corfforaethol-a-strategaethau/Cynllun-Cyngor-Gwynedd-2018-23.aspx)

Ar ddiwedd Mawrth 2020 gwelwyd argyfwng Covid-19 sydd yn parhau i gael effeithiau pellgyrhaeddol ar ein bywydau. O ran Cyngor Gwynedd, mewn ymateb i'r pandemig Covid-19, yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 bu i'r Cyngor ganolbwyntio ar y gweithgareddau isod:

- Cefnogi plant a phobl fregus,
- Chwarae ein rhan i gefnogi busnesau gan gynnwys darparu grantiau,
- Parhad gwasanaethau arferol i drigolion Gwynedd,
- Unrhyw beth arall sy'n diogelu neu achub bywydau.

Strategaeth Ariannol

Mae Strategaeth Ariannol y Cyngor a Chyllideb 2020/21 a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2020 yn gosod y sylfaen ar gyfer medru cyflawni'r blaenoriaethau gwella, tra'n ceisio dygymod hefyd gyda'r cynnydd parhaus yn y galw am ein gwasanaethau. Yn anorfod, mae'r Strategaeth Ariannol yn ddibynol ar y blaenoriaethau. Mae'r strategaeth ar gael yn:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cyllid/Strategaeth-ariannol.aspx>

Yn 2020/21 gwelwyd cynnydd mewn grant Cyngor Gwynedd gan Lywodraeth Cymru oedd yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant ond ddim yn ddigonol i gwrdd hefyd â'r galw am wasanaethau. Serch hynny, rydym wedi bod yn lled lwyddiannus yn cadw effaith yr arbedion ar drigolion Gwynedd i'r lleiafswm posib. Felly, bydd y sefyllfa ariannol yn parhau i osod cryn her i ni wrth gynllunio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Byddwn felly yn parhau efo'r gwaith o sicrhau ein bod yn gwireddu'r arbedion effeithlonrwydd hynny sydd wedi eu cymeradwyo eisoes a sicrhau ein bod yn cynllunio ar gyfer y dyfodol er mwyn isafu unrhyw doriadau i wasanaethau.

Mae'r newidiadau yn sgil pandemig Covid-19 wedi effeithio sefyllfa ariannol y Cyngor. Mae Gwynedd fel awdurdodau lleol eraill Cymru wedi cyd-weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru er mwyn ymdopi gyda'r sefyllfa. Derbyniwyd arian ychwanegol yn 2020/21 gan Lywodraeth Cymru er mwyn cwrdd gyda chostau ychwanegol yn deillio o effaith Covid-19 a digolledu'r Cyngor am golled incwm yn ystod yr argyfwng. Yn ogystal derbyniwyd grantiau sylweddol eraill ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oherwydd ardrawiad Covid-19. Bydd rhai grantiau yn parhau yn 2021/22.

Tybir na fydd effaith cyfredol y pandemig yn effeithio'n sylweddol ar werth asedau ac ymrwymadau'r Cyngor. Mi fydd angen adolygu'r dybiaeth yn rheolaidd.

Mesur Perfformiad

Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor yn gylch sy'n cefnogi cynllunio, rheoli ac adrodd ar berfformiad ein gwasanaethau, er mwyn sicrhau y gorau ar gyfer pobl Gwynedd heddiw ac yfory. Mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd yn adrodd ar ein llwyddiant i gyflawni ein blaenoriaethau gwella ac hefyd darparu gwybodaeth ar berfformiad adrannau'r Cyngor a sut maent yn cynorthwyo pobl Gwynedd. Mae ein hymateb i'r argyfwng Covid-19 hefyd wedi ei gynnwys ynddo. Mae'r adroddiad ar gael ar:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad-a-gwariant/Perfformiad-y-Cyngor/Mesur-Perfformiad.aspx>

Perfformiad Ariannol 2020/21

- Er gwaethaf argyfwng Covid-19 a'r gofynion parhaus i gyflawni arbedion heriol, mae sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2020/21 yn cadarnhau y bu rheolaeth ariannol effeithiol. Adroddwyd ar sefyllfa alldro ariannol 2020/21 i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 18 Mai 2021. Cymeradwyodd aelodau'r Cabinet danwariant net gwasanaethau o £825k am y flwyddyn.
- Mae effaith ariannol Covid-19 wedi bod yn sylweddol i'r Cyngor. Gyda dros £20 miliwn wedi ei hawlio o'r Gronfa Caledi a Ffyrlo erbyn diwedd y flwyddyn, sydd yn gyfuniad o gostau ychwanegol o £11.6 miliwn, colledion incwm o £7.3 miliwn a £1.5 miliwn Ffyrlo.
- O ganlyniad i dderbyniad nifer o grantiau sylweddol cysylltiedig â Covid-19 a grantiau eraill yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, golyga hyn fod sefyllfa ariannol 2020/21 wedi ei drawsnewid erbyn diwedd y flwyddyn, gyda'r grantiau yn cynnwys grantiau i gyllidebau ysgolion, ar gyfer trawsnewid digidol, diffyg gwireddu arbedion ac ôl-groniad Treth Cyngor.

- Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2020/21, mae pwysau sylweddol yn parhau yn y maes Plant, ond fod mwyafrif yr adrannau a nifer o benawdau corfforaethol wedi gweithredu o fewn yr adnoddau sydd ar gael.
- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 10 fod gwariant refeniw gros y Cyngor ar lefel 'Cost Gwasanaethau' yn £412m yn ystod 2020/21, gyda'r sefyllfa net yn £247m.
- Bu i sefyllfa ariannol 2020/21 gael ei chymryd i ystyriaeth yn y broses o sefydlu cyllideb 2021/22.

TABL I - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae cyllideb net y Cyngor yn cael ei gyllido gan dreth y cyngor, grantiau cyffredinol y llywodraeth a threthi annomestig cenedlaethol yn bennaf ac yn £279m ar gyfer 2020/21.

Mae Tabl I yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad, a ceir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

	Cyllideb	Gwir	Gwahaniaeth
	£'000	£'000	£'000
Gwariant Net ar Weithgareddau	280,298	278,476	(1,822)
Swm Adrannol i'w gario ymlaen ar ddiwedd blwyddyn	0	825	825
	280,298	279,301	(997)
Ariannwyd gan -			
Incwm y Dreth Cyngor	(92,719)	(92,351)	368
Grantiau a Chyfraniadau Refeniw	0	(1,211)	(1,211)
Cyfran o'r Trethi Annomestig Cenedlaethol	(43,341)	(39,526)	3,815
Grantiau Llywodraeth Cyffredinol	(144,238)	(148,053)	(3,815)
Cyfraniad i Falans y Gronfa Gyffredinol	0	1,840	1,840
	0	0	0

Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau ar dudalennau 10 a 11 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

TABL 2 - Symudiad Trawsddodiad rhwng 'Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)' (Tabl 1) i'r fformat Incwm a Gwariant sydd yn adlewyrchu'r Strwythur Rheolaethol Adrannol.

Adran	Adroddiad Perfformiad (Alldro)	Addasiad Trawsddodiad	Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo	Datganiad Incwm a Gwariant
	£'000				
Addysg	91,421	(7,191)	84,230	8,837	93,067
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,143	(2)	7,141	750	7,891
Cyllid	5,766	(28)	5,738	1,393	7,131
Economi a Chymuned	3,720	(480)	3,240	3,062	6,302
Oedolion, Iechyd a Llesiant	53,882	(40)	53,842	4,036	57,878
Plant a Chefnogi Teuluoedd	18,590	14	18,604	1,142	19,746
Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)	23,708	(2,678)	21,030	7,023	28,053
Amgylchedd	3,288	(150)	3,138	4,081	7,219
Tai ac Eiddo	3,272	(315)	2,957	2,661	5,618
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1,575	(60)	1,515	119	1,634
Ymgynghoriaeth Gwynedd	(298)	0	(298)	911	613
Corfforaethol	27,748	(15,700)	12,048	(494)	11,554
Cost Gwasanaethau	239,815	(26,630)	213,185	33,521	246,706
Eraill (Yn cynnwys Addasiad Canolog a Chorfforaethol)	39,486	26,630	66,116	(33,521)	32,595
Cyfanswm	279,301	0	279,301	0	279,301

Addasiad Trawsddodiad - Mae'r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at y cyfraniad net i ac o reserfau.

• Eitemau Materol o Incwm a Gwariant

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:

- £101m yn y maes pensiwn, sef yr ailfesuriad blynyddol o'r ymrwymiad buddion pensiwn diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 23).
- Yn dilyn ailbriso rhan o bortffolio tir ac adeiladau'r Cyngor (sydd bellach yn dilyn rhaglen dreigl), gwarged net yn deillio o ailbriso asedau sefydlog i'r Reserf Ailbriso yn £28m (Nodyn 23.1) a chost ailbriso a'r amhariad i'r Gwasanaethau yn £4m (Nodyn 15).
- Derbyniad grantiau penodol ynghyd â gwariant ychwanegol a cholled incwm perthnasol i Covid-19 sydd wedi ei ddigolledu gan Lywodraeth Cymru gwerth £24.7m i Wynedd yn 2020/21 (Nodyn 32).

• Materion Eraill

- Mae risgiau ariannol gyda sefyllfa'r economi byd-eang ac mae'r Awdurdod wedi cymryd yr amgylchiadau i ystyriaeth yn ei gynlluniau ariannol, gan gadw lefel darbodus o reserfau.
- Ansicrwydd economaidd yn parhau yn sgil terfynu aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd a gall hyn effeithio rhai ffactorau a phenderfyniadau cyllidol gan yr Awdurdod.

- Mae'r argyfwng Covid-19 cyfredol yn parhau yn her ariannol i'r Cyngor yn y tymor byr a chanolog.

Gwariant Cyfalaf yn 2020/21

Yn 2020/21 gwariodd y Cyngor £27.7m ar gynlluniau cyfalaf. Dengys y tabl canlynol fanylion y gwariant yma ynghyd â'r modd y cafodd ei ariannu.

TABL 3 - CRYNODEB O WARIANT CYFALAF A'I ARIANNU

2019/20 £'000		2020/21 £'000
8,757	Addysg	7,464
1,926	Amgylchedd	3,468
0	Cefnogaeth Gorfforaethol	161
926	Cyllid	749
1,037	Economi a Chymuned	1,175
5,328	Tai ac Eiddo	4,689
1,926	Oedolion, Iechyd a Llesiant	1,914
303	Plant a Chefnogi Teuluoedd	744
8,229	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	4,798
637	Ymgynghoriaeth Gwynedd	2,505
29,069		27,667
	ARIANNWYD GAN -	
5,979	Benthyciadau	4,128
20,083	Grantiau a Chyfraniadau	22,264
423	Derbyniadau Cyfalaf	43
2,584	Refeniw a Chronfeydd Eraill	1,232
29,069		27,667

- Cynhwysir Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf drwy Statud o £5.1m yn y tabl uchod. Ad-dalwyd y gwariant yma i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn. Cyfanswm ychwanegiadau Asedau Anghyfredol ac Asedau ar Gael i'w Gwerthu oedd £25m fel y dangosir yn Nodyn 15 a 20.
- Roedd Dyled Benthyciadau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2021 yn £110.2m – lleihad o £15.3m (o £125.5m) yn ystod y flwyddyn. Gwnaethpwyd ad-daliadau o £20.6m yn unol â thelerau'r benthyciadau unigol.

Darpariaethau ac Arian wrth Gefn

Yn ychwanegol at y Balans Cyffredinol heb ei glustnodi o £9.4m, roedd gan y Cyngor ddarpariaethau o £8.1m, reserfau eraill a glustnodwyd o £79.4m a balansau ysgolion o £10.8m. Cyfanswm y rhain oedd £107.7m. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 10 a 22.

Adolygwyd digonolrwydd cronfeydd penodol a darpariaethau'r Cyngor gan y Pennaeth Cyllid wrth gau'r cyfrifon eleni, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd. Llwyddodd yr adolygiad i gynaeafu £170k o adnoddau, a cymeradwyodd y Cabinet (yn ei gyfarfod ar 18 Mai 2021) i'w ddefnyddio i gynorthwyo i gyllido sefyllfa gorwariant yn yr Adran Plant a Theuluoedd.

Cymeradwyodd y Cabinet i wneud defnydd o £600k o falansau cyffredinol y Cyngor, trosglwyddo £4m i gronfa Trawsfurfio y Cyngor i gefnogi gwaith trawsfurfiol ac o natur un-tro, ac i neilltuo £2.5m i gronfa ar gyfer trefniadau adfer yn sgil Covid-19.

Covid-19 a Grantiau'r Llywodraeth

Oherwydd ardrowiad Covid-19, gwelwyd nifer fawr o grantiau a chymorth ariannol newydd ar gael gan y Llywodraeth. Fel sydd wedi ei nodi yn flaenorol, rhwng digolledu'r Cyngor am wariant ychwanegol, Furlough a cholled incwm, bu i'r Cyngor dderbyn dros £20 miliwn o gymorth gan y Llywodraeth yn ystod 2020/21. Gweler ddadansoddiad yn adroddiad all-dro referniw i'r Cabinet 18 Mai 2021.

<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s30121/Eitem%2011%20-%20Atodiad%203%20-%20Covid-19.pdf?LLL=1>

Mae grantiau eraill wedi ein galluogi i dalu costau ychwanegol cysylltiedig â'r pandemig ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu gan gynnwys y Sector Gofal. Hefyd, gofynnwyd i ni weinyddu nifer o grantiau neu gymorth ariannol ar ran Llywodraeth Cymru, gan gynnwys dosbarthiad grantiau i fusnesau y sir yn ystod y cyfnodau clo, taliadau i weithwyr gofal, a grantiau llawrydd y celfyddydau (Nodyn 28).

Cronfa Bensiwn

Mae gan y Cyngor (fel cyflogwr) ymrwymiad net yn deillio o'u cyfran o asedau ac ymrwymadau Cronfa Bensiwn Gwynedd, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19. Mae'r Fantolen yn cynnwys asesiad gan Actiwari y Gronfa, Hymans Robertson, o gyfran y Cyngor o ymrwymiad y Gronfa Bensiwn. Mae'r ymrwymiad net yma wedi cynyddu £119m i £364m yn 2020/21. Gweler Nodyn 38 am wybodaeth bellach.

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw'r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau'r farchnad gynyddu neu leihau yn sylweddol yn y tymor byr ac felly nid oes modd meintoli'r effaith tymor hir bydd symudiad o'r fath yma ym mhrisiau'r farchnad yn ei gael ar y Gronfa Bensiwn. Cafodd prisiad diwethaf ei gynnal ar 31 Mawrth 2019, gyda'r nesaf i'w gynnal 31 Mawrth 2022.

Llywodraethu

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn yn bodoli, er hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Mae gwybodaeth bellach wedi ei gynnwys o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Polisiau Cyfrifo

Mae'r polisiau cyfrifo presennol y Cyngor wedi eu haddasu i adlewyrchu cyfarwyddiadau CIPFA yn y Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020/21.

Newidiadau mewn Polisiau Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon

Mae polisiau cyfrifo presennol y Cyngor wedi eu haddasu i adlewyrchu y newidiadau sydd yn ofynnol yn unol ag arferion cyfrifo cywir yn unig, yn dilyn addasiadau sydd yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21 i Gôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

Gwybodaeth Bellach

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef www.gwynedd.llyw.cymru.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Ffion Madog Evans
Uwch Reolwr Cyllid
01286 679133

neu

Sian Pugh
Cyfrifydd Grwp – Corfforaethol a Phrosiectau
01286 679134

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Cyngor ar www.gwynedd.llyw.cymru a'r ym 20 Tachwedd.

CYNGOR GWYNEDD

DATGANIAD O'R CYFRIFON

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

CYFRIFOLDEB Y CYNGOR

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb y Cyngor hefyd yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

14 Hydref 2021

CYFRIFOLDEB Y PENNAETH CYLLID

Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir allan yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r Datganiad o'r Cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisiau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2021, ac incwm a gwariant y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



Dafydd L. Edwards B.A., C.P.F.A., I.R.R.V.
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

6 Hydref 2021

DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau (grantiau llywodraeth, treth cyngor a threthi busnes) gan awdurdodau lleol o'i gymharu â'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio neu eu hennill gan awdurdodau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r gwariant yn cael ei ddyrannu i bwrpas gwneud penderfyniadau rhwng adrannau y Cyngor. Mae incwm a gwariant sydd fel arfer yn cael ei gyfrifo yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol yn cael ei gyflwyno yn fanylach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU						
2019/20				2020/21		
Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol £'000	Addasiadau rhwng y sail Cyfrifo a'r sail Ariannu (gweler Nodyn 8 a 9) £'000	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr £'000		Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol £'000	Addasiadau rhwng y sail Cyfrifo a'r sail Ariannu (gweler Nodyn 8 a 9) £'000	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr £'000
85,311	10,703	96,014	Addysg	84,230	8,837	93,067
7,488	2,072	9,560	Cefnogaeth Gorfforaethol	7,141	750	7,891
6,110	1,644	7,754	Cyllid	5,738	1,393	7,131
4,081	3,370	7,451	Economi a Chymuned	3,240	3,062	6,302
51,508	5,997	57,505	Oedolion, Iechyd a Llesiant	53,842	4,036	57,878
17,968	1,848	19,816	Plant a Chefnogi Teuluoedd	18,604	1,142	19,746
24,492	10,631	35,123	Prifffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd*)	21,030	7,023	28,053
3,695	4,336	8,031	Amgylchedd	3,138	4,081	7,219
3,205	3,906	7,111	Tai ac Eiddo	2,957	2,661	5,618
1,652	257	1,909	Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1,515	119	1,634
65	1,309	1,374	Ymgynghoriaeth Gwynedd	(298)	911	613
14,482	2,728	17,210	Corfforaethol	12,048	(494)	11,554
220,057	48,801	268,858	Cost Gwasanaethau	213,185	33,521	246,706
24,083	(171)	23,912	Gwariant Gweithredol Arall	25,037	(152)	24,885
15,571	(2,440)	13,131	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	14,450	(2,608)	11,842
(265,916)	(18,252)	(284,168)	Treth ac Incwm Grant Amhenodol	(281,141)	(21,577)	(302,718)
(6,205)	27,938	21,733	(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(28,469)	9,184	(19,285)
(64,885)			Balans Agoriadol y Gronfa Gyffredinol	(71,090)		
(6,205)			(Gwarged)/Diffyg ar y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn	(28,469)		
(71,090)			Balans Cau y Gronfa Gyffredinol	(99,559)		

* Cefnffyrdd - Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisiau cyfrifeg gyffredinol dderbyniol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae Awdurdodau yn codi trethiant i gyflenwi gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Dengys y sefyllfa trethiant yn y Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu ac yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

2019/20			Nodyn	2020/21		
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net		Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
119,901	(23,887)	96,014	Addysg	120,052	(26,985)	93,067
11,035	(1,475)	9,560	Cefnogaeth Gorfforaethol	10,059	(2,168)	7,891
10,288	(2,534)	7,754	Cyllid	11,120	(3,989)	7,131
13,017	(5,566)	7,451	Economi a Chymuned	13,765	(7,463)	6,302
85,377	(27,872)	57,505	Oedolion, Iechyd a Llesiant	88,223	(30,345)	57,878
32,763	(12,947)	19,816	Plant a Chefnogi Teuluoedd	33,312	(13,566)	19,746
52,031	(16,908)	35,123	Prifffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd*)	49,250	(21,197)	28,053
16,100	(8,069)	8,031	Amgylchedd	18,458	(11,239)	7,219
10,865	(3,754)	7,111	Tai ac Eiddo	15,410	(9,792)	5,618
2,796	(887)	1,909	Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	2,083	(449)	1,634
6,776	(5,402)	1,374	Ymgynghoriaeth Gwynedd	6,190	(5,577)	613
45,501	(28,291)	17,210	Corfforaethol	43,992	(32,438)	11,554
406,450	(137,592)	268,858	Cost Gwasanaethau	411,914	(165,208)	246,706
24,083	(171)	23,912	Gwariant Gweithredol Arall	25,037	(152)	24,885
13,677	(546)	13,131	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	12,270	(428)	11,842
0	(284,168)	(284,168)	Treth ac Incwm Grant Amhenodol	0	(302,718)	(302,718)
444,210	(422,477)	21,733	(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	449,221	(468,506)	(19,285)
		(6,070)	(Gwarged)/Diffyg yn deillio o ailbriso Asedau Sefydlog	23.1		(28,482)
		1,293	(Gwarged)/Diffyg yn deillio o ailbriso Offerynnau Ariannol	23.3		(655)
		(171)	(Gweddill)/Diffyg yn deillio o ailbriso Offerynnau Ariannol sydd ar gael i'w gwerthu	23.3		0
		(84,580)	Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net ymrwymadau/(asedau)	23.5		100,979
		(89,528)	(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall			71,842
		(67,795)	(Cyfanswm) Incwm a Gwariant Cynhwysfawr			52,557

* Cefnffyrdd - Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau y symudiad o ddechrau'r flwyddyn i'r diwedd mewn gwahanol reserfau a ddelir gan yr Awdurdod, wedi eu dadansoddi i 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant neu leihau trethiant lleol) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae'r symudiadau yn y flwyddyn yn reserfau'r Awdurdod yn cael eu torri lawr rhwng enillion a cholledion yn unol ag ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig. A hefyd yn dangos yr addasiadau statudol sy'n ofynnol i ddychwelyd at y swm godir ar y dreth cyngor ar gyfer y flwyddyn. Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos symudiadau statudol y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hyn.

		<i>Gwybodaeth ychwanegol</i>			Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau					
	Nodyn	<i>Balans Cronfa Gyffredinol heb glustnodi</i>	<i>Reserfau Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd</i>	<i>Cyfanswm Balansau Ysgolion</i>	<i>Balans Cronfa Gyffredinol</i>	<i>Reserf Derbyniadau Cyfalaf</i>	<i>Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio</i>	<i>Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy</i>	<i>Reserfau na ellir eu defnyddio</i>	<i>Cyfanswm Reserfau'r Awdurdod</i>
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans 31 Mawrth 2019 a ddygwyd ymlaen		(7,070)	(53,815)	(4,000)	(64,885)	(2,140)	(6,020)	(73,045)	27,844	(45,201)
<i>Symudiad mewn reserfau yn 2019/20</i>										
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		21,733	0	0	21,733	0	0	21,733	(89,528)	(67,795)
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	9	(27,938)	0	0	(27,938)	(71)	1,295	(26,714)	26,714	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2019/20		(6,205)	0	0	(6,205)	(71)	1,295	(4,981)	(62,814)	(67,795)
Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd	10	5,703	(5,370)	(333)	0	0	0	0	0	0
<i>(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2019/20 (yn dangos Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd)</i>		(502)	(5,370)	(333)	(6,205)	(71)	1,295	(4,981)	(62,814)	(67,795)
Balans 31 Mawrth 2020 a ddygwyd ymlaen		(7,572)	(59,185)	(4,333)	(71,090)	(2,211)	(4,725)	(78,026)	(34,970)	(112,996)
<i>Symudiad mewn reserfau yn 2020/21</i>										
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		(19,285)	0	0	(19,285)	0	0	(19,285)	71,842	52,557
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	9	(9,184)	0	0	(9,184)	(162)	(1,261)	(10,607)	10,607	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2020/21		(28,469)	0	0	(28,469)	(162)	(1,261)	(29,892)	82,449	52,557
Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd	10	26,629	(20,209)	(6,420)	0	0	0	0	0	0
<i>(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2020/21 (yn dangos Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd)</i>		(1,840)	(20,209)	(6,420)	(28,469)	(162)	(1,261)	(29,892)	82,449	52,557
Balans 31 Mawrth 2021 a ddygwyd ymlaen		(9,412)	(79,394)	(10,753)	(99,559)	(2,373)	(5,986)	(107,918)	47,479	(60,439)

Y FANTOLEN

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymiadau'r Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai ymrwymiadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan yr Awdurdod. Adroddir ar y reserfau mewn dau categori. Y categori cyntaf o reserfau yw'r reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o reserfau ac unrhyw gyfyngiad statudol o'u defnydd (er enghraifft, y Reserf Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddir i gyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled yn unig). Yr ail categori o reserfau yw'r rhai hynny na all yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gydag elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Reserf Ailbriso), ble nad yw'r symiau ar gael i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel y dangosir ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

31 Mawrth 2020		Nodyn	31 Mawrth 2021
£'000			£'000
461,009	Eiddo, Offer a Chyfarpar	15	493,791
60	Asedau Treftadaeth		60
165	Eiddo Buddsoddi	16	165
1,960	Asedau Gweddilliol	15	2,183
17	Buddsoddiadau Tymor Hir	17	17
3,948	Dyledwyr Tymor Hir	17	4,371
467,159	Asedau Tymor Hir		500,587
11,259	Buddsoddiadau Tymor Byr	17	34,918 *
73	Asedau ar gael i'w Gwerthu	20	73
1,367	Stoc		1,948
76,415	Dyledwyr Tymor Byr	18	84,232
14,900	Arian a Chyferthoedd Arian	19	28,618 *
104,014	Asedau Cyfredol		149,789
(22,338)	Gorddrafft Banc	19	(18,221) *
(21,112)	Benthyciadau Tymor Byr	17	(7,090)
(53,149)	Credydwyr Tymor Byr	21	(80,018)
(304)	Darpariaethau Tymor Byr	22	(315)
(1,443)	Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o Flaen Llaw	32	(6,585)
(98,346)	Ymrwymiadau Cyfredol		(112,229)
(7,850)	Darpariaethau Tymor Hir	22	(7,752)
(104,346)	Benthyciadau Tymor Hir	17	(103,110)
(244,644)	Ymrwymiad Pensiwn	38	(363,852)
(1,540)	Ymrwymiadau Prydlesau Cyllidol	35	(1,370)
(1,451)	Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o Flaen Llaw	32	(1,624)
(359,831)	Ymrwymiadau Tymor Hir		(477,708)
112,996	Asedau Net		60,439
(78,026)	Reserfau Defnyddiadwy		(107,918)
(34,970)	Reserfau na ellir eu defnyddio	23	47,479
(112,996)	Cyfanswm Reserfau		(60,439)

* Mae £16.2m sydd yn berthnasol i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi ei gynnwys yn y ffigurau arian a buddsoddiadau tymor byr uchod.

Mae £5.9m sydd yn berthnasol i Gyd-Bwyllgor GwE wedi ei gynnwys yn y balans banc ar 31 Mawrth 2021.

DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian y newidiadau mewn arian a chyferthoedd arian yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu, dengys y datganiad sut mae'r Awdurdod yn cynhyrchu a defnyddio arian a chyferthoedd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Awdurdod a ariennir trwy incwm grant a threthiant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae'r Gweithgareddau Buddsoddi yn cynrychioli'r all-lif arian a wnaed am adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaethau'r Awdurdod yn y dyfodol. Mae'r llif arian a gyfyd o Weithgareddau Ariannu yn ddefnyddiol i ragweld yr hawl sydd gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) ar lif arian yr Awdurdod yn y dyfodol.

2019/20 £'000		Nodyn	2020/21 £'000
21,733	(Gwarged)/Diffyg Net ar Ddarpariaeth Gwasanaethau		(19,285)
(36,412)	Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol	24a	(66,344)
548	Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu ariannu	24b	222
(14,131)	Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu		(85,407)
22,295	Gweithgareddau Buddsoddi	25	52,154
(16,613)	Gweithgareddau Ariannu	26a	15,418
(8,449)	(Cynnydd)/Ileihad net mewn arian a chyferthoedd arian		(17,835)
15,887	Arian a chyferthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd	19	7,438
7,438	Arian a chyferthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd	19	(10,397)

NODIADAU I'R CYFRIFON

NODYN I - POLISI'AU CYFRIFO

I.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod yn y flwyddyn ariannol 2020/21 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2021. Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020/21* ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Confensiwn cost hanesyddol yw'r egwyddor cyfrifo sydd wedi ei fabwysiadu'n bennaf yn y Datganiad o'r Cyfrifon, wedi'i addasu gan ailbrisiad rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol. Mae y cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

Mewn perthynas â pholisi yn ymwneud a chyfalafu gwariant, ein hymarferiad yw gweithredu ar sail natur y gwariant yn hytrach na lefel penodol o wariant.

I.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn y maent yn digwydd, nid pan wneir neu dderbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y referniw o gytundebau gyda derbynwyr gwasanaeth, boed am wasanaeth neu nwyddau, yn cael ei adnabod pan fydd y gwasanaeth neu'r nwyddau yn cael eu trosglwyddo i dderbynydd y gwasanaeth yn unol â'r rhwymedigaethau perfformiad y cytundeb.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwllch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pan fydd y taliad yn cael ei wneud.
- Bydd llog sy'n cael ei dderbyn o fuddsoddiadau a'r llog sydd yn daladwy ar fenthyciadau yn cael ei gyfrifo yn ôl eu trefn fel incwm a gwariant ar sail cyfradd llog effeithiol yr offeryn ariannol yn hytrach nag i'r llif arian sydd wedi ei bennu gan y cytundeb.
- Ble mae referniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu ei dalu, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid lleihau gwerth y dyledion a chodi tâl ar referniw yn gwariant ac incwm ariannu a buddsoddi am yr incwm sydd yn annhebygol o gael ei gasglu.

I.3 Arian a Chyferthoedd Arian

Caiff unrhyw fuddsoddiadau tymor byr sydd gan yr Awdurdod, y mae modd eu troi'n arian yn rhwydd, a gyda risg isel o newid yn eu gwerth, eu categoreiddio fel cyferthoedd arian a'u cynnwys fel Arian a Chyferthoedd Arian ar y Fantolen. Adnau tymor byr gyda sefydliadau ariannol sydd ar gael ar unwaith ar ddyddiad y Fantolen yw'r buddsoddiadau a gynhwysir yn y diffiniad hwn.

I.4 Asedau Dibynnol / Ymrwymadau Dibynnol

Ceir ased dibynnol pan fo digwyddiad sy'n rhoi ased posib i'r Awdurdod ble bydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr Awdurdod.

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fo digwyddiad sy'n arwain at rwymedigaeth posib ar ran yr Awdurdod ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr Awdurdod. Ceir ymrwymiad dibynnol yn ogystal pan fod amgylchiadau y gwneir darpariaeth amdanynt fel arfer, ond unai, nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu, ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Nid yw asedau ac ymrwymadau dibynnol yn cael eu datgan ar y Fantolen, ond yn hytrach o fewn y nodyn Ymrwymadau Dibynnol ac Asedau Dibynnol yn y cyfrifon.

NODYN I - POLISI'AU CYFRIFO (parhad)

1.5 Corfforaethol

Mae'r pennawd Corfforaethol yn cynnwys eitemau yn ymwneud â ffurfio polisiâu corfforaethol a gweithgareddau aelodau, a chostau sydd yn gysylltiedig â rhedeg yr Awdurdod.

1.6 Buddiannau Gweithwyr

1.6.1 Buddion sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithwyr yn gwasanaethu'r Awdurdod. Gwneir cronriad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae cost y cronriad yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau i'r cyfrif absenoldebau croniedig fel bod cost y buddion gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn ariannol y cymerir y gwyliau.

1.6.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddiad yn wirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad cronriad yn erbyn y gwasanaeth priodol neu, lle mae'n berthnasol, i'r llinell Gwasanaethau Corfforaethol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr unai pan na all yr Awdurdod dynnu'r cynnig o'r buddion hynny yn ôl neu pan fo'r Awdurdod yn cydnabod cost o ail-strwythuro, p'run bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai Cronfa'r Cyngor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiyner yn y flwyddyn, yn hytrach na'r swm sydd wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r gronfa bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion terfynu pensiwn ychwanegol a rhoi'r debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiyner ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

1.6.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr yr Awdurdod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions ar ran Adran Addysg Llywodraeth San Steffan.
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lym-p-symiau ymddeoliad) sydd wedi eu henniill yn ystod eu hamser gyda'r Awdurdod.

Fodd bynnag, mae trefniadau'r cynllun athrawon yn golygu nad yw ymrwymadau'r buddion hynny yn cael eu hadnabod i'r Awdurdod. Mae'r cynllun felly yn cael ei gyfrifo fel petai yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid yw ymrwymadau ar gyfer taliadau yn y dyfodol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen. Mae'r llinellau Addysg a Plant a Chefnogi Teuluoedd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys cost cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

1.6.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon yr Awdurdod ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.b. yn ogystal â thafuniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Gostyngir yr ymrwymiadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol, gan ddefnyddio graddfa disgownt o 2.0% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan Actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymiadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau lle roedd y gweithwyr yn gweithio.
- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymiadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o gostau Corfforaethol.
- Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r Awdurdod - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.
- Enillion a cholledion actiwaraid - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraid diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddarau ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.
- Cyfraniadau a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa pensiwn ar gyfer setliad ymrwymiadau sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i Gronfa'r Cyngor dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa pensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r gronfa pensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o effaith buddiol i Gronfa'r Cyngor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Cyfrifeg Rhyngwladol (SCRh) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymiadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol Cymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCRh 19.

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

1.6.5 Buddion Dewisol

Mae gan yr Awdurdod hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymiadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisiau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

1.7 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath; a
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith materol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd ag amcangyfrif o'r effaith ariannol yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

1.8 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau i Bolisiau Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisiau cyfrifo yw pan mae'n ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol yr Awdurdod. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai y nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

1.9 Offerynnau Ariannol

Ymrwymiadau Ariannol

Cydnabyddir ymrwymiadau ariannol ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn rhan o gytundeb i ddarparu offerynnau ariannol. Maent yn cael eu mesur ar eu gwerth teg yn y lle cyntaf ac yn cael eu cario ar eu cost amorteiddiedig. Mae'r llog taladwy blynyddol sydd yn cael ei gynnwys ar y llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn seiliedig ar werth cario yr ymrwymiad, wedi ei luosi gyda chyfradd llog effeithiol yr offeryn. Y cyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sydd yn disgowntio taliadau arian parod amcangyfrifedig y dyfodol dros oes yr offeryn i'r swm y cafodd ei gydnabod yn wreiddiol.

Ar gyfer y rhan fwyaf o fenthyciadau sydd gan yr Awdurdod, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm ad-daladwy sydd yn weddill (ynghyd â llog cronedig); a'r llog a gaiff ei ddatgan yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn unol â chytundeb y benthyciad.

Mewn achosion lle codwyd premiymau a disgownts ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae rheoliadau yn caniatáu i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei rannu dros y blynyddoedd i ddod. Mae gan yr Awdurdod bolisi o rannu'r enillion neu golledion dros y tymor sydd yn weddill ar y benthyciad ble'r oedd y premiwm yn daladwy neu'r gostyngiad yn dderbyniadwy pan fyddai'n cael ei ad-dalu. Mae cysoni'r swm a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr â'r tâl net sy'n ofynnol yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei reoli trwy drosolwyddiad i neu o'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Symudiad mewn Reserfau.

Asedau Ariannol

Dosbarthir asedau ariannol yn unol â dull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae'r Awdurdod yn dal asedau ariannol wedi eu mesur ar:

- gost amorteiddiedig, a

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

- gwerth teg drwy elw a cholled, a
- gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall. Mae angen polisi ar wahân ble mae Awdurdod yn dal asedau ariannol ar werth teg drwy incwm a gwariant arall.

Model busnes yr Awdurdod yw i ddal buddsoddiadau i gasglu llif arian cytundebol. Mae offerynnau ariannol felly yn cael eu dosbarthu fel cost amorteiddiedig, ag eithrio rheiny nad yw eu taliadau cytundebol yn daliad o brifswm a llog yn unig (h.y ble nad yw llif arian ar ffurf offeryn dyled sylfaenol).

Asedau Ariannol wedi eu Mesur ar Gost Amorteiddiedig

Cydnabyddir asedau ariannol ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn rhan o gytundeb i ddarparu offerynnau ariannol. Maent yn cael eu mesur ar eu gwerth teg yn y lle cyntaf ac yn cael eu cario ar eu cost amorteiddiedig. Bydd credyd blynyddol i linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am y llog a dderbynnir yn seiliedig ar werth cario yr ased wedi ei luosi gyda chyfradd llog effeithiol yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r asedau sydd gan yr Awdurdod, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm derbyniadwy sydd yn weddill (yn ogystal â'r llog cronedig) gyda'r llog sy'n dderbyniadwy am y flwyddyn yn unol â chytundeb y benthyciad yn cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Bydd unrhyw enillion a cholledion sydd yn codi wrth ddad-gydnabod ased yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Model Colled Credyd Disgwyliedig

Mae'r Awdurdod yn cydnabod colledion credyd disgwyliedig ar ei holl asedau ariannol a ddelir ar gostau wedi'u hamorteiddio, unai ar sail 12 mis neu oes. Mae'r model colled credyd disgwyliedig hefyd yn gymwys i symiau derbyniadwy ar brydlles ac asedau contract. Dim ond colledion oes a gydnabyddir ar gyfer symiau masnach derbyniadwy a ddelir gan yr Awdurdod. Cyfrifir colledion amhariad i adlewyrchu'r posibilrwydd na fydd y llif arian yn digwydd yn y dyfodol o ganlyniad i'r benthyciwr yn diffygdalu ei ymrwymiad.

Asedau Ariannol a Fesurir ar Werth Teg Drwy Incwm Cynhwysfawr Arall

Caiff asedau ariannol a fesurir ar WTICA eu cydnabod ar y fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offerynnau ariannol ac yn cael eu mesur yn y lle cyntaf a'u cario ar werth teg. Cydnabyddir enillion gwerth teg wrth iddynt godi mewn incwm cynhwysfawr arall.

Asedau Ariannol wedi eu Mesur ar Werth Teg Drwy Elw a Cholled

Cydnabyddir asedau ariannol sydd wedi eu mesur ar werth teg drwy elw a cholled ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn rhan o gytundeb i ddarparu offerynnau ariannol. Maent yn cael eu mesur ar eu gwerth teg yn y lle cyntaf a'u cario ar werth teg. Cydnabyddir enillion a cholledion gwerth teg wrth iddynt gyrraedd y Gwaged neu Ddiffy ar Ddarpariaeth Gwasanaethau.

Mesuriad Gwerth Teg o Asedau Ariannol

Gwerth teg ased yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased mewn trafodiad trefnus rhwng cyfranogwyr y farchnad ar y dyddiad mesur. Mae mesuriad gwerth teg asedau ariannol yr Awdurdod yn seiliedig ar y technegau canlynol:

- Offerynnau sydd â phris marchnad wedi ei ddyfynnu – pris y farchnad
- Offerynnau eraill gyda thaliadau sefydlog a phendant – dadansoddiad llif arian gostyngol

Mae'r mewnbwnnau i'r technegau mesur wedi eu categoreiddio yn unol â'r tri lefel isod;

- Mewnbwn Lefel 1 – prisiau a ddyfynnwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd actif am asedau yr un fath y gall yr Awdurdod gael mynediad atynt ar y dyddiad mesur.
- Mewnbwn Lefel 2 – mewnbwn heblaw am brisiau a ddyfynnwyd sy'n gynnwysiedig o fewn Mewnbwn Lefel 1 sy'n weladwy ar gyfer yr ased, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- Mewnbwn Lefel 3 – mewnbwn anweladwy i'r ased.

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Bydd unrhyw enillion a cholledion sydd yn codi wrth ddad-gydnabod ased yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae mesuriad ein hasedau a ddelir ar WTICA yn bris cais uned ar y dyddiad mesur.

1.10 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail gronadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r Awdurdod wedi ei fodloni.

Oherwydd gofynion y gyfundrefn rheoli cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf fel rhan o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf, nid yw'r grantiau a chyfraniadau sy'n ariannu gwariant cyfalaf sydd wedi eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wir incwm. Felly, mae'r Awdurdod yn cyfrifo'r symiau hyn fel a ganlyn:

- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei dderbyn, a bod amodau'n parhau heb eu bodloni ar ddyddiad y Fantolen, yna caiff y grant ei gydnabod fel Derbyniadau Grantiau Cyfalaf o flaen llaw ar y Fantolen. Unwaith mae'r amod wedi ei fodloni, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei adnabod fel incwm yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a bod y gwariant sydd i'w ariannu o'r grant neu gyfraniad hwnnw wedi ei wneud ar ddyddiad y fantolen, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo o'r Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf, i adlewyrchu dyrannu adnoddau cyfalaf i ariannu gwariant. Adroddir y trosglwyddiad hwn yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

1.11 Asedau Treftadaeth

Asedau diriaethol yw asedau treftadaeth gyda rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol, ac a ddelir gan y Cyngor yn bennaf er diben gwybodaeth addysgol neu gyfraniad i ddiwylliant. Dyma'r categorïau o asedau treftadaeth sydd wedi eu hadnabod gan y Cyngor:

- Llundiau a Phaentiadau
- Teyrnlysau Dinesig
- Casgliadau Llyfrgell/Archifau
- Casgliadau Amgueddfeydd ac Oriolau
- Adeiladau Hanesyddol a Henebion Cofrestredig
- Parciau a Gwarchodfeydd Natur Leol

Defnyddiodd y Cyngor brisiwr allanol (cwmni Bonhams) i ddarparu amcangyfrifon o brisiadau o'i deyrndlysau dinesig a'i luniau a phaentiadau. Er mwyn cysondeb, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar sail yr un trothwy de minimis i ddibenion prisio Asedau Treftadaeth ag i weddill ei asedau tymor hir - gweler polisi 1.17.

Mae'r Cyngor yn ystyried bod gan yr asedau treftadaeth hyn oes amhenderfynadwy a gwerth gweddilliol uchel; ac o'r herwydd, nid yw'r Cyngor yn ei ystyried yn briodol i ddibrisio'r asedau. Bydd yr asedau treftadaeth a gynhwysir yn y cyfrifon yn cael eu hasesu'n flynyddol am unrhyw amhariad – gweler polisi 1.17.

1.12 Stoc a Contractau Tymor Hir

Dylai stociau a gwaith mewn llaw ymddangos ar y Fantolen ar sail yr isaf o gost a gwir werth, yn unol â darpariaethau'r Côt Ymarfer. Oherwydd ymarferoldeb prif systemau stoc y Cyngor, mae mwyafrif y stoc yn ymddangos yn y cyfrifon ar sail cost gyfartalog. Nid yw'r gwahaniaeth o'r sail prisio yn faterol.

Mae contractau tymor hir yn cael eu cyfrifo ar sail o godi'r gwarged neu'r diffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau gyda'r ystyriaeth yn cael ei ddyrannu i'r rhwymedigaethau perfformiad bodlonwyd ar sail y nwyddau neu'r gwasanaethau a drosglwyddwyd i dderbynydd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol.

1.13 Eiddo Buddsoddi

Eiddo buddsoddi yw'r rhai hynny a ddefnyddir ar gyfer ennill rhent ac/neu adbrisiant cyfalaf yn unig. Nid yw'n cwrdd â'r diffiniad os defnyddir yr eiddo mewn unrhyw ffordd i hwyluso darpariaeth gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os yw ar gael i'w werthu. Caiff yr eiddo yma eu prisio ar sail gwerth teg. Mae'r gwerthoedd wedi eu seilio ar dechnegau penodol, ac mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yma wedi eu categoreiddio yn unol â thair lefel. Lefel

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

3 yw holl fewnbynnau yr Awdurdod (mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased). Mae hyn oherwydd lefel yr addasiad sydd ei angen ar gyfer yr holl dystiolaeth sydd yn deillio o natur unigryw yr asedau, a phrinder trafodion y farchnad berthnasol.

1.14 Prydlesau

Caiff prydlesau eu hystyried yn brydlesi cyllidol pan fo telerau trosglwyddiad y brydles a'r holl risgiau a buddion sy'n deillio o berchnogaeth o'r eiddo, offer neu gyfarpar yn trosglwyddo i'r prydlesai. Caiff bob prydles arall eu hystyried yn brydlesau gweithredol.

Yr Awdurdod fel Prydlesai:

Caiff symiau a ddelir dan brydlesi cyllidol eu hadnabod yn wreiddiol, ar ddechrau'r brydles, ar werth teg (neu, os yn is, gwerth presennol y lleiafswm taliadau prydles), gydag ymrwymiad cyfatebol am rwymedigaeth y brydles i'r prydleswr. Caiff taliadau'r brydles eu dosrannu rhwng cost ariannol (i'w gynnwys yn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr) a chost a roir yn erbyn ymrwymiad y brydles i'w leihau. Caiff yr ased perthnasol ei drin yn unol â'r polisiau arferol, a chaiff ei ddibrisio fel sy'n briodol.

Caiff taliadau prydlesau gweithredol eu dangos yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost i'r gwasanaeth perthnasol ar sail dibrisiad llinol dros gyfnod y brydles.

Yr Awdurdod fel Prydleswr:

Ble mae'r Awdurdod yn caniatáu prydles gyllidol ar eiddo, mae'r ased perthnasol yn cael ei ysgrifennu allan o'r Fantolen fel gwarediad, sydd i'w gynnwys yn y llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Nid yw gwerth y gwarediad a ysgrifennir allan yn gost a roir yn erbyn treth y cyngor, gan fod cost asedau tymor hir yn cael eu darparu o dan drefniadau gwahanol ar gyfer ariannu cyfalaf. Mae'r symiau felly yn cael eu priodoli i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf o'r Balans Cronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau.

Caiff incwm rhent o eiddo sydd wedi ei ganiatáu trwy brydles weithredol ei gydnabod ar sail linol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a chaiff yr ased ei ddangos ar y Fantolen.

1.15 Asedau Gweddilliol

Caiff Asedau Gweddilliol yr Awdurdod eu dangos ar wahân ar y Fantolen. Gwerth teg yr asedau hyn sy'n cael ei ddangos, sy'n seiliedig ar werth y farchnad. Mae'r gwerthoedd wedi eu seilio ar dechnegau penodol, ac mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yma wedi eu categoreiddio yn unol â thri lefel. Lefel 3 yw holl fewnbynnau'r Awdurdod (mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased). Mae hyn oherwydd lefel yr addasiad sydd ei angen ar gyfer yr holl dystiolaeth sydd yn deillio o unigrywiaeth yr asedau, a phrinder trafodion y farchnad berthnasol.

1.16 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae rhai costau gorbenion a gwasanaethau cefnogol yn cael eu dosrannu i'r gwasanaethau priodol yn unol â threfniadau'r Cyngor ar gyfer atebolrwydd a pherfformiad ariannol.

1.17 Asedau Tymor Hir

Adolygir gwerth asedau'r Cyngor a gofnodir ar fas data'r Gwasanaeth Eiddo o leiaf bob pum mlynedd. Ers y flwyddyn ariannol 2015/16, mae'r Awdurdod wedi sefydlu rhaglen dreigl ar gyfer ailbrisiu gwahanol gategorïau o'r asedau yma yn flynyddol, gydag ailbrisiad fel arfer yn effeithiol ar 31 Mawrth pob blwyddyn. Mae hyn yn unol â'r Còd a'r Datganiadau Egwyddorion Prisio Asedau a Nodiadau Arweiniad a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

Dangosir Tir ac Adeiladau ar sail gwerth teg neu gost ail-adeiladu dibrisiedig (CAD) ar gyfer eiddo arbenigol.

Dangosir Eiddo Buddsoddi ar sail gwerth teg.

Defnyddir cost hanesyddol a ddibrisiwyd ar gyfer Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar.

Mae Asedau is adeiladwaith a chymunedol yn ymddangos ar gost hanesyddol a ddibrisiwyd.

Cynhwysir Asedau heb eu cwblhau ar sail cost hanesyddol tan gwblheir y gwaith, pan eu prisir yn unol â'r polisiau cyfrifo a'u trosglwyddo i'r categorï asedau perthnasol.

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Defnyddir isafswm at ddibenion prisio o £20,000 ar gyfer Tir ac Adeiladau Gweithredol y Cyngor a £5,000 ar gyfer eitemau unigol o Gerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar.

Fe ychwanegir gwariant ar asedau newydd a chyfredol yn flynyddol, gan wedyn ystyried os ydy'r gwariant yma wedi cynhyrchu cynnydd mewn gwerth i'r ased. Os oes cynnydd mae hyn yn cael ei adlewyrchu drwy'r Reserf Ail Brisio; os nad oes cynnydd mae'n dilyn fod amhariad i werth yr ased (gweler isod ar gyfer dull cyfrifo am amhariad). Yn benodol ar gyfer asedau megis Tir ac Adeiladau, ac Asedau Cymunedol ble ceir gwariant yn y flwyddyn o dros £100,000 ar ased unigol, mae Uwch Syrfeur Stadau (M.R.I.C.S) y Cyngor yn adolygu'r asedau ac yn ail brisio unrhyw un sydd ei angen.

Mae lefel uchel o ansicrwydd ynghylch oblygiadau tymor canolig yr effeithiau cyfredol y pandemig COVID-19 ac ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd. Tybir na fydd hyn yn effeithio yn sylweddol ar werth asedau'r Cyngor. Bydd angen adolygu'r dybiaeth yn rheolaidd.

Amhariad a Dibrisiant

Amhariad

Amhariad yw treuliant budd economaidd sydd yn benodol i ased. Yn unol â Safon Cyfrifo Rhyngwladol 36 mae'r Cyngor yn adolygu ei asedau bob blwyddyn i adnabod unrhyw amhariad neu leihad mewn gwerth oherwydd treuliant buddiannau economaidd. Yn ogystal, caiff gwerth gweddilliol ac oes fuddiol yr asedau eu hadolygu'n flynyddol, a'u haddasu ble'n briodol.

Pan mae colledion amhariad yn cael eu hadnabod, maent yn cael eu cyfrifo fel a ganlyn:

- Ble mae balans o gynnydd ailbriso ar gyfer ased o fewn y Reserf Ailbriso, bydd gwerth yr ased yn cael ei ysgrifennu ffwrdd yn erbyn y balans (hyd at swm y cynnydd cronodig).
- Pan nad oes balans ar y Reserf Ailbriso ar gyfer ased neu balans annigonol, bydd gwerth yr ased yn cael ei ysgrifennu ffwrdd yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Dibrisiant

Prif elfen SCRh 16 yw y dylid dibrisio adeiladau oni bai eu bod yn cael eu prisio bob blwyddyn. Yn ogystal, dylid dibrisio bob rhan o Eiddo, Offer a Chyfarpar ar wahân os yw eu cost yn arwyddocaol o ystyried cyfanswm cost yr eitem. Dylid sefydlu trothwy isafswm, yn seiliedig ar yr effaith sylweddol tebygol ar y datganiadau ariannol, fel bod bob ased o dan y trothwy yn cael eu diystyru i bwrpas cydrannu. Trothwy ar gyfer 2020/21 yw 1% o werth yr holl adeiladau ar gychwyn y flwyddyn. Y dosraniad sydd yn cael ei ystyried ar gyfer yr elfen sydd ddim yn dir, dros y trothwy de minimis ydi:

- a) offer a chyfarpar a gwasanaethau peirianeg, ac
- b) adeiledd

Mae'r mwyafrif o adeiladau'r Cyngor (dros 75%) yn cael eu prisio ar sail Cost Ail-adeiladu Dibrisiedig (CAD), a ddatblygir ar y dull cydrannol, ac adlewyrchir y gwahanol elfennau ym manylion y cyfrifiadau. Fodd bynnag, yn gynwysedig yn yr uchod mae adeiladau gydag eitemau sylweddol o offer a chyfarpar sydd ag oes fuddiol fyrrach; e.e. boeleri ac offer gwresogi pyllau nofio a chanolfannau hamdden. Adnabyddir yr elfennau hyn drwy addasu oes fuddiol yr adeilad i gymryd oes fyrrach yr elfennau i ystyriaeth.

Yn seiliedig ar adolygiad o natur a'r math o adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor, daethpwyd i'r canlyniad nad oes gan weddill yr adeiladau eitemau sylweddol o offer a chyfarpar na gwasanaethau peirianeg sydd angen eu cydrannu ar wahân.

Dibrisir Asedau ar sail eu gwerth ar y Fantolen i'w ysgrifennu i ffwrdd fel a ganlyn:

- (i) Dibrisir Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar dros eu bywyd amcangyfrifedig (3–15 mlynedd, neu fwy os oes tystiolaeth cefnogol)
- (ii) Dibrisir Is adeiladwaith dros 40 mlynedd
- (iii) Ysgrifennir Gwariant Refeniw i'w ariannu o Gyfalaf drwy Statud i lawr yn y cyfnod yr ymddangosant
- (iv) Ni ddibrisir Tir
- (v) Dibrisir Adeiladau dros eu bywyd defnyddio/gyfnewid amcangyfrifedig (5–80 mlynedd)

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

(vi) Ni ddibrisir Eiddo Buddsoddi, Asedau heb eu Cwblhau nac Asedau Sydd Ar Gael i'w Gwerthu

Ni ddibrisir ym mlwyddyn y caffaeliad.

Lleiafswm Darpariaeth Refeniw

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifeg) (Cymru) (Diwygio) 2018 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i wneud darpariaethau darbodus ar gyfer adbrynu dyledion. Mae'r Gweinidogion Cymreig wedi cyhoeddi Canllawiau ar Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (LIDR) ac mae gofyn i Awdurdodau Lleol roi ystyriaeth i Ganllawiau o'r fath yn unol ag adran 21 (1B) Deddf Llywodraeth Leol 2003.

Dyma'r pedwar opsiwn LIDR sydd ar gael:

- Opsiwn 1: Y Dull Rheoleiddio
- Opsiwn 2: Y Dull Gofyn Cyllido Cyfalaf
- Opsiwn 3: Y Dull Oes Asedau
- Opsiwn 4: Y Dull Dibrisiad

D.S.: Nid yw hyn yn cau allan dulliau darbodus eraill.

LIDR yn 2020/21: Gellir defnyddio opsiynau 1 a 2 dim ond ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi nad yw o'r Cyfrif Refeniw Tai (Dim-CRT) a ariennir o fenthyciad (ystyr 'wedi'i gefnogi' yma yw costau cyllido a gaiff eu cefnogi drwy Grant Cefnogi Refeniw y Llywodraeth Ganolog). Mae'r dulliau o wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer gwariant cyfalaf Dim-CRT heb ei gefnogi yn cynnwys Opsiynau 3 a 4 (gellir defnyddio 3 a 4 ar gyfer gwariant cyfalaf Dim-CRT wedi'i gefnogi yn ogystal, os yw'r Cyngor yn penderfynu gwneud hynny).

Cyflwynwyd y Datganiad LIDR i'r Cyngor cyn dechrau blwyddyn ariannol 2020/21. Pe bai cynnig i ddiwygio telerau'r Datganiad LIDR gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r Cyngor ar yr adeg honno.

Defnyddiodd y Cyngor Opsiwn 1 yng nghyswllt gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a ariennir o fenthyciad, ac Opsiwn 3 yng nghyswllt gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a ariennir o fenthyciad.

Roedd yr LIDR yng nghyswllt lesau a chynlluniau Menter Cyllid Preifat (MCP) a brynwyd ar y Fantolen dan y Côt Ymarfer Cyfrifeg sy'n seiliedig ar y SAARh yn cyd-fynd â'r ad-daliad prifswm blynyddol ar gyfer yr ymrwymiad gohiriedig cysylltiedig.

Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r polisi yma yn flynyddol yng ngoleuni'r Cynllun Rheoli Asedau.

Yn unol â'r Côt Ymarfer, telir am wariant cyfalaf ar gyfer Gwasanaethau Cronfa'r Cyngor sydd i'w gyllido o refeniw drwy ei ddsbarthu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

1.18 Treth y Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol

Mae incwm Treth y Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol am y flwyddyn yn cael eu trin fel incwm cronodig, ac yn cael eu cynnwys ar linell Treth ac Incwm Grant Amhenodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae Cyngor Gwynedd yn Awdurdod bilio Treth y Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol. Mae'n casglu Treth y Cyngor ar ran ei hun ac ar ran Awdurdodau eraill, ac yn casglu Trethi Annomestig fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru.

1.19 Darpariaethau

Mae'r Cyngor yn gosod darpariaethau o'r neilltu ar gyfer ymrwymadau penodol sy'n debygol neu'n sicr o godi ond ni ellir ar hyn o bryd eu pennu'n gywir. Gwneir darpariaethau hefyd ar gyfer dyledion sydd yn annhebyg o gael eu talu. Ysgrifennir dyledion drwg i ffwrdd yn erbyn y gwasanaeth perthnasol. Mae'r Cyngor yn dosbarthu'r darpariaethau hyn fel ymrwymadau tymor hir neu dymor byr fel sy'n briodol yn ddibynnol ar natur bob darpariaeth.

1.20 Reserfau (a Balansau)

Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1992, mae'r Cyngor yn cynnal –

- Cronfa Gyffredinol sydd yn cynrychioli arian wrth gefn ("balansau") yr Awdurdod, sef balans gweithredol i helpu lliniaru effaith llif arian anwastad ag i'w gadw wrth gefn i liniaru effaith digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau.

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

- Nifer o Reserfau Penodol cyfalaf a refeniw a glustnodwyd ar gyfer pwrpasau arbennig, sef arian wedi'i adeiladu i gwrdd ag ymrwymiadau a ragwelir. Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad parhaus o ddigonolrwydd a defnydd o reserfau penodol.
- Mae'r Cyngor yn cymryd agwedd asesu'r risg tuag at gynnal lefelau digonol o falansau a reserfau er mwyn cwrdd ag anghenion gwario'r dyfodol. Wrth ystyried y gyllideb flynyddol a'r strategaeth ariannol tymor canol, bydd y Cyngor yn gosod allan ei fwriad ynghylch lefel y balansau cyffredinol a'r cronfeydd, yng nghyd-destun yr holl risgiau perthnasol. Gweler cymeradwyaeth o'r polisi llawn ar gyfer cronfeydd gan Gabinet y Cyngor ar 23 Mehefin 2015.
- Cedwir rhai reserfau eraill, sef 'reserfau na ellir eu defnyddio', i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy yr Awdurdod.

1.21 Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf Drwy Statud

Mae deddfwriaeth yn caniatáu categoreiddio peth gwariant fel cyfalaf i bwrpas ariannu er nad yw'n creu ased sydd yn cael ei gario ar y Fantolen. Bwriad hyn yw galluogi'r gwariant i gael ei ariannu o adnoddau cyfalaf yn hytrach nag ei roi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol a fyddai'n cael effaith ar y Dreth Cyngor am y flwyddyn. Defnyddir cost hanesyddol fel sail prisio ar gyfer y math yma o wariant ac ysgrifennir hwn i lawr o fewn blwyddyn.

1.22 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW y cynhwysir TAW neu y caiff ei ddangos fel cost 'TAW anadferadwy' mewn gwariant cyfalaf a refeniw.

1.23 Dyledwyr a Chredydwy

Cedwir cyfrifon y Cyngor ar sail cronni yn unol â'r Côt Ymarfer Cyfrifeg. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm sy'n berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, boed y taliadau a'r derbyniadau wedi cael eu talu neu eu derbyn yn y flwyddyn.

Eithriad i'r arfer yma yw taliadau chwarterol megis trydan, a gyfrifir yn ôl dyddiad darllen y mesurydd yn hytrach na rhannu'r gost rhwng gwahanol flynyddoedd ariannol, a hefyd rhai taliadau blynyddol megis yswiriant. Trwy weithredu'r polisi'n gyson ymhob blwyddyn ni chaiff effaith o bwys ar gyfrifon y flwyddyn.

1.24 Dyrannu Llog Derbyniadwy

Mae'r Awdurdod yn buddsoddi arian dros ben am gyfnodau o dros nos hyd at 13 mis (ac eithrio buddsoddiadau mewn cronfeydd cyfun) a thelir y llog i'r Gronfa Gyffredinol, Cronfa Bensiwn Gwynedd, Cronfa'r Degwm ac ymddiriedolaethau a chyd-bwyllgorau eraill ar sail eu balansau dyddiol a'r gyfradd llog a enillir.

1.25 Costau Benthycia

Nid yw'r Awdurdod yn cyfalafu costau benthycia sy'n perthyn i gaffaeliad, gwneuthuriad na chynhyrchiad ased cymwysedig fel a ganiateir yn y Côt.

Cyfrifir am log sydd yn daladwy ar fenthyciadau allanol yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo ar sail sy'n adlewyrchu effaith economaidd gyflawn y benthyciad.

1.26 Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau Eraill

Yng nghyfrifon yr Awdurdod, caiff buddiannau mewn cwmnïau ac endidau eraill eu hadrodd fel asedau ariannol ar gost gwreiddiol, llai unrhyw ddarpariaeth am golledion.

1.27 Asedau Cyfredol ar gael i'w gwerthu

Er mwyn i ased gael ei gydnabod fel Ased ar gael i'w werthu, mae'n ofynnol i'r ased fod ar gael i'w werthu yn syth yn ei gyflwr presennol, mae'n rhaid i'r gwerthiant fod yn hynod o debygol, rhaid i'r ased gael ei farchnata a'r gwerthiant gael ei gwblhau o fewn blwyddyn i ddyddiad y dosbarthiad. Caiff yr ased ei gydnabod ar werth teg (gwerth y farchnad) llai costau gwerthu wrth ailddosbarthu. Mae'r gwerthoedd wedi eu seilio ar dechnegau penodol, ac mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yma wedi eu categoreiddio yn unol â thri lefel. Lefel 3 yw holl fewnbynnau'r Awdurdod (mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased). Mae hyn oherwydd lefel yr addasiad sydd ei angen ar gyfer yr holl dystiolaeth sydd yn deillio o unigrywiaeth yr asedau, a phrinder trafodion y farchnad berthnasol.

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

1.28 Gwaredu Asedau

Pan mae ased yn cael ei waredu, mae gwerth yr ased yn y Fantolen yn cael ei ysgrifennu ffwrdd i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw a cholled wrth waredu. Mae derbyniadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw neu gollod wrth waredu (e.e. cael ei glustnodi yn erbyn gwerth yr ased ar adeg y gwaredu). Mae unrhyw gynnydd wedi ei gronni ar gyfer yr ased yn y Reserf Ailbriso yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

1.29 Derbyniadau Cyfalaf

Pan werthir asedau gan yr Awdurdod mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'r defnydd y gellir ei wneud o'r derbyniadau cyfalaf.

Gellir defnyddio 100% o'r holl dderbyniadau cyfalaf sydd yn perthyn i Gronfa'r Cyngor ac nid yw'n angenrheidiol bellach i roi canran o'r derbyniad o'r neilltu. Cedwir y derbyniadau yn y Reserf Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy hyd nes defnyddir yr adnoddau i gyllido gwariant cyfalaf.

1.30 Trefniant Consesiwn Gwasanaeth

Mae Trefniant Consesiwn Gwasanaeth, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel Menter Cyllid Preifat (MCP), yn gytundebau i dderbyn gwasanaethau, ble mae'r eiddo, offer a chyfarpar i ddarparu'r gwasanaeth dan gyfrifoldeb y contractwr MCP am gyfnod y cytundeb ond yn trosglwyddo i'r Awdurdod ar ddiwedd y cyfnod heb unrhyw gost ychwanegol. Mae'r Awdurdod yn rheoli'r gwasanaeth a ddarperir ac yn medru rheoli pwy arall sy'n medru defnyddio'r ddarpariaeth. Mae'r gost am ddefnydd o'r ddarpariaeth yn cael ei gytuno gyda'r Contractwr cyn gosod y cytundeb drwy broses o ddeialog cystadleuol.

1.31 Gweithrediadau ar y Cyd

Mae gweithrediadau ar y cyd yn drefniant ble mae gan y partïon sydd â chydreolaeth yr hawl i'r asedau a'r oblygiadau o'r ymrwymadau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau. Mae'r gweithgareddau y mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â hwy ar y cyd â gweithredwyr eraill yn cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r cyd-weithredwyr. Mewn perthynas â'i ddiddordeb mewn trefniant gweithred ar y cyd, mae'r Awdurdod fel gweithredwr ar y cyd yn cydnabod ei gyfran o'r asedau, ymrwymadau, refeniw a gwariant.

1.32 Ysgolion

Mae'r Côt Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig yn cadarnhau bod cydbwysedd rheolaeth ysgolion sy'n cael eu cynnal gan yr Awdurdod lleol (h.y. yr ysgolion hynny sy'n cael eu hadnabod yn y Ddeddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998, fel y'i diwygiwyd), yn gorwedd efo'r Awdurdod lleol. Mae'r Côt hefyd yn datgan bod asedau, ymrwymadau, reserfau a llif arian yr ysgolion hynny yn cael eu cydnabod yng nghyfrifon yr Awdurdod lleol (ac nid mewn Cyfrifon Grŵp). O ganlyniad, mae trafodion, llif arian a balansau yr ysgolion yn cael eu cydnabod ym mhob un o ddatganiadau ariannol yr Awdurdod fel petaent yn drafodion, llif arian a balansau yr Awdurdod.

1.33 Mesuriad Gwerth Teg o Asedion An-Ariannol

Mae polisi'r Awdurdod ar fesuriad gwerth teg ased ariannol wedi ei osod allan yn nodyn 1.9. Mae'r Awdurdod hefyd yn rhoi mesuriad gwerth teg ar rai o asedau an-ariannol yr Awdurdod megis asedau gweddilliol, eiddo buddsoddi a rhai o offerynnau ariannol ar bob cyfnod adrodd. Gwerth teg yw'r pris gwerthu a dderbynnir ar gyfer yr ased mewn modd trefnus rhwng cyfranogwyr y farchnad ar ddyddiad y mesuriad. Mae'r mesuriad gwerth teg yn tybio bod y trefniant o werthu'r ased neu drosglwyddo'r ymrwymiad yn cymeryd lle unai:

- a. yn y brif farchnad i'r ased, neu
- b. yn absenoldeb prif farchnad, yn y farchnad sydd fwyaf manteisiol ar gyfer yr ased.

Wrth fesur gwerth teg ased neu ymrwymiad, defnyddia'r Awdurdod ragdybiaethau y byddai cyfranogwyr y farchnad yn eu defnyddio wrth briso ased neu ymrwymiad, gan gymeryd bod cyfranogwyr y farchnad yn gweithredu er eu budd economaidd mwyaf.

Wrth fesur gwerth teg ased an-ariannol, mae'r Awdurdod yn ystyried gallu cyfranogwyr y farchnad i gynhyrchu buddiannau economaidd drwy ddefnyddio'r ased yn y modd gorau bosib, neu drwy ei werthu i gyfranogwr arall y farchnad fyddai'n defnyddio'r ased yn y modd gorau bosib.

Defnyddia'r Awdurdod dechnegau prisio sydd yn addas i'r amgylchiadau ac sydd â data digonol ar eu cyfer, gan uchafu'r defnydd o fewnbwn gwladwy perthnasol ac isafu'r defnydd o fewnbwn anweladwy.

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Mae'r mewnbwn i'r technegau prasio sy'n berthnasol i'r asedau hynny ble mesurir neu ddatgelir gwerth teg ar eu cyfer yn natganiadau ariannol yr Awdurdod yn cael eu categoreiddio yn hierarchaeth gwerth teg fel a ganlyn:

- Lefel 1 – prisiau a ddyfynnir (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu ymrwymadau unfath y gall yr Awdurdod eu cyrchu ar ddyddiad y mesuriad;
- Lefel 2 – mewnbwn ar wahân i'r prisiau a ddyfynnir yn Lefel 1, sydd yn weladwy ar gyfer yr ased, unai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol; neu
- Lefel 3 – mewnbwn anweladwy ar gyfer ased

I.34 Polisïau Eraill

Mae gan Gyngor Gwynedd bolisïau ar gyfer y canlynol, ond nid ydynt yn cael eu hystyried i fod yn faterol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21:

- Asedau Anniriaethol
- Trosi Arian Tramor.

NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Mae'r polisiau cyfrifo presennol y Cyngor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r cyfarwyddiadau yn y Côt Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020/21.

NODYN 3 – ADDASIAD CYFNOD BLAENOROL

Nid oes unrhyw addasiadau cyfnod blaenorol yn ystod 2020/21.

NODYN 4 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Côt Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA yn gofyn i effaith disgwylidig unrhyw safonau cyfrifeg sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gael ei ddatgan. Mae hyn yn berthnasol i'r ymarferion newydd neu ddiwygiedig canlynol o fewn Côt 2021/22:

Diffiniad o Fusnes: Diwygiadau i SAARh 3 Cyfuniad Busnes

Diwygio Meincnod Cyfradd Llog: Diwygiadau i SAARh 9, SCRh 39 ac SAARh 7

Diwygio Meincnod Cyfradd Llog – Cam 2: Diwygiadau i SAARh 9, SCRh 39 ac SAARh 7, SAARh 4 ac SAARh 16.

Mae'n ofynnol fod y Côt yn weithredol o 1 Ebrill 2021 ac felly nid oes unrhyw effaith ar Ddatganiad o'r Cyfrifon 2020/21, a does dim disgwyl i'r safonau newydd neu'r newidiadau o fewn Côt Ymarfer 2021/22 gael effaith materol ar yr wybodaeth a gyflwynir yn y datganiadau ariannol.

Ymhellach, mae'r Safon Rhyngwladol SAARh 16 – Prydlesau, wedi ei gyhoeddi a'i gynnwys yn y Côt Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA am 2021/22 fel atodiad. Fodd bynnag, mae'r dyddiad gofynnol a'r dyddiad mabwysiadu SAARh 16 wedi ei ohirio hyd 1 Ebrill 2022 ac felly i gyfrifon 2022/23.

NODYN 5 – BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISIAU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisiau cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Awdurdod wedi gorfod barnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch trafodion cymhleth, rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau i'r dyfodol a symiau'r asedau ac ymrwymadau i'w cario nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r farn, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu seilio ar arferion cyfredol priodol, profiad hanesyddol, a ffactorau eraill sy'n cynnwys thybiaethau a thafuniadau hanesyddol a chyfredol, a rhagamcanion i'r dyfodol, asesiadau proffesiynol, tueddiadau cyfredol, a ffactorau lleol a ystyrir yn berthnasol.

Yn y blynyddoedd diwethaf bu peth ansicrwydd am lefelau ariannu grantiau refeniw a chyfalaf i'r dyfodol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r mater yma yn rhan bwysig o strategaeth ariannol y Cyngor sy'n cael ei ddiweddarau yn gyson, gyda'r ffactorau a wybyddir ac a ragwelir yn cael ystyriaeth briodol. Mae ansicrwydd economaidd yn dilyn i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd yn parhau. Tra fod effeithiau'r argyfwng Covid-19 yn parhau i fod yn her ariannol i'r Cyngor yn y tymor byr a'r tymor canolig. Er hynny, mae'r Cyngor yn benderfynol nad yw'r ansicrwydd yn ddigonol i roi arwydd fod amhariad i werth asedau'r Cyngor.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i, ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried materion megis ailbriso, dibrisiant ac amhariad asedau, prisiad yr actiwari o asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bensiw, reserfau a glustnodwyd, darpariaethau ac ymrwymadau dibynnol. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu'r materion hyn i sicrwydd, gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

NODYN 6 – TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan yr Awdurdod am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitemau canlynol ar Fantolen yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2021 yn rhai a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

- **Eiddo, Offer a Chyfarpar** - Mae asedau yn cael eu dibrisio dros eu hoes fuddiol yn unol ag arferion safonol cyfrifeg a chysylltiedig. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng y dibrisiant a gwir ddirywiad yr ased ei adlewyrchu ym mhatrymau gwariant y dyfodol. Mae'r hinsawdd economaidd gyfredol yn creu ansicrwydd ymysg cynghorau am eu gallu i gynnal y gwariant angenrheidiol ar gynnal a chadw. Bydd goblygiadau o hyn ar fywyd ased. Mae Tir ac Adeiladau yn cael eu hailbriso o leiaf bob pum mlynedd, ac ers 2015/16 cyflwynwyd rhaglen dreigl ailbriso. Mae angen dod i farn yn aml fel rhan o'r broses asesiad ailbriso ac amhariad. Mae hyn yn arwain at ansicrwydd, a'r angen am dybiaethau ac ymateb yn briodol iddynt. Lle bo angen, bydd unrhyw oblygiadau tymor hir yn cael eu hymgorffori yn ein strategaeth ariannol.

O ran yr holl sectorau eiddo, fel ar y dyddiad prisio rydym yn parhau i wynebu cyfres o amgylchiadau digynsail a achoswyd gan Covid-19 ac absenoldeb tystiolaeth berthnasol / ddigonol ar y farchnad i seilio barn arni. Felly adroddir ar y prisiau ar sail 'ansicrwydd prisio materol' yn unol â VPS 3 a VPGA 10 o Safonau Prisio Byd-eang Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartedig (RICS). O ganlyniad, dylid rhoi llai o sicrwydd a gradd uwch o rybydd i'r prisiad na'r hyn sydd yn arferol. I gydnabod y potensial i amodau'r farchnad symud yn gyflym mewn ymateb i newidiadau yn rheolaeth neu ymlediad Covid-19 yn y dyfodol, argymhellir bod prisiad yr eiddo hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae gwybodaeth ynglŷn ag Eiddo, Offer a Chyfarpar wedi ei gynnwys yn Nodyn 15.

- **Darpariaethau** - Mae darpariaethau yn gynnwysedig yn y cyfrifon, ble mae'r sail unigol wedi cael eu hasesu yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf, gweler Nodyn 22 am y manylion, sydd yn cynnwys darpariaeth am Safleoedd Gwastraff. Nid oes modd cadarnhau cywirdeb y ddarpariaeth hyd nes bod y materion wedi diweddu.
- **Ymrwymiad Pensiwn** - Mae sefyllfa'r Ymrwymiad Pensiwn a adlewyrchir yn y cyfrifon yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth a phroffiliau amrywiol gan gynnwys y gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, rhagolygon lefelau cyflog, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfradd marwolaethau a'r gyfradd adenillion disgwylidig ar asedau'r Gronfa Bensiwn, yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd gan Actiwari'r Gronfa Bensiwn. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn Nodyn 37 a 38.
- **Amhariad Dyledion Drwg** - Mae lefel o amhariad dyledion drwg wedi ei gynnwys yn y cyfrifon sydd yn seiliedig ar bolisi penodol. Mae lefel yr amhariad yn cael ei adolygu yn rheolaidd er mwyn gallu ymateb i unrhyw newidiadau yn yr hinsawdd economaidd megis yr argyfwng Covid-19 presennol, ac unrhyw addasiad i ymateb i'r sefyllfa yn cael ei weithredu'n briodol yn y cyfrifon. Mae'r ffigwr amhariad dyledion drwg wedi ei gynnwys yn y ffigyrau Dyledwyr Tymor Byr yn Nodyn 18a.

Mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar farchnadoedd ariannol ac eiddo byd-eang. O ganlyniad i'r anwadalrwydd yn amodau'r farchnad, roedd adroddiadau prisio diwedd blwyddyn a ddarparwyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2020 yn cynnwys datganiad bod ansicrwydd prisio materol yn ymwneud â chronfeydd eiddo'r DU a reolir ar ran y Gronfa. Fodd bynnag, ni adroddir am unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn prisiau eiddo ar 31 Mawrth 2021.

NODYN 7 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:

- £101m yn y maes pensiwn, sef yr ailfesuriad blyneddol o'r ymrwymiad buddion pensiwn diffiniedig net yn y maes pensiwnau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 23).
- Yn dilyn ailbriso rhan o bortffolio tir ac adeiladau'r Cyngor (sydd bellach yn dilyn rhaglen dreigl), gwarged net yn deillio o ailbriso asedau sefydlog i'r Reserf Ailbriso yn £28m (Nodyn 23.1) a chost ailbriso a'r amhariad i'r Gwasanaethau yn £4m (Nodyn 15).
- Derbyniad grantiau penodol ynghyd â gwariant ychwanegol a cholled incwm perthnasol i Covid-19 sydd wedi ei ddigolledu gan Lywodraeth Cymru gwerth £24.7m i Wynedd yn 2020/21 (Nodyn 32).

Tud. 40

NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

<u>2020/21</u>	<u>ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU</u>					
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasiadau i bwrpas Cyfalaf (i)	Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (ii)	Gwahaniaethau Eraill (iii)	Cyfanswm Addasiadau Statudol	Addasiadau (Anstatudol) Eraill (iv)	Cyfanswm Addasiadau
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addysg	6,645	2,192	0	8,837	0	8,837
Cefnogaeth Gorfforaethol	12	738	0	750	0	750
Cyllid	675	718	0	1,393	0	1,393
Economi a Chymuned	2,621	441	0	3,062	0	3,062
Oedolion, Iechyd a Llesiant	1,157	3,058	0	4,215	(179)	4,036
Plant a Chefnogi Teuluoedd	57	1,085	0	1,142	0	1,142
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd*)	4,533	2,490	0	7,023	0	7,023
Amgylchedd	3,460	621	0	4,081	0	4,081
Tai ac Eiddo	2,226	435	0	2,661	0	2,661
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1	118	0	119	0	119
Ymgynghoriaeth Gwynedd	391	520	0	911	0	911
Corfforaethol	31	41	(207)	(135)	(359)	(494)
Cost Gwasanaethau	21,809	12,457	(207)	34,059	(538)	33,521
Gwariant Gweithredol Arall	(152)	0	0	(152)	0	(152)
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	(8,831)	5,771	(86)	(3,146)	538	(2,608)
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	(21,577)	0	0	(21,577)	0	(21,577)
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(8,751)	18,228	(293)	9,184	0	9,184

* Cefnffyrdd - Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)

2019/20	ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU					
	Addasiadau i bwrpas Cyfalaf (i) £'000	Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (ii) £'000	Gwahaniaethau Eraill (iii) £'000	Cyfanswm Addasiadau Statudol £'000	Addasiadau (Anstatudol) Eraill (iv) £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr						
Addysg	6,663	4,040	0	10,703	0	10,703
Cefnogaeth Gorfforaethol	806	1,266	0	2,072	0	2,072
Cyllid	419	1,225	0	1,644	0	1,644
Economi a Chymuned	2,604	766	0	3,370	0	3,370
Oedolion, Iechyd a Llesiant	972	5,090	0	6,062	(65)	5,997
Plant a Chefnogi Teuluoedd	1	1,847	0	1,848	0	1,848
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd*)	6,214	4,417	0	10,631	0	10,631
Amgylchedd	3,429	907	0	4,336	0	4,336
Tai ac Eiddo	3,192	714	0	3,906	0	3,906
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1	256	0	257	0	257
Ymgynghoriaeth Gwynedd	377	932	0	1,309	0	1,309
Corfforaethol	375	1,809	700	2,884	(156)	2,728
Cost Gwasanaethau	25,053	23,269	700	49,022	(221)	48,801
Gwariant Gweithredol Arall	(171)	0	0	(171)	0	(171)
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	(10,005)	7,441	(97)	(2,661)	221	(2,440)
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	(18,252)	0	0	(18,252)	0	(18,252)
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(3,375)	30,710	603	27,938	0	27,938

* Cefnffyrdd - Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

(i) Addasiadau i Bwrpas Cyfalaf

- Ar gyfer **gwasanaethau**, mae'r golofn yma yn ychwanegu dibrisiant, amhariad ac elw a cholledion ailbrisiad.
- **Gwariant gweithredol arall** – yn addasu ar gyfer gwarediadau cyfalaf gyda throsglwyddiad o incwm ar waredu asedau a'r symiau â ddileuwyd ar gyfer yr asedau hynny.
- **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi** – mae'r costau statudol ar gyfer ariannu cyfalaf, h.y. darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf a chyfraniadau refeniw arall yn cael eu tynnu allan o incwm a gwariant arall gan na ellir codi amdanynt o dan ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig.
- **Treth ac incwm grant amhenodol** - mae grantiau cyfalaf yn cael eu haddasu ar gyfer incwm na ellir codi amdano dan ymarferion cyfrifo. Mae grantiau refeniw yn cael eu haddasu o rhai sy'n dderbyniadwy yn y flwyddyn i rai sy'n dderbyniadwy heb amodau neu lle mae amodau wedi eu bodloni trwy gydol y flwyddyn. Mae'r llinell Treth ac Incwm Grant Amhenodol yn cael ei chredydu gyda grantiau cyfalaf derbyniadwy yn y flwyddyn heb amodau neu lle mae'r amodau wedi eu bodloni yn y flwyddyn.

NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)

(ii) Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiynau

Newidiadau net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegiadau *Buddion Gweithwyr* SCRh 19 sy'n gysylltiedig â chostau ac incwm pensiwn:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae hyn yn cynrychioli hepgor y cyfraniadau pensiwn cyflogwr wnaed gan yr Awdurdod fel y caniateir trwy statud a'u amnewid gyda'r costau gwasanaeth cyfredol a'r costau gwasanaeth hanesyddol.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi**, y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n gost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

(iii) Gwahaniaethau Eraill

Mae gwahaniaethau eraill rhwng y swm sy'n cael ei ddebydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/derbyniadwy i gael eu cydnabod trwy statud:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r swm yn cynrychioli addasiad am Groniad absenoldebau a enillwyd ond heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a Buddsoddi**, mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer gwahaniaethau amseru am breimymau a disgownt.

(iv) Addasiadau (Anstatudol) Eraill

- **Gwasanaethau** - mae'r lwfans colled amhariad ar Ddyledwyr Masnachol wedi'i ddidynnu ac wedi trosglwyddo i wariant ac incwm ariannu a buddsoddi.
- **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi** – wedi'i addasu i drosglwyddo lwfans colled amhariad ar Ddyledwyr Masnachol o wasanaethau.

NODYN 9 – ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Awdurdod i gwrdd â gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

2020/21 ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU	Reserfau Defnyddiadwy			
	Balans Cronfa Gyffredinol £'000	Reserf Derbyniadau Cyfalaf £'000	Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio £'000	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio £'000
Addasiadau i Adnoddau Refeniw				
<i>Symiau ble mae'r incwm a gwariant sy'n gynwysiedig yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r refeniw am y flwyddyn sy'n cael ei gyfrifo yn unol â'r gofynion statudol</i>				
Costau pensiwn (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Pensiynau)	(18,228)	0	0	18,228
Offerynnau ariannol (trosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol)	85	0	0	(85)
Tâl Gwyliau (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Absenoldebau Cronedig)	224	0	0	(224)
Gwrthdroi eitemau sydd wedi eu cynnwys yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf (mae'r eitemau hyn yn cael eu rhoi yn erbyn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf)	(80)	0	0	80
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw	(17,999)	0	0	17,999
Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf				
Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu credydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(16)	(205)	0	221
Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth	5,426	0	0	(5,426)
Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth	2,173	0	0	(2,173)
Gwariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu o falansau refeniw (trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf)	1,232	0	0	(1,232)
Cyfanswm Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf	8,815	(205)	0	(8,610)
Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf				
Defnydd o'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf	0	43	0	(43)
Defnydd o'r grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf	0	0	(1,261)	1,261
Taliadau arian parod yn ymwneud â derbyniadau cyfalaf gohiriedig	0	0	0	0
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf	0	43	(1,261)	1,218
CYFANSWM ADDASIADAU	(9,184)	(162)	(1,261)	10,607

NODYN 9 – ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU (parhad)

2019/20 ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU	Reserfau Defnyddiadwy			
	Balans Cronfa Gyffredinol £'000	Reserf Derbyniadau Cyfalaf £'000	Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio £'000	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio £'000
Addasiadau i Adnoddau Refeniw				
<i>Symiau ble mae'r incwm a gwariant sy'n gynwysiedig yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r refeniw am y flwyddyn sy'n cael ei gyfrifo yn unol â'r gofynion statudol</i>				
Costau pensiwn (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Pensiynau)	(30,710)	0	0	30,710
Offerynnau ariannol (trosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol)	50	0	0	(50)
Tâl Gwyliau (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Absenoldebau Cronedig)	(599)	0	0	599
Gwrthdroi eitemau sydd wedi eu cynnwys yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf (mae'r eitemau hyn yn cael eu rhoi yn erbyn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf)	(6,629)	0	0	6,629
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw	(37,888)	0	0	37,888
Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf				
Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu credydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(54)	(494)	0	548
Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth	5,465	0	0	(5,465)
Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth	1,954	0	0	(1,954)
Gwariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu o falansau refeniw (trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf)	2,585	0	0	(2,585)
Cyfanswm Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf	9,950	(494)	0	(9,456)
Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf				
Defnyddio'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf	0	423	0	(423)
Defnyddio'r grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf	0	0	1,295	(1,295)
Taliadau arian parod yn ymwneud â derbyniadau cyfalaf gohiriedig	0	0	0	0
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf	0	423	1,295	(1,718)
CYFANSWM ADDASIADAU	(27,938)	(71)	1,295	26,714

NODYN 10 – TROGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD

Balansau Ysgolion

Cynrychiolai'r swm yma'r elfen o falansau a ryddhawyd o dan ddatganoli cyllideb yn uniongyrchol i'r ysgolion ond sydd heb eu gwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac sydd yn gynydd net o £6.4m o'i gymharu â'r balans ar 31 Mawrth 2020:

2020/21	Balans 31 Mawrth 2020 £'000	Trosglwyddiadau			Balans 31 Mawrth 2021 £'000
		rhwng cronfeydd £'000	mewn £'000	allan £'000	
Balansau Ysgolion	4,333	0	6,551	(131)	10,753
Cyfanswm	4,333	0	6,551	(131)	10,753

NODYN 10 – TROGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

Reserfau a Glustnodwyd

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r symiau a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, a'r symiau hynny a drosglwyddwyd nôl o'r reserfau a glustnodwyd i gwrdd â gwariant y Gronfa Gyffredinol yn 2020/21, gyda cynnydd net o £20.2m ers sefyllfa 31 Mawrth 2020.

2020/21		Balans	Trosglwyddiadau			Balans
		31	rhwng			31
		Mawrth	cronfeydd	mewn	allan	Mawrth
Nodyn		2020				2021
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
10.1	Reserfau Adnewyddu	7,817	0	3,086	(200)	10,703
10.2	Reserfau Cyfalaf	11,997	(213)	3,904	(56)	15,632
10.3	Reserfau Yswiriant	2,387	0	624	(513)	2,498
10.4	Cronfa Gwasanaethau	3,373	(281)	1,813	(316)	4,589
10.5	Cronfa Rhaglen Cydgyfeiriant	1,132	0	0	(122)	1,010
10.6	Cronfa Costau Diswyddo i Wireddu Arbedion	3,236	0	0	(122)	3,114
10.7	Hyfforddiant Canolog	220	237	1,100	(89)	1,468
10.8	Reserfau Gwasanaethau Addysg	920	0	794	(24)	1,690
10.9	Reserfau Economi a Chymuned	171	0	71	0	242
10.10	Reserfau Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	376	0	1,216	0	1,592
10.11	Reserfau Ymgynghoriaeth Gwynedd	185	0	0	0	185
10.12	Reserfau Amgylchedd	1,514	0	154	(3)	1,665
10.13	Reserfau Tai ac Eiddo	1,924	0	1,190	(26)	3,088
10.14	Reserfau Gofal	1,028	0	267	(70)	1,225
10.15	Cronfa Ffordd Gwynedd	450	0	0	0	450
10.16	Cronfa Buddsoddi i Arbed - Prosiect Rheoli Carbon	629	0	0	(33)	596
10.17	Cronfa Trawsfurfio / Cynllun y Cyngor	9,049	0	4,225	(811)	12,463
10.18	Cronfa Grantiau Refeniw wedi eu hymrwymo	810	0	94	(35)	869
10.19	Cronfa Gwasanaethau Dŵr a Charthffosiaeth Tai	328	0	0	(86)	242
10.20	Gwarant Amgylcheddol Tai	480	0	0	0	480
10.21	Reserfau Technoleg Gwybodaeth	620	(140)	75	0	555
10.22	Cronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol	2,656	0	0	(312)	2,344
10.23	Cronfa Maes Lles	100	0	0	0	100
10.24	Trefniadau Partneriaethu	306	0	0	0	306
10.25	Cronfa Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru	497	0	241	(646)	92
10.26	Ymrwymadau yn Berthnasol i'r Gronfa Bensiwn	1,028	0	0	0	1,028
10.27	Cronfa Trosglwyddiadau Eiddo Treth Cyngor	490	0	0	0	490
10.28	Cronfa Premiwm Treth Cyngor	5,004	0	2,851	(703)	7,152
10.29	Cronfa Trefniadau Adfer yn Sgil Covid-19	0	0	2,519	0	2,519
10.30	Amrywiol Reserfau Eraill	458	397	261	(109)	1,007
Cyfanswm		59,185	0	24,485	(4,276)	79,394

Nid yw sefyllfa balans terfynol reserfau a glustnodwyd ar 31 Mawrth 2021 yn adlewyrchu'r lefel o ymrwymadau a wnaethpwyd yn eu herbyn. Nodir isod fanylion o brif reserfau penodol y Cyngor.

NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

- 10.1 Mae'r Reserfau Adnewyddu yn cael eu defnyddio gan adrannau amrywiol o'r Cyngor i adnewyddu cerbydau ac offer.
- 10.2 Mae'r Reserfau Cyfalaf yn cynrychioli adnoddau a ymrwymwyd eisoes i gynorthwyo ariannu'r Rhaglen Gyfalaf y Cyngor a gofynion eraill.
- 10.3 Nid yw Cyngor Gwynedd yn yswirio pob risg gydag yswirwyr allanol ond yn hytrach fe sefydlwyd cronfa er mwyn cwrdd â'r gofynion yma'n fewnol. Mae'r balans ar y Reserfau Yswiriant hefyd yn cynnwys elfen ar gyfer gofynion yswiriant sy'n berthnasol i'r cyn Gyngor Sir Gwynedd (hyd at 1996) ac a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.
- 10.4 Mae'r Gronfa Gwasanaethau yn gronfa sy'n dal llithriadau a thanwariant y mae hawl i adrannau ei gario drosodd o flwyddyn i flwyddyn, cyllidebau penodol a pherthnasol eraill a chyllidebau unwaith ac am byth sy'n ymestyn dros fwy nag un flwyddyn.
- 10.5 Cronfa Rhaglen Cydgyfeiriant – symiau a neilltuwyd ar gyfer cyfraniad cyfatebol gan y Cyngor mewn perthynas â chynlluniau refeniw a chyfalaf o dan y Rhaglen Cydgyfeiriant.
- 10.6 Cronfa Costau Diswyddo i Wireddu Arbedion – darpariaeth ar gyfer ariannu costau diswyddo i wireddu arbedion cyllidol.
- 10.7 Hyfforddiant Canolog – perthnasol i ofynion cynlluniau rhaglen hyfforddi gweithwyr y Cyngor gan gynnwys cyfraniad tuag at gyllido cynllun Prentisiaethau a Chynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory.
- 10.8 Reserfau Gwasanaethau Addysg – yn cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i allu ymateb yn bennaf i'r problemau ariannol cysylltiedig â gofynion 'Integreiddio', gofynion newidiol 'Anghenion Addysg Arbennig All Sirol', 'Cefnogi Ysgolion' a'r 'Cynllun Benthyciadau i Ysgolion'.
- 10.9 Mae Reserfau Economi a Chymuned yn cynnwys amrywiol falansau sy'n perthyn i gynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth yn bennaf, ble mae'n rhaid cyfrifo balansau'r cynlluniau ar wahân.
- 10.10 Mae Reserfau Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn bennaf yn cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod sefyllfaoedd gwariant ac incwm anwastad (equalisation accounts) ynghyd â gofynion tebygol contractau.
- 10.11 Reserfau Ymgynghoriaeth Gwynedd – cynhwysir symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod sefyllfaoedd gwariant anwastad efo rhai meysydd gwaith ynghyd â gofynion cyflogaeth ychwanegol posib yn dilyn newidiadau i raglen waith y Gwasanaeth Ymgynghoriaeth.
- 10.12 Reserfau Amgylchedd - yn cynnwys amrywiol falansau sy'n perthyn i Drafndiaeth, cynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth, ble mae'n rhaid cyfrifo balansau cynlluniau ar wahân, ynghyd â gofynion yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Unedol, a symiau ar gyfer sefyllfaoedd gwariant anwastad.
- 10.13 Reserfau Tai ac Eiddo – cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod rhag sefyllfaoedd gwariant anwastad posib ynghyd â chronfeydd amrywiol ar gyfer anghenion tai ac eiddo'r Cyngor.
- 10.14 Reserfau Gofal – cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod rhag sefyllfaoedd gwariant anwastad posib o ganlyniad i ofynion contractau.
- 10.15 Cronfa Ffordd Gwynedd - i gynorthwyo'r broses trawsnewid busnes, gwireddu arbedion a chynorthwyo cyflawni nod ac amcanion "Ffordd Gwynedd".
- 10.16 Cronfa Buddsoddi i Arbed – Prosiect Rheoli Carbon – rhannol ariannu rhaglen waith y Prosiect Rheoli Carbon i gyflawni gostyngiad mewn allyriadau carbon ynghyd â chynhyrchu arbedion refeniw ariannol i'r Cyngor.

NODYN 10 – TROGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

- 10.17 Cronfa Trawsfurfio / Cynllun y Cyngor – ar gyfer blaenoriaethau'r Cyngor ac ar gyfer newid trefniadau mewnol i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon ac ar gyfer buddsoddi mewn gwahanol gynlluniau i wireddu arbedion cyllidol parhaol.
- 10.18 Cronfa Grantiau Refeniw wedi eu hymrwymo - cynnwys grantiau refeniw a dderbyniwyd ac a ymrwymwyd ar gyfer defnydd yn y dyfodol.
- 10.19 Cronfa Gwasanaethau Dŵr a Charthffosiaeth Tai - swm a neilltuwyd ar gyfer rhai gofynion yn ymwneud a threfniadau carthffosiaeth, pibellau dŵr a gweithfeydd trin carthion ar stadau cyn tai cyngor, na fabwysiadwyd gan Dŵr Cymru.
- 10.20 Gwarant Amgylcheddol Tai - neilltuwyd ar gyfer ymhlygiadau posib o ganlyniad i roddi gwarant amgylcheddol i Adra, mewn perthynas ag amgylchiadau arbennig a phenodol yn ymwneud â chynlluniau amgylcheddol ar dir stadau cyn tai cyngor.
- 10.21 Reserfau Technoleg Gwybodaeth - ar gyfer ymateb i ofynion yn y maes technoleg gwybodaeth gan gynnwys cronfa adnewyddu berthnasol ac i allu ymateb i batrymau gwariant anwastad.
- 10.22 Cronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol - cronfa a sefydlwyd i gynorthwyo a chefnogi'r strategaeth ariannol y Cyngor.
- 10.23 Cronfa Maes Lles - darpariaeth ar gyfer ymdrin â phatrymau anwastad yn y gofynion perthnasol.
- 10.24 Trefniadau Partneriaethu - yn cynnwys symiau a neilltuwyd mewn perthynas â gofynion gwahanol drefniadau partneriaethu a chydweithio.
- 10.25 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru - ar gyfer gofynion ac ymrwymadau'r cynllun hybu economaidd perthnasol i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (elfen Cyngor Gwynedd yn unig).
- 10.26 Ymrwymadau yn berthnasol i'r Gronfa Bensiwn - ar gyfer gofynion ac ymrwymadau perthnasol i ddyfodol y Cynllun Pensiwn.
- 10.27 Cronfa Trosglwyddiadau Eiddo Treth Cyngor - darpariaeth gysylltiedig â'r colledion yn deillio o drosglwyddiadau eiddo o Dreth y Cyngor i Drethi Annomestig Cenedlaethol.
- 10.28 Cronfa Premiwm Treth Cyngor – darpariaeth yn deillio o Bremiwm Treth y Cyngor ar gyfer cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor, gan gynnwys y Strategaeth Dai.
- 10.29 Cronfa Trefniadau Adfer Sgil Covid-19 – darpariaeth ar gyfer adfer gwasanaethau yn sgil y pandemig.
- 10.30 Amrywiol Reserfau Eraill – yn cynnwys symiau a neilltuwyd ar gyfer amrywiol ymrwymadau eraill.

NODYN 11 – GWARIANT GWEITHREDOL ARALL

2019/20 £'000		2020/21 £'000
	Praeseptau	
14,441	Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	15,088
2,344	Cynghorau Cymuned	2,504
16,785		17,592
	Lefiau	
6,227	Awdurdod Tân Gogledd Cymru	6,364
962	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	962
109	Byrddau Draenio Lleol	119
7,298		7,445
(171)	(Enillion)/colledion ar waredu a dad-gydnabod asedau anghyfredol	(152)
23,912	Cyfanswm	24,885

NODYN 12 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

2019/20 £'000		2020/21 £'000
6,009	Llog taladwy a thaliadau tebyg	5,961
7,441	Llog net ar yr ymrwymadau (asedau) buddion pensiwn diffiniedig net	5,771
(546)	Llog derbyniadwy ac incwm tebyg	(422)
227	Addasiadau i ddarpariaethau a gwerth teg offerynnau ariannol	532
13,131	Cyfanswm	11,842

NODYN 13 – TRETH AC INCWM GRANT AMHENODOL

2019/20 £'000		Nodyn	2020/21 £'000
(89,364)	Incwm Y Dreth Cyngor	13a	(92,351)
(40,502)	Trethi Annomestig	13b	(39,526)
(136,049)	Grantiau'r Llywodraeth heb eu clustnodi	32	(148,053)
0	Grantiau a Chyfraniadau Refeniw	32	(1,211)
(18,253)	Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf	32	(21,577)
(284,168)	Cyfanswm		(302,718)

NODYN I3a - Y DRETH CYNGOR

Mae'r Cyngor yn penderfynu ar ei anghenion gwariant am y flwyddyn ac yn ei drosi i Dreth Cyngor Band D drwy ei rannu gyda chyfrifiad o'r nifer eiddo sydd ym mhob band Treth Cyngor a'u datgan yn nhermau nifer cyfatebol ym Mand D (Sylfaen y Dreth Cyngor). Yna, ychwanegir gofynion Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru at y swm yma i sefydlu'r Dreth Cyngor ar gyfer y Sir.

Cyfrifwyd Sylfaen y Dreth Cyngor ar gyfer 2020/21 fel a ganlyn:

CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH CYNGOR AR GYFER 2020/21			
Band	Nifer Eiddo	Lluosogydd	Nifer cyfatebol
Prisio	Cyfatebol yn	Statudol	Eiddo Band D
	dilyn gostyngiadau		
A*	5	5/9	2.78
A	7,512	6/9	5,008.01
B	13,626	7/9	10,597.88
C	10,929	8/9	9,714.93
D	9,566	1	9,565.79
E	7,718	11/9	9,433.23
F	3,848	13/9	5,557.86
G	1,204	15/9	2,006.02
H	203	18/9	406.50
I	64	21/9	149.33
			52,442.33
		Cyfanswm	52,442.33
		Sylfaen y Dreth Gyngor ar ôl lwfans colledion casglu	51,917.91

Rhoddir dadansoddiad o'r incwm net, sy'n deillio i'r Cyngor, isod:

2019/20		2020/21
£'000		£'000
(89,964)	Treth Cyngor a godwyd	(93,434)
600	Llai Cynnydd yn y lwfans amhariad ar gyfer diffyg casgliad	1,083
(89,364)		(92,351)

NODYN 13b - TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL

Fe reolir Trethi Annomestig Cenedlaethol (“Treth Busnes”) gan y Llywodraeth ond Awdurdodau Lleol sy’n gyfrifol am ei gasglu a’i dalu i gronfa ganolog a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Maent hwythau wedyn yn dosrannu symiau o’r gronfa yma i Awdurdodau Lleol ar sail poblogaeth.

Mae’r Llywodraeth yn pennu swm y Dreth Annomestig Genedlaethol am y flwyddyn (53.5c yn 2020/21) a luosir gyda gwerth trethiannol yr eiddo. Yn amodol ar effaith trefniadau dros dro a rhai gostyngiadau eraill, dyma fydd y swm a delir gan y trethdalwr.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2020/21 roedd yna 9,157 eiddo ar y rhestr brisio leol yng Ngwynedd, yn cynrychioli gwerth trethiannol o £114,392,123.

Rhoddir isod ddadansoddiad o’r incwm net cronedig i’r Cyngor o’r Trethi Annomestig:

2019/20		2020/21
£’000		£’000
(41,974)	Trethi Annomestig a godwyd	(43,167)
424	Lwfans Costau Casglu	438
680	Darpariaeth Dyledion Drwg	553
40,870	Swm a dalwyd i’r Gronfa Genedlaethol	42,176
0		0
(40,502)	Derbyniadau o’r Gronfa Genedlaethol	(39,526)
(40,502)	Incwm net o’r Trethi Annomestig	(39,526)

NODYN 14 – CYFRIF INCWM A GWARIANT RHEOLAETH ADEILADAU

Mae’r gwariant ac incwm ar y cyfrif yma yn perthyn i’r gwaith rheoliadau adeiladau ar wirio a goruchwylio, ac yn cynnwys ystyried unrhyw achos gorfodaeth ond nid y gwaith o roi rhybuddion statudol o dan y Ddeddf Adeiladu 1984.

Disgwylir i’r cyfrif adennill y costau dros raglen dreigl tair blynedd, ac mae’r gofynion yn cael eu hadolygu yn flynyddol. Bu colled yn 2020/21, serch derbyniad grant digolledu incwm Covid-19 o £127k, felly adroddir ar golled cronedig dros gyfnod o dair blynedd.

2020/21	£’000
Cyfanswm incwm ffioedd a dderbyniwyd (ag eithrio TAW)	(435)
Cyfanswm gwariant	445
(Gwarged)/Diffyg ar gyfer 2020/21	10
(Gwarged)/Diffyg ar gyfer 2019/20	22
(Gwarged)/Diffyg ar gyfer 2018/19	24
(Gwarged)/Diffyg ar gyfer y tair mlynedd diwethaf	56

NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

Symudiadau ar Falansau Eiddo, Offer a Chyfarpar

Symudiadau yn 2020/21:

	Tir ac Adeiladau	Isadeiladwaith	Cerbydau, Offer a Chyfarpar	Asedau Cymunedol	Asedau Gweddilliol	Asedau heb eu Cwblhau	Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth							
Balans ar 1.04.20	307,919	215,543	49,305	687	1,989	3,927	579,370
Ychwanegiadau	11,375	8,289	5,281	0	9	0	24,954
Gwerthiannau	(63)	0	(1,388)	0	0	0	(1,451)
Trosglwyddiadau	3,436	0	0	0	472	(3,908)	0
Ailbriso - i'r Reserf Ailbriso	12,543	0	0	0	(136)	0	12,407
Ailbriso - i'r Gwasanaethau	(1,846)	0	0	0	(116)	0	(1,962)
Balans ar 31.03.21	333,364	223,832	53,198	687	2,218	19	613,318
Dibrisiant							
Balans ar 1.04.20	6,975	55,568	30,246	4	3	0	92,796
Dibrisiant yn y flwyddyn	6,054	5,764	4,568	2	23	0	16,411
Gwerthiannau	0	0	(1,318)	0	0	0	(1,318)
Trosglwyddiadau	(35)	0	0	0	35	0	0
Ailbriso	(9,062)	0	0	0	(47)	0	(9,109)
Balans ar 31.03.21	3,932	61,332	33,496	6	14	0	98,780
Amhariad							
Balans ar 1.04.20	23,351	63	68	97	26	0	23,605
Amhariad yn y flwyddyn - i'r Reserf Ailbriso	4,005	0	0	0	4	0	4,009
Amhariad yn y flwyddyn - i'r Gwasanaethau	1,983	0	0	0	5	0	1,988
Gwerthiannau	(63)	0	0	0	0	0	(63)
Trosglwyddiadau	(22)	0	0	0	22	0	0
Ailbriso	(10,939)	0	0	0	(36)	0	(10,975)
Balans ar 31.03.21	18,315	63	68	97	21	0	18,564
Gwerth Net	311,117	162,437	19,634	584	2,183	19	495,974
31 Mawrth 2021							
Gwerth Net	277,593	159,912	18,991	586	1,960	3,927	462,969
31 Mawrth 2020							

NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR (parhad)

Symudiadau Cymharol yn 2019/20:

	Tir ac Adeiladau £'000	Isadeiladwaith £'000	Cerbydau, Offer a Chyfarpar £'000	Asedau Cymunedol £'000	Asedau Gweddilliol £'000	Asedau heb eu Cwblhau £'000	Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar £'000
Gwerth							
Balans ar 1.04.19	306,537	208,377	44,231	1,144	2,263	9,615	572,167
Ychwanegiadau	7,417	7,166	6,622	4	24	4,940	26,173
Gwerthiannau	(6)	0	(1,548)	0	(330)	0	(1,884)
Trosglwyddiadau	10,893	0	0	0	275	(10,628)	540
Ailbriso - i'r Reserf Ailbriso	(14,290)	0	0	(132)	(175)	0	(14,597)
Ailbriso - i'r Gwasanaethau	(2,632)	0	0	(329)	(68)	0	(3,029)
Balans ar 31.03.20	307,919	215,543	49,305	687	1,989	3,927	579,370
Dibrisiant							
Balans ar 1.04.19	7,205	49,983	27,500	2	(1)	0	84,689
Dibrisiant yn y flwyddyn	5,901	5,585	4,223	2	9	0	15,720
Gwerthiannau	0	0	(1,477)	0	0	0	(1,477)
Trosglwyddiadau	0	0	0	0	0	0	0
Ailbriso	(6,131)	0	0	0	(5)	0	(6,136)
Balans ar 31.03.20	6,975	55,568	30,246	4	3	0	92,796
Amhariad							
Balans ar 1.04.19	34,306	63	68	229	39	0	34,705
Amhariad yn y flwyddyn - i'r Reserf Ailbriso	3,352	0	0	0	0	0	3,352
Amhariad yn y flwyddyn - i'r Gwasanaethau	3,438	0	0	0	24	0	3,462
Gwerthiannau	0	0	0	0	(30)	0	(30)
Trosglwyddiadau	0	0	0	0	0	0	0
Ailbriso	(17,745)	0	0	(132)	(7)	0	(17,884)
Balans ar 31.03.20	23,351	63	68	97	26	0	23,605
Gwerth Net	277,593	159,912	18,991	586	1,960	3,927	462,969
31 Mawrth 2020							
Gwerth Net	265,026	158,331	16,663	913	2,225	9,615	452,773
31 Mawrth 2019							

NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR (parhad)

Prisiwyd eiddo gweithredol y Cyngor gan Uwch Syrfeur Stadau (M.R.I.C.S) y Cyngor yn unol â'r polisiau a nodwyd yn rhan 1.17 o Nodyn 1 o'r Polisiau Cyfrifo ac eiddo an-weithredol (gweddilliol) yn unol â 1.15. Noder bod lefel uchel o ansicrwydd ynghylch oblygiadau tymor canolig yr effeithiau cyfredol y pandemig COVID-19 ac ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd. Tybir na fydd hyn yn effeithio yn sylweddol ar werth asedau'r Cyngor. Bydd angen adolygu'r dybiaeth yn rheolaidd. Noder hefyd fod yr Awdurdod wedi sefydlu rhaglen dreigl ar gyfer ailbriso gwahanol categorïau o'r asedau yma yn flynyddol.

Gweler nodyn 1.17 hefyd ar gyfer sail dibrisio'r gwahanol categorïau o asedau.

Defnyddir 11 ysgol sydd o dan lywodraethiant eglwysig gan yr Adran Addysg, gyda 10 o'r adeiladau heb eu cynnwys yn y tabl uchod oherwydd nad ydynt yn eiddo i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw'r adeiladau yma ond nid yw'r symiau yn sylweddol. Mae Ysgol Cae Top ym Mangor yn cael ei ystyried ar hyn o bryd fel ased y Cyngor yn ein cyfrifon, ac nid fel ysgol eglwysig. Mae statws cyfreithiol yr ased yn destun adolygiad cyfreithiol a all effeithio'r driniaeth yn y cyfrifon yn y dyfodol.

Dangosir y ffyrdd o gyllido'r asedau a brynwyd yn ystod y flwyddyn gyda'r wybodaeth ar wariant cyfalaf yn yr adroddiad naratif.

Ymrwymïadau Cyfalaf

Roedd yr ymrwymïadau o sylwedd ar gytundebau cyfalaf ar 31 Mawrth 2021 fel a ganlyn:

	Swm	Taliadau	Balans
	£'000	hyd yma	£'000
		£'000	£'000
Ysgol y Garnedd - estyniad ac ailwampio	8,104	7,759	345
Cae Chwarae Pob Tywydd- Plas Silyn	579	263	316
Ysgol y Faenol - Addasiadau	3,542	1,536	2,006
Ysgol Cymerau - Addasiadau	1,676	522	1,154
Hafod Mawddach - Uned Dementia	716	334	382
Ysgol Glancegin - Addasiadau	390	104	286
Neuadd Dwyfor	708	173	535

NODYN 16 – EIDDO BUDDSODDI

Mae'r eitemau canlynol o incwm a chostau wedi eu cymryd i ystyriaeth yn y llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

	2019/20	2020/21
	£'000	£'000
Incwm rhent o eiddo buddsoddi	7	7
Enillion/(colledion) net	7	7

Nid oes cyfyngiadau ar allu'r Awdurdod i adnabod gwerth ei eiddo buddsoddi, nac ychwaith ar hawl yr Awdurdod i'r incwm a'r elw sy'n deillio o'r gwerthiant. Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw ymrwymiad cytundebol i brynu, adeiladu na datblygu eiddo buddsoddi na'i atgyweirio, cynnal na'i wella.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r symudiad yng ngwerth teg yr eiddo buddsoddi yn ystod y flwyddyn:

	2019/20	2020/21
	£'000	£'000
Balans 1 Ebrill	705	165
Gwarediadau	0	0
Elw/(colled) net o addasiadau gwerth teg	0	0
<u>Trosglwyddiadau:</u>		
(i)/o Eiddo, Offer a Chyfarpar	(540)	0
Balans 31 Mawrth	165	165

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL

(i) Offerynnau Ariannol - Dosbarthiadau

Diffinnir offeryn ariannol fel unrhyw gytundeb sydd yn creu ased ariannol mewn un endid ac ymrwymiad ariannol neu offeryn ecwiti mewn endid arall. Nid yw trafodion nad ydynt yn cael eu cyfnewid, megis rhai sy'n ymwneud â threthi a grantiau'r llywodraeth, yn gyfystyr ag offerynnau ariannol.

Ymrwymadau Ariannol

Mae ymrwymiad ariannol yn ddyletswydd i drosglwyddo buddion economaidd a reolir gan y Cyngor, a all gynrychioli ddyletswydd gytundebol i gyflwyno arian parod neu asedau ariannol, neu ddyletswydd i gyfnewid ymrwymadau ac asedau ariannol gydag endid arall sydd o bosib yn anffafriol i'r Cyngor.

Mae ymrwymadau ariannol y Cyngor nad ydynt yn ddeilliadol yn ystod y flwyddyn yn cael eu mesur ar gost wedi'i amorteiddio, ac yn cynnwys:

- benthyciadau tymor hir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a benthycwyr masnachol
- Trefniant Consesiwn Gwasanaeth (cytundebau Menter Cyllid Preifat (MPC)) a fanylir yn Nodyn 41
- gorddrafft gyda Banc Barclays ccc
- benthyciadau tymor byr gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai
- prydlesau cyllidol a fanylir yn Nodyn 35
- taliadau masnach am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd

Asedau Ariannol

Mae ased ariannol yn golygu hawl i fuddion economaidd yn y dyfodol a reolir gan y Cyngor. Fe'i cynrychiolir gan arian parod, offerynnau ecwiti neu hawl cytundebol i dderbyn arian parod neu ased ariannol arall, neu hawl i gyfnewid asedau ac ymrwymadau ariannol gyda endid arall sydd yn ffafriol i'r Cyngor. Mae'r asedau ariannol a ddaliwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn cael eu cyfrifo o fewn y tri dosbarth a ganlyn:

Cost wedi'i amorteiddio (ble mae'r llif arian yn daliadau prifswm a llog yn unig, ac mai cynllun busnes y Cyngor yw i gasglu'r llif arian hynny) yn cynnwys:

- arian parod
- cyfrifon banc a chyfrifon adnau
- adneuo cyfnod penodol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu
- benthyciadau i awdurdodau lleol eraill
- benthyciadau i gwmnïoedd bach
- derbyniadau masnach am nwyddau a gwasanaethau a gyflenwyd

Gwerth teg trwy incwm cynhwysfawr arall (ble mae'r llif arian yn daliadau prifswm a llog yn unig, ac mai cynllun busnes y Cyngor yw i gasglu'r llif arian hynny yn ogystal â gwerthu'r offeryn; a buddsoddiadau ecwiti mae'r Cyngor wedi eu rhoi'n y categori hwn) yn cynnwys:

- bond cyfun, ecwiti a chronfeydd eiddo a ddelir fel buddsoddiadau strategol

Gwerth teg trwy elw a cholled (asedau ariannol eraill) yn cynnwys:

- cronfeydd marchnadoedd arian

Dangosir asedau ariannol a ddelir ar gost wedi'i amorteiddio yn net o lwfans colled sydd yn adlewyrchu'r tebygolrwydd ystadegol na fydd y benthyciwr neu'r dyledwr yn gallu cyflawni ei ymrwymadau cytundebol i'r Cyngor.

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

(ii) Offerynnau Ariannol – Balansau

Mae'r ymrwymadau ariannol a ddatgelir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

Ymrwymadau Ariannol	Tymor Hir		Tymor Byr	
	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2021
	£'000	£'000	£'000	£'000
<i>Benthyciadau ar gost wedi'i amorteiddio:</i>				
Prifswm a fenthycwyd	104,346	103,110	20,578	6,579
Llog cronedig	0	0	534	511
Cyfanswm Benthyciadau *	104,346	103,110	21,112	7,090
<i>Benthyciadau ar gost wedi'i amorteiddio:</i>				
Gorddrafft banc	0	0	22,338	18,221
Cyfanswm Arian a Ordynnwyd	0	0	22,338	18,221
<i>Ymrwymadau ar gost wedi'i amorteiddio:</i>				
Prydlesau cyllidol	1,540	1,370	0	0
Cyfanswm Ymrwymadau Tymor Hir	1,540	1,370	0	0
<i>Ymrwymadau ar gost wedi'i amorteiddio:</i>				
Dyledion masnachol	0	0	33,972	41,492
Prydlesau cyllidol	0	0	160	170
Cynhwyswyd o fewn Credydwyr **	0	0	34,132	41,662
Cyfanswm yr Ymrwymadau Ariannol	105,886	104,480	77,582	66,973

* Mae cyfanswm y benthyciadau tymor byr yn cynnwys £1,819,000 (2020: £1,848,000) sy'n cynnwys y llog cronedig a'r ad-daliadau prifswm sy'n ddyledus o fewn 12 mis ar y benthyciadau tymor hir.

** Mae llinell credydwyr tymor byr ar y Fantolen yn cynnwys £38,356,000 (2020; £19,017,000) o gredydwyr (Nodyn 21) nad ydynt yn cyfateb i'r diffiniad o ymrwymiad ariannol.

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae'r asedau ariannol a ddatgelir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

Asedau Ariannol	Tymor Hir		Tymor Byr	
	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth
	2020	2021	2020	2021
	£'000	£'000	£'000	£'000
<i>Ar gost wedi'i amorteiddio:</i>				
Prifswm	17	17	3,000	26,000
Llog cronedig	0	0	3	5
Lwfans colled	0	0	(4)	(3)
<i>Ar werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall:</i>				
Offerynnau ecwiti wedi dewis i gyfrifo drwy werth teg drwy ICA	0	0	8,260	8,916
Cyfanswm Buddsoddiadau	17	17	11,259	34,918
<i>Ar gost wedi'i amorteiddio:</i>				
Prifswm	0	0	5,770	2,619
Llog cronedig	0	0	1	0
Lwfans colled	0	0	(6)	(1)
<i>Ar werth teg drwy elw a cholled:</i>				
Gwerth teg	0	0	9,135	26,000
Cyfanswm Arian a Chyferthoedd Arian	0	0	14,900	28,618
<i>Ar gost wedi'i amorteiddio:</i>				
Derbyniadau Masnachol	3,948	4,371	16,723	14,599
Cynhwyswyd o fewn Dyledwyr *	3,948	4,371	16,723	14,599
Cyfanswm Asedau Ariannol	3,965	4,388	42,882	78,135

* Mae llinell tymor byr dyledwyr ar y Fantolen yn cynnwys £69,633,000 (£59,692,000 ar 31 Mawrth 2020) o ddyledwyr (Nodyn 18) nad ydynt yn cwrdd â'r diffiniad o ased ariannol.

Benthyciadau Meddal Materol

Mae gan Awdurdodau Lleol yr hawl i roi benthyciadau am resymau polisi yn hytrach na fel offerynnau ariannol, ac fe all y benthyciadau yma fod yn ddi-log neu ar gyfraddau is na chyfraddau cyffredinol y farchnad. Pan mae benthyciadau yn cael eu dyroddi ar gyfradd is na chyfradd y farchnad maent yn cael eu hadnabod fel "Benthyciadau Meddal".

Mae gwerth teg y benthyciadau meddal yma yn llai na chyfanswm yr arian a fenthycwyd. Mae gwerth teg benthyciad, sy'n cael ei roi yn ddi-log neu ar gyfradd is na chyfradd gyffredinol y farchnad, yn cael ei amcangyfrif fel gwerth presennol holl dderbyniadau arian y dyfodol wedi ei ddisgowntio yn defnyddio cyfradd llog y farchnad gyffredinol ar gyfer offeryn cyffelyb. Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm a fenthycir a gwerth teg y benthyciad yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant. Mae Côt Ymarfer 2020/21 yn gosod gofynion cyfrifeg a datgeliad penodol ar gyfer benthyciadau meddal. Yn ystod 2020/21 fe adnabu Cyngor Gwynedd y "benthyciadau meddal" canlynol:

- Taliadau Gohiriedig am daliadau sy'n ddyledus gan bobl mewn gofal (cyfanswm yn ddyledus ar 31.03.21 £2,331,787)
- Benthyciadau Ceir a Beiciau i weithwyr (cyfanswm yn ddyledus ar 31.03.21 £954,765)

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Offerynnau ecwiti wedi dewis i gyfrifo drwy werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall

Mae'r Cyngor wedi dewis i gyfrifo am y buddsoddiadau canlynol mewn offerynnau ecwiti ar sail gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall oherwydd eu bod yn fuddsoddiad strategol tymor hir gyda'r newidiadau yn eu gwerth teg ddim yn cael ei gynnwys fel rhan o berfformiad ariannol blynyddol y Cyngor.

	Gwerth Teg		Difidendau	
	31 Mawrth	31 Mawrth	2019/20	2020/21
	2020	2021	2019/20	2020/21
	£'000	£'000	£'000	£'000
CCLA LAMIT Property Fund	4,438	4,407	199	196
Ninety One Diversified Income Fund	1,130	1,242	51	47
Schroder Income Maximiser Fund	1,633	2,008	62	124
Aegon Diversified Monthly Income Fund	1,059	1,259	187	53
CYFANSWM	8,260	8,916	499	420

Gwrthbwysio Asedau ac Ymrwymadau Ariannol

Mae asedau ac ymrwymadau ariannol yn cael eu gosod yn erbyn ei gilydd ble mae gan y Cyngor hawl gorfodol cyfreithiol i wrthbwysio ac yn bwriadu setlo ar sail net, neu i wireddu'r asedau a setlo'r ymrwymadau yn gydamserol. Mae'r tabl isod yn dangos yr offerynnau hynny sydd wedi cael eu gosod yn erbyn ei gilydd ar Y Fantolen. Nid oedd gan y Cyngor unrhyw asedau nac ymrwymadau ariannol eraill oedd yn destun i drefniant gorfodol neu drefniant tebyg.

	31 Mawrth 2020			31 Mawrth 2021		
	Asedau gros (ymrwym iadau)	(Ymrwymadau) asedau wedi eu gwrthbwysio	Sefyllfa net Y Fantolen	Asedau gros (ymrwym iadau)	(Ymrwymadau) asedau wedi eu gwrthbwysio	Sefyllfa net Y Fantolen
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyfrifon banc mewn credyd	23,115	(23,115)	0	32,245	(32,245)	0
Cyfanswm Asedau Ariannol	23,115	(23,115)	0	32,245	(32,245)	0
Gorddrafft banc	(45,453)	23,115	(22,338)	(50,466)	32,245	(18,221)
Cyfanswm Ymrwymadau Ariannol	(45,453)	23,115	(22,338)	(50,466)	32,245	(18,221)

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

(iii) Offerynnau Ariannol – Enillion a Cholledion

Mae'r enillion a cholledion a nodir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas â'r offerynnau ariannol yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:

	Ymrwymadau Ariannol	Asedau Ariannol			2020/21 Cyfanswm	2019/20 Cyfanswm
	Cost wedi'i Amorteiddio	Cost wedi'i Amorteiddio	Wedi ethol Gwerth Teg drwy ICA	Gwerth Teg drwy Elw a Cholled		
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Costau llog	5,961	0	0	0	5,961	6,010
Llog taladwy a ffioedd tebyg	5,961	0	0	0	5,961	6,010
Incwm llog	0	(92)	0	0	(92)	(123)
Incwm difidendau	0	0	(301)	(29)	(330)	(423)
Incwm y llog a'r buddsoddiad	0	(92)	(301)	(29)	(422)	(546)
Lwfans colled	0	532	0	0	532	227
Addasiadau i ddarpariaethau a gwerth teg offerynnau ariannol	0	532	0	0	532	227
Effaith net ar (Gwarged)/ Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	5,961	440	(301)	(29)	6,071	5,691
Enillion wrth ailbriso	0	0	(687)	0	(687)	0
Colledion wrth ailbriso	0	0	32	0	32	1,292
Effaith ar incwm cynhwysfawr arall	0	0	(655)	0	(655)	1,292
(Enillion)/colledion net y flwyddyn	5,961	440	(956)	(29)	5,416	6,983

Mae ffigurau 2019/20 wedi eu hailddatgan i gynnwys lwfansau colledion derbyniadau masnachol ac i gywiro arwydd colledion wrth ailbriso.

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

(iv) Offerynnau Ariannol – Gwerthoedd Teg

Gwerth teg offeryn ariannol yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn wrth werthu ased, neu'r pris a fyddai'n cael ei dalu wrth drosglwyddo ymrwymiad, i gyfranogwr arall yn y farchnad mewn trafodyn hyd braich. Pan fydd ymrwymadau'n cael eu dal fel ased gan barti arall, fel benthycar cyngor, amcangyfrifir y gwerth teg o safbwynt y deilydd.

Mae offerynnau ariannol, ar wahân i'r rhai gyda chost wedi ei amorteiddio, wedi eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg. Ar gyfer y mwyafrif o asedion, yn cynnwys cronfeydd cyfun a chyfranddaliadau mewn cronfeydd marchnadoedd arian, mae'r gwerth teg yn deillio o bris y farchnad.

Mae offerynnau ariannol gyda chost wedi ei amorteiddio wedi eu cynnwys yn y Fantolen ar sail cost wedi'i amorteiddio. Amcangyfrifir eu gwerth teg trwy gyfrifo'r gwerth net presennol o'r llifau arian cytundebol sy'n weddill ar 31 Mawrth 2021, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- Mae benthyciadau'r Cyngor wedi eu prasio trwy ddisgowntio'r llifau arian cytundebol dros fywyd yr offeryn ar gyfradd y farchnad sydd yn addas i fenthyciadau awdurdodau lleol.
- Mae gwerth teg benthyciadau a buddsoddiadau tymor hir eraill wedi eu disgowntio ar gyfraddau'r farchnad ar gyfer offerynnau cyffelyb sydd â chyfnod ad-dalu cyffelyb yn weddill ar 31 Mawrth.
- Mae gwerth teg gwarantau ariannol wedi eu amcanu yn seiliedig ar y tebygolrwydd y caiff y gwarantau eu galw a'r taliadau tebygol.
- Mae gwerth teg asedau ac ymrwymadau prydlesau cyllidol ac ymrwymadau Menter Cyllid Preifat (PFI) wedi eu cyfrifo trwy ddisgowntio'r llifau arian cytundebol (ag eithrio'r elfen tâl am wasanaeth) ar gynnyrch priodol bondiau corfforaethol o radd AA.
- Ni chydabyddir ad-daliadau cynnar nac amhariadau ar gyfer offerynnau ariannol.
- Rhagdybir bod gwerth teg offerynnau tymor byr, gan gynnwys dyledion a derbyniadau masnachol, yn cyfateb yn agos i'r swm cario, o ystyried y sefyllfa llog isel a sefydlog sydd ohoni.

Dengys y gwerthoedd teg yn y tabl isod, wedi eu rhannu yn unol â'u lefel yn yr hierarchaeth gwerth teg:

- Lefel 1 – gwerth teg sydd yn deillio o brisiau a ddyfynnwyd mewn marchnadoedd gweithredol am asedau neu ymrwymadau yr un fath, e.e. prisiau bondiau
- Lefel 2 – gwerth teg sydd wedi ei gyfrifo yn seiliedig ar fewnbynau yn hytrach na prisiau a ddyfynnwyd ar gyfer yr ased neu ymrwymiad, e.e. cyfraddau llog neu gynnyrch am offerynnau tebyg
- Lefel 3 – gwerth teg sydd wedi'i bennu trwy ddefnyddio fewnbynau na ellir eu harsylwi, e.e. data nad yw'n y farchnad fel rhagolwg llif arian neu amcan teilyngdod credyd

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

	Lefel	Mantolen	Gwerth Teg	Mantolen	Gwerth Teg
	Gwerth	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth
	Teg	2020	2020	2021	2021
		£'000	£'000	£'000	£'000
<i>Ymrwymiadau Ariannol ar gost wedi'i amorteiddio</i>					
Benthyciadau gan PWLB	2	(88,652)	(141,125)	(87,311)	(139,255)
Benthyciadau arall	2	(17,806)	(29,462)	(17,883)	(29,980)
Prydlesau cyllidol	2	(1,700)	(1,700)	(1,540)	(1,895)
CYFANSWM		(108,158)	(172,287)	(106,734)	(171,130)
Ymrwymiadau ble nad ydi gwerth teg yn cael ei ddangos *		(75,310)		(64,719)	
CYFANSWM YMRWYMIADAU ARIANNOL		(183,468)		(171,453)	
<i>Wedi ei gofnodi ar y Fantolen fel:</i>					
Credydwyr tymor byr		(33,972)		(41,492)	
Benthyciadau tymor byr		(21,112)		(7,090)	
Arian a Ordynnwyd tymor byr		(22,338)		(18,221)	
Prydlesau cyllidol tymor byr		(160)		(170)	
Benthyciadau tymor hir		(104,346)		(103,110)	
Prydlesau cyllidol tymor hir		(1,540)		(1,370)	
CYFANSWM YMRWYMIADAU ARIANNOL		(183,468)		(171,453)	

* Rhagdybir bod gwerth teg ymrwymiadau ariannol tymor byr, a ddelir ar gost wedi ei amorteiddio, gan gynnwys dyledion masnachol, yn gyfystyr â'r gwerth i'w gario. Ailddatganwyd ffigur 2019/20 i gynnwys arian a ordynnwyd tymor byr a benthycia tymor byr.

Mae gwerth teg yr ymrwymiadau tymor hir yn uwch na'r swm cario gan fod portffolio benthyciadau'r Awdurdod yn cynnwys nifer o fenthyciadau sydd â chyfradd llog taladwy sy'n uwch na'r cyfraddau llog sydd ar gael ar gyfer benthyciadau cyffelyb ar ddyddiad y Fantolen.

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

	Lefel	Mantolen	Gwerth Teg	Mantolen	Gwerth Teg
	Gwerth	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth
	Teg	2020	2020	2021	2021
		£'000	£'000	£'000	£'000
<i>Gwerth teg offerynnau ariannol:</i>					
Cronfeydd marchnadoedd arian	I	9,135	9,135	26,000	26,000
Cronfeydd bondidau, ecwiti ac eiddo	I	8,260	8,260	8,916	8,916
<i>Asedau ariannol ar gost wedi'i amorteiddio:</i>					
Stoc trysorlys	I	17	17	17	17
CYFANSWM		17,412	17,412	34,933	34,933
Asedau ble nad ydi gwerth teg yn cael ei ddangos *		29,435		47,590	
CYFANSWM ASED AU ARIANNOL		46,847		82,523	
<i>Wedi ei gofnodi ar y mantolen fel:</i>					
Dyledwyr tymor hir		3,948		4,371	
Buddsoddiadau tymor hir		17		17	
Dyledwyr tymor byr		16,723		14,599	
Buddsoddiadau tymor byr		11,259		34,918	
Arian a chyfwerthoedd arian		14,900		28,618	
CYFANSWM ASED AU ARIANNOL		46,847		82,523	

* Rhagdybir bod gwerth teg asedau ariannol tymor byr, a ddelir ar gost wedi ei amorteiddio, gan gynnwys derbyniadau masnachol, yn gyfystyr â'r gwerth i'w gario. Ailddatganwyd ffigwr 2019/20 i gynnwys adneuron banc.

Mae cronfeydd eiddo gwerth cyfanswm o £8.92m wedi'u symud o lefel 2 i lefel 1 yr hierarchaeth ar gyfer 2020/21 gan adlewyrchu ailddechreuad o farchnad weithredol yn yr offerynnau hyn.

NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY’N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Côt Ymarfer ar Reolaeth y Trysorlys CIPFA â'r Côt Darbodus Ariannu Cyfalaf Awdurdodau Lleol, y ddau wedi ei ddiwygio Rhagfyr 2017.

Yn unol â'r Côt Rheolaeth y Trysorlys, mae'r Cyngor yn cymeradwyo Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys cyn i bob blwyddyn ariannol newydd gychwyn. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r paramedrau ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol. Mae'r Cyngor hefyd yn cynhyrchu Ymarferion Rheolaeth y Trysorlys, sy'n manylu ar y trefniadau ymarferol i'w dilyn i reoli'r risgiau hynny.

Mae'r Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn cynnwys Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn unol ag Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol. Pwysleisia'r Arweiniad hwn y dylid rhoi blaenoriaeth i sicrwydd a hylifedd, yn hytrach na chynnyrch. Mae Strategaeth Trysorlys y Cyngor, ynghyd â'i Ymarferion Rheolaeth y Trysorlys yn seiliedig ar chwilio am y gyfradd adennill uchaf posib sy'n gyson â'r lefelau priodol o sicrwydd a hylifedd.

Mae hyn yn cynnwys y prif risgiau a ganlyn:

- *Risg Credyd:* Y posibilrwydd y bydd un parti mewn offeryn ariannol yn methu â chyflawni ei ymrwymiadau cytundebol, gan beri colled i'r Cyngor.
- *Risg Hylifedd:* Y posibilrwydd na fydd y Cyngor yn gallu codi digon o arian i ddiwallu'r ymrwymiad ariannol ar amser.
- *Risg y Farchnad:* Y posibilrwydd o golled ariannol oherwydd newidiadau i'r cyfraddau llog, prisiau'r farchnad ac ati.

Risg Credyd: Buddsoddiadau

Mae'r Cyngor yn rheoli risg credyd drwy sicrhau bod ei holl fuddsoddiadau'n cael eu gwneud gyda sefydliadau sydd ag ansawdd credyd uchel, fel y nodir yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys. Mae'r rhain yn cynnwys endidau masnachol gydag isafswm statws credyd hirdymor o A-, Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol eraill heb statws credyd y mae'r Cyngor wedi derbyn cyngor buddsoddi annibynnol arnynt. Gan gydnabod nad yw credyd-raddio bob amser yn medru rhagweld diffyg dalu, mae'r Cyngor hefyd yn ystyried mesurau eraill gan gynnwys cyfnewid diffyg dalu credyd a phrisiau ecwiti wrth ddewis sefydliadau masnachol ar gyfer buddsoddi.

Yn ystod 2020/21 gosodwyd uchafswm o 5% o swm yr holl bortffolio y gellid ei fuddsoddi gyda gwrth barti unigol (heblaw llywodraeth y DU a buddsoddiadau wedi'u sicrhau). Defnyddiwyd terfyn o 10% ar gyfer cronfeydd marchnad arian. Mae'r Cyngor hefyd wedi gosod uchafswm cyfanswm buddsoddiad grŵp o 5% ar gyfer sefydliadau sy'n rhan o'r un grŵp bancio. Ni ellir buddsoddi mwy na chyfanswm o £20m am gyfnod hwy na blwyddyn.

Yn ystod 2008/09, roedd y Cyngor wedi adneuo £4m gyda Heritable Bank, banc wedi'i gofrestru yn y DU dan Gyfraith yr Alban. Rhoddwyd y cwmni yn nwylo'r gweinyddwyr ar 7 Hydref 2008. Derbyniodd y Cyngor ddychweliad o £3,976,718, sef 99.4% gan y gweinyddwyr hyd at 31 Mawrth 2021. Derbyniwyd y difidend olaf ym mis Gorffennaf 2020 ac mae'r weinyddiaeth bellach wedi'i chwblhau.

Nid yw'r Cyngor yn dal gwarant gyfochrog yn erbyn unrhyw fuddsoddiadau.

NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY’N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Ceir crynodeb yn y tabl isod o werth risg credyd portffolio buddsoddi'r Cyngor fesul cyfradd credyd:

Tymor Byr		
Cyfradd Credyd	31 Mawrth 2020 £'000	31 Mawrth 2021 £'000
AAA	0	0
AA+	0	0
AA	0	0
AA-	0	0
A+	0	3,001
A	2,999	3,000
A-	0	0
Cymdeithasau Adeiladu heb eu graddio	0	0
Awdurdodau lleol heb eu graddio	0	20,001
Cyfanswm	2,999	26,002
Cronfeydd wedi'u cyfuno*	8,260	8,916
Cyfanswm Buddsoddiadau	11,259	34,918

* Nid yw risg credyd yn berthnasol i gyfranddaliad a chronfeydd wedi'u cyfuno lle nad oes gan y Cyngor hawl gyntundebol i gal unrhyw swm o arian.

Mae lwfansau colled ar fuddsoddiadau'r trysorlys ac arian a chyfwerthoedd arian wedi eu cyfrifo trwy gyfeirio at ddata rhagosodiad hanesyddol gyhoeddwyd gan asiantaethau statws credyd, wedi ei luosi gyda 131% (2020: 365%) i ystyried yr hinsawdd economaidd gyfredol ac i'r dyfodol. Rhagdybir y bydd oediad o ddwy flynedd yn y llifau arian mewn achos o ddiffygdalu. Mae buddsoddiadau wedi dioddef cynnydd sylweddol mewn risg credyd ac wedi eu israddio gan dri neu mwy o nodlau statws credyd, neu gyfatebol, ers y gydnabyddiaeth gychwynnol, onibai eu bod yn dal sgôr credyd gradd buddsoddi. Ystyrir hwy â nam ar eu credyd os wedi eu dyfarnu â sgôr credyd "D" neu gyfatebol. Ar 31 Mawrth 2021, roedd £3,901 (2020: £9,764) o lwfansau colled yn perthyn i fuddsoddiadau'r trysorlys.

Risg Credyd: Derbyniadau Masnachol

Mae proffil oedran y balans masnachol yn ein system dyledwyr ar 31 Mawrth wedi ei ddadansoddi fel a ganlyn:-

31 Mawrth 2020 £'000		31 Mawrth 2021 £'000
5,592	Llai na blwyddyn	6,001
2,176	Dros flwyddyn	2,471
7,768		8,472

Mae profiad hanesyddol o ddiffyg talu ac amodau economaidd presennol ac a ragwelir gan gynnwys effaith Covid-19 wedi eu hystyried wrth gyfrifo'r lwfans colled amhariad.

NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY’N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Risg Credyd: Benthyciadau, Gwarantau Ariannol ac Ymrwymadau Benthyciadau

Mae'r Cyngor yn rheoli'r risg credyd sydd yn gynhenid yn eu benthyciadau i bwrpas gwasanaeth, gwarantau ariannol ac ymrwymadau benthyciadau, yn unol â'r Strategaeth Fuddsoddi sydd wedi ei chyhoeddi.

Risg Hylifedd

Mae gan y Cyngor fynediad parod i fenthyciadau ar gyfraddau ffafriol o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac awdurdodau lleol eraill, ac ar gyfraddau uwch gan fanciau a chymdeithasau adeiladu. Nid oes unrhyw risg ymddangosiadol y bydd y Cyngor yn methu codi cyllid i gwrdd â'i ymrwymadau. Er hyn, mae risg y bydd yn rhaid i'r Cyngor adnewyddu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg lle mae'r cyfraddau llog yn anffafriol. Rheolir y risg hwn drwy gynnal amrediad o fenthyciadau gyda chyfraddau sefydlog a sicrhau nad yw mwy na 25% o fenthyciadau'r Cyngor yn aeddfedu mewn unrhyw un flwyddyn ariannol.

Mae dadansoddiad aeddfedrwydd o ymrwymadau ariannol fel a ganlyn, wedi'i ddangos fel ffigurau sydd wedi'u disgowntio (prif ynghyd â llog cronodig hyd yn hyn) a heb eu disgowntio (prif ynghyd â thaliadau llog yn y dyfodol);

Amser tan aeddfedrwydd (blynnyddoedd)	Wedi'u disgowntio (prif)	Heb eu disgowntio (prif ynghyd â llog)	Wedi'u disgowntio (prif)	Heb eu disgowntio (prif ynghyd â llog)
	31 Mawrth 2021 £'000	31 Mawrth 2021 £'000	31 Mawrth 2020 £'000	31 Mawrth 2020 £'000
Llai na blwyddyn	6,579	12,278	20,577	26,460
Dros 1 ond dim dros 2	1,573	7,154	1,561	7,252
Dros 2 ond dim dros 5	11,899	27,635	9,415	25,750
Dros 5 ond dim dros 10	7,056	29,831	10,788	34,124
Dros 10 ond dim dros 20	36,821	70,967	35,055	70,862
Dros 20 ond dim dros 40	29,561	74,338	31,328	78,155
Dros 40	16,200	28,163	16,200	28,848
Total	109,689	250,366	124,924	271,451

Risg y Farchnad : Risg Cyfraddau Llog

Mae'r Cyngor yn agored i risgiau sy'n codi o symudiadau yn y cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effeithiau cymhleth ar yr Awdurdod. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y cyfraddau llog yn arwain at yr effeithiau a ganlyn:

- Benthyciadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai'r gwariant llog yn cynyddu.
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr ymrwymadau benthycia yn disgyn.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai'r incwm llog sydd yn cael ei gredu yn cynyddu.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr asedau yn disgyn.

Nid yw buddsoddiadau ar gost wedi ei amorteiddio na benthyciadau a ddelir yn cael eu cario ar werth teg, ac felly ni fydd newidiadau i'w gwerth teg yn effeithio ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Fodd bynnag, mae'r newidiadau yn y llog sy'n daladwy ac yn ddyledus ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfraddau cyfnewidiol yn cael eu nodi ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau. Caiff symudiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau cyfradd sefydlog eu hadlewyrchu yn yr Incwm Cynhwysfawr Arall neu yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, fel sy'n briodol.

NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY’N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn ceisio lleihau’r risgiau hyn drwy osod terfyn uchaf o effaith refeniw 12 mis o 1% cwmp a chodiad mewn cyfraddau llog.

Petai’r holl gyfraddau llog wedi bod 1% yn uwch (gyda’r elfennau newidiol eraill oll yn gyson), yr effaith ariannol fyddai:

	31 Mawrth 2020 £'000	31 Mawrth 2021 £'000
Cynnydd yn y llog sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau cyfradd newidiol	(44)	(461)
Gostyngiad yng ngwerth teg y buddsoddiadau a ddelir ar Werth Teg drwy Elw a Cholled	10	37
Effaith ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(34)	(424)
Gostyngiad yng ngwerth y buddsoddiadau a ddelir ar Werth Teg drwy ICA	22	34
Effaith ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall	22	34
Gostyngiad yng ngwerth teg benthyciadau a buddsoddiadau ar gost wedi'i amorteiddio *	15	35
Gostyngiad yng ngwerth teg benthycia cyfradd sefydlog *	(24,483)	(24,032)

*Dim effaith ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, nac ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

Byddai effaith tebygol cwmp o 1% mewn cyfraddau llog yn £5,096 ar gyfer llog sy'n derbyniadwy ar fuddsoddiadau cyfradd newidiol oherwydd cyfraddau llog eithriadol o isel. Byddai effaith tebygol cwmp o 1% mewn cyfraddau llog fel yr uchod ar gyfer newidiadau mewn gwerth teg ond gyda'r symudiadau'n symudiadau wedi eu gwrthdroi.

Risg y Farchnad : Risg Pris

Mae prisiau marchnad buddsoddiadau'r Cyngor mewn bondiau cyfradd sefydlog a'i unedau mewn cynlluniau buddsoddi cyfunol yn cael eu llywodraethu gan y cyfraddau llog cyffredinol, a rheolir y risg marchnad sy'n gysylltiedig â'r offerynnau hyn ar y cyd â'r risg cyfraddau llog.

Mae buddsoddiad y Cyngor mewn cronfa eiddo cyfun yn ddarostyngedig i risg o gwmp mewn prisiau eiddo masnachol. Cyfyngir y risg yma gan amlygiad y Cyngor i fuddsoddiadau eiddo wedi'i pwlio o £20m. Canlyniad cwmp o 5% ym mhrisiau eiddo masnachol ar 31 Mawrth 2021 fyddai cost o £0.22m (2020: £0.22m) i'r Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr Arall.

Mae buddsoddiad y Cyngor mewn cronfeydd ecwiti cyfun yn ddarostyngedig i'r risg o ostwng prisiau cyfranddaliadau. Cyfyngir y risg yma gan amlygiad y Cyngor i fuddsoddiadau ecwiti wedi'i pwlio o £20m. Canlyniad cwmp o 5% ym mhrisiau cyfranddaliadau ar 31 Mawrth 2021 fyddai cost o £0.13m (2020: £0.11m) i'r Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr Arall.

Risg y Farchnad : Risg y Gyfnewidfa Dramor

Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau nac ymrwymadau ariannol mewn arian tramor. Felly nid yw'n agored i golledion o ganlyniad i symudiadau niweidiol mewn cyfraddau cyfnewid.

NODYN 18a – DYLEDWYR TYMOR BYR

31 Mawrth 2020		31 Mawrth 2021
£'000		£'000
15,689	Symiau dyledus masnach	13,251
1,308	Blaendaliadau	2,954
59,418	Symiau dyledus eraill	68,027
76,415	Cyfanswm	84,232

NODYN 18b - DYLEDWYR TRETH CYNGOR

Gellir dadansoddi Treth y Cyngor dyledus sydd heb ei amharu yn ôl oedran fel a ganlyn:

31 Mawrth 2020		31 Mawrth 2021
£'000		£'000
1,907	Llai na blwyddyn	2,971
500	Dros flwyddyn	850
2,407	Cyfanswm	3,821

Mae'r dadansoddiad uchod yn dangos y balansau hynny lle mae asesiad wedi dangos drwy eithriad nad oes angen unrhyw amhariad.

NODYN 19 – ARIAN A CHYFWERTHOEDD ARIAN

	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2021
	£'000	£'000
Arian mewn Llaw	17	18
Cyfrifon Banc Cyfredol	36	36
Cyfrifon Galw	14,847	28,564
Arian a Chyfwertthoedd Arian	14,900	28,618
Gorddrafft Banc	(22,338)	(18,221)
Cyfanswm	(7,438)	10,397

Er mwyn uchafu'r adenillion o Fuddsoddiadau Tymor Byr ac Adneuron Banc, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian sydd dros ben yn ei gyfrifon banc ynghyd ag unrhyw arian sydd dros ben yng nghyfrifon banc Cronfa Bensiwn Gwynedd. Telir rhaniad priodol o'r llog a enillir i'r Gronfa Bensiwn a rhennir unrhyw golledion ar fuddsoddiadau gyda'r Gronfa Bensiwn yn yr un modd. Oherwydd natur y trefniadau banc nid yw'r arian sydd dros ben yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon banc y Cyngor ac felly mae rhan o'r Buddsoddiadau Tymor Byr (Nodyn 17) a'r Cyfrif Galw a Chronfeydd Marchnad Arian a ddangosir uchod yn cynrychioli arian sydd wedi ei fuddsoddi ar ran y Gronfa Bensiwn ar ddyddiad Y Fantolen. Oherwydd y ffaith fod y Buddsoddiadau Tymor Byr yn enw Cyngor Gwynedd, maent yn ymddangos yn eu cyfanrwydd ar y Fantolen. £12.5m (£8.2m ar 31 Mawrth 2020) oedd elfen Buddsoddiadau Tymor Byr ac Adneuron Banc y Gronfa Bensiwn.

NODYN 20 – ASED AU AR GAEL I'W GWERTHU

	2019/20	2020/21
	£'000	£'000
Balans 1 Ebrill	73	73
<u>Asedau newydd eu dosbarthu fel rhai ar gael i'w gwerthu:</u>		
Eiddo, Offer a Chyfarpar	0	0
Gwariant yn y flwyddyn	0	0
Colledion Ailbriso	0	0
Colledion Amharu	0	0
<u>Asedau wedi eu tynnu allan o'r dosbarth sydd ar gael i'w gwerthu:</u>		
Eiddo, Offer a Chyfarpar	0	0
Asedau wedi eu gwerthu	0	0
Balans 31 Mawrth	73	73

NODYN 21 – CREDYDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2021
	£'000	£'000
Symiau taladwy masnach	34,132	41,662
Symiau taladwy eraill	19,017	38,356
Cyfanswm	53,149	80,018

NODYN 22 – DARPARIAETHAU

Mae'r Cyngor yn gosod o'r neilltu ddarpariaethau ar gyfer ymrwymadau penodol na ellir ar hyn o bryd eu pennu'n sicr o ran maint neu amser. Ni chaniateir, yn unol ag egwyddorion cyfrifeg, i wneud darpariaethau ar gyfer patrymau gwariant anwastad. Fodd bynnag, gellir sefydlu reserfau wedi eu clustnodi a dangosir y rheiny yn Nodyn 10.

Mae'r manylion isod wedi eu rhannu'n ddarpariaethau tymor byr (o fewn 12 mis) a darpariaethau tymor hir (dros 12 mis). Fodd bynnag, cynhelir adolygiad cyfnodol ar lefel darpariaeth yr eitemau perthnasol.

	Balans ar 31 Mawrth 2020 £'000	(Ychwanegiad) / Gostyngiad / Trosglwyddiad £'000	Defnydd yn y flwyddyn £'000	Balans ar 31 Mawrth 2021 £'000
<u>Darpariaethau Tymor Byr</u>				
Darpariaeth Safleoedd Gwastraff	(304)	(326)	315	(315)
	(304)	(326)	315	(315)
<u>Darpariaethau Tymor Hir</u>				
Darpariaeth Safleoedd Gwastraff	(7,850)	98	0	(7,752)
	(7,850)	98	0	(7,752)
Cyfanswm	(8,154)	(228)	315	(8,067)

Darpariaeth Safleoedd Gwastraff – ar gyfer gofynion gwaith capio ac ôl-ofalaeth holl safleoedd gwaredu gwastraff y Cyngor.

Tud. 70

NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

31 Mawrth 2020 £'000		31 Mawrth 2021 £'000
88,843	Reserf Ailbrisió	115,595
197,617	Cyfrif Addasu Cyfalaf	206,658
(1,740)	Reserf Ailbrisió Offerynnau Ariannol	(1,085)
(637)	Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol	(551)
(244,644)	Reserf Pensiynau	(363,852)
(4,469)	Cyfrif Absenoldeb Cronedig	(4,244)
34,970	Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio	(47,479)

23.1 Reserf Ailbrisió

Mae'r Reserf Ailbrisió yn cynnwys enillion a wnaed gan yr Awdurdod yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offer a Chyfarpar. Gostyngir y balans pan gaiff asedau gydag enillion cronedig eu:

- Ailbrisió i lawr neu eu hamharu a bod yr enillion yn cael eu colli.
- Defnyddio i ddarparu gwasanaethau a bod yr enillion yn cael eu treulio trwy ddibrisiant, neu
- Gwaredu a'r enillion yn cael eu gwireddu.

Dim ond enillion ailbrisió sydd wedi eu cronni ers 1 Ebrill 2007, sef dyddiad creu'r Reserf, sy'n cael eu cynnwys yn y Reserf. Caiff unrhyw enillion sydd wedi eu cronni cyn y dyddiad yma eu cynnwys ym malans y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

2019/20 £'000		2020/21 £'000
84,835	Balans 1 Ebrill	88,843
10,505	Ailbrisió asedau i fyny	36,476
(4,435)	Ailbrisió asedau i lawr a cholledion amharu	(7,994)
6,070	Gwarged/(diffyg) wrth ailbrisió asedau	28,482
(1,838)	Gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth teg a dibrisiant hanesyddol	(1,730)
(224)	Elw cronedig ar asedau a werthwyd	0
(2,062)	Swm i'w sgwennu i ffwrdd i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	(1,730)
88,843	Balans 31 Mawrth	115,595

23.2 Cyfrif Addasiadau Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amser sy'n codi oherwydd y gwahaniaethau mewn trefniadau cyfrifeg am ddefnyddio asedau tymor hir a chyllido'r prynu, adeiladu a gwella'r asedau o dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif yn cael ei ddebydu gyda'r gost o brynu, adeiladu a gwella gan fod dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddio yn cael ei gyfrifo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda thrafodion cysoni yn y Reserf Ailbrisió i drawsnewid y ffigyrau gwerth teg i sail cost hanesyddol). Mae'r Cyfrif yn cael ei gredydu gyda'r swm wedi ei neilltuo gan yr Awdurdod fel cyllid i brynu, adeiladu a gwella asedau.

Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi ac enillion wedi eu hadnabod ar asedau rhodd sydd heb eu treulio eto gan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisió wedi cronni ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y crëwyd y Reserf Ailbrisió i gofnodi enillion o'r fath.

NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

Mae Nodyn 9 yn dangos manylion yr holl drafodion o fewn y Cyfrif, ond am y rhai sydd yn cael eu cynnwys yn y Reserf Ail-brisio.

2019/20		2020/21
£'000		£'000
191,010	Balans 1 Ebrill	197,617
	<u>Gwrthdroi eitemau sydd yn berthnasol i wariant cyfalaf sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</u>	
(22,211)	Dibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol	(20,361)
(4,880)	Gwariant Refeniw wedi ei ariannu o Gyfalaf drwy Statud	(5,069)
(153)	Addasiad i falansau asedau anghyfredol wrth werthu	(70)
1,838	Trosglwyddo o'r Reserf Ailbrisio Cyfalaf	1,730
	<u>Ariannu Cyfalaf a gyfeiriwyd yn y flwyddyn:</u>	
423	Derbyniadau Cyfalaf	43
21,585	Grantiau a Chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i ariannu cyfalaf	23,937
5,465	Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth	5,426
2,585	Gwariant Cyfalaf wedi ei gyfeirio yn y flwyddyn i'r Gronfa Gyffredinol	1,232
1,955	Derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd / Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth	2,173
197,617	Balans 31 Mawrth	206,658

23.3 Reserf Ailbrisio Offerynnau Ariannol

Mae'r Reserf Ailbrisio Offerynnau Ariannol yn cynnwys enillion a wnaed gan y Cyngor yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei fuddsoddiadau gaiff ei mesur ar werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall. Gostyngir y balans pan mae buddsoddiadau gydag elw cronodig yn cael eu:

- Ailbrisio i lawr neu eu hamharu a'r elw'n cael ei golli.
- Gwerthu a'r elw yn cael ei wireddu

2019/20		2020/21
£'000		£'000
(618)	Balans 1 Ebrill	(1,740)
(1,293)	Addasiadau Gwerth Teg	655
171	Ailbrisio buddsoddiadau nad ydynt wedi eu cynnwys yn y Gweddill/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau i lawr	0
(1,740)	Balans 31 Mawrth	(1,085)

23.4 Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cynrychioli'r swm y dylai fod wedi'i godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn unol ag arferion cyfrifo cywir o dan y Côd Ymarfer, ond y mae Darpariaethau Statudol yn caniatáu neu'n gorfodi iddynt gael eu gohirio dros flynyddoedd dilynol.

Mae'n ofynnol i bob premiwm a disgownt o ganlyniad i ddiddymu benthyciadau ymlaen gael eu codi'n llawn ar Incwm a Gwariant. Lle bo'r trafodion yn cwrdd â'r diffiniad o gyfaddasiad mae unrhyw breimiwm neu ddisgownt yn cael ei ychwanegu at werth cario'r benthyciad, ac yn cael ei amorteiddio i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr dros oes y benthyciad newydd. Mae cyfaddasiad yn digwydd pan nad yw telerau'r ddyled newydd yn "sylweddol wahanol" i rai'r hen ddyled.

NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

Gall premiymau sydd wedi'u hamorteiddio o dan ddarpariaethau statudol gael eu codi ar y Gronfa Gyffredinol, naill ai dros weddill oes y benthyciad gwreiddiol neu dros oes y benthyciad newydd, p'run bynnag yw'r cyfnod hwyaf. Rhaid i ddisgownt gael ei gredydu i'r Gronfa Gyffredinol naill ai dros 10 mlynedd neu dros oes y benthyciad gwreiddiol, p'run bynnag yw'r cyfnod byrraf.

Mae'r trafodion a adlewyrchir yn yr Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol fel a ganlyn:

2019/20		2020/21
£'000		£'000
(687)	Balans 1 Ebrill	(637)
61	Cyfran o breimiymau sy'n berthnasol i flynyddoedd blaenorol sydd yn gymwysiedig ym malansau'r Gronfa Gyffredinol yn unol â gofynion statudol	61
(11)	Credyd gohiriedig am dderbyniad taliadau sy'n ddyledus gan bobl mewn gofal	25
(637)	Balans 31 Mawrth	(551)

23.5 Reserf Pensiynau

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyngor yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blynyddoedd o wasanaeth, gyda'r ymrwymiad yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau sydd wedi ei neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion enillwyd cael eu hariannu fel y mae'r Cyngor yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r gronfa bensiwn neu fel mae'n talu'r pensiynau hynny mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Mae balans debyd y Reserf Pensiynau felly yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion enillwyd gan gyn-weithwyr a gweithwyr presennol a'r adnoddau mae'r Cyngor wedi neilltuo i'w cyfarfod. Mae'r trefniadau statudol yn sicrhau bydd arian wedi ei neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

2019/20		2020/21
£'000		£'000
(298,514)	Balans 1 Ebrill	(244,644)
84,580	Ailfesuriad o'r (ymrwymadau) / asedau buddion pensiwn diffiniedig net	(100,979)
(54,752)	Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(41,362)
24,042	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	23,133
(244,644)	Balans 31 Mawrth	(363,852)

NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

23.6 Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cyfadfer enilledig ond heb eu cymryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

2019/20		2020/21
£'000		£'000
(3,870)	Balans 1 Ebrill	(4,469)
(599)	Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	225
(4,469)	Balans 31 Mawrth	(4,244)

NODYN 24a – DATGANIAD LLIF ARIAN – ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

2019/20		2020/21
£'000		£'000
(15,720)	Dibrisiant	(16,411)
(6,491)	Amhariad ac ailbriso i lawr	(3,950)
1,472	(Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwy	(32,132)
20,565	Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr	7,819
116	Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Stoc	581
(30,710)	Ymrwymiad pensiwn	(18,228)
(377)	Gwerth i'w gario ar asedau anghyfredol sydd wedi eu gwerthu neu dad-gydnabod	(70)
(5,267)	Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau	(3,953)
(36,412)		(66,344)

NODYN 24b – DATGANIAD LLIF ARIAN – ADDASU AM EITEMAU CYNWYSEDIG YN Y GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU SYDD YN WEITHGAREDDAU BUDDSODDI NEU ARIANNU

2019/20		2020/21
£'000		£'000
548	Derbyniad o werthiant eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	222
548		222

NODYN 24c – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

Mae'r llif arian o weithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau canlynol:

2019/20		2020/21
£'000		£'000
(549)	Difidendau a Llog a dderbyniwyd	(417)
5,212	Llog a dalwyd	5,990

NODYN 25 – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

2019/20		2020/21
£'000		£'000
25,100	Prynu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	23,861
45,555	Prynu buddsoddiadau tymor byr a thymor hir	580,534
4,689	Taliadau eraill am weithgareddau buddsoddi	5,498
(494)	Derbyniadau o werthu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	(205)
(52,555)	Derbyniadau o fuddsoddiadau tymor byr a thymor hir	(557,534)
22,295	Llif arian net o weithgareddau buddsoddi	52,154

NODYN 26a – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU ARIANNU

2019/20		2020/21
£'000		£'000
151	Taliadau ariannol i leihau'r ymrwymiad sy'n ddyledus yn ymwneud â Phrydlesau Cyllidol	160
(16,764)	Ad-daliadau benthyciadau tymor byr a thymor hir	15,258
(16,613)	Llif arian net o weithgareddau ariannu	15,418

NODYN 26b – DATGANIAD LLIF ARIAN – CYSONIAD YMRWYMIADAU YN DEILLIO O WEITHGAREDDAU CYLLIDO

	31 Mawrth 2020	Ariannu llif arian	Eitemau anariannol	31 Mawrth 2021
	£'000	£'000	£'000	£'000
Benthyciadau tymor hir	(104,346)	1,236	0	(103,110)
Benthyciadau tymor byr	(21,112)	14,022	0	(7,090)
Ymrwymadau MCP ar y fantolen	(1,700)	160	0	(1,540)
Cyfanswm ymrwymadau yn deillio o weithgareddau cyllido	(127,158)	15,418	0	(111,740)

NODYN 27 – DADANSODDIAD NATUR GWARIANT AC INCWM

Mae gwariant ac incwm y Cyngor wedi ei ddadansoddi fel a ganlyn:

2019/20		2020/21
£'000	<u>Gwariant / Incwm</u>	£'000
	Gwariant	
183,719	Gwariant buddion gweithwyr	188,147
192,323	Gwariant arall Gwasanaethau	197,632
3,287	Ad-daliadau cefnogaeth ganolog	678
27,121	Dibrisiant, amorteiddiad, amhariad	25,457
13,677	Taliadau llog	12,270
24,083	Praeseptau a Lefiau	25,037
0	Colledion ar waredu asedau	0
444,210	Cyfanswm Gwariant	449,221
	Incwm	
(56,102)	Ffioedd ac incwm arall gwasanaethau	(52,207)
(546)	Incwm llog a buddsoddi	(428)
(129,866)	Incwm o'r dreth cyngor a trethi annomestig	(133,088)
(235,792)	Grantiau a chyfraniadau llywodraeth	(282,631)
(171)	(Enillion) ar waredu asedau	(152)
(422,477)	Cyfanswm Incwm	(468,506)
21,733	(Gweddill) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(19,285)

NODYN 28 – GWASANAETHAU ASIANTAETH

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiant i sawl cynllun ar ran Llywodraeth Cymru:

- Troi Tai'n Gartrefi – balans cau £300k (£240k yn 2019/20)
- Troi Tai'n Gartrefi 2 – balans cau £465k (£450k yn 2019/20)
- Benthyciadau i Wireddu Gwelliannau – balans cau £315k (£315k yn 2019/20)
- Cronfa Cefnogi Canol Tref Caernarfon – balans cau £227k (£94k yn 2019/20)
- Cronfa Canol Tref Caernarfon a Bangor – balans cau £789k (£765k yn 2019/20)
- Cronfa Canol Tref Bangor a Bethesda – balans cau £488k (£482k yn 2019/20).

Mae'r Cyngor yn gweinyddu dau prif grant addysg ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith yn cynnwys derbyn y grantiau gan eu dosbarthu i Awdurdodau Lleol gogledd Cymru a GwE. Roedd cyfanswm y grant dderbyniwyd ar gyfer 2020/21 fel â ganlyn:

- Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol - £33.4m (£32.3m yn 2019/20)
- Grant Datblygu Disgyblion - £20.1m (18.1m yn 2019/20)

Mae'r Cyngor hefyd yn gweinyddu Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Y prif weithgaredd yw cynnal a rheoli'r rhwydwaith cefnffyrdd yn ardal Partneriaeth Cyngorau Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n ymestyn i 1,100 cilomedr. Cyfanswm y trafodion incwm a gafodd eu hadennill yn ystod 2020/21 oedd £91.4m (£74.4m yn 2019/20).

Oherwydd ardrawiad pandemig Covid-19 mae yna nifer o grantiau a chefnogaeth ariannol lle mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i awdurdodau lleol eu gweinyddu ar eu rhan eleni, felly Cyngor Gwynedd wedi gweithredu fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- Grantiau Busnes (yn cynnwys darparwyr gofal plant) - taliadau o £110m wedi ei wneud gan y Cyngor; £2.4m yn ddyledus gan Llywodraeth Cymru.

Tud. 76

NODYN 28 – GWASANAETHAU ASIANTAETH (parhad)

- Grant Gostyngiad Cyfradd Trethi Annomestig Cenedlaethol - taliadau o £19.5m wedi ei wneud gan y Cyngor; (£2.8m) yn ddyledus i Llywodraeth Cymru.
- Bonws o £500 i weithwyr gofal cymdeithasol - taliadau o £1.7m wedi ei wneud gan y Cyngor.
- Grantiau Gweithwyr Llawrydd celfyddydol – taliadau o £978k wedi ei wneud gan y Cyngor.
- Taliadau hunan-ynysu - taliadau o £105k wedi ei wneud gan y Cyngor; £38k yn ddyledus gan Llywodraeth Cymru.
- Gwelliant Tâl Salwch Statudol - taliadau o £46k wedi ei wneud gan y Cyngor.
- Llifogydd - taliadau o £15k wedi eu gwneud gan y Cyngor.

NODYN 29 – LWFANSAU AELODAU

Talwyd y lwfansau a threuliau canlynol i aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn:

2019/20		2020/21
£'000		£'000
1,309	Lwfansau	1,332
50	Treuliau	0
1,359		1,332

NODYN 30 – TALIADAU I SWYDDOGION

30a. Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar gyfer rhai sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion, sy'n derbyn cyflog rhwng £60,000 a £150,000. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a chostau eraill y cyflogwr (sydd yn cynnwys buddion diswyddo), ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr.

2019/20			Uwch Swyddogion	2020/21		
Cyfraniadau				Cyfraniadau		
Cyflogau	Pensiwn Cyflogwr	Cyfanswm		Cyflogau	Pensiwn Cyflogwr	Cyfanswm
£	£	£		£	£	£
114,466	25,640	140,106	Prif Weithredwr ¹	118,063	24,085	142,148
95,939	21,490	117,429	Cyfarwyddwr Corfforaethol	98,954	20,187	119,141
85,277	19,102	104,379	Pennaeth Addysg	87,957	17,943	105,900
81,434	18,241	99,675	Pennaeth Cyllid	83,993	17,135	101,128
75,171	16,804	91,975	Pennaeth Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	78,981	16,112	95,093
75,775	16,974	92,749	Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant	82,966	15,944	98,910
75,775	16,974	92,749	Pennaeth Economi a Chymuned	78,156	15,944	94,100
75,775	15,880	91,655	Pennaeth Plant a Theuluoedd	78,156	14,979	93,135
75,775	16,974	92,749	Pennaeth Amgylchedd	78,156	15,944	94,100
75,775	16,974	92,749	Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol	78,156	15,944	94,100
39,783	8,911	48,694	Pennaeth Tai ac Eiddo ²	72,295	14,748	87,043
64,010	14,338	78,348	Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd	66,021	13,468	79,489

1. Nid yw'r ffigyrau yn cynnwys unrhyw daliad i'r Prif Weithredwr yn ei rôl fel Swyddog Canlyniadau. Talwyd £826 yn 2020/21, ar sail y raddfa a ddiffinir gan y cyrff etholiadol perthnasol.
2. Yr adran wedi ei sefydlu ers Medi 2019.

NODYN 30 – TALIADAU I SWYDDOGION (parhad)

30b. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn gofyn i'r Cyngor gyfrifo cymhareb tâl. Cymhareb tâl y Prif Weithredwr i'r tâl canolrif o holl weithwyr yr Awdurdod ar gyfer 2020/21 yw 6.11:1 (6.11:1 yn 2019/20).

30c. Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyngor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr) ond sydd yn cynnwys costau diswyddo a dalwyd mewn dau achos yn 2020/21 a dau achos yn 2019/20. Ni fyddai'r swyddi yma'n ymddangos isod heblaw'r costau diswyddo a dalwyd yn y flwyddyn unigol.

Nifer gweithwyr eraill a dderbyniodd mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo:						
Nifer yn 2019/20				Nifer yn 2020/21		
Ysgolion	Eraill	Cyfanswm		Ysgolion	Eraill	Cyfanswm
11	5	16	£60,000 - 64,999	21	10	31
10	0	10	£65,000 - 69,999	12	0	12
5	0	5	£70,000 - 74,999	1	0	1
4	0	4	£75,000 - 79,999	4	0	4
0	0	0	£80,000 - 84,999	3	0	3
0	0	0	£85,000 - 89,999	1	0	1
0	0	0	£90,000 - 94,999	0	0	0
0	0	0	£95,000 - 99,999	0	0	0
1	0	1	£100,000 - 104,999	1	0	1

NODYN 31 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Awdurdod wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol:

2019/20		2020/21
£'000		£'000
183	Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am wasanaethau archwilio allanol	182
99	Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas ag archwiliadau statudol	99
47	Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer ardystio hawliadau a dychweliadau grant am y flwyddyn	38
329		319
(3)	Llai: Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â Chyfrifon y Cyd-bwyllgorau a'r Harbyrau	(2)
0	Addasiad ffioedd archwiliadau blynyddoedd blaenorol	(10)
326	Ffioedd Net Cyngor Gwynedd	307

NODYN 32 – INCWM GRANT

Mae'r Cyngor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

	Nodyn	2019/20 £'000	2020/21 £'000
Wedi eu Credydu i Dreth ac Incwm Grant Amhenodol			
Grant Cynnal Refeniw (Grantiau'r Llywodraeth heb eu Clustnodi)	13	136,049	148,053
Grantiau a Chyfraniadau Refeniw gan y Llywodraeth - Eraill		1,543	1,211
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf gan y Llywodraeth -			
Ysgolion 21ain Ganrif		7,122	4,565
Grant Cyfalaf Cyffredinol		3,887	4,063
Cronfa Trafnidiaeth Leol		1,003	2,014
Asedau gan Lywodraeth Cymru - Offer TG HwB i Ysgolion		1,357	1,527
Grant Cyfalaf Adnewyddu Priffyrdd		1,325	1,323
Grant Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol		0	1,535
Grant Cefnogi Ysgogiad Economaidd		0	925
Arall*		2,476	4,484
	13	17,170	20,436
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf arall	13	1,083	1,141
Cyfanswm		155,845	170,841
Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau			
Llywodraeth Cymru -			
Grantiau Gwella ac Amddifadedd (Addysg)		7,302	7,365
Grant Cynnig Gofal Plant		6,530	6,179
Grant Cefnogi Tai		5,041	5,420
Grantiau Cyfalaf		2,039	3,621
Grant Ôl I6 (Addysg)		3,422	3,598
Grant Plant a Chymunedau		3,555	3,567
Grant Pwysau Gweithlu a Chynaliadwyedd Gofal Cymdeithasol		1,176	1,562
Grant Tocynnau Teithio Rhad		1,290	1,403
Grant Rheolaeth Gwastraff Cynaliadwy		1,270	1,398
Cronfa Caledi Covid-19		0	24,703
Arall*		7,266	9,664
		38,891	68,480
Grantiau a Chyfraniadau gan Lywodraeth arall			
Adran Gwaith a Phensiynau		27,451	25,451
Arall		16,231	20,211
		43,682	45,662
Grantiau a Chyfraniadau eraill		4,273	3,773
Cyfanswm		86,846	117,915

* Mae ffigyrau 2019/20 wedi eu hailddatgan o'r pennawd Arall i alluogi cymhariaeth efo 2020/21.

NODYN 32 – INCWM GRANT (parhad)

Mae'r Cyngor wedi derbyn nifer o grantiau, cyfraniadau a rhoddion sydd eto i'w hadnabod fel incwm gan fod amodau wedi eu glynu i'r grantiau sy'n golygu efallai y bydd rhaid dychwelyd yr arian neu'r eiddo i'r rhoddwr. Mae'r balansau ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2020 £'000	31 Mawrth 2021 £'000
Derbyniadau Grant Ymlaen Llaw		
<u>Tymor Hir</u>		
Grantiau a Chyfraniadau Refeniw	0	0
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf		
Cyfraniadau Cyfalaf Priffyrdd a Bwrdeistrefol	1,081	935
Grantiau Amgylchedd (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)	370	689
	1,451	1,624
Cyfanswm Tymor Hir	1,451	1,624
<u>Tymor Byr</u>		
Grantiau a Chyfraniadau Refeniw		
Grantiau Economi a Chymuned	181	830
Grantiau Amgylchedd (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)	0	72
Grantiau Oedolion, Iechyd a Llesiant	782	766
Grantiau Addysg	0	1,296
Grantiau Cyllid	0	304
Grantiau Ymgynghoriaeth	0	453
Grantiau Eraill	48	0
	1,011	3,721
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf		
Bargen Twf Gogledd Cymru	0	2,000
Arall	432	864
	432	2,864
Cyfanswm Tymor Byr	1,443	6,585
Cyfanswm	2,894	8,209

NODYN 33 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyngor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyngor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyngor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Awdurdod. I gydymffurfio efo'r gofynion, gwneir hyn drwy ofyn i'r Aelodau a'r Uwch Swyddogion gwblhau datganiad personol, fel a ddiffinnir yng Nghôd ymarfer CIPFA.

Llywodraeth Cymru a Chanolog

Mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth effeithiol dros weithrediadau cyffredinol y Cyngor. Mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol, mae'n darparu'r mwyafrif o'r ariannu drwy grantiau ac yn pennu termau nifer o'r trafodaethau sydd gan y Cyngor o fewn partïon eraill (e.e. treth y cyngor, budd-daliadau tai). Ceir dadansoddiad goddrychol o'r grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru ac adrannau eraill y Llywodraeth yn Nodyn 27 sy'n dadansoddi natur gwariant ac incwm. Manylir y sefyllfa ar 31 Mawrth yn Nodyn 32.

Aelodau

Mae gan Aelodau'r Cyngor reolaeth uniongyrchol dros bolisiau ariannol a gweithredol y Cyngor. Ceir cyfanswm y lwfansau a dalwyd i aelodau yn ystod 2020/21 yn Nodyn 29.

Mae'r Cyngor yn penodi aelodau i rai cyrff elusennol neu wirfoddol neu maent wedi datgan cysylltiad â mudiadau, cyrff ac awdurdodau cyhoeddus. Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cyrff yma yn ystod 2020/21 a'r balansau ar 31 Mawrth 2021 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£'000	£'000	£'000
15,447	1,226	(3,637)

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y diffinir) mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyngor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cwmnïau yma yn ystod 2020/21 a'r balansau ar 31 Mawrth 2021 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£'000	£'000	£'000
3,207	108	(176)

Swyddogion

Mae Uwch Swyddogion (fel y diffinir) wedi datgan fel sydd yn ofynnol a phriodol, ddiddordeb neu berthynas (fel a ddiffinir) mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyngor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cyrff yma yn ystod 2020/21 a'r balansau ar 31 Mawrth 2021 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£'000	£'000	£'000
1,862	58	(117)

Cyrff Cyhoeddus Eraill

Mae'r Awdurdod yn gweinyddu'r Gronfa Bensiwn. Ceir manylion o'r trafodaethau gyda'r Gronfa Bensiwn yn Nodyn 38.

Mae gan yr Awdurdod drefniant cyllideb gyfun gyda holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn cael ei letya gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer swyddogaethau llety cartrefi gofal i bobl hŷn. Mae'r trafodion a'r balansau perthnasol yn cael eu manylu yn Nodyn 42 o'r cyfrifon.

NODYN 33 – PARTIÖN CYSYLLTIEDIG (parhad)

Cydbwyllgor Addysg Cymru (CBAC)

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£'000	£'000	£'000
443	4	0

Endidau a Reolir neu Ddylanwadir yn Sylweddol arnynt gan yr Awdurdod

Sefydlwyd Cwmni Cynnal Cyf. yn 1996 i ddarparu gwasanaethau cefnogi addysg dan gytundeb i ysgolion unigol ac i awdurdodau addysg leol yn ogystal â gwasanaethau arolygu ysgolion i Estyn. Mae'r cwmni yn gyfyngedig dan warrant ac fe gyfyngir ymrwymiad y Cyngor i £1. Dim ond tuag at hyrwyddo ei amcanion gellid defnyddio incwm y cwmni. Gellir cael copïau o'r datganiadau ariannol gan Gwmni Cynnal, Penrallt, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1BN. Mae'r taliadau i Gwmni Cynnal ar gyfer gwasanaethau i ysgolion yn ystod 2020/21 a'r balansau ar 31 Mawrth 2021 fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£'000	£'000	£'000
926	9	0

Is-Gwmni

Sefydlwyd Cwmni Byw'n Iach Cyf ar y 27 Fehefin 2018 i ddarparu gwasanaeth hamdden i drigolion Gwynedd. Mae'r cwmni wedi ei gyfyngu dan warrant, gyda Cyngor Gwynedd yn unig berchennog ac fe gyfyngir ymrwymiad y Cyngor i £1. Trosglwyddwyd cyfrifoldebau rheoli i'r cwmni Hamdden ar y 1af o Ebrill 2019 gyda chontract gwasanaeth ar waith sy'n nodi'r union wasanaethau a chanlyniadau y mae'n ofynnol i'r cwmni eu cyflawni am eu ffi. Mae'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn cynnwys 7 cyfarwyddwr sy'n aelodau etholedig Cyngor Gwynedd. Gellir cael copïau o'r datganiadau ariannol wedi eu archwilio am y flwyddyn ariannol 2020/21 ar wefan Byw'n Iach. Mae'r taliadau i Gwmni Byw'n Iach Cyf ar gyfer gwasanaethau Hamdden yn ystod 2020/21 a'r balansau ar 31 Mawrth 2021 fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£'000	£'000	£'000
2,472	146	(116)

Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel Awdurdod Lletya ar gyfer 3 Cyd-Bwyllgor, ac mae cyfeiriad at rhain yn Nodyn 43.

NODYN 34 – GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF

Dengys y tabl isod gyfanswm gwariant cyfalaf am y flwyddyn (yn cynnwys gwerth yr asedau hynny gaffaelwyd drwy brydlesi cyllidol), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Os yw'n fwriad ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol drwy godi tâl yn refeniw fel defnyddir asedau gan y Cyngor, yna byddai hyn yn arwain at gynnydd yn y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), mesurydd gwariant cyfalaf hanesyddol y Cyngor sydd heb ei ariannu eto. Dadansoddir y GCC yn yr ail ran o'r nodyn hwn.

31 Mawrth 2020		31 Mawrth 2021
£'000		£'000
463,267	Asedau Anghyfredol ac Asedau ar gael i'w gwerthu	496,272
(88,843)	Reserf Ailbriso	(115,595)
(197,617)	Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	(206,658)
176,807	Gofyn Cyllido Cyfalaf	174,019

NODYN 34 – GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF (parhad)

Mae'r symudiadau am y flwyddyn yn cael eu hegluro fel a ganlyn:

2019/20		2020/21
£'000		£'000
177,766	Gofyn Cyllido Cyfalaf I Ebrill	176,807
7,417	Tir ac Adeiladau	11,375
7,166	Is adeiladwaith	8,289
6,622	Cerbydau, Offer a Chyfarpar	5,281
4	Asedau Cymunedol	0
24	Asedau Gweddilliol	9
4,940	Asedau heb eu cwblhau	0
4,881	Wedi'w ariannu o gyfalaf drwy statud	5,069
(423)	Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddiwyd	(43)
(21,585)	Grantiau Llywodraeth a chyfraniadau eraill	(23,937)
(2,585)	Gwariant cyfalaf yn erbyn reffeniw	(1,232)
(5,465)	Darpariaeth reffeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth	(5,426)
	Symiau gwirfoddol ychwanegol a neilltuwyd:	
(1,955)	Derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd / Darpariaeth reffeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth	(2,173)
176,807	Gofyn Cyllido Cyfalaf 31 Mawrth	174,019

NODYN 35 – PRYDLESAU

Yr Awdurdod fel Prydlesai

Prydlesau Cyllidol

Mae gan y Cyngor eiddo drwy brydlesau cyllidol sydd yn cael eu dangos fel Eiddo, Offer a Chyfarpar ar y Fantolen. Cynhwysir yma Drefniant Consesiwn Gwasanaeth GwryAD (Nodyn 41) gyda'r gwerth net canlynol:

31 Mawrth		31 Mawrth
2020		2021
£'000		£'000
3,240	Eiddo, Offer a Chyfarpar	2,664
3,240		2,664

NODYN 35 – PRYDLESAU (parhad)

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i dalu isafswm ar y prydlesau hyn sy'n cynnwys setliad o'r ymrwymiad tymor hir am y budd yn yr eiddo gaffaelwyd gan y Cyngor a chostau cyllido a fydd yn daladwy gan y Cyngor yn y dyfodol tra mae'r ymrwymiad yn parhau'n ddyledus. Mae'r lleiafswm taliadau prydles fel a ganlyn:

31 Mawrth		31 Mawrth
2020		2021
£'000		£'000
Ymrwymadau Prydles Gyllidol		
(gwerth presennol net o'r lleiafswm taliadau prydles):		
160	cyfredol	170
1,540	ddim yn gyfredol	1,370
1,700	Lleiafswm taliadau prydles	1,540

Mae'r gweddill o'r ased a ddangosir uchod wedi ei gyllido drwy gredyd gohiriedig (gweler Nodyn 41).

Mae'r lleiafswm taliadau prydles yn daladwy dros y cyfnodau canlynol:

	Lleiafswm Taliadau Prydles		Ymrwymadau Prydlesau Cyllidol	
	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth
	2020	2021	2020	2021
	£'000	£'000	£'000	£'000
Dim mwy na blwyddyn	160	170	160	170
Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd	746	792	746	792
Mwy na pum mlynedd	794	578	794	578
	1,700	1,540	1,700	1,540

Yn 2020/21, gwnaethpwyd lleiafswm taliadau prydles o £160,282 (£150,973 yn 2019/20) gan yr Awdurdod mewn perthynas â'r asedau hynny a ddelir fel prydlesau cyllidol.

Prydlesau Gweithredol

	31 Mawrth	31 Mawrth
	2020	2021
	£'000	£'000
Dim mwy na blwyddyn	507	475
Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd	404	242
Mwy na pum mlynedd	249	212
	1,160	929

Y gwariant a godwyd ar y gwasanaethau o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn cysylltiad â'r prydlesau yma oedd:

	2019/20	2020/21
	£'000	£'000
Lleiafswm taliadau prydles	564	556
	564	556

NOTE 35 – PRYDLESAU (parhad)

Yr Awdurdod fel Prydleswr

Prydlesau Cyllidol

Mae'r Cyngor wedi prydlesu eiddo ar brydles gyllidol, gan gynnwys:

- Yr Academi Hwyllo ym Mhwlheli,
- Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu

Mae'r prydlesau yma ar sail rhent enwol ac am gyfnod sydd yn cyfateb i fywyd economaidd yr asedau. Nid oes premiwm wedi ei dderbyn ar gyfer y prydlesau yma.

Prydlesau Gweithredol

Mae'r Cyngor yn prydlesu eiddo o dan brydlesau gweithredol i'r dibenion canlynol:

- i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned, megis cyfleusterau chwaraeon, gwasanaethau twristiaeth a chanolfannau cymuned
- i bwrpas datblygiad economaidd i ddarparu adeiladau addas a fforddiadwy i fusnesau lleol.

Y lleiafswm taliadau prydles derbyniadwy na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

	31 Mawrth 2020 £'000	31 Mawrth 2021 £'000
Dim mwy na blwyddyn	419	390
Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd	909	843
Mwy na pum mlynedd	3,419	3,223
	4,747	4,456

Nid yw'r lleiafswm taliadau derbyniadwy yn cynnwys rhent sydd yn amodol ar ddigwyddiad gymryd lle ar ôl i'r brydles ddechrau, er enghraifft, addasiadau yn dilyn adolygiad rhent. Yn 2020/21 £1,198,984 oedd y lleiafswm taliadau prydles derbyniadwy gan yr Awdurdod Cyngor (£1,517,857 yn 2019/20).

NODYN 36 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Mae'r nifer o becynnau terfynu gwaith sydd yn cynnwys cyfanswm y gost fesul band, a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol ac eraill wedi eu cynnwys yn y tabl isod. Mae'r gost yn y tabl isod yn adlewyrchu cost y pecynnau perthnasol i'r cyflogwr, yn hytrach na gwir werth y taliadau i'r unigolion. Yn unol â'r gofynion fe gynhwysir yr ymrwymadau perthnasol i'r Cyngor fel a wybyddir ar 31 o Fawrth 2021. Cynhwysir isod y costau gros perthnasol ond nid unrhyw arbedion cyllidol i'r Cyngor, ble'n briodol.

Band cost y pecynnau terfynu gwaith (yn cynnwys taliadau arbennig)	Nifer diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau cytunedig eraill		Cyfanswm nifer y pecynnau terfynu gwaith fesul band cost		Cyfanswm cost y pecynnau terfynu gwaith ym mhob band	
	2019/20	2020/21	2019/20	2020/21	2019/20	2020/21	2019/20 £'000	2020/21 £'000
£								
0 - 20,000	43	31	36	18	79	49	521	259
20,001 - 40,000	2	2	13	3	15	5	442	139
40,001 - 60,000	0	0	1	1	1	1	40	42
60,001 - 80,000	1	1	1	2	2	3	129	201
80,001 - 100,000	1	0	3	0	4	0	386	0
Addasiad i amcangyfrif y flwyddyn flaenorol							19	(2)
Cyfanswm	47	34	54	24	101	58	1,537	639

NODYN 37 - CYNLLUNIAU PENSIWN A GYFRIFIR AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae athrawon sy'n cael eu cyflogi gan yr Awdurdod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan yr Adran dros Addysg y Llywodraeth. Mae'r cynllun yn rhoi buddion penodol i Athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Awdurdod yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar dâl pensiynadwy aelodau.

Yn dechnegol, cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Er hynny, mae'r cynllun heb ei ariannu ac mae'r Adran dros Addysg yn defnyddio cronfa ddamcaniaethol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w talu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Awdurdod yn gallu adnabod ei ran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad o'r Cyfrifon, maent felly yn cael eu cyfrifo ar yr un sail a chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2020/21 talodd y Cyngor £10.23m (£8.75m yn 2019/20) am gost pensiwn athrawon, oedd yn cynrychioli 23.67% (20.71% yn 2019/20) o dâl pensiynadwy athrawon. Yn ychwanegol at hyn mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfarnir ar ymddeoliad cynnar tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Yn 2020/21 roedd hyn yn £1.05m (£1.41m yn 2019/20), ac yn cynrychioli 2.42% (3.33% yn 2019/20) o dâl pensiynadwy athrawon. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig a'u cynhwysir yn Nodyn 38.

Mae ffigyrau 2019/20 wedi eu hail-ddatgan fel eu bod wedi eu cyfrifo ar yr un sail â ffigyrau 2020/21.

NODYN 38 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Awdurdod yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion yma yn daladwy hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan yr Awdurdod ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae Cyngor Gwynedd yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ôl-gyflogaeth:

- a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol tan 31 Mawrth 2014, ac yn seiliedig ar gyflog cyfartaledd gyrfu o 1 Ebrill 2014. Mae'r Awdurdod a'r gweithwyr cyflogedig yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i falansio'r ymrwymadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir. Cyfran Cyngor Gwynedd o gyfanswm y cyfraniadau i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2020/21 oedd 35% (36% yn 2019/20).
- b) **Trefniadau ar gyfer dyfarnu buddiannau ôl-ymddeol dewisol wrth ymddeol yn fuan.** Trefniant buddion diffiniedig heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiynau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Yn y gorffennol mae rheolwyr buddsoddiadau'r gronfa wedi cael eu penodi gan Bwyllgor Cronfa Bensiwn Gwynedd. Wrth i'r buddsoddiadau gael eu trosglwyddo i Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) caiff y rheolwyr eu penodi gan y bartneriaeth.

Y prif risgiau i'r Awdurdod o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel a ddisgrifir yn y nodyn polisiâu cyfrifo i'r Gronfa Gyffredinol.

Trafodion sy'n Perthyn i Fuddion Ôl-gyflogaeth

Mae'r Awdurdod yn adnabod cost y buddion ymddeol yn y gost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd angen ei wneud yn erbyn treth y cyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn sy'n golygu bod gwir gost buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael ei wrth-droi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau:

NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinir ac Ymrwymiad Net	Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2020			Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2021		
	Asedau	Ymrwym- iadau	(Ymrwym- iadau) /asedau net	Asedau	Ymrwym- iadau	(Ymrwym- iadau) /asedau net
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth Teg Asedau'r Cynllun	741,995	0	741,995	685,179	0	685,179
Gwerth Presennol Ymrwymiaid wedi eu Hariannu	0	(1,012,703)	(1,012,703)	0	(905,466)	(905,466)
Gwerth Presennol Ymrwymiaid heb eu Hariannu	0	(27,806)	(27,806)	0	(24,357)	(24,357)
Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill	741,995	(1,040,509)	(298,514)	685,179	(929,823)	(244,644)
Cost Gwasanaeth						
Cost Gwasanaeth Cyfredol*	0	(44,814)	(44,814)	0	(35,577)	(35,577)
Cost Gwasanaeth y Gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau)	0	(2,497)	(2,497)	0	(14)	(14)
Cyfanswm Cost Gwasanaeth	0	(47,311)	(47,311)	0	(35,591)	(35,591)
Llog Net						
Incwm Llog ar Asedau'r Cynllun	17,940	0	17,940	15,839	0	15,839
Cost Llog ar Fuddion a Ddiffinir Ymrwymiad	0	(25,381)	(25,381)	0	(21,610)	(21,610)
Cyfanswm Llog Net	17,940	(25,381)	(7,441)	15,839	(21,610)	(5,771)
Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)	17,940	(72,692)	(54,752)	15,839	(57,201)	(41,362)
Llif Arian						
Cyfraniadau aelodau'r cynllun	6,092	(6,092)	0	6,365	(6,365)	0
Cyfraniadau'r cyflogwr	21,363	0	21,363	20,943	0	20,943
Amcangyfrif cyfraniadau ynglŷn â buddion heb eu hariannu	1,722	0	1,722	1,675	0	1,675
Amcangyfrif buddion a dalwyd	(19,507)	19,507	0	(19,366)	19,366	0
Amcangyfrif buddion heb eu hariannu a dalwyd	(1,722)	1,722	0	(1,675)	1,675	0
Sefyllfa Cau a Ddisgwyllir	767,883	(1,098,064)	(330,181)	708,960	(972,348)	(263,388)
Ail Fesuriadau						
Newid mewn tybiaethau demograffig	0	36,166	36,166	0	(15,348)	(15,348)
Newid mewn tybiaethau ariannol	0	88,827	88,827	0	(279,335)	(279,335)
Profiadau eraill	0	43,248	43,248	0	8,914	8,914
Enillion ar Asedau ag eithrio symiau a gynhwysir yn y llog net	(82,704)	0	(82,704)	185,305	0	185,305
Cyfanswm yr holl ail fesuriadau a gynhwysir yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)	(82,704)	168,241	85,537	185,305	(285,769)	(100,464)
Gwerth Teg Asedau'r Cynllun	685,179	0	685,179	894,265	0	894,265
Gwerth Presennol Ymrwymiaid wedi eu hariannu	0	(905,466)	(905,466)	0	(1,233,160)	(1,233,160)
Gwerth Presennol Ymrwymiaid heb eu hariannu**	0	(24,357)	(24,357)	0	(24,957)	(24,957)
Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth	685,179	(929,823)	(244,644)	894,265	(1,258,117)	(363,852)

* Mae'r gost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.5% cyflogau ar gyfer costau gweinyddiaeth.

** Mae'r ymrwymiad yn cynnwys tua £9,718,000 sydd yn perthyn i bensiynau heb eu cyllido y CPLIL a £15,239,000 sydd yn perthyn i bensiynau heb eu cyllido Athrawon.

NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Prif Gategoriâu Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion SCRh19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny, ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheiny sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny sydd ddim yn cael eu dyfynnu. Tybir bod rhaniad asedau Cyngor Gwynedd ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2020. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £2,510m ar 31 Mawrth 2021, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu ac yn rhoi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol.

Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod ar werth bid yn unol â gofynion SCRh19.

Categori Ased	Ar 31 Mawrth 2020				Ar 31 Mawrth 2021			
	Prisiau a ddyfynnir mewn Marchnad -oedd Gweith-redol £'000	Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnad -oedd Gweith-redol £'000	Cyfanswm £'000	%	Prisiau a ddyfynnir mewn Marchnad -oedd Gweith-redol £'000	Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnad -oedd Gweith-redol £'000	Cyfanswm £'000	%
Ernesau Ecwiti								
Defnyddiwr	0	0	0	0	0	0	0	0
Cynhyrchu	0	0	0	0	0	0	0	0
Ynni a Gwasanaethau	0	0	0	0	0	0	0	0
Sefydliadau Ariannol	0	0	0	0	0	0	0	0
Iechyd a Gofal	0	0	0	0	0	0	0	0
Technoleg Gwybodaeth	0	0	0	0	0	0	0	0
Eraill	0	0	0	0	0	0	0	0
Ecwiti Preifat								
Y cyfan	0	39,829	39,829	6	0	55,604	55,604	6
Ernesau Dyledion								
Eraill	0	0	0	0	0	0	0	0
Eiddo Diriaethol								
Eiddo'r DU	0	67,534	67,534	10	0	70,927	70,927	8
Eiddo Tramor	0	80	80	0	0	0	0	0
Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedol								
Ecwiti	0	459,499	459,499	67	0	572,959	572,959	64
Bondiau	0	0	0	0	0	0	0	0
Is-adeiladwaith	0	15,757	15,757	2	0	15,764	15,764	2
Eraill	0	99,086	99,086	14	0	173,850	173,850	19
Arian a Chyferthoedd Arian								
Y cyfan	3,394	0	3,394	1	5,161	0	5,161	1
Cyfanswm	3,394	681,785	685,179	100	5,161	889,104	894,265	100

Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymiadau

Mae'r ymrwymiadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar ragamcanion penodol i'r gronfa a elwir yn VitaCurves a thybir bod gwelliant tymor hir eisoes wedi cyrraedd yr eithaf, sydd gyfystyr â 1.5% y flwyddyn.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymiadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymiadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn diweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr actiwari yn y tabl canlynol wedi cael effaith sylweddol ar werthoedd yr asedau a'r ymrwymiadau fel a ganlyn:

NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2021
Tybiaethau Ariannol	% y.f.	% y.f.
Cyfradd Cynnydd Pensiynau	1.9	2.85
Cyfradd Cynnydd Cyflogau	2.2	3.15
Cyfradd Chwyddiant	1.9	2.85
Cyfradd Ddisgownt	2.3	2.0
Cyfradd enillion tymor hir a ddisgwylir ar yr holl asedau	2.3	2.0
Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol		
am wasanaeth cyn Ebrill 2008	50	50
am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008	75	75
Tybiaethau Marwolaeth	Blynyddoedd	Blynyddoedd
Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr cyfredol		
Dynion	21.3	21.5
Merched	23.4	23.9
Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr y dyfodol		
Dynion	22.2	22.7
Merched	25.1	25.9

Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2021 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigyrau SCRh19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintioli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyngor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o tua 3-5% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oeddrannau iau neu hŷn). Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyngor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020, sef dyddiad y prisiad actiwaraidd diweddaraf. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn flaenorol.

Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun

Newid tybiaeth	Brasamcan cynnydd i'r Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig 31 Mawrth 2021	Brasamcan swm ariannol 31 Mawrth 2021
	%	£'000
0.5% o leihad i'r gwir gyfradd ddisgownt	11	138,768
0.5% o gynnydd i'r gyfradd codiad cyflog	1	16,409
0.5% o gynnydd i'r gyfradd codiad pensiwn	9	119,254

Y prif ragdybiaeth demograffig yw'r dybiaeth hirhoedledd (h.y. disgwyliad oes yr aelod). At ddibenion sensitifrwydd, amcangyfrifir y bydd cynnydd o flwyddyn yn y disgwyliad oes yn cynyddu Rhwymedigaeth Budd Diffiniedig y Cyflogwr tua 3-5%. Yn ymarferol, bydd y gwir gost o flwyddyn o gynnydd yn nisgwylid oes yn dibynnu ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau i'r cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oeddrannau iau neu hŷn).

NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Effaith ar Lif Arian y Cyngor

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r gronfa i gyflawni lefel gyllido o 100% dros y 17 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyngor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad bob tair blynedd (y diweddaraf oedd 31 Mawrth 2019), neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddu. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2021 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod y cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyngor, dylid cyfeirio at adroddiad actiwaraidd 2019, dyddiedig 31 Mawrth 2020.

Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinir

	Rhaniad Ymrwymiad 31 Mawrth 2021	
	£'000	%
Aelodau Gweithredol	708,874	57.5
Aelodau Gohiriedig	210,866	17.1
Aelodau Pensiynwyr	313,420	25.4
Cyfanswm	1,233,160	100.0

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymadau wedi eu hariannu yn unig, nid ydynt yn cynnwys ymrwymadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar brisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2019.

Effaith ar y Blynyddoedd i ddod

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyngor fod yn £20.895m yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2022.

Gan fod adroddiad yr Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, ac o ganlyniad i wahaniaethau amseru, gwnaed addasiad o £515,736 yn 2020/21 (£956,982 yn 2019/20) i ddod a'r diffyg yn y Gronfa yn seiliedig ar y ffigyrau Actiwaraidd yn unol â'r ymrwymiad perthnasol i gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig sydd wedi eu diffinio ar y Fantolen. Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Cholledion Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymadau Pensiwn ac felly wedi eu cynnwys yn y ffigyrau Ymrwymiad sy'n berthnasol i gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a diffinnir ar y Fantolen.

NODYN 39 – YMRWYMIADAU DIBYNNOL

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fo digwyddiad sy'n arwain at rwymedigaeth posib ar ran yr Awdurdod ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall ddigwyddiad ansicr sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr Awdurdod.

Mae'r sefyllfa isod yn berthnasol i amgylchiadau'n ymwneud â dau ymrwymiad dibynnol penodol:

- Gofynion capio ac ôl-ofalaeth safleoedd tirlenwi yr Awdurdod - mae'r ddarpariaeth sydd yn gynwysedig yn y cyfrifon yn seiliedig ar amgylchiadau presennol a gwybyddus, yn ychwanegol i ragolygon perthnasol. Er hynny, mae'n bosib y bydd y gwir gost derfynol yn wahanol i'r amcangyfrif cyfredol o gostau'r dyfodol.
- Mae'r Awdurdod yn agored i ymrwymiad yswiriant posib sy'n berthnasol i drefniadau yswiriant ei gyn-Awdurdodau, sef Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Arfon, Cyngor Dosbarth Dwyfor, Cyngor Dosbarth Meirionnydd, a therfyniad Cronfa Municipal Mutual Insurance (MMI) ar 30 Medi 1992.

Gwnaeth MMI gynllun o drefniant gyda'i gredydwy'r, ble, os oedd cyllid MMI yn annigonol i gyfarfod hawliadau yn y dyfodol, yna byddai cymal adfachu'n cael ei sbarduno (sef Cynllun o Drefniant) a allai effeithio hawliadau a dalwyd ers 1992/93. Ar 13 Tachwedd 2012, daeth cyfarwyddwyr y Cwmni i'r casgliad y dylid gweithredu amodau'r Cynllun o Drefniant a rhoddwyd rhybudd i'r perwyl hwn i Weinyddwr y Cynllun a'r Cwmni. Mae'r penderfyniad yn derfynol. Talwyd ardoll gwreiddiol o 15% o'r taliadau a wnaethpwyd ers 30 Medi 1992 yn ystod 2013/14, a talwyd 10% pellach yn 2016/17.

Fodd bynnag, yn unol â'r cynllun, bydd modd codi ardoll pellach os na fydd y lefi gwreiddiol yma yn ddigonol ar gyfer ymrwymadau MMI yn y tymor hwy. Mae Cyngor Gwynedd o'r farn y byddai'n ddarbodus i gynnal cronfa yn y disgwyliad y bydd yr ardoll gwreiddiol yn annigonol. Uchafswm cyfredol yr ymrwymiad i'r Awdurdod hwn yn seiliedig ar y ffigyrau cyhoeddedig diweddaraf oedd ar gael ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yw £1.3m.

NODYN 40 – YMDDIRIEDOLAETHAU

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel yr unig ymddiriedolwr ar gyfer 172 o gymroddion megis cronfeydd gwobrau ysgolion, a chronfeydd cysuron a gwelliannau i nifer o Sefydliadau'r Cyngor. Mae gan y Gronfa Fwyaf, y Gronfa Degwm, gyfriflyfr cyfrifo sy'n hollol ar wahân, tra bo'r Cyngor yn dal eiddo 171 o'r cymynroddion hyn ond nid yw'n gwneud penderfyniadau ar ddefnydd y cronfeydd. Ymhob achos, nid yw'r cronfeydd yn cynrychioli asedion y Cyngor ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn y Fantolen.

Cyfanswm balans y 171 o gymynroddion nad ydynt yn cael eu cydnabod ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2021 oedd £1,128,101 (£1,097,086 ar 31 Mawrth 2020). Buddsoddir y cronfeydd yn llawn er mwyn creu incwm.

Manylir ar y cymynroddion mwyaf, Y Gronfa Degwm ac Ymddiriedolaeth FMG Morgan, yn atodiadau A a B i'r cyfrifon hyn.

NODYN 41 – TREFNIANT CONSESIWN GWASANAETH

Mae GwryAD yn gynllun Trefniant Consesiwn Gwasanaeth, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel cynllun ‘Menter Cyllid Preifaf’ (MCP). Dechreuwyd ar y dasg o’i adeiladau yn 2012/13 a’r gwaith yn dod yn weithredol ym Medi 2013. Gwaith yw gogyfer â thrin gwastraff bwyd a ddiolir yn y tarddle gan breswylwyr a busnesau Gwynedd (yn bennaf) trwy ddefnyddio technoleg Treulio Anaerobig (Anaerobic Digestion). Mae hyn yn gymorth i’r Cyngor gyrraedd ei dargedau ailgylchu, a gweithio o fewn ei lwfansau tirlenwi o Wastraff Dinesig Biogddiraddadwy am gyfnod o 15 mlynedd.

Mae’r asedau sy’n cael eu darparu i gyflenwi’r gwasanaeth yn cael eu cydnabod ar Fantolen y Cyngor. Gwerth yr asedau perthnasol ar 31 Mawrth 2021 oedd £2.7m (£3.2m ar 31 Mawrth 2020). Mae’r Cyngor yn gwneud taliad cytunedig (ffi giât) bob blwyddyn yn seiliedig ar isafswm o dunelli sy’n cael ei gynyddu yn flynyddol gan chwyddiant ac sy’n gallu cael ei ostwng os yw’r contractwr yn methu â chyrraedd safonau argaeledd a pherfformiad mewn unrhyw flwyddyn. Mae gan y Cyngor yr hawl i gynyddu swm y tunelli dros y 7,500 tunnell cytunedig hyd at 11,000 tunnell, a bydd yn talu ffi giât ostyngol am unrhyw beth dros 7,500 tunnell.

	Taliad am Wasanaethau	Ad-daliad Gwariant Cyfalaf	Llog	Cyfanswm
	£’000	£’000	£’000	£’000
Talwyd yn 2020/21	498	160	105	763
Taladwy yn 2021/22	498	170	95	763
Taladwy o fewn 2 i 5 mlynedd	1,991	792	268	3,051
Taladwy o fewn 6 i 10 mlynedd	1,202	578	63	1,843
Cyfanswm	4,189	1,700	531	6,420

Er bod y taliadau sy’n cael eu gwneud i’r contractwr yn cael eu disgrifio fel taliadau unedol, maent wedi eu cyfrifo er digolledu’r contractwr am werth teg y gwasanaeth a gyflenwir, y gwariant cyfalaf a’r llog oedd yn daladwy.

Mae’r contractwr yn derbyn incwm o ynni sy’n cael ei gynhyrchu o’r gwastraff sydd wedi eu galluogi i gadw’r taliad unedol i’r Cyngor yn isel. Os yw’r incwm yn uwch na’r hyn sydd yn y cytundeb, mae trefniant iddo gael ei rannu rhwng y contractwr a Chyngor Gwynedd.

Mae’r ymrwymadau sy’n ddyledus i’r contractwr am y gwariant cyfalaf sydd wedi ei wneud fel a ganlyn:

	2020/21	
	Ymrwymadau Prydlesau	Incwm Gohiriedig
	£’000	£’000
Balans yn sefyll 1 Ebrill 2020	(1,700)	(1,227)
Ad-daliad o brifswm yn ystod y flwyddyn	160	0
Rhyddhad o incwm gohiriedig	0	146
Balans yn sefyll ar 31 Mawrth 2021	(1,540)	(1,081)

Gellir terfynu’r cytundeb gan un o’r ddwy ochr ar unrhyw adeg ar sail diffygion, yn amodol ar roi rhybudd yn unol â’r cytundeb. Yn ogystal, gall y Cyngor derfynu’r cytundeb yn unochrog yn unol â’r amodau ynddo. Byddai costau iawndal ynghlwm ag unrhyw drefniant terfynu. Ar ddiwedd y cytundeb, mae gan y Cyngor hawl i ail-dendro am contractwr i ddarparu’r gwasanaeth.

NODYN 42 – CYLLIDEB CYFUN

O dan reoliad 19(1) o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, cytunwyd ar drefniant cyllidebau cyfun rhwng Awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn perthynas â darparu llety cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn. Daeth y trefniant i rym ar 1 Ebrill 2019. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gweithredu fel Awdurdod lletya yn ystod cyfnod cychwynnol y cytundeb (2019/20 i 2021/22).

Bydd y partneriaid yn cyfrannu cyllid yn ôl eu gwir wariant ar gartrefi gofal i bobl hŷn.

Defnyddir yr un gyfrannedd i gyfarch diffyg, neu i rannu unrhyw gyllid sydd yn warged yn y gyllideb gyfun ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol.

Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn		
2019/20		2020/21
£'000		£'000
	Gwariant	
93,903	Costau Cartrefi Gofal	93,035
93,903	Cyfanswm Gwariant	93,035
	Ariannu	
(9,041)	Cyngor Sir Ddinbych	(8,626)
(13,417)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(13,106)
(8,916)	Cyngor Sir y Fflint	(9,397)
(11,059)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(12,203)
(7,839)	Cyngor Gwynedd	(8,641)
(5,075)	Cyngor Sir Ynys Môn	(5,049)
(38,556)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	(36,013)
(93,903)	Cyfanswm Ariannu	(93,035)
0	(Gwared) / Diffyg wrth gefn	0

NODYN 43 – GWEITHREDIADAU AR Y CYD A CHYD-BWYLLGORAU

Mae'r Cyngor yn rhan o nifer o weithrediadau ar y cyd gydag Awdurdodau cyfagos yng Ngogledd Cymru.

Yn ystod 2020/21, roedd Cyngor Gwynedd yn rhan o bedwar cyd-bwyllgor a thri gweithrediad ar y cyd, sef cydweithio mewn meysydd penodol rhwng Awdurdodau Lleol. Mae'n ofynnol i gyfrifon ar wahân gael eu cynhyrchu ar gyfer cyd-bwyllgorau. Y pedwar cyd-bwyllgor perthnasol i Wunedd yn ystod 2020/21 yw:

- Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd
- GwE
- Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC)
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Y tri gweithrediad ar y cyd sy'n berthnasol i Wunedd yn ystod 2020/21 ac sydd yn ymwneud â'r argyfwng Covid-19 yw:

- Rhaglen Profi, Orlhain a Diogelu
- Marwdy dros dro ym Mochdre
- Cynllun Argyfwng Bysus

Mae cyfrifon y cyd-bwyllgorau yn dilyn yr un amserlen o ran dyddiad statudol ar gyfer cwblhau y cyfrifon. Yn yr amgylchiadau, felly fe welir bod cyfrifon Cyngor Gwynedd yn adlewyrchu y gwir ymrwymiad net perthnasol, er bod y sefyllfa ddadansoddol oddrychol yn mynd i amrywio yn ddibynnol ar sefyllfa a threfniadau adrodd y gwahanol gyd-bwyllgorau. Mae'r ffigyrau ar gyfran berthnasol i Wunedd wedi eu cynnwys yn y tabl isod:

Gweithrediad ar y Cyd / Cyd-Bwyllgor	Awdurdod Lletya Cyllid	Cyngorau a Sefydliadau sydd yn rhan o'r Cydbwyllgor	Cyfran Cyngor Gwynedd	Gwerth Cyfran Gwynedd (Cyfrif Incwm a Gwariant)
			%	£'000
Cydbwyllgor				
Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd	Cyngor Gwynedd	Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Ynys Môn	50.00	215
GwE	Cyngor Gwynedd	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Sir y Fflint Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Ynys Môn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	17.63	734
Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru	Cyngor Sir y Fflint	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Sir y Fflint Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Ynys Môn	23.10	0
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Cyngor Gwynedd	Cyngor Sir Ynys Môn Cyngor Gwynedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Sir y Fflint Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Prifysgol Bangor Grŵp Llandrillo Menai Prifysgol Glyndŵr Wrecsam Coleg Cambria	12.50	60

Gweithrediad ar y Cyd				
Rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu	Cyngor Sir y Fflint	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Sir y Fflint Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Ynys Môn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	16.28	528
Marwdy dros dro ym Mochdre	Cyngor Sir y Fflint / Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Sir y Fflint Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Ynys Môn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	17.71	196*
Cynllun Argyfwng Bysus	Cyngor Sir y Fflint	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Sir y Fflint Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Ynys Môn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	23.42	1,897

* Cynnwys costau uniongyrchol y Cyngor tuag at farwdy rhanbarthol sydd wedi ei leoli ym Mochdre, ble mae Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy (CBSC) yn Awdurdod Arweiniol (£73k) a chyfran y Cyngor o swm sydd wedi ei hawlio gan Gyngor Sir y Fflint (CSFf) mewn perthynas â marwdy dros dro yng Ngogledd Cymru (£123k).

Gellir gweld cyfrifon y cyd-bwyllgorau unigol ar wefannau y cynghorau sydd yn arwain ar y gwasanaeth cyllid a chyfrifeg.

NODYN 44 – DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Awdurdodwyd y Datganiad Cyfrifon i'w gyhoeddi gan y Pennaeth Cyllid ar 6 Hydref 2021. Nid yw digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau. Lle'r oedd digwyddiadau cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau a oedd yn bresennol ar 31 Mawrth 2021, mae'r ffigyrau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau wedi'u haddasu ym mhob agwedd materol i ddangos effaith hyn. Mae'r cyfrifon wedi eu diweddarau ers eu cyhoeddi ar 28 Mai 2021 i ymgorffori darganfyddiadau'r archwiliwr.

Y GRONFA DEGWM

2019/20 £'000		2020/21 £'000
930	Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill	936
	Ychwaneger - Incwm yn ystod y flwyddyn	
18	Llog ar fuddsoddiadau	41
	Llai - Gwariant yn ystod y flwyddyn	
(13)	Grantiau a chostau	(19)
1	Trosglwyddo (Tan) / Gorwariant Gwynedd	0
		(19)
936	Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth	958
	A gynrychiolir gan yr Asedau canlynol	
13	Dyledwyr	1
900	Buddsoddiadau	900
26	Arian mewn llaw	62
939		963
(3)	Llai - Credydwyr	(5)
936	Cyfanswm	958

NODIADAU I'R CYFRIFON

1. Dywed Cynllun gweinyddu'r Gronfa y ceir defnyddio'r incwm at bwrpasau elusennol - addysgol, adloniadol a chymdeithasol, yn unol â disgresiwn y Cyngor.

2. Mae'r Ddeddf Elusennol 1993 yn gofyn am archwiliad annibynnol o ddatganiad o gyfrifon y Gronfa Degwm yn flynyddol.

3. Dangosir buddsoddiadau ar gost yn y cyfrifon. Gwerth y buddsoddiadau ar y farchnad ar 31 Mawrth 2021 oedd £859,725.

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH FMG MORGAN
--

2019/20 £'000		2020/21 £'000
189	Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill	194
	Ychwaneger - Incwm yn ystod y flwyddyn	
12	Llog enillwyd gan yr asedau	13
	Llai - Gwariant yn ystod y flwyddyn	
(7)	Grantiau	(19)
194	Cyfanswm y Gronfa 31 Mawrth	188
	Asedau	
145	Buddsoddiadau	144
49	Arian mewn llaw	44
194		188

NODIADAU I'R CYFRIFON

1. Sefydlwyd y Gronfa hon gyda gweddill ystâd y diweddar Mrs. Florence Merthyr Guest Morgan. Roedd incwm y Gronfa i'w ddefnyddio er budd trigolion rhannau o Lŷn at bwrpasau penodedig.
2. Dangosir buddsoddiadau ar gost yn y cyfrifon. Gwerth y buddsoddiadau ar y farchnad ar 31 Mawrth 2021 oedd £362,553 (£307,833 ar 31 Mawrth 2020).
3. Mae Cronfa FMG Morgan tu allan i ofynion y Ddeddf Elusennol 1993. Oherwydd hyn nid oes angen archwiliad annibynnol o'r Gronfa Ymddiriedolaeth hon.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn cwrdd â'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae'n ddyletswydd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i Gyngor Gwynedd wneud trefniadau i sicrhau gwelliant wrth arfer ei swyddogaethau, gan roi sylw penodol i effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaethau, argaeledd gwasanaethau, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesi.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang yma, mae Cyngor Gwynedd hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, ac sydd yn cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo a mabwysiadu Côt Llywodraethu Corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/Solace *Delivering Good Governance in Local Government*. Mae copi o'r côd i'w gael ar ein gwefan, neu gellir derbyn copi trwy ysgrifennu at Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Sir, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH. Mae'r datganiad yma yn esbonio sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r côd ac mae hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 5(5) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reoli mewnol.

Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyngor i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisiau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses parhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion y Cyngor, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod yn ei le yng Nghyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn sy'n diwedd 31 Mawrth 2021 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

Rhan 3: TREFNIADAU LLYWODRAETHU A’U HEFFEITHIOLRWYDD

- 3.1 Mae’r **Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu** yn cadw golwg parhaus, disgybledig ar faterion llywodraethu, yn codi ymwybyddiaeth ehangach ohonynt, ac yn hybu perchnogaeth ehangach o’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae’r Grŵp yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol (Refeniw & Risg), Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teuluoedd, y Rheolwr Risg & Yswiriant a’r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.
- 3.2 Yn sgil cyhoeddi fersiwn newydd o Fframwaith CIPFA/SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government* yn 2016, mae’r Grŵp wedi addasu trefniadau’r Cyngor ar gyfer adnabod ac asesu ei drefniadau llywodraethu er mwyn adlewyrchu’r Fframwaith newydd. Canlyniad hynny oedd gosod allan y fframwaith leol ar ffurf Cofrestr Risg Llywodraethu sydd yn rhan o’r Gofrestr Risg Gorfforaethol, gan adnabod 22 maes o risg llywodraethu. Mae un maes ychwanegol wedi cael ei ddiffinio gan y grŵp yn ystod 2020/21, sef risg o safbwynt llywodraethu lechyd, Diogelwch a Llesiant.
- 3.3 Rhoddir amlinelliad o’r Meysydd Llywodraethu, y risgiau perthnasol a threfniadau’r Cyngor er mwyn ymdrin â hwy, ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny, yng ngweddill y rhan yma o’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- 3.4 Ar gyfer pob un o’r Risgiau Llywodraethu, dangosir sgôr risg cyfredol, sef y sgôr ar ôl asesiad gwrthrychol o’r trefniadau rheoli sydd yn eu lle rŵan. Rhoddir ystyriaeth i ddau ffactor:
- **Effaith** y risg petai’r digwyddiad yn cael ei wireddu
 - **Y Tebygolrwydd** iddo ddigwydd.
- 3.5 Mae’r sgoriau Effaith yn amrywio o 1 (effaith gweladwy) i 5 (effaith catastroffig), a’r sgoriau Tebygolrwydd o 1 (Annhebygol iawn) i 5 (digwydd rŵan). Cyfrifir y sgôr risg drwy luosi’r sgôr effaith a’r sgôr tebygolrwydd gyda’u gilydd.
- 3.6 Asesir lefel gymharol y risgiau fel a ganlyn:

Sgôr 20-25	Risg Uchel iawn
Sgôr 12-16	Risg Uchel
Sgôr 6-10	Risg Canolig
Sgôr 1-5	Risg Isel

- 3.7 Ers Mawrth 2020, hyd at dyddiad cyhoeddi Datganiad Cyfrifon 2020/21, mae’r Cyngor wedi parhau i ymateb i argyfwng pandemig Covid-19. Lle mae hynny wedi cael effaith arwyddocaol a gweladwy ar drefniadau llywodraethu’r Cyngor, mae hynny wedi cael ei nodi isod.

Diwylliant

Risg: Fod diwylliant amhriodol o fewn y Cyngor yn llesteirio ein gallu i wneud y pethau iawn ac i'w gwneud yn y ffordd iawn

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Uchel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae cael diwylliant priodol yn gallu hyrwyddo'r holl agweddau llywodraethu a nodir yn y gofrestr ac yn yr un modd, mae cael diwylliant amhriodol yn gallu llesteirio'r holl agweddau llywodraethu.
- O gael y diwylliant yn iawn, mae modd i hynny oruchafu popeth arall sy'n effeithio ein gallu i gyflawni gan y bydd yr egwyddorion llywodraethu da yn rhan annatod o ymddygiad dydd i ddydd pob unigolyn o fewn y sefydliad. Mae Strategaeth Ffordd Gwynedd bellach yn nodi mai un o brif amcanion y Cyngor yw rhoi Pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Mewn gwirionedd mae hyn hefyd yn disgrifio gwerthoedd y Cyngor - sef unrhyw beth sy'n gydnaws â'r amcan hwnnw.
- Mae'r rhaglen 6 diwrnod i hyfforddi rheolwyr gwasaneth ar egwyddorion Ffordd Gwynedd (gan gynnwys egwyddorion rheoli perfformiad cadarn) wedi'i chyflwyno ers Haf 2017. Mae pob rheolwr gwasanaeth wedi dilyn yr hyfforddiant hwn erbyn hyn, gyda'r hyfforddiant hwn wedi bod ar gael i reolwyr newydd yn ogystal a darpar reolwyr i'r dyfodol. Mae'r Rhwydwaith Rheolwyr wedi'i ail-sefydlu ac wedi cynnal ei gyfres cyntaf o gyfarfodydd ym Mawrth 2019. Mae'r arwyddion cynnar yn galonogol gyda'r anogaeth i reolwyr a'u timau ymgymryd ag adolygiadau o fewn eu gwasanaethau eu hunain yn hytrach na'r canolbwyntio blaenorol ar gynnal adolygiadau dwys. Mae cynnydd arwyddocaol yn gyffredinol ond mae tystiolaeth o hyd nad yw'r cynnydd hwnnw yn gyson ar draws y Cyngor.
- Mabwysiadwyd Cynllun a rhaglen waith Ffordd Gwynedd ar gyfer y cyfnod 2019-2022 gan y Cabinet ar y 23 o Orffennaf, 2019. Mae'r Cynllun yn adnabod naw maes y byddwn yn canolbwyntio arno er mwyn gwreiddio'r "ffordd o weithio" ymhellach. Gyda golwg ar sicrhau fod pawb yn glir pa ymddygiad sy'n ddisgwyliedig ohonynt cylchredwyd swydd-ddisgrifiad newydd i bob rheolwr/uwch-reolwr sy'n amlinellu'r ymddygiadau disgwyliedig ohonynt a chytunwyd ar gynnwys generig i swydd-ddisgrifiad newydd ar gyfer penaethiaid a penaethiaid cynorthwyol. Mae ymgynghoriad yn bresennol ar gynnwys generig terfynol swydd-ddisgrifiadau ar gyfer arweinyddion tîm a staff yn gyffredinol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
4	3	12

Ymddygiad

Risg: Diffyg integriti, moeseg a pharch yn ymddygiad aelodau a swyddogion, gan danseilio hyder y cyhoedd yn y Cyngor

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu codau ymddygiad ar gyfer ei aelodau a swyddogion, yn seiliedig ar reoliadau cenedlaethol (codau fel y Cod Perthynas Aelod/Swyddog; y Cod Ymddygiad Aelodau; Y Cod Ymddygiad Swyddogion; Y Polisi Gwrth Dwyll a Llygredd a'r Cod Ymarfer Canu'r Gloch) ac mae rhain at ei gilydd yn gosod sylfaen ar gyfer sicrhau intergriti a moeseg. Mae tystiolaeth o weithredu pan mae'n ymddangos fod y codau ymddygiad hyn wedi cael eu torri.
- Mae tystiolaeth glir fod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth ddilys i adroddiadau'r Ombwdsman fel rhan o waith y Pwyllgor Safonau, sy'n gweithio'n effeithiol

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Cyfreithlondeb

Risg: Anwybyddu rheol y gyfraith, sy'n golygu fod y Cyngor yn agored i heriau yn y llysoedd.

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Rhaid i swyddogion statudol (y Swyddog Monitro a Phennaeth Cyllid) gynnig sylwadau ar unrhyw benderfyniad ffurfiol, fel rhan o Gyfansoddiad cynhwysfawr sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.
- Mae protocolau ffurfiol yn eu lle er mwyn gwarchod hawliau'r swyddogion statudol.
- Ni fu newid i'r trefniadau hyn yn ystod cyfnod y pandemig.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	1	3

Bod yn agored

Risg: Cyngor sydd ddim yn agored, sy'n golygu nad oes modd ei ddal yn atebol am ei benderfyniadau

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Isafswm bosib o adroddiadau Pwyllgor sydd yn eithredig
- Rhoddir cyhoeddusrwydd i daflenni penderfyniad aelodau unigol, gyda gweithdrefnau sy'n sicrhau fod hyn yn digwydd.
- Cyhoeddir papurau cefndir gydag adroddiadau pwyllgor er mwyn sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud gyda gwybodaeth lawn.
- Fe we-ddarllidir nifer o gyfarfodydd pwyllgorau sy'n cymryd penderfyniadau.
- Bydd y Cabinet yn ystyried adroddiadau perfformiad yn rheolaidd fel rhan o'u cyfarfodydd sy'n agored a bydd y Cyngor yn cyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol, Adroddiad Perfformiad Blyneddol a'r Datganiad o'r Cyfrifon i geisio rhoi gymaint o wybodaeth ag y byddai trigolion ei angen i ni fod yn atebol.
- Defnyddir ddulliau amrywiol eraill hefyd megis y wefan, Newyddion Gwynedd a chyfryngau cymdeithasol i geisio sicrhau fod trigolion Gwynedd yn ymwybodol o beth sydd yn digwydd o fewn y Cyngor.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	1	2

Rhanddeiliad

Risg: Perthynas wan gyda rhanddeiliaid sefydliadol, gan ddiweddu gyda gwasanaethau is-optimaid

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae parodrwydd cyrff sector gyhoeddus, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, cynghorau unedol eraill cyfagos, yr Heddlu, Y Bwrdd Iechyd, y trydydd sector ac eraill i gydweithredu er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd yn gallu cael effaith sylweddol, weladwy i Bobl Gwynedd.
- Mae gwaith yn mynd yn ei flaen o hyd i ymateb i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n hwyluso egwyddor o'r fath.
- Mae yna waith wedi digwydd i greu Cynllun Llesiant ac mae'r berthynas rhwng y sefydliadau wedi aeddfedu.
- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Fodd bynnag, mae aelodau wedi codi'r cwestiwn a yw'r Bwrdd wedi darganfod y lle hwnnw lle mae'r gwir werth sydd ar gael yn cael ei uchafu eto ynteu a oes yna elfen o ffeindio ein ffordd yn digwydd o hyd. Mae'r sefyllfa yn aeddfedu yn raddol..
- Mae Cynllun y Bwrdd yn gyson gyda Chynllun y Cyngor.
- Nid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw'r unig gyfrwng ar gyfer cydweithio gydag asiantaethau eraill ac mae yna risg bod yr amrediad eang o strwythurau cydweithio yn gallu llesteirio'r holl amcan o gydweithio gan greu dryswch.
- Mae gan y Cyngor Feini Prawf Partneriaethau wedi cael eu sefydlu ers sawl blwyddyn, fel bod Cyngor Gwynedd dim ond yn mynd i bartneriaethau pan mae hynny er lles pobl Gwynedd.
- Mae cydweithio hefyd yn digwydd ar lefel rhanbarthol sydd ddim bob tro mor effeithiol ag y gallai fod oherwydd maint yr ôl troed a'r trafferthion o adeiladu perthynas gyda nifer mor fawr o bobl. Mae yna rai engreifftiau o lwyddiant (e.e. Bwrdd Uchelgais) ac un o ymatebion y Cyngor i'r Papur Gwyn a gyhoeddwyd ar ddyfodol Llywodraeth Leol oedd fod angen cydweithio yn ôl y budd fyddai'n deillio yn hytrach na glynu'n ddogmataidd i un model. Nodwyd hefyd fod angen sicrhau nad oes unrhyw gydweithio yn llesteirio atebolrwydd lleol am wasanaethau.
- Mae'r Cyngor yn ceisio chwarae ei ran yn symleiddio'r amgylchedd waith hynod gymhleth sydd wedi datblygu.
- Mae yna gydweithio hefyd yn digwydd ar lefel sirol gyda llwyddiant yn amrywiol. Mae ein perthynas gyda'r Trydydd Sector yn parhau i esblygu ac rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn defnyddio'r berthynas honno i uchafu'r budd sy'n gallu deillio o hynny i bobl Gwynedd. Mae'r siwrnai yma yn parhau gyda'r adrannau perthnasol yn parhau i ddatblygu'r berthynas.
- Yn ystod cyfnod y pandemig gwelwyd brwdfrydedd amlwg ymysg gwirfoddolwyr i helpu ein cymunedau a bu'r Cyngor yn weithgar yn ceisio cynorthwyo'r grwpiau hynny i lwyddo.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Ymgysylltu

Risg: Methiant i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion unigol, gan arwain at beidio gwneud pethau yn iawn

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Bwriad Strategaeth Ymgysylltu'r Cyngor yw sicrhau fod y Cyngor yn derbyn barn y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill fel bo'n briodol, gyda'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn cefnogi gwasanaethau i ymgynghori yn y dull addas.
- Llwyddwyd i gyflawni holl elfennau'r Strategaeth Ymgysylltu.
- Mae trefniadau wedi eu sefydlu fel y gellir ymgysylltu'n effeithiol gyda grwpiau a charfannau megis pobl ifanc, pobl LGBT+, lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid, oedolion gydag anabledau dysgu a busnesau Gwynedd.
- Mae trefniadau wedi eu sefydlu ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth i sicrhau fod prosiectau lefel gwasanaeth a gefnogir yn cwrdd ag egwyddorion ymgysylltu'r Cyngor.
- Mae dros 700 o unigolion bellach yn aelodau o'r Panel Trigolion newydd a sefydlwyd yn dilyn cyflwyno deddfwriaeth GDPR.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Cyfeiriad a gweledigaeth

Risg: Cyfeiriad a gweledigaeth sydd heb ei wreiddio mewn canlyniadau i unigolion ac nad yw felly'n gwireddu anghenion Pobl Gwynedd

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor yn effeithiol wrth bennu ei flaenoriaethau a rheoli disgwyliadau oherwydd y diwylliant o ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd, gyda'r mesurau perfformiad a ddefnyddir i herio perfformiad ar draws yr holl wasanaethau yn deillio o hyn.
- Cymeradwywyd Cynllun y Cyngor 2018-23 (adolygiad 2021/22) gan y Cyngor llawn ar 4 Mawrth 2021. Mae'r Cynllun yn cynnwys ein saith Amcan Llesiant, wyth Blaenoriaeth Gwella a phob cynllun adrannol. Canolbwyntwyd ar sicrhau ei fod yn glir a hawdd i bawb i'w ddarllen a'i ddeall.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	2	6

Cynaliadwyedd

Risg: Risg o greu atebion anghynaliadwy sydd ddim yn cydymffurfio gyda 5 egwyddor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac felly ddim yn edrych ar yr hirdymor

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor wedi cydnabod pwysigrwydd gweithredu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac, ar y cyd â'i bartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi gwneud gwaith cychwynnol i adnabod yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn gweithredu yn unol â'r 5 egwyddor - Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio a Cynnwys.
- Mae'r Cyngor eisioes yn cydymffurfio â'r holl egwyddorion ond i raddau gwahanol. Penderfynodd y Grŵp Rheoli mai'r ffordd orau oedd i Dimau Rheoli Adrannau i dalu sylw i'r egwyddorion wrth gynllunio ymlaen. Mae adroddiadau sy'n dod gerbron y Cabinet yn cael eu cyflwyno ymlaen llaw i'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol er mwyn eu hadolygu i gadw golwg ar sefyllfaoedd lle efallai nad oes sylw priodol wedi eu rhoi i'r egwyddorion. Drwy hyn y gobaith yw y byddwn yn gwreiddio'r egwyddorion yn naturiol yn hytrach na thicio bocsys ond amser a ddengys a fyddwn yn llwyddiannus.
- Cynhaliwyd archwiliad gan y Gwasanaeth Archwilio mewnol ar ddechrau 2020 i asesu sut mae'r 5 ffordd o weithio wedi eu gwreiddio o fewn Adrannau unigol. Awgrymwyd fod angen gwneud gwaith pellach i hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth Uwch Reolwyr/Rheolwyr/Swyddogion Prosiect ar y Ddeddf.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Penderfyniadau

Risg: Amharoddrwydd i wneud penderfyniadau ar weithredu, sy'n golygu oedi mewn gwireddu canlyniadau i bobl Gwynedd

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Tystiolaeth dros y blynyddoedd diwethaf fod Cyngor Gwynedd yn fodlon gwneud penderfyniadau anodd neu amhoblogaidd e.e. maes ysgolion, allanoli ei Dai Cyngor, gweithredu ar ganlyniadau anodd Her Gwynedd; newid y drefn leuenctid a chymryd camau i sicrhau egwyddorion gweithredu ym maes Addysg.
- Mae'r Cabinet a'r Cyngor llawn wedi cyfarfodydd yn rhithiol trwy dduliau meddalwedd fideogynadleda yn unol â'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Cynllunio Gweithrediadau

Risg: Ymyrryd heb gynllunio'n ddigonol, fyddai'n gallu golygu unai gweithredu ar fypw neu gynllunio'n ormodol gan wastraffu amser ac adnoddau

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor yn ymdrechu i gynnal balans addas rhwng cael gweithdrefnau Rheoli Prosiectau a gweithio'n effeithlon. Yn hynny o beth, mae'r Cyngor eisoes yn cynnal trefniadau rheoli prosiect ar cadarn ar gyfer y prosiectau mwyaf, gan ddefnyddio fersiwn llai cynhwysfawr ond yn seiliedig ar yr un egwyddorion ar gyfer prosiectau eraill.
- Er mwyn sicrhau fod y pethau cywir yn cael eu mesur mae mesurau cyflawni pob gwasanaeth yn seiliedig ar gyflawni pwrpas gan geisio sicrhau fod unrhyw weithred yn gwella ein gallu i gyflawni hynny.
- Ceisir taro cydbwysedd rhwng yr angen am drefn a'r angen i gyflawni cyn gynted ag bod modd drwy wneud cyn lleied o waith papur ag sy'n gyson gyda hynny, gan annog adroddiadau syml a byr yn gosod allan y prif bwyntiau allweddol.
- Mae gan y Cyngor Strategaeth Ariannol Tymor Canol, gyda cyllidebau blynyddol yn seiliedig ar hwnnw. Mae gwaith y Cyngor ar gynllunio ariannol yn cael ei ganmol yn rheolaidd gan yr archwilwyr allanol, ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cymryd rôl flaenllaw ar graffu ariannol.
- Wrth adolygu ein trefniadau craffu byddwn yn cynnwys mwy o flaen graffu a'r gobaith yw y bydd hyn yn helpu'r Cabinet i ddewis y camau priodol i'w cymryd mewn amrywiol feysydd. Fodd bynnag os am wneud hynny rydym wedi cydnabod eisoes nad drwy gael Pwyllgor Craffu i edrych ar rywbeth yn syth cyn ei fabwysiadu yw'r ffordd o wneud hynny ond yn hytrach i aelodau Craffu fod yn rhan o'r asesu ar y cychwyn cyntaf. Golyga hyn fod angen i faterion fod yn hysbys yn gynnar yn y broses a Chraffu yn cael ei ddefnyddio yn ddigon buan. Amser a ddengys a fydd y trefniadau newydd yn gwneud hynny.
- Mae yna elfen o dystioaeth fod angen gwella'r cyfathrebu rhwng y Cabinet a'r corff sy'n gyfrifol am gydgordio'r gwaith craffu o hyd.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Adolygu deilliannau

Risg: Methiant i adolygu deilliannau en gweithredoedd, sy'n golygu nad ydym yn dysgu gwersi gan barhau i wneud yr run pethau yn anghywir

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae trefniadau asesu risg, llunio Cynllun Corfforaethol a rheoli prosiect y Cyngor yn sicrhau fod y deilliannau a fwriedir eu cyflawni ar gychwyn unrhyw brosiect yn glir.
- Mae'r adroddiad perfformiad blynyddol yn ceisio canolbwyntio ar asesu i ba raddau y mae'r deilliannau hynny wedi cael eu cyflawni. Mae yna engreiffiau lle mae hynny wedi digwydd yn dda ac mae'r sefyllfa yn gwella.
- Mae yna drafodaethau yn parhau i geisio sicrhau fod y Blaenoriaethau gwella yn ein Cynllun Corfforaethol yn fwy pendant o ran deilliannau, gyda'r Cynllun Perfformiad yn asesu i ba raddau y cyflawnwyd y deilliannau hynny. Ein bwriad maes o law yw eu cyfuno mewn un ddogfen fydd yn gyfrwng i wella'r sefyllfa.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	2	6

Asedau Eiddo

Risg: Asedau Eiddo'r Cyngor ddim yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cynllun Asedau ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd o 2019/20 hyd 2028/29 wedi cael ei ddatblygu a chafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 07/03/2019.
- Canlyniad hyn yw fod nifer o adeiladau nad oedd mo'u hangen mwyach wedi cael eu gwaredu.
- O ran y cerbydau mae yna gynllun ar waith i geisio gwneud gwell defnydd o fflyd y Cyngor sydd eisoes wedi cyflwyno rhai arbedion ariannol ac yn debygol o gyflawni mwy.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Asedau Technoleg Gwybodaeth

Risg: Asedau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor ddim yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae defnyddio technoleg mewn ffordd effeithiol yn arf hanfodol i sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n cwrdd ag anghenion trigolion, gan wneud hynny mewn ffordd cost effeithiol.
- Mae gweithgareddau Technoleg Gwybodaeth dros y blynyddoedd a fu wedi canolbwyntio ar sicrhau isadeiledd priodol er mwyn gwarantu cefnogaeth sylfaenol i wasanaethau. Tra bod yna engreiffiau lle 'rydym wedi medru defnyddio technoleg gwybodaeth yn ehangach i wella sut yr ydym yn cyflawni gwasanaethau i drigolion Gwynedd, nid oes yna dystiolaeth fod hyn yn gyson ar draws yr awdurdod a'i fod yn digwydd ar y cyflymder yr hoffem iddo ddigwydd.
- Mae'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth yn gosod camau i ymestyn y defnydd a wneir o dechnoleg er mwyn cefnogi amcanion gwella y Cynllun Strategol, gan hefyd gryfhau gallu gwasanaethau i fanteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio technoleg yn effeithiol. Mae yna elfen o dystiolaeth fod hyn yn dwyn ffrwyth gyda hunan wasanaeth yn dod yn fwy a mwy o ran o ddefnyddio technoleg i'w gwneud yn haws i drigolion gael gwasanaethau.
- Wrth ymestyn defnydd technoleg mae risgiau pellach yn ein wynebu o ran diogelwch a seibrgadernid, gyda'r elfen yma yn asesiad hanfodol o unrhyw ddatblygiad newydd neu adolygiad o ddatrysiad cynhenid.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Cynllunio'r Gweithlu

Risg: Gweithlu'r Cyngor ddim yn cael ei ddatblygu, sy'n golygu nad ydym yn gallu darparu gwasanaethau gorau i bobl Gwynedd

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cynllun Pobl yn blaenoriaethu gwella trefniadau ar gyfer meithrin talent o fewn y Cyngor, gwella ein trefniadau Cynllunio'r Gweithlu, a sicrhau fod ein trefniadau dysgu a datblygu yn canolbwyntio ar y pethau angenrheidiol.
- Er mwyn sicrhau fod y Cyngor mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau sydd yn rhoi Pobl Gwynedd yn y canol bob amser, rhaid sicrhau fod gennym y staff iawn yn y lle iawn gyda'r sgiliau iawn. Golyga hynny fod angen i ni hyfforddi staff yn barhaus, gwerthuso eu perfformiad, a meithrin a datblygu eu talent. Mae trefniadau hyfforddi staff yn ffordd bwysig o hybu a lledaenu meddylfryd Ffordd Gwynedd ar draws y Cyngor, ac wrth gwrs mae'n hollbwysig fod gan y Cyngor swyddogion sydd â'r sgiliau i gyflawni eu swyddi.
- Mae'r angen i ddatblygu unigolion i gyflawni swyddogaethau arbenigol ac allweddol yn cael ei ddiwallu mewn sawl modd gyda'r ffocws ar ymestyn y nifer o brentisiaethau presennol, cynllun Arbenigwyr Yfory a datblygu sgiliau arwain ymysg y gweithlu presennol trwy gyflwyno'r cynllun datblygu potensial presennol i'w weithredu ar draws pob Adran yn y Cyngor.
- Mae trafferthion llenwi rhai swyddi uwch o fewn y Cyngor yn awgrymu fod angen gwella ein gallu i greu dilyniant ar gyfer uwch swyddi, o leiaf. Mae hyn wedi ei adnabod fel sail i ddatblygu talent fewnol o fewn y Cynllun Pobl.
- Ymhellach, mae trafferthion recriwtio ar gyfer rhai swyddi mewn ardaloedd daearyddol penodol o fewn Gwynedd (e.e. gweithwyr gofal ym Meirionnydd). Mae'r Grŵp Prosiect a swyddogion y Tim Adnoddau Dynol yn cydweithio'n agos hefo rheolwyr yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn bresennol ac yn canolbwyntio ar adnabod swyddi a swyddogaethau allweddol yno. Mae'r Cynllun hwn wedi esblygu dros y deuddeg mis diwethaf ac mae o ers Ionawr 2021 yn ymgorffori gwaith sy'n cynnwys datblygiad y cynllun prentisiaethau a chynlluniau Adnabod a Datblygu Talent o fewn a thu hwnt i'r gweithlu presennol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Arweinyddiaeth

Risg: Diffygion yn arweinyddiaeth y Cyngor yn golygu nad ydym yn gwneud y pethau cywir

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae Arweinyddiaeth yn gosod y safon y mae disgwyl i bob Aelod a gweithiwr yn y Cyngor ei ddilyn. Mae ei effaith, felly, yn enfawr - gall Arweinyddiaeth dda oresgyn popeth arall, tra gallai Arweinyddiaeth wael ddistrywio'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni. Hwn sy'n hwyluso gwreiddio diwylliant y Cyngor.
- Mae rolau y Cyngor, Cabinet, Aelodau Unigol a Prif Swyddogion, ynghyd â chynllun dirprwyo clir, wedi eu gosod allan yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae Cyngor Gwynedd hefyd wedi blaenoriaethu datblygu ei Raglen Arweinyddiaeth ac mae hwnnw yn rhan o'r Cynllun Pobl a fabwysiadwyd gan y Cabinet.
- Tra bod yna ymrwymiad clir i fod yn ceisio gwella arweinyddiaeth yn barhaus, nid ydym bob tro yn y gorffennol wedi bod yn glir beth y mae hynny yn ei olygu na sut i'w wella.

- Mae yna elfen o dystiolaeth (drwy hunan asesiad) fod arweinyddiaeth o fewn y Cyngor yn gwella gyda nifer o enghreifftiau o arweinyddiaeth trawsffurfiol yn cael ei arddangos yn hytrach nag arweinyddiaeth trafodaethol. Mae'r pwyslais cynyddol a roddir ar "arwain" yn hytrach na "rheoli" o fewn diwylliant Ffordd Gwynedd yn arwydd arall cadarn o'r camau breision sy'n cael eu cymryd gydag aelodau'r Cabinet yn cymryd rol blaenllaw i hyrwyddo arweinyddiaeth dda trwy ymrwymo i'w datblygiad fel arweinwyr. Ymhellach cytunwyd ar yr hyn a ddiffinir fel arweinyddiaeth o fewn Cyngor Gwynedd ac mae'r diffiniad hwnnw yn cael ei adlewyrchu mewn swydd-ddisgrifiadau diwygiedig ar gyfer pob pennaeth a rheolwr yn y Cyngor. Mae'r ymrwymiad ar lefel gwleidyddol a gweithredol yn arddangos bod y camau positif hyn wedi dwyn ffrwyth a bod yr angen a'r gallu i arwain yn gwreiddio fel y norm o fewn y Cyngor
- Mae atgyfodiad diweddar y Rhwydwaith Rheolwyr, gyda'r pwyslais ar ddatblygu sgiliau arwain, yn gam allweddol arall yn y newid pwyslais o ddiwylliant "rheoli" i "arwain" o fewn y Cyngor tra bo'r Adolygiad Rheolaethol a'r swydd-ddisgrifiadau diwygiedig hefyd wedi cyfrannu at eglurder yng nghyswllt y disgwyliad o arwain.
- Yn sgil hyn oll, ystyrir y gwaith yma fel rhywbeth sy'n parhau yn allweddol ond gan gydnabod nad yw'n gymaint o risg ag y bu yn y gorffennol.
- Er mwyn adlewyrchu hynny, mae'r gwaith hwn wedi'i ymgorffori o fewn rhaglen waith Cynllun Ffordd Gwynedd yn hytrach na sefyll fel prosiect ar ei draed ei hun er bod prosiect penodol yn parhau i gael blaenoriaeth gwella uchel yng nghyswllt Merched mewn Arweinyddiaeth o fewn y Cyngor.
- Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y nifer o ferched sydd yn cyflawni swyddogaeth rheolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur â rhaniad y gweithlu cyfan ac felly'n edrych i hybu'r nifer merched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
4	2	8

Rheoli Risg

Risg: Gwendidau yn ein trefniadau rheoli risg, sy'n cynyddu'r bygythiad o rhywbeth yn mynd o'i le neu fetu cymryd cyfle i wella

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae yna drefniadau cryf ar gyfer monitro ein cydymffurfiaeth â rhai mathau penodol o risgiau gweithredol.
- Mae pob risg yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi cael ei ystyried o berspectif y risg i Bobl Gwynedd, nid o safbwynt mewnbylg y Cyngor.
- Lansiwyd Cofrestr Risg Corfforaethol ar ei newydd wedd ar 6 Mawrth 2021. Mae'r system newydd yn cynnig cyfleuster hwylus i ddefnyddiwr ym mhob adran wrth iddynt ystyried eu blaenoriaethau a nodi beth sydd angen ei wneud, ac i gynorthwyo aelodau i herio perfformiad a sicrhau fod y camau disgwyliedig wedi cael eu cymryd.
- Mae'r Pandemig Covid-19 wedi bod yn brawf sylweddol i Gynllun Pandemig Ffliw ac i gynlluniau parhad gwasanaeth y Cyngor. Yn syth fe welwyd yr hyn sy'n digwydd gydag unrhyw gynllun, sef bod yna bethau yn digwydd nad ydynt wedi eu cyfarch yn y cynllun. Er enghraifft nid oedd y Cynllun Pandemig Ffliw yn rhagweld y byddai cymdeithas ei hun yn cael ei gloi lawr ac y byddai angen dygymod nid yn unig gydag absenoldebau staff ond hefyd gyda staff i gyd yn gweithio o adref.

- Serch hynny llwyddwyd i ymateb ac mae'r nifer cymharol is yn yr achosion na'r hyn a ragwlewyd yn y tafluniadau gwreiddiol; y cyfyngiad yn y nifer marwolaethau a'r ffaith y bu modd i'r Cyngor barhau i ddarparu ei wasanaethau Blaenoriaeth 1 yn dyst i hynny.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
5	2	10

Perfformiad

Risg: Gwendidau yn ein trefniadau rheoli perfformiad sy'n golygu nad ydym yn gallu cymryd camau priodol i wireddu ein pwrpas

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae cyfundrefn Rheoli Perfformiad y Cyngor yn canolbwyntio ar sicrhau fod unedau busnes yn cyflawni eu pwrpas, a hynny trwy adolygu'n barhaus os ydym yn mesur y pethau cywir.
- Mae yna gyfarfodydd rheolaidd gydag Aelodau Cabinet a rheolwyr i asesu'r perfformiad diweddaraf gydag aelodau o'r Pwyllgor Craffu perthnasol hefyd yn bresennol i roi her. Cyflwynir adroddiadau perfformiad rheolaidd gan yr aelodau Cabinet ar eu meysydd cyfrifoldeb hwy i gyfarfodydd y Cabinet. Er hyn, nodir fod y drefn yma wedi cael ei ohirio yn ystod gwanwyn 2020 oherwydd y pandemig, ond wedi ailgychwyn 2021.
- Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn arsylwi ar ein perfformiad mewn gwahanol feysydd drwy gyhoeddi amrywiol adroddiadau ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cymryd trosolwg fod unrhyw argymhellion yn derbyn sylw.
- Mae'r Drefn Gwynion Gorfforaethol newydd yn parhau i ddatblygu'n dda. Mae'r Swyddog Gwella Gwasanaeth yn sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o gwynion, ac yn osgoi ailadrodd camgymeriadau. Mae'r Gwasanaeth Cwynion a Gwella Gwasanaethau wedi gallu parhau i weithredu i ddelio â phryderon y cyhoedd ac i gefnogi gwasanaethau trwy gydol cyfnod y pandemig.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Rheolaeth Fewnol

Risg: Trefniadau rheolaeth fewnol anaddas, sy'n golygu unai nad ydym yn gwarchod rhag risgiau, neu yn gwastraffu adnoddau ar or-reoli

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae adroddiad blynyddol y Rheolwr Archwilio yn cadarnhau fod modd rhoi sicrwydd ar y rheolaethau mewnol yn y Cyngor.
- Mae adolygu ac addasu rheolaethau mewnol fel eu bod yn gymesur i'r hyn sydd ei angen yn greiddiol i'r nod o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud, gan waredu tasgau or-fiwrocraidd. Mae cael gwared o rwystrau yn ran o waith pawb, gan arwain at lefel addas o reolaeth fewnol.
- Mae effeithlonrwydd y gyfundrefn Archwilio Mewnol dan adolygiad parhaus, ac mae hunanasesiad yn dangos fod y gwasanaeth yn cwrdd â'r safonau proffesiynol yn unol â'r disgwyl.

- Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gylch gorchwyl cytunedig sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae tystiolaeth fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn effeithiol iawn yn gwireddu ei swyddogaethau.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Gwybodaeth

Risg: Methiant i reoli gwybodaeth gan arwain at fethu gwarchod y gwybodaeth sydd gennym, neu beidio gwneud y defnydd gorau ohono.

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r system ERDMS, iGwynedd, bellach wedi ei chyflwyno i bawb yn y Cyngor ac yn sylfaen ar gyfer rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol, lleihau dyblygu a galluogi llai o gamau mewn prosesau. Mae'r gwaith o uwchraddio'r system i fersiwn ddiweddaraf y dechnoleg yn mynd yn ei flaen yn ystod 2021.
- Mae'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth yn cefnogi adrannau wrth ddefnyddio gwybodaeth i wneud penderfyniadau gan ganolbwyntio ar y blaenoriaethau uchaf yng Nghynllun y Cyngor.
- Mae angen parhaus i godi ymwybyddiaeth am egwyddorion Diogelu Data, a gwella ymagweddiad yn y maes. Mae'r gwaith hwn yn parhau.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Cyllid

Risg: Gwendidau wrth rheoli arian cyhoeddus, sy'n golygu nad yw cyllid y Cyngor yn cael ei ddefnyddio ar ei flaenoriaethau

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol da, sydd eisoes wedi adnabod llawer o arbedion effeithlonrwydd er mwyn isafu'r toriadau gwasanaeth i drigolion Gwynedd.
- Mae'r gwaith sydd eisoes wedi ei gyflawni dros nifer o flynyddoedd yn awgrymu ein bod wedi cynaeafu cyfran helaeth o'r arbedion effeithlonrwydd sydd ar gael, ond mae angen parhau i fonitro cynlluniau cymeradwy holl adrannau'r Cyngor er mwyn sicrhau fod y swmp o'r arbedion arfaethedig yn cael eu cyflawni.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Atebolrwydd

Risg: Adrodd gwael, heb dryloywder ac anaddas i'r gynulleidfa, sydd ddim yn amlygu i'r cyhoedd yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud ar eu cyfer gan danseilio'r sefyllfa ddemocrataidd

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor wedi darparu canllawiau ar baratoi adroddiadau ac ar wneud penderfyniadau da, er mwyn sicrhau fod yr adroddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd yn eglur.
- Yn ogystal ag adroddiadau ffurfiol ar gyfer gwneud penderfyniadau, mae'r adroddiadau a gynhyrchir hefyd yn cynnwys yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol, y Cynllun Strategol (fydd yn cwmpasu cynlluniau busnes adrannol) a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gynhyrchir yn unol â fframwaith CIPFA/Solace.
- Mae'r Cyngor yn cynhyrchu adroddiadau rheolaidd ar ei sefyllfa ariannol.
- Bydd monitro adroddiad Cabinet yn parhau i ddigwydd yn naturiol gyda'r Prif Weithredwr yn taro golwg ar bob un.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Sicrwydd

Risg: Diffyg sicrwydd ac atebolrwydd sy'n codi amheuaeth ymysg y cyhoedd am yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae nifer o ffyrdd ar gael o fewn y Cyngor er mwyn darparu sicrwydd annibynnol fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gweithio fel y dylent. Mae swyddogion statudol yn sicrhau fod materion yn cydymffurfio â'r gyfraith a threfniadau'r cyfansoddiad tra bod y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr yn herio yn barhaus a yw adrannau yn gwneud y pethau iawn. Mae aelodau'r Cabinet hefyd yn cwrdd yn aml i herio eu gilydd ar ddatblygiadau.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cadw trosolwg ar y trefniadau llywodraethu yn ogystal ag ar weithrediad argymhellion archwilwyr allanol.
- Yn cefnogi hyn mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â'r safonau proffesiynol statudol, sef Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus. Mae Covid-19 wedi cael effaith andwyol ar allu'r Archwilio Mewnol i gyflawni cymaint o archwiliadau yn ystod 2020/21 ag mewn blwyddyn arferol.
- Yn ffurfiol, fodd bynnag, y drefn craffu sydd i fod i ddal y Cabinet i gyfrif. Mae yna graffu a herio penderfyniadau a pholisïau yn dryloyw a gwrthrychol ond mae ansicrwydd ynglŷn a pha mor effeithiol y mae hynny. Adolygwyd y trefniadau cyn etholiad Mai 2017 ac fe benderfynodd y Cyngor fynd yn groes i argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a mabwysiadu trefn wahanol ar gyfer y dyfodol.
- Mae'r drefn newydd wedi'i rhoi ar waith yn dilyn etholiadau Mai 2017. Gwnaed addewid i adolygu effeithiolrwydd y trefniadau diwygiedig ac mae'r Gweithgor Craffu, sy'n cynnwys aelodau o'r Cabinet, Fforwm Craffu ac uwch swyddogion, wedi cyflwyno opsiynau ar gyfer diwygio'r trefniadau ymhellach. Cynhaliwyd gweithdai gyda'r Aelodau yn ystod Hydref 2019 er mwyn egluro ac ystyried yr opsiynau ond bu i'r Cyngor, yn ei gyfarfod ar y 19 Rhagfyr 2019, dderbyn argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i wrthod newid y trefniadau sylfaenol a thrwy hynny llynu at dri pwyllgor craffu, fel ag y sefydlwyd ym Mai 2017.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	3	6

Iechyd, Diogelwch a Llesiant

Risg: Trefniadau a gweithredu anniogel gan Wasanaethau y Cyngor i reoli risgiau iechyd a diogelwch yn effeithiol

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Uchel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mwyafrif helaeth o Reolwyr Gwasnaeth wedi mynychu cwrs IOSH tros y dair mlynedd diwethaf (ag eithrio lleiafrif bychan ble nad ydynt yn rheoli risgiau arwyddocaol).
- Gweithdai iechyd a diogelwch wedi eu cynnal i staff a rheolwyr fel dilyniant i'r hyfforddiant IOSH mewn Adrannau ble fo risgiau uchel
- Gwaith o asesu cymhwysedd rheolwyr i reoli iechyd a diogelwch ar draws y Cyngor wedi ei gychwyn cyn yr argyfwng Covid. Hwnnw wedi adnabod gwendidau o ran cwblhau asesiadau risg yn gywir neu fethu rhoi mesurau lliniaru digonol mewn lle. Bydd angen ail afael yn y gwaith hwnnw fel mater o flaenoriaeth unwaith bydd y sefyllfa wedi ei adfer i lefel diogel er mwyn cynnal ymweliadau monitro rhaglenedig.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
4	3	12

Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod.

Rhan 4: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL

- 4.1 Dengys y sgoriau uchod na ystyrir fod unrhyw un o'r 23 maes llywodraethu yn cyflwyno risg uchel iawn, ond mae 2 yn risg uchel ac 12 yn risg canolig.
- 4.2 Mae pob un o'r meysydd llywodraethu wedi cael ei ystyried yng nghyd-destun y pandemig Covid-19 a rydym yn fodlon fod Cyngor Gwynedd wedi gallu addasu ei drefniadau gwaith er mwyn ymdopi â'r argyfwng heb wanhau ei drefniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol mewn ffordd sydd angen ei amlygu yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.
- 4.2 Mae camau gweithredu ar gyfer y meysydd sydd â risg uchel neu ganolig wedi eu nodi isod.

RISG UCHEL

Maes Llywodraethu	Trefniadau i Ymateb	Adran Gyfrifol
Diwylliant y Cyngor	Byddwn yn datblygu hyfforddiant ar gyfer cynorthwyo rheolwyr i ddeall y cyswllt agos rhwng diwylliant Ffordd Gwynedd a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cyflwyno'r sesiwn honno i'r Rhwydwaith Rheolwyr tra'n rhyddhau swydd-ddisgrifiad i arweinyddion tîm a gweddill staff y Cyngor fydd yn cadarnhau'r ymddygiadau disgwylidig ohonynt. Byddwn yn sefydlu dulliau o fesur cynnydd y diwylliant a geisir trwy gyfuniad o hunan-asesu ac herio cyson.	Cefnogaeth Gorfforaethol
Iechyd, Diogelwch a Llesiant	Cynnal trafodaeth agored â phenaethiaid /uwch reolwyr / rheolwyr pob Adran er mwyn deall eu anghenion, egluro'r egwyddor y tu ôl i newid mewn model busnes, a chanfod y ffordd fwyaf effeithiol o ddatrys y sefyllfa.	Cefnogaeth Gorfforaethol

RISGIAU CANOLIG

Maes Llywodraethu	Trefniadau i Ymateb	Adran Gyfrifol
Rhanddeiliad	Mae yna ymdrechion yn mynd ymlaen mewn amryw feysydd i geisio symleiddio perthynas waith sy'n gymhleth. Fodd bynnag rhaid cydnabod mai dim ond hyn a hyn y mae modd i ni ei wneud ac mae yna le i gwestiynu mai'r ateb bellach yw ceisio darganfod ffyrdd o weithio rownd y rhwystrau deddfwriaethol sydd wedi cael eu gosod gan y Llywodraeth arnom. Rydym eisoes yn gwneud hynny yn eithaf llwyddiannus.	Tim Arweinyddiaeth a Chyfreithiol
Ymgysylltu	Yn ystod 2020/21 a 2021/22 byddwn: <ul style="list-style-type: none"> • yn parhau i gyd-weithio gyda'r Gwasanaethau leuenctid i ddatblygu ymhellach ein gallu i ymgysylltu efo pobl 11-25 oed • yn parhau i asesu a chanfod cynnydd ar draws y Cyngor o ran amlygu'r cyfleoedd a chefnogi gwasanaethau i ymgysylltu'n rhagweithiol gyda phobl Gwynedd • yn parhau gyda'r gwaith o recriwtio aelodau o'r cyhoedd i fod yn aelodau o'r Panel Trigolion newydd • yn unol â Chynllun Cydraddoldeb y Cyngor (2020-24) byddwn yn cynnal ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus cynhwysfawr er mwyn adnabod rhwystrau sy'n wynebu pobl gyda nodweddion gwarchodedig wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau'r cyngor ac adnabod ffyrdd posib o gael gwared â'r rhwystrau hyn. 	Cefnogaeth Gorfforaethol
Cyfeiriad a gweledigaeth	Derbynnir y risg ar ei lefel bresennol.	Cefnogaeth Gorfforaethol
Cynaliadwyedd	Byddwn yn ystyried canfyddiadau gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol gan ystyried opsiynau ar gyfer hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth Uwch Reolwyr/Rheolwyr/Swyddogion Prosiect o egwyddorion y Ddeddf gan eu cyflwyno i'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu cyn diwedd y flwyddyn. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cyhoeddi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 yn ystod yr haf a byddwn yn ystyried a dod i gasgliad a oes yna unrhyw argymhellion perthnasol i'r Cyngor.	Cefnogaeth Gorfforaethol
Adolygu deilliannau	Derbynnir y risg ar ei lefel bresennol.	Tim Arweinyddiaeth a Chyfreithiol

Maes Llywodraethu	Trefniadau i Ymateb	Adran Gyfrifol
Asedau Technoleg Gwybodaeth	<p>Gweithredu yn unol â'r rhaglen waith sydd wedi ei gynnwys yn y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae rhaglen o gyflwyno hunanwasanaeth digidol i bobl Gwynedd yn brysur aeddfedu gyda nifer o ddatrysiadau wedi eu cyflwyno'n barod, gan gynnwys: apGwynedd, fy nghyfrif a nifer o gyfleon i wneud ceisiadau am wasanaeth ar amser sy'n gweddu i'r dinesydd, gyda cyfle i ddilyn cynnydd yn erbyn y cais. • Parhau i ddatblygu mae'r gwasanaethau hunan wasanaeth , gyda nifer o wasanaethau ychwanegol neu addasiadau'n cael eu cyflwyno yn ystod cyfnod y pandemic, megis creu apwyntiadau ar gyfer ymweld â'r canolfannau ail gylchu ac ymweld â Siop Gwynedd. 	Cyllid
Cynllunio'r Gweithlu	Bydd y gwaith o adnabod bylchau a gweithredu'n rhagweithiol, sydd wedi ei gychwyn gyda'r Adran Oedolion, yn cael ei ledaenu i weddill y Cyngor yn ystod 2021. Byddwn hefyd yn ymestyn y nifer prentisiaid ac hyfforddeion presennol ac hynny ar draws nifer cynyddol o wasanaethau ar draws y Cyngor.	Cefnogaeth Gorfforaethol
Arweinyddiaeth	Byddwn yn cyflwyno rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched, cynnal awdit o'n dulliau recriwtio a penodi ar gyfer swyddi rheolaethol a chreu fforwm ar gyfer arweinwyr a darpar-arweinwyr benywaidd o fewn y Cyngor. Byddwn hefyd yn datblygu'r ymddygiadau arwain a ddisgwylir o reolwyr yn gyffredinol ac hynny'n bennaf trwy gyfuniad o hyfforddiant yn ymwneud â'r "ffordd o weithio" a thrwy herio'r ymddygiadau fel rhan o'r gwerthuso parhaus sy'n cael ei hyrwyddo fel rhan o sefydlu'r diwylliant.	Cefnogaeth Gorfforaethol
Rheoli Risg	Gwaith dal angen ei wneud i sicrhau fod holl adrannau'r Cyngor yn cynnal y drefn o gofnodi eu prif risgiau a'u hadolygu'n rheolaidd. Byd y Gwasanaeth Yswiriant a Risg yn cefnogi'r holl adrannau er mwyn sicrhau fod defnydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn gyson ar draws y Cyngor, ac fod risgiau yn cael eu diweddarau'n barhaus. Bydd y drefn o ystyried cynnwys cofrestrau risg wrth fonitro perfformiad adrannau yn datblygu ymhellach.	Cyllid

Maes Llywodraethu	Trefniadau i Ymateb	Adran Gyfrifol
Gwybodaeth	<p>Mae Cynllun Gwybodaeth newydd yn cael ei lunio ar gyfer 2021-26 fydd yn edrych i:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Ymestyn y gwaith cefnogi gwasanaethau wrth ddefnyddio a dehongli data ynglyn â'u gwasanaethau ac am Wynedd 2. Sefydlu a hyrwyddo Safonau Data ar gyfer meysydd lle mae anghysondebau yn bodoli neu wedi codi. 3. Leihau y risg mewn diogelwch gwybodaeth sy'n bodoli ar draws y Cyngor (hynny yn sgil cynnal asesiad cynhwysfawr ar sail fframwaith archwilio'r ICO) 4. Gyflwyno ffyrdd o sicrhau bod staff yn derbyn hyffroddiant priodol ar gyfer diogelu data'r Cyngor. 5. Roi trefn ar wybodaeth a gwaredu gwybodaeth yn amserol 6. Ehangu'r defnydd o iGwynedd fel ein bod yn gwneud y mwyaf o'r hyn mae'n ei gynnig 7. Sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd 8. Leihau'r defnydd o bapur 9. Cryfhau trefniadau rheoli CCTV trwy benodi person cyswllt ar gyfer systemau sydd ddim yn rhai canol tref a chamerau corff 	Cefnogaeth Gorrfforaethol
Cyllid	<p>Ar ôl cyfnod hir o ddarganfod a chyflawni arbedion, dros £30m yn y cyfnod ers 2015/16, mae'r cynlluniau bellach gymaint yn anoddach i'w gwireddu gyda phrosiectau effeithlonrwydd yn llawer mwy o waith na thorri gwasanaethau. Adolygwyd yr holl gynlluniau arbedion er mwyn asesu pa rai sydd bellach yn anghyraeddadwy, a lluniwyd rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2021/22. Drwy'r trefniadau cadarn sydd gennym i fonitro sut y mae adrannau yn cyflawni arbedion, byddwn yn sicrhau bod y rhaglen ddiwygiedig yma yn cael ei chyflawni. Byddwn hefyd yn cefnogi adrannau gyda chostau trawsffurfio, wrth iddynt gyflwyno trefniadau gwaith newydd.</p>	Cyllid
Sicrwydd	<p>Mae'r tim newydd a sefydlwyd ar gyfer cryfhau'r gefnogaeth i drefniadau craffu o fewn y Cyngor, yn gweithio'n agos hefo Cadeiryddion/Is-gadeiryddion y pwyllgorau unigol er mwyn sicrhau eglurder a rhannu arferion gorau. Bydd hyn yn ymestyn i ddatblygu trefniadau craffu rhanbarthol ar y cyd ag awdurdodau eraill ble'n berthnasol yn ystod 2021/22.</p>	Cefnogaeth Gorrfforaethol

Rhan 5: BARN

Rydym o'r farn fod y trefniadau llywodraethu a ddisgrifir uchod yn cynnig sicrwydd fod ein trefniadau llywodraethu ar y cyfan yn gweithredu'n dda. Serch hynny, rydym yn bwriadu cymryd camau i ddelio gyda'r materion a nodir yn Rhan 4 uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon bydd y camau hyn yn delio gyda'r angen i wella adnabuwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

DAFYDD GIBBARD
PRIF WEITHREDWR CYNGOR GWYNEDD

GWYNEDD



DYDDIAD 20 Medi 2021

Cyng. DYFRIG SIENCYN
ARWEINYDD CYNGOR



DYDDIAD: 20 Medi 2021

Adroddiad yr archwilydd annibynnol o Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Gwynedd

Adroddiad ar archwiliad y datganiadau ariannol

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Gwynedd yn cynnwys Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2021 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-21.

Sail y farn

Cynhaliâs fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau o dan y safonau hynny i'w weld yn yr adran o fy adroddiad ar gyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol. Rwyf yn annibynnol o'r Cyngor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Pwyslais ar Fater- effaith COVID-19 ar brisiadau asedau'r Cyngor

Tynnaf sylw at Nodyn 6 yn y datganiadau ariannol, sy'n disgrifio cymal ansicrwydd prisio materol yn yr adroddiadau prisio yn 2019-20 a 2020-21 ar eiddo'r Cyngor sy'n deillio o amgylchiadau a achoswyd gan bandemig COVID-19. Nid yw fy marn wedi'i haddasu mewn perthynas â'r mater hwn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth perthnasol ar allu'r cyngor i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn gyfrifol am yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a gyflawnais, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi roi gwybod am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano i'r perwyl hwn.

Adroddiad ynghylch gofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21;

- Mae'r wybodaeth yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar wedi ei baratoi yn unol â'r canllawiau.

Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd o'r cyngor a'i amgylchedd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad ichi arnynt, os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi eu cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â'r datganiadau ariannol

Fel yr esbonir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau o gyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r cyngor i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir bod hynny'n amhriodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi trwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Gwynedd mewn cysylltiad â:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried, gan weithredu fel tîm archwilio, sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio siwrnalau anarferol, adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn a gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i gwrs busnes arferol.
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyngor Gwynedd yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Gwynedd.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;

- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio Llywodraethu a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Cyngor;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i bob tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Gwynedd, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Tystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Gwynedd unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
[Dyddiad i'w gadarnhau]

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Geirfa

Amhariad – Lleihad yng ngwerth cario ased sefydlog oddi tan ei werth cario (oherwydd darfodedigrwydd, difrod neu newid anffafriol mewn amgylchedd statudol).

Amorteiddio – Gwarediad graddol ymrwymiad, megis benthyciad, gyda thaliadau cyson dros gyfnod penodol o amser. Rhaid i daliadau o'r fath fod yn ddigonol i glirio'r prifswm a'r llog.

Ariannu Cyfalaf - Cyllid ar gyfer talu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd i ariannu gwariant cyfalaf yn cynnwys benthycia, lesu, cyllido'n uniongyrchol o refeniw, derbyniad cyfalaf i'w ddefnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, reserfau refeniw a reserfau wedi'u clustnodi.

Ased - Eitemau o werth sydd yn cael ei fesur mewn cyd-destun pris.

- Caiff ased cyfredol ei dreulio neu gall golli gwerth ariannol materol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Mae ased anghyfredol yn darparu budd i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n ddarparu am gyfnod o dros flwyddyn.

Asedau Anniriaethol – Ased anariannol adnabyddadwy heb sylwedd corfforol. Meddalwedd cyfrifiadurol er enghraifft.

Asedau Cymunedol - Asedau anghyfredol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu dal yn barhaus sydd heb oes benodol ddefnyddiol, ac a allai gael cyfyngiadau ar eu gwarediad. Gall esiamplau gynnwys parciau ac adeiladau hanesyddol.

Asedau Treftadaeth – Ased gyda rhinweddau Hanesyddol, Artistig, Gwyddonol, Technolegol, Geoffisegol neu a budd Amgylcheddol, gaiff ei ddal a'i gynnal yn bennaf am ei gyfraniad i wybodaeth a diwylliant.

Balansau (neu Reserfau) - Mae'r rhain yn cynrychioli cyllid cronodig sydd ar gael i'r Cyngor. Caiff rhai balansau (reserfau) eu clustnodi ar gyfer pwrpas penodol i ariannu mentrau diffiniedig yn y dyfodol neu i gwrdd â risg neu ymrwymadau gaiff eu hadnabod.

CIPFA (Chartered Institute of Public Finance and Accounting) – Sefydliad proffesiynol ar gyfer cyfrifwyr sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus.

Cost Adnewyddu Dibrisiedig – Dull prasio sy'n darparu procsi ar gyfer gwerth marchnad asedau arbenigol.

Cost Gwasanaeth Cyfredol – Cynnydd yng ngwerth cyfredol ymrwymadau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a ddisgwylir i godi o wasanaeth gweithiwr yn y cyfnod presennol.

Credydwy - Symiau yn ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, sydd â thaliadau heb eu gwneud erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

Cronfa Gyffredinol - Prif gronfa refeniw'r Cyngor sydd yn cynnwys cost net yr holl wasanaethau a ariennir gan drethdalwyr lleol a grantiau'r Llywodraeth.

Cronfa Ymddiriedolaeth - Cronfeydd a weinyddir gan y Cyngor ar gyfer dibenion megis gwobrau, elusennau, prosiectau penodol ac ar ran plant dan oed.

Cyfrif Addasiadau Cyfalaf – Reserf wedi ei glustnodi o adnoddau cyllid neu dderbyniad cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-daliad benthyciad allanol a mathau eraill o drafodion cyllido cyfalaf.

Cynllun Buddiannau Diffiniedig – Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall sydd ddim yn gynllun cyfraniad diffiniedig.

Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig - Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall lle gwelir gweithiwr yn cyfrannu symiau penodol rheolaidd fel swm neu ganran o'r cyflog, a ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu cyfraniadau pellach petai'r cynllun ddim ag asedau digonol i dalu buddion i'r holl weithwyr mewn perthynas â gwasanaeth y gweithiwr yn y cyfnod presennol a blaenorol.

Darpariaeth – Ymrwymiad sydd ag amseru neu swm ansicr, sydd i gael ei dalu drwy drosglwyddo buddion economaidd.

Derbyniadau Cyfalaf - Incwm a dderbynnir o werthu tir neu asedau cyfalaf arall.

Dibrisio – Mesuriad cost y budd economaidd yr asedau sefydlog diriaethol dreuliyd yn ystod y cyfnod.

Dyledwyr - Symiau yn ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, o fewn y cyfnod cyfrifo, sydd â thaliadau heb eu derbyn erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

Eiddo Buddsoddi – Eiddo a ddelir unai ar gyfer ennill incwm rhent neu ar gyfer gwerthfawrogiad cyfalaf, neu'r dda.

Enillion a Cholledion Actiwaraid - Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, mae y newidiadau mewn gwarged actiwaraidd sydd yn codi oherwydd bod digwyddiadau heb gyd-daro gyda rhagdybiaeth actiwaraidd a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (profiad enillion a cholledion) neu bod y rhagdybiaethau actiwaraidd wedi newid.

Gwariant Cyfalaf - Gwariant caffael ar ased anghyfredol, a gaiff ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaeth tu hwnt i'r cyfnod cyfrifo neu wariant sydd yn cyfrannu, a ddim yn unig yn cynnal, at werth ased anghyfredol.

Gwerth Llyfr Net – Gwerth lle caiff asedau sefydlog eu cynnwys ar y Fantolen, h.y. eu cost hanesyddol neu werth cyfredol llai'r gwerth cronus a ddarperir ar gyfer dibrisiad.

Gwerth Teg - Y pris a dderbynnir i werthu ased, neu a delir i drosglwyddo ymrwymiad mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranwyr i'r farchnad ar ddyddiad y mesuriad.

Lleiafswm Darpariaeth Refeniw (LIDR) – Y lleiafswm sydd rhaid ei godi ar gyfrif refeniw Awdurdod yn flynyddol a'i neilltuo fel darpariaeth ar gyfer ymrwymiad credyd.

Menter Cyllid Preifat (MCP) – Menter llywodraeth ganolog sy'n anelu i gynyddu lefel y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus drwy ddenu ffynonellau preifat o gyllid.

Offerynnau Ariannol - Unrhyw gytundeb sydd yn cynyddu ased un endid ac ymrwymadau ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term yn cynnwys asedau ariannol ac ymrwymadau ariannol, o fasnach dderbyniadwy (anfoneb dyledus) a masnach daladwy (anfoneb sy'n ddyledus i'w talu) i ddeilliadau cymhleth a deilliadau wedi eu mewnbllannu.

Partion Cysylltiedig - Caiff partion eu hystyried i fod yn gysylltiedig os oes gan un parti'r gallu i reoli'r parti arall neu gyda dylanwad sylweddol penodol dros y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol neu weithredol.

Praeseptau – Yr ardoll a wnaed gan Awdurdodau archebiant ar Awdurdodau sy'n bilio, gyda'r gofyn ar yr Awdurdod sy'n bilio i gasglu'r incwm gan drethdalwyr y Cyngor ar eu rhan.

Prydlesau Cyllidol – Les sydd yn trosglwyddo'n sylweddol holl risg a gwobr perchnogaeth ased anghyfredol i'r deiliad prydles.

Prydlesau Gweithredol - Math o les, gan amlaf ar offer cyfrifiadurol, cyfarpar swyddfa, dodrefn a.y.y.b. ble mae'r cydbwysedd risgiau a gwobrau o ddal yr ased ynghlwm â'r prydleswr. Mae'r ased yn aros ym mherchnogaeth y prydleswr ac mae costau'r les yn wariant refeniw i'r Cyngor.

Rhestr Eiddo – Niferoedd stoc heb eu defnyddio sy'n cael eu dal gyda'r disgwyliad o'u defnyddio yn y dyfodol. Fe gawn eu categoreiddio fel nwyddau neu asedau eraill a brynwyd i'w gwerthu ymlaen, nwyddau traul, defnydd crai a chyfansoddion, nwyddau a gwasanaeth mewn camau canolog rhwng cwblhad a gorffenedig.

Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) – Cyfres o safonau cyfrifo a ddefnyddir ar draws y byd. Rhaid iddynt gael eu gweithredu ar bob datganiad cyllidol gan bob endid sy'n adrodd i bob datganiad cyllidol er mwyn darparu darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr endid, ac fel ffordd i gysoni a chymharu gyda datganiadau cyllidol endidau eraill.

Ymrwymadau – Symiau sydd yn ddyledus i unigolion neu sefydliadau y bydd yn rhaid eu talu rhywbryd yn y dyfodol.

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Cyngor Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2021

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich cyfrifon gyda pharagraff ar Pwyslais ar Fater yn tynnu sylw at nodyn datgelu yn eich cyfrifon. Mae rhai materion y mae angen rhoi gwybod ichi amdanynt cyn eu cymeradwyo.

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

Cyflwyniad	4
Effaith COVID-19 ar Archwiliad Eleni	4
Barn archwilio arfaethedig	5
Materion Arwyddocaol	6
Argymhellion	7
Atodiadau	
Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol	8
Atodiad 2 – Adroddiad Archwilio Arfaethedig	11
Atodiad 3 – Crynodeb o Gywiriadau a Wnaed	16

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

Cyflwyniad

- 1 Rydym yn crynhoi prif ganfyddiadau ein harchwiliad o'ch cyfrifon ar gyfer 2020-21 yn yr adroddiad hwn.
- 2 Rydym eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r Pennaeth Cyllid a'i dîm.
- 3 Ni all archwilwyr byth roi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi'u datgan yn gywir. Yn lle hynny, rydym yn gweithio i lefel o 'berthnasedd'. Pennir y lefel hon o berthnasedd i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a allai beri fel arall i'r sawl sy'n defnyddio'r cyfrifon gael ei gamarwain.
- 4 Pennwyd lefel perthnasedd o £4.699 miliwn ar gyfer archwiliad eleni
- 5 Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a all fod o fwy o bwysigrwydd i'r darlennydd ac rydym wedi pennu lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain, fel a ganlyn:
 - Datgeliadau Partïon Cysylltiedig £100,000
 - Cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion £1,000
- 6 Rydym bellach wedi cwblhau archwiliad eleni'n sylweddol.
- 7 Yn ein barn broffesiynol ni, rydym wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith; bod yn annibynnol arnoch chi; ac, ni pheryglwyd ein gwrthrychedd mewn unrhyw ffordd. Nid oes unrhyw berthnasoedd rhyngom ni a chithau a allai danseilio ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein tyb ni.

Effaith COVID-19 ar archwiliad eleni

- 8 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith arwyddocaol ar bob agwedd ar ein cymdeithas ac mae'n parhau i wneud hynny. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith eich bod yn paratoi cyfrifon ac mae'n glod sylweddol i ymrwymiad eich tîm cyfrifon eich bod wedi llwyddo i wneud hynny eleni yn wyneb yr heriau a achosir gan y pandemig hwn. Rydym yn eithriadol o ddiolchgar i broffesiynoldeb y tîm o ran y modd y gwnaethant ein cynorthwyo ni i gwblhau ein harchwiliad dan amgylchiadau mor anodd.
- 9 Nid yw'n syndod bod y pandemig wedi effeithio ar ein harchwiliad ac rydym yn crynhoi'r prif effeithiau yn **Arddangosyn 1**. Ac eithrio lle'r ydym yn gwneud argymhellion yn benodol, darperir y manylder yn **Arddangosyn 1** er gwybodaeth yn unig i'ch helpu chi i ddeall effaith pandemig COVID-19 ar broses archwilio eleni.

Arddangosyn 1 – effaith COVID-19 ar archwiliad eleni

Amserlen	Darparodd swyddogion y cyfrifon drafft ar ein cyfer ar 28 Mai 2021 fel a gynlluniwyd. Mae hyn yn cydymffurfio â therfynau amser rheoleiddiol. Rydym yn disgwyl i'ch adroddiad archwilio gael ei lofnodi canol mis Hydref 2021.
Llofnodion electronig	O ystyried y gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol ar hyn o bryd, bydd yn anodd llofnodi ac ardystio'r cyfrifon ar ffurf copi caled eto eleni. Byddwn yn derbyn llofnodion electronig gennych.
Dull o gynnal yr archwiliad a chael tystiolaeth archwilio	<p>Oherwydd mesurau cadw pellter cymdeithasol, mae Archwilio Cymru a'r mwyafrif o staff yr Awdurdod yn gweithio o bell ar hyn o bryd. O ganlyniad, fe fabwysiadom ni ffyrdd o weithio o bell, gan adeiladu ar ein profiad y llynedd, trwy:</p> <ul style="list-style-type: none">• cynnal cyfarfodydd Microsoft Teams wythnosol gyda swyddogion trwy gydol yr archwiliad i drafod cynnydd a materion a oedd yn dod i'r amlwg; a• defnyddio ein mynediad o bell i alluogi'r tîm archwilio i gael mynediad at gofnodion a systemau ariannol y Cyngor.

- 10 Byddwn yn parhau i adolygu'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu ar gyfer ein proses archwilio o bandemig COVID-19, ac a oes arferion arloesol y gallem eu mabwysiadu yn y dyfodol i wella'r broses honno.

Barn archwilio arfaethedig

- 11 Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch wedi rhoi Llythyr Sylwadau inni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn **Atodiad 1**.
- 12 Rydym yn cyhoeddi barn archwilio 'amodol' lle mae gennym bryderon perthnasol ynghylch rhai agweddau ar eich cyfrifon; fel arall rydym yn cyhoeddi barn ddiamod.
- 13 Nodir ein hadroddiad archwilio arfaethedig yn **Atodiad 2**. Mae'r adroddiad archwilio yn cynnwys Pwyslais ar Fater sy'n tynnu sylw at effaith pandemig COVID-19 ar brisio tir ac adeiladau'r Cyngor. O ganlyniad i COVID-19, ac yn unol â chanllawiau penodol a gyhoeddwyd gan eu sefydliad proffesiynol, datganodd Prisiwr y Cyngor 'ansicrwydd prisio materol' yn eu hadroddiad prisio ar gyfer asedau ar 31 Mawrth 2020. Ar 31 Mawrth 2021, mae'r cymal ansicrwydd hwn yn parhau i fod yn bodoli ar gyfer asedau eiddo yn y cyfrifon, fel y disgrifir yn Nodyn 6.

Nid yw fy marn yn cael ei haddasu mewn perthynas â'r materion hyn.

- 14 Mae'r Llythyr Sylwadau'n cynnwys rhai cadarnhaid y mae'n ofynnol inni eu cael gennych chi dan safonau archwilio ynghyd â chadarnhad o wybodaeth benodol arall yr ydych chi wedi'i darparu ar ein cyfer yn ystod ein harchwiliad.

Materion Arwyddocaol sy'n codi o'r Archwiliad

Camddatganiadau nas cywirwyd

- 15 Rydym yn nodi isod un camddatganiad a ganfuwyd gennym yn y cyfrifon, sydd wedi cael ei drafod gyda'r rheolwyr ond sy'n dal heb ei gywiro. Gofynnwn ei fod yn cael ei gywiro. Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro'r camddatganiad yma, gofynnwn ichi ddarparu'r rheswm dros beidio â'i gywiro ar ein cyfer yn ysgrifenedig.
- Nododd ein harchwiliad, er bod gan y Cyngor gronfa yswiriant wedi'i chlustnodi i fodloni hawliadau cyfreithiol posibl, nid yw'n bodloni gofynion Côt CIPFA o ran cydnabod darpariaeth pan asesir bod gan hawliad rwymedigaeth bresennol ac mae'n debygol y bydd yr hawliad yn arwain at setliad yn cael ei wneud. Mae'r Rheolwr Cydlynu Risg ac yswiriant wedi asesu'r holl hawliadau ac wedi nodi ei bod yn debygol y bydd £575,000 o'r hawliadau hynny'n arwain at setliad ac felly byddai'n ei gwneud yn ofynnol i ddarpariaeth gael ei chodi i gydymffurfio â Chod CIPFA. Byddem yn disgwyl y byddai hyn yn arwain at ostyngiad cyfatebol yn y Gronfa Yswiriant.

Camddatganiadau a gywirwyd

- 16 Roedd camddatganiadau yn y cyfrifon yn wreiddiol sydd bellach wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr. Fodd bynnag, rydym ni'n credu y dylid dwyn y rhain i'ch sylw a chânt eu nodi gydag esboniadau yn **Atodiad 3**.

Materion Arwyddocaol eraill sy'n codi o'r Archwiliad

- 17 Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion sy'n ymwneud â'r cyfrifon ac yn rhoi gwybod ichi am unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi. Roedd un mater yn codi yn y meysydd hyn y flwyddyn hon.
- Yn ystod ein harchwiliad, nodwyd bod gan y Cyngor faterion systemig yn y ffordd y diweddarwyd y Gofrestr Asedau ar gyfer canlyniadau ymarfer prisio pum mlynedd yr ysgolion, a phrisiau eraill a gynhaliwyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Ni ystyriwyd effaith cydrannu asedau yn llawn gan arwain at gamddosbarthu ychwanegiadau, ailbrisio ac amhariadau a godir ar Wasanaethau a'r Gronfa Ailbrisio. Er bod effaith net yr addasiadau o £2.9 miliwn yn is na'r lefel materoldeb, roedd y diwygiadau sydd eu hangen i adlewyrchu canlyniadau'r ymarfer prisio ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn gywir yn £20.7m ar gyfer Cost Gwasanaethau, ac

effaith o £23.6 miliwn ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall. Yr effaith ar y fantolen oedd gostyngiad o £2.9 miliwn yng ngwerth Eiddo, Offer a Chyfarpar (Nodyn 15). Dangosir rhagor o fanylion am y cywiriadau a wnaed yn **Arddangosyn 2**.

Argymhellion

- 18 Rydym yn bwriadu cynnal ymarfer dysgu ar ôl yr archwiliad gyda staff allweddol i drafod sut i wella'r broses o gynhyrchu a phrosesu cyfrifon ymhellach ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Atodiad 1

Llythyr Sylwadau Terfynol

Pennawd llythyr Cyngor Gwynedd

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

[Dyddiad]

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2020-21

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol (gan gynnwys y rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n cael ei harchwilio) Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 at ddiben mynegi barn ynghlŷn â'u gwirionedd a thegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau'r rheolwyr

Cyfrifoldebau

Yr ydym ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- Baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg yn unol â'r rhain.
- Dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- Mynediad llawn at:
 - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;

- gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
- mynediad digyfngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt.
- Canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gyngor Gwynedd ac sy'n cynnwys:
 - rheolwyr;
 - cyflogedigion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- Ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd â phartïon cysylltiedig a thrafodion yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig yn briodol i sicrhau cydnabyddiaeth, mesur neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau camddatganiadau nas cywirwyd a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unol ac ar y cyd, i'r datganiadau ariannol o'u cymryd yn eu cyfanrwydd. Ceir crynodeb o'r camddatganiad heb ei gywiro isod:

- Er bod gan y Cyngor gronfa yswiriant wedi'i chlustnodi i fodloni hawliadau cyfreithiol posibl, nid yw'n bodloni gofynion Côt CIPFA o ran cydnabod darpariaeth

pan asesir bod gan hawliad rwymedigaeth bresennol ac mae'n debygol y bydd yr hawliad yn arwain at setliad yn cael ei wneud. Mae'r Rheolwr Cydlynu Risg ac Yswiriant wedi asesu'r holl hawliadau ac wedi nodi ei bod yn debygol y bydd £575,000 o'r hawliadau hynny'n arwain at setliad ac felly byddai'n ei gwneud yn ofynnol i ddarpariaeth gael ei chodi i gydymffurfio â Chod CIPFA. Byddem yn disgwyl y byddai hyn yn arwain at ostyngiad cyfatebol yn y Gronfa Yswiriant.

Mae'r Cyngor wedi neilltuo cyllid digonol ond mewn cronfa yswiriant yn hytrach na darpariaeth. Rydym o'r farn bod hwn yn fater technegol a bydd y driniaeth a gynhigir gan Archwiliad Cymru yn cael ei hystyried yn y blynyddoedd i ddod.

Sylwadau gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyngor Gwynedd ar 14 Hydref 2021.

Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Dafydd L. Edwards

Pennaeth Cyllid

Dyddiad:

Llofnodwyd gan:

Y Cyngorydd John Pughe Roberts

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a
Llywodraethu

Dyddiad:

Atodiad 2

Adroddiad Archwilio Arfaethedig

Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer aelodau o Gyngor Gwynedd

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Gwynedd yn cynnwys Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2021 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-21.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau o dan y safonau hynny i'w weld yn yr adran o fy adroddiad ar gyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol. Rwyf yn annibynnol o'r Cyngor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Pwyslais ar Fater – effaith COVID-19 ar brisiadau asedau'r Cyngor

Tynnaf sylw at Nodyn 6 yn y datganiadau ariannol, sy'n disgrifio cymal ansicrwydd prisio materol yn yr adroddiadau prisio yn 2019-20 a 2020-21 ar eiddo'r Cyngor sy'n deillio o amgylchiadau a achoswyd gan bandemig COVID-19. Nid yw fy marn wedi'i haddasu mewn perthynas â'r mater hwn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth perthnasol ar allu'r cyngor i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn gyfrifol am yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a gyflawnais, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi roi gwybod am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano i'r perwyl hwn.

Adroddiad ynghylch gofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21;
- Mae'r wybodaeth yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar wedi ei baratoi yn unol â'r canllawiau.

Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd o'r cyngor a'i amgylchedd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad ichi arnynt, os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi eu cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â'r datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau o gyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r cyngor i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir bod hynny'n amhriodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi trwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod, i

ganfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Gwynedd mewn cysylltiad â:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried, gan weithredu fel tîm archwilio, sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio siwrnalau anarferol, adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn a gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i gwrs busnes arferol.
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyngor Gwynedd yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Gwynedd.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio Llywodraethu a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Cyngor;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i bob tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Gwynedd, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn n rhan o fy adroddiad archwilydd.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Tystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Gwynedd unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dyddiad - i'w gadarnhau

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Atodiad 3

Crynodeb o'r Cywiriadau a Wnaed

Yn ystod ein harchwiliad fe ganfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi cael eu cywiro gan reolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau chi dros y broses adrodd ariannol.

Arddangosyn 2: crynodeb o'r cywiriadau a wnaed

Gwerth y cywiriad	Natur y cywiriad	Rheswm dros gywiro
Datgeliad naratif yn unig, hunangynhwysol i Nodyn 11.	Nodyn 11 - Gwariant Gweithredol Arall Diwygio datgeliad yn ymwneud â'r taliad i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru o £15,088,000 miliwn o 'Lefi' i 'Praesept'.	I adlewyrchu natur y taliad i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn gywir.
Gostyngiad o £2,925,000 yng ngwerth Tir ac Adeiladau.	Nodyn 15 – Eiddo, Offer a Chyfarpar Mae'r symiau ar gyfer Ailbriso ac Amhariadau a godir ar Wasanaethau wedi gostwng £20,696,000. Mae'r symiau ar gyfer Ailbriso ac Amhariadau a gredydwyd i'r Reserf Ailbriso wedi gostwng £23,621,000. Effaith net y camddatganiadau yw gostyngiad o £2,925,000 yng ngwerth Tir ac Adeiladau. Mae'r diwygiad hwn hefyd wedi effeithio ar y: <ul style="list-style-type: none">• Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu,• Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr,	Cywiro effaith ailbriso Tir ac Adeiladau yn y flwyddyn a sicrhau bod cyfanswm y gwerthoedd yn cytuno â chanlyniadau'r ymarfer prisio ar gyfer yr holl asedau perthnasol.

	<ul style="list-style-type: none"> • Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau (a nodiadau cysylltiedig), • Fantolen, • Datganiad Llif Arian (a nodiadau cysylltiedig), a • Nodyn 7 - Eitemau Materol o Incwm a Gwariant. 	
Cynnydd o £4,363,000 yn balans Ymrwymadau Cyfalaf.	<p>Nodyn 15 – Eiddo, Offer a Chyfarpar</p> <p>Mae swm y contract o fewn Ymrwymadau Cyfalaf wedi cynyddu £7,032,000 gyda chynnydd o £2,669,000 yn y Taliadau hyd yma gan adael balans o £4,363,000</p>	Diweddarau'r ffigyrau i gynnwys yr holl ymrwymadau cytundebol cyfalaf sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn.
Cynnydd o £393,000 yng ngwerth teg Ymrwymadau Ariannol.	<p>Nodyn 17a - Offerynnau Ariannol</p> <p>Mae gwerth teg Prydlesau Cyllidol wedi cynyddu £355,000.</p>	Er mwyn sicrhau bod gwerth teg Ymrwymadau Ariannol yn cytuno i'r ffigurau a ddarperir gan Gyngorydd Trysorlys y Cyngor.
Cynnydd o £5,959,000 mewn Arian Parod a Chyferwerth ag Arian Parod. Gyda chynnydd cyfatebol mewn Credydwy'r Tymor Byr.	<p>Nodyn 19 - Arian a Chyferwerthoedd Arian a Nodyn 21 - Credydwy'r Tymor Byr</p> <p>Gostyngwyd y Gorddrafft Banc o £5,959,000 gyda chynnydd cyfatebol mewn Taliadau Eraill o fewn Credydwy'r Tymor Byr.</p> <p>Mae'r diwygiad hwn hefyd wedi effeithio ar y Fantolen, y Datganiad Llif Arian (a nodiadau cysylltiedig) a Nodyn 17 - Offerynnau Ariannol.</p>	I gyfrifo yn gywir am balansau banc GwE y mae'r Cyngor yn ei ddal, yn unol â'r gofynion cyfrifyddu ar gyfer Cyd-Bwyllgorau.

<p>Cynnydd o £53,500,000 yn datgeliadau Gwasanaethau Asiantaeth. Hunangynhwysol i Nodyn 28.</p>	<p>Nodyn 28 – Gwasanaethau Asiantaeth Mae datgeliadau ychwanegol wedi'u cynnwys ar gyfer Grantiau Addysg gyda chyfanswm o £53,500,000 lle mae'r Cyngor yn gweithredu'n Asiant i Lywodraeth Cymru ar eu cyfer.</p>	<p>I sicrhau bod yr holl drefniadau asiantaeth wedi'u cynnwys yn y nodyn.</p>
<p>Cynnydd o £290,000 yng nghostau pensiwn athrawon. Hunangynhwysol i Nodyn 37.</p>	<p>Nodyn 37 - Cynlluniau Pensiwn a Gyfrifir Amdanynt fel Cynlluniau Cyfraniadau Diffiniedig Mae swm costau pensiwn athrawon a dalwyd yn 2020/21 wedi cynyddu £290,000. Mae ffigwr cymharol ar gyfer y flwyddyn flaenorol hefyd wedi cynyddu £210,000.</p>	<p>I sicrhau bod y ffigurau a ddatgelir yn cytuno i ffigurau a roddwyd i Bensiynau Athrawon.</p>
<p>Cynnydd o £450,000 mewn Ymrwymadau Dibynnol. Hunangynhwysol i Nodyn 39.</p>	<p>Nodyn 39 – Ymrwymadau Dibynnol Mae'r swm a ddatgelwyd fel yr uchafswm Municipal Mutual Insurance posibl wedi cynyddu £450,000.</p>	<p>Sicrhau bod yr atebolrwydd posibl yn cytuno i'r wybodaeth ddiweddaraf a ddarperir.</p>

Bu nifer o fân ddiwygiadau a diweddariadau datgelu hefyd o ganlyniad i'n gwaith.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales

Gwefan: www.audit.wales

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Eitem 6

CYFARFOD:	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD:	14 HYDREF 2021
TEITL:	CYLLIDEB REFENIW 2021/22 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2021
PWRPAS:	Adroddiad Monitro ar y Sefyllfa Ariannol Ddiweddaraf
GWEITHREDIAD:	Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau
AELOD CABINET:	CYNGHORYDD IOAN THOMAS
SWYDDOG CYSWLLT:	FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Cyllideb Refeniw 2021/22 – Adolygiad Diwedd Awst 2021) i'r Cabinet ar 12 Hydref 2021.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

Atodiadau:

Adroddiad Cabinet 12/10/2021: Cyllideb Refeniw 2021/22 – Adolygiad Diwedd Awst 2021

ADRODDIAD I'R CABINET

12 HYDREF 2021

Aelod Cabinet: Cyngorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

Pwnc: Cyllideb Refeniw 2021/22 – Adolygiad Diwedd Awst 2021

Swyddog cyswllt: Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

1. Y penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst 2021 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.
- Nodi fod effaith ariannol Covid yn parhau yn 2021/22, sydd yn gyfuniad o gostau ychwanegol, colledion incwm a llithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng.
- Nodi fod cyfundrefn cymorth Covid Llywodraeth Cymru drwy gronfa caledi yn parhau, ond nad yw'n cyfarch gorwariant oherwydd llithriad yn y rhaglen arbedion.
- Nodi fod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol eleni, tra fod gwelliant nodedig yn rhagolygon yr Adran Plant a Theuluoedd.
- Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u egluro yn **Atodiad 2**).
 - Ar gyllidebau Corfforaethol, fod:
 - Tanwariant o (£285k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
 - Tanwariant net o (£1,957k) ar gyllidebau Corfforaethol yn mynd i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo i wynebu'r heriau ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor yn arbennig felly o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

2. Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynir yr adroddiad ddiwedd Awst yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2021/22, ac amlinellir grynhoed o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**. Mae'r rhagolygon presennol yn awgrymu y bydd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Priffyrdd yn Bwrdeistrefol yn gorwario ar ddiwedd y flwyddyn tra fod gweddill adrannau'r Cyngor yn gweithredu o fewn eu cyllideb.

Yn **Atodiad 2**, rhoddir fanylion pellach yn ymwneud â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol.

3. Covid

Fel yr ydym eisoes wedi adrodd i Gabinet, mae effaith ariannol yr argyfwng Covid wedi bod yn sylweddol i'r Cyngor, gyda chyfuniad o gostau ychwanegol ynghyd â cholledion incwm, oedd werth dros £20 miliwn yn 2020/21 ac yn £5.6 miliwn hyd yn hyn eleni. Gweler y manylion yn **Atodiad 3**.

Yn dilyn i Lywodraeth Cymru sefydlu cronfa caledi tuag at ddigolledu costau a cholledion incwm Awdurdodau Lleol, yng Ngwynedd mae ceisiadau misol gwerth dros £4.3 miliwn wedi eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, i ddigolledu'r Cyngor am y gwariant ychwanegol am y cyfnod hyd at ddiwedd Awst, gyda chyllid o dros £3.1 miliwn eisoes wedi ei dderbyn.

O ran y colledion incwm, roedd gwerth y cais am y chwarter cyntaf dros £1 miliwn, gyda £0.8 miliwn eisoes wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

4. Sefyllfa Arbedion

Yn Ionawr 2021, adolygwyd y cynlluniau arbedion i asesu pa gynlluniau hanesyddol oedd bellach yn anghyraeddadwy, a lluniwyd rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2021/22 yn dilyn cymryd camau i ddileu, llithro ac ail broffilio'r cynlluniau arbedion.

Yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa arbedion, ymddengys fod dros £32.7 miliwn sef 94% o'r cynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015 bellach wedi eu gwireddu. Heb amheuaeth bu oediad mewn gwireddu rhai cynlluniau arbedion o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

Gwelwyd fod yr oediad mewn gwireddu arbedion amlycaf gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyda cynlluniau gwerth £855k, tra fod £673k gan yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol.

5. Adrannau'r Cyngor

Yr hyn sydd yn amlwg iawn eleni yw'r pwysau sylweddol sydd yn wynebu'r maes gofal oedolion a'r maes gwastraff, tra fod dyraniad adnodd ychwanegol a dileu cynlluniau arbedion yn golygu rhagolygon sefyllfa ariannol gytbwys gan yr Adran Plant a Theuluoedd. Mae'r prif faterion fel a ganlyn:

5.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Rhagwelir gorwariant o £1.4 miliwn eleni gyda methiant i gyflawni arbedion gwerth £855k yn ffactor amlwg o'r gorwariant. Y prif feysydd gorwariant yw gwasanaethau pobl hŷn, anableddau dysgu a gofal cymunedol. Mae effaith Covid19 wedi cael ardrawiad sylweddol ar yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant unwaith eto eleni gyda gwerth dros £1.3 miliwn eisoes wedi ei hawlio gan Lywodraeth Cymru tuag at y costau ychwanegol am y cyfnod hyd at ddiwedd Awst.

Bydd yr Aelodau Cabinet yn cofio iddynt ganiatáu gwerth dros £1.6 miliwn o fidiau ar gyfer pwysau cynyddol ar gyllideb 2021/22 gan gynnwys i'r maes Anabledd Dysgu, Pobl Hŷn ac Anabledd Corff.

5.2 Adran Plant a Theuluoedd

Yn dilyn i'r Cyngor ddyrannu £1.8 miliwn o arian ychwanegol i'r Adran Plant a Theuluoedd yng nghylch cyllidebu 2021/22 ar gyfer cwrdd â'r pwysau cynyddol, ynghyd â dileu gwerth £1.1 miliwn o gynlluniau arbedion nad oedd yn gwireddu, mae'r rhagolygon ariannol ar hyn o bryd yn addawol iawn.

Yr ystadegau diweddaraf yn cadarnhau fod y pwysau mewn gwahanol feysydd yn is na lefelau 2020/21, ond fod gorwariant yn parhau yn y maes Ôl-16 ac Arbenigol/Derwen.

5.3 Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol

Y maes bwrdeistrefol yn parhau i fod yn gorwario gyda'r problemau amlycaf yn y maes casglu a gwaredu gwastraff. Mae'r adran yn cael trafferthion gwireddu arbedion gwerth £673k mewn nifer o feysydd. Mae'r adran hefyd wedi wynebu costau ychwanegol sylweddol yn ymwneud â Covid i gydymffurfio efo'r rheolau, gyda Llywodraeth Cymru eisoes wedi digolledu am fisoedd cychwynol y flwyddyn a'r hysbysu'n ffyddiog y bydd Llywodraeth

Cymru yn parhau i'n digolledu am y costau ychwanegol am weddill y flwyddyn.

5.4 Byw'n Iach

Yn ystod 2020/21 gwelwyd goblygiadau'r argyfwng ar gwmni Byw'n Iach gyda cholled ariannol sylweddol oedd bron i £2.7 miliwn am y flwyddyn ariannol. Llwyddwyd i adennill y golled ariannol yn ei gyfanrwydd drwy hawlio drwy'r Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru ynghyd â'r cynllun Saib Swyddi (Ffyrlo).

O ran y rhagolygon eleni, bydd hawliadau gwerth oddeutu £1.2 miliwn yn cael eu hawlio gan y Llywodraeth am hanner cyntaf y flwyddyn ariannol. Mae'n edrych yn debygol y bydd y gefnogaeth ariannol gan y Llywodraeth yn parhau am weddill y flwyddyn ariannol. Felly, er y bu adroddiad i'r Cabinet 9 Mawrth 2021, oedd yn nodi fod y Cyngor yn tanysgrifennu y golled i Byw'n Iach, nid yw'n ymddangos y bydd y golled yn disgyn ar y Cyngor eleni.

5.5 Corfforaethol

Rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2021/22 yn gyfrifol am gynnyrch treth ychwanegol ac hefyd yn gyfrifol am y tanwariant ar Ostyngiadau Treth Cyngor. Y pwysau ar nifer o gyllidebau gan gynnwys costau cyfalaf, ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd eleni.

6. Casgliad Cyffredinol

Unwaith eto eleni, mae effaith ariannol Covid yn amlwg iawn ar y ffigyrau, gyda methiant i wireddu arbedion yn ffactor amlwg gan y ddwy adran sydd yn gorwario fwyaf sef yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn cael ei fantoli o ganlyniad i danwariant gan y mwyafrif o'r adrannau ynghyd â chyllidebau Corfforaethol.

7. Camau nesaf ac amserlen

Bydd y cyfrifwyr yn parhau i hawlio am y costau ychwanegol a'r colledion incwm perthnasol i Covid gan Lywodraeth Cymru.

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet 18 Ionawr 2022 ar sefyllfa Tachwedd 2021.

Barn yr aelod lleol

Dim yn berthnasol

Barn y swyddogion statudol

Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau

Atodiad 1 - Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau

Atodiad 2 - Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol

Atodiad 3 - Grant gan y Llywodraeth yn Sgil Argyfwng Covid19

Cyllideb Refeniw 2021/22 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

	Adolygiad Diwedd Awst			
	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Addasiadau a Argymhellir	Amcan Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2021/22
	£'000	£ '000	£'000	£ '000
Oedolion, Iechyd a Llesiant	57,876	1,370	0	1,370
Plant a Theuluoedd	19,335	(36)	0	(36)
Addysg	97,981	(89)	0	(89)
Economi a Chymuned	5,042	(203)	0	(203)
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	25,577	982	0	982
Amgylchedd	3,689	(228)	0	(228)
Ymgynghoriaeth Gwynedd	(124)	(30)	0	(30)
Tai ac Eiddo	5,606	(175)	0	(175)
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	2,076	(94)	0	(94)
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,108	(92)	0	(92)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	6,616	(62)	0	(62)
Cyllidebau Corfforaethol <i>(Gwahaniaethau yn unig)</i>	*	(2,242)	2,242	0
Cyfansymiau (net)	230,782	(899)	2,242	1,343

Trosglwyddiad i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol 1,957

Trosglwyddiad i Gronfa Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf 285

2,242

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Sefyllfa 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwasanaethau Oedolion</u>						
Gwasanaethau Pobl Hŷn						
Preswyl a Nyrsio - Cartrefi	15,957	15,132	(825)	0	(825)	(137)
Gofal Cartref	7,451	8,067	616	0	616	(376)
Eraill	(122)	783	905	0	905	340
	23,286	23,982	696	0	696	(173)
Gwasanaethau Anabledd Corff	2,531	2,366	(165)	0	(165)	(39)
Gwasanaethau Anabledd Dysgu	21,336	22,060	724	0	724	(983)
Gwasanaethau Iechyd Meddwl	3,653	3,651	(2)	0	(2)	(16)
Gwasanaethau Eraill (Oedolion)	3,265	3,353	88	0	88	(44)
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion</u>	54,071	55,412	1,341	0	1,341	(1,255)
<u>Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)</u>						
Gofal Preswyl	0	(371)	(371)	0	(371)	(895)
Gofal Dydd	0	(131)	(131)	0	(131)	301
Gofal Cymunedol	190	830	640	0	640	1,077
Eraill	0	(16)	(16)	0	(16)	(16)
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Darparu</u>	190	312	122	0	122	467

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Sefyllfa 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwasanaethau Eraill</u>						
Gwasanaethau Canolog Adrannol (<i>gan gynnwys arbedion yr Adran</i>)	3,415	3,651	236	0	236	273
Gwariant Covid19 ym maes Gofal Oedolion		0	0	0	0	415
Gwariant Ychwanegol Gweithlu Gofal Sgïl Covid 19	200	200	0	0	0	0
Defnydd Cronfa Tanwariant yr Adran		(329)	(329)	0	(329)	0
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Eraill</u>	3,615	3,522	(93)	0	(93)	688
<u>Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant</u>	57,876	59,246	1,370	0	1,370	(100)

Oedolion, Iechyd a Llesiant

Gwasanaethau Pobl Hŷn - dan 'Eraill' gorwariant ar Lety Cefnogol gyda chostau cynllun Hafod y Gest ac Awel y Coleg yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r gorwariant perthnasol, bu cynnydd hefyd yn y nifer pecynnau taliadau uniogyrchol a thrafferthion gwireddu arbedion. Er y bu llai o alw am Ofal Cartref y llynedd yn sgil Covid, galw cynyddol yn amlwg eleni.

Gwasanaethau Anabledd Corff - lleihad yn y galw yn arbennig felly ar ofal cartref.

Gwasanaethau Anabledd Dysgu - achosion newydd costus yn llety cefnogol a phwysau cynyddol ar daliadau uniongyrchol.

Gwasanaethau Darparu - staffio uwchlaw lefel y gyllideb a cholled incwm yn faterion yn Gofal Cymunedol, tra fod trosiant staff wedi arwain at danwariant mewn nifer o gartrefi pobl hŷn ac oblygiadau Covid wedi amharu ar ddarpariaeth Gofal Dydd ac felly yn tanwario.

Gwasanaethau Canolog Adrannol - rhai cynlluniau arbedion yn parhau heb eu gwireddu ond yr effaith yn cael ei leihau gan drosiant staff.

Cyllideb 2021/22 - eleni, bu i'r adran dderbyn gwerth dros £1.6 miliwn o fidiau ar gyfer pwysau cynyddol ar y gyllideb 2021/22 gan gynnwys i'r maes Anabledd Dysgu, Pobl Hŷn ac Anabledd Corff.

Gwariant / Grant Covid19 - mae effaith Covid wedi cael ardrawiad sylweddol ar yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant unwaith eto eleni gyda dros £1.3 miliwn eisoes wedi ei hawlio gan Lywodraeth Cymru at y pwysau ychwanegol hyd at ddiwedd Awst.

Arbedion - mae methiant i gyflawni arbedion yn ffactor amlwg yng ngorwariant yr adran gyda gwerth £855k yn parhau heb eu gwireddu.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Plant a Theuluoedd	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Sefyllfa 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth Gwasanaeth	592	579	(13)	0	(13)	(37)
Gweithredol	2,083	2,230	147	0	147	13
Lleoliadau						
Lleoliadau All-Sirol	4,701	4,505	(196)	0	(196)	820
Maethu Drwy Asiant	1,633	1,504	(129)	0	(129)	291
Maethu Mewnol	2,405	2,485	80	0	80	361
Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill	1,695	1,643	(52)	0	(52)	(152)
	10,434	10,137	(297)	0	(297)	1,320
Ôl-16	1,239	1,355	116	0	116	342
Arbenigol/Derwen	1,834	2,093	259	0	259	69
Cyfiawnder Ieuenctid	253	216	(37)	0	(37)	(60)
Blynyddoedd Cynnar	145	110	(35)	0	(35)	(124)
Ieuenctid	891	741	(150)	0	(150)	(216)
Eraill	1,864	1,838	(26)	0	(26)	(46)
Addasiad Cau Cyfrifon 2020/21					0	(1,261)
Cyfanswm Plant a Theuluoedd	19,335	19,299	(36)	0	(36)	0

Plant a Theuluoedd

Yn dilyn dyrannu dros £1.8m o arian ychwanegol i'r adran ar gyfer 2021/22 ynghyd â dileu gwerth £1.1 miliwn o arbedion, y rhagolygon eleni o ganlyniad yn llawer mwy addawol gyda thanwariant yn cael ei ragweld erbyn diwedd y flwyddyn.

Gweithredol - gorwariant ar gynlluniau cefnogol, ond sydd islaw'r lefelau a welwyd cyn cyfnod y Covid, ynghyd â gorwariant ar gostau staff.

Lleoliadau - dyraniad bid a dileu arbedion wedi cael effaith sylweddol ar y maes yma sydd wedi bod yn gorwario'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Er y gwelwyd 3 achos lleoliad all-sirol newydd eleni, y nifer cyfartalog lawr i 21 o'i gymharu â 22 ar gyfer 2020/21. Y niferoedd cyfartalog hefyd i lawr ar gyfer maethu drwy asiant sydd yn 31.5 eleni i gymharu gyda 33.4 yn 2020/21. Yn Maethu Mewnol, rhagwelir gorwariant ynghlwm â'r cynllun Tâl am Sgiliau a'r Cynllun Aros Ymlaen.

Ôl-16 - y pwysau yn parhau ar y gyllideb ac er bod y maes yma wedi bod yn destun bid gwerth £100k eleni, effaith blwyddyn lawn achosion i'w gweld ac felly yn gyfrifol am y gorwariant.

Arbenigol/Derwen – effaith cynnydd yn y galw am gynlluniau cefnogol a chefnogaeth arbenigol dros y blynyddoedd diwethaf yn gyfrifol am y gorwariant, ynghyd â newid yn y pwyslais o ran sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu, gyda phwysau cynyddol ar daliadau uniongyrchol yn amlwg bellach.

Cyfiawnder Ieuentid - trosiant staff yn golygu bod tanwariant ar y pennawd yma.

Blynyddoedd Cynnar – defnydd o grantiau yn cyllido gwariant craidd a derbyniad grantiau yn y maes gofal plant yw'r rhesymau am y tanwariant.

Ieuentid – derbyniad grant uwch eleni yn erbyn gwariant craidd ynghyd â thanwariant yn dilyn ail foddelu'r gwasanaeth. Gweithgaredd y gwasanaeth wedi ei amharu gan effaith Covid ac felly llai o wariant o ganlyniad.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Addysg	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Sefyllfa 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ysgolion Datganoledig	82,534	82,534	0	0	0	0
Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion	(809)	(1,122)	(313)	0	(313)	(237)
Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol						
Cludiant	5,565	5,827	262	0	262	(469)
Gwasanaeth Atodol	486	663	177	0	177	764
Eraill	2,967	2,916	(51)	0	(51)	(37)
	9,018	9,406	388	0	388	258
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	2,241	2,112	(129)	0	(129)	(65)
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad	4,997	4,962	(35)	0	(35)	(215)
Addasiad Cau Cyfrifon 2020/21						159
Cyfanswm Addysg	97,981	97,892	(89)	0	(89)	(100)

Addysg

Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion - cyfuniad o dderbyniadau grantiau, trosiant staff, cwtogi ar wariant a lleihad yn y galw ar rai cyllidebau yn gyfrifol am y tanwariant.

Cludiant - Er fod £291k o arian ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r maes yma ar gyfer 2021/22, mae'r amcangyfrifon diweddaraf yn awgrymu £258k o orwariant ar Gludiant Tacsis. Gwelwyd pwysau ychwanegol ar y gyllideb yn dilyn i gyrsiau addysgol y Grŵp Llandrillo Menai gael eu symud i Llangefni ynghyd â chynnydd am y galw am dacsis ar gyfer disgyblion ysgolion arbennig Hafod Lon a Phendalar.

Mae'r maes Cludiant wedi bod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, gyda'r angen am waith pellach gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn parhau, fel bod modd manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol - gorwariant staff, colledion incwm prydau ysgol ac am yr elfen gofal o'r clybiau brechwast. Gofynion glanhau ychwanegol ysgolion cysylltiedig â Covid hefyd yn amlwg, gyda'r mwyafrif o'r colledion incwm a'r gwariant ychwanegol perthnasol yn cael ei hawlio gan Lywodraeth Cymru.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill - llai o alw ar nifer o gyllidebau amrywiol.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth - derbyniad grant a thanwariant ar nifer o benawdau amrywiol o'r gyllideb.

Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o swyddi gwag a thanwariant ar nifer o benawdau amrywiol, tra fod amgylchiadau yn ymwneud ag un ganolfan benodol yn parhau ac yn gyfrifol am orwariant o £222k.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Adran Economi a Chymuned	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Sefyllfa 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	376	376	0	0	0	(32)
Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau	374	386	12	0	12	49
Morwrol a Pharciau Gwledig	446	195	(251)	0	(251)	0
Cytundebau Hamdden	1,078	1,103	25	0	25	0
Rhaglenni Chwaraeon	32	32	0	0	0	(22)
Rhaglenni Datblygu Economiadd	(77)	(77)	0	0	0	1
Marchnata a Digwyddiadau	263	263	0	0	0	(16)
Llyfrgelloedd Gwynedd	1,638	1,605	(33)	0	(33)	(115)
Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd	912	956	44	0	44	35
Cyfanswm Economi a Chymuned	5,042	4,839	(203)	0	(203)	(100)

Economi a Chymuned

Morwrol a Pharciau Gwledig - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y rhagolygon tanwariant gan gynnwys trosiant staff, rhagori ar incwm yn Hafan Pwllheli, yn sgil y nifer cynyddol o dwristiaid i'r ardal ac felly yn y galw am angorfeydd yn dilyn llacio'r cyfyngiadau Covid dros gyfnod yr haf. Gwelwyd hefyd fod incwm y traethau yn rhagori'r targedau incwm yn dilyn tymor prysur o ran twristiaid i'r ardal.

Cytundebau Hamdden - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Cwmni Byw'n Iach ar 1 Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor, o'r tafluniadau diweddaraf rhagwelir y bydd gorwariant o £25k erbyn diwedd y flwyddyn.

Gan fod Covid wedi amharu ar allu'r canolfannau hamdden i agor ac ar ddarpariaeth gwasanaeth, felly wedi cael effaith ar y gallu i gynhyrchu incwm, mae arian i ddiogolledu am gostau ychwanegol a cholled incwm Covid wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru, sydd yn £1.2 miliwn am hanner cyntaf y flwyddyn ar gyfer Byw'n Iach (£2.7 miliwn yn 2020/21).

Llyfrgelloedd Gwynedd - swyddi gwag a throsiant staff sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant.

Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd - sgil effaith Covid wedi amharu ar y lefelau incwm, bu llithriad yn amserlen agor Neuadd Dwyfor yn dilyn y gwaith adnewyddu, sydd yn ei dro wedi arwain at ddiffyg incwm eleni. Problemau yn parhau yn Storiell gyda rhagolygon o ddiffyg o £38k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Sefyllfa 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd)	9,983	9,918	(65)	0	(65)	89
Gwasanaethau Peirianeg	516	652	136	0	136	(14)
Gwasanaethau Bwrdeistrefol						
Gwastraff	11,082	11,745	663	0	663	172
Eraill	3,996	4,244	248	0	248	(247)
Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol	25,577	26,559	982	0	982	0

Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)

Gwasanaethau Priffyrdd - rhagwelir tanwariant ar benawdau amrywiol gan gynnwys cyllideb gweithiau ffyrdd sydd yn gwrthbwysu'r oediad i wireddu cynlluniau arbedion.

Gwasanaethau Peirianeg - methiant i wireddu cynlluniau arbedion gan gynnwys arbedion teledu cylch cyfyng a phont Abermaw ond trafodaethau'n parhau i geisio datrysiaid.

Gwastraff - nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant, ond yn bennaf ar gasglu gwastraff ac ailgylchu. Er fod yr adran wedi cymryd camau i leihau costau drwy newid shifftiau a threfniadau cylchdeithiau casglu gwastraff, bu oediad mewn gweithredu. Mae'r trefniadau newydd mewn grym yn Nwyfor ac Arfon, a bellach yn weithredol ym Meirionnydd ers dechrau'r flwyddyn ariannol, felly costau trosiannol cysylltiedig â chostau staffio a salwch yn amlwg. Cynnydd hefyd yn y nifer o dunelledd o wastraff ailgylchu a dosmestig a gesglir sydd yn gynydd o 13% a 11% ers lefelau 2019. Ymhellach, rhagwelir orwariant ar gostau trin defnyddiau ailgylchu a thrafferthion i wireddu arbedion.

Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau gyda rhai o'r prif resymau yn cynnwys colledion incwm cynnal tiroedd, pwysau ychwanegol ar gyllidebau gwastraff masnachol, cyfleusterau cyhoeddus a glanhau strydoedd ac arbedion yn parhau heb eu darganfod.

Mae ardrawiad Covid19 wedi cael cryn effaith ar yr adran o ran gwariant ychwanegol a cholled incwm, gyda gwerth bron i £600k eisoes wedi ei hawlio gan Lywodraeth Cymru eleni (£2.4m yn 20/21).

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Amgylchedd	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Sefyllfa 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth yr Adran	727	645	(82)	0	(82)	(144)
Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu	393	538	145	0	145	178
Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth						
Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)	357	76	(281)	0	(281)	(626)
Parcio a Gorfodaeth Parcio	(1,842)	(1,931)	(89)	0	(89)	307
Cludiant Integredig	1,826	1,976	150	0	150	306
	341	121	(220)	0	(220)	(13)
Cefn Gwlad a Mynediad	625	635	10	0	10	1
Gwarchod y Cyhoedd	1,603	1,522	(81)	0	(81)	(122)
<u>Cyfanswm Amgylchedd</u>	3,689	3,461	(228)	0	(228)	(100)

Amgylchedd

Rheolaeth - trosiant staff a thanwariant cyffredinol wedi arwain at arbedion un-tro ar y pennawd Rheolaeth.

Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu - y tueddiad cyffredinol o ddiffyg incwm yn parhau eto eleni sydd yn cael ei leddfu rhywfaint gan danwariant staff a gwariant is ar amrywiol gyllidebau gan gynnwys rhybuddion statudol ac apeliadau.

Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth

Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) - yn rhagori ar yr incwm ffioedd gwaith stryd, ynghyd â swyddi gweigion a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

Parcio a Gorfodaeth Parcio - tanwariant ar gyllidebau amrywiol gan gynnwys costau cyflogi.

Cludiant Integredig - rhagwelir orwariant ar gytundebau bysus cyhoeddus, gyda'r gwaith o gynnal adolygiad i edrych ar y ddarpariaeth wedi ail gychwyn bellach yn dilyn oediad o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

Gwarchod y Cyhoedd - trosiant staff a gwariant is ar nifer o benawdau'r gyllideb eleni gan gynnwys samplau bwyd a dŵr ac hysbysebu.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Adran Ymgynghoriaeth	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Sefyllfa 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg	(687)	(789)	(102)	0	(102)	(116)
Uned Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS)	0	0	0	0	0	0
Uned Rheoli Risg Llifogydd	584	613	29	0	29	(17)
Gwasanaeth Adeiladu	(21)	22	43	0	43	69
<u>Cyfanswm Ymgynghoriaeth</u>	(124)	(154)	(30)	0	(30)	(64)

Ymgynghoriaeth

Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg - rhagolygon o or-gyflawni incwm erbyn diwedd y flwyddyn drwy ddenu rhagor o incwm ar amrywiol gynlluniau gan sefydliadau allanol, megis Cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru.

Uned Rheoli Risg Llifogydd - rhagwelir gwariant ychwanegol er mwyn sicrhau derbyniad grantiau cyfatebol.

Gwasanaeth Adeiladu - diffyg incwm sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar staff.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Tai ac Eiddo	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Sefyllfa 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	216	183	(33)	0	(33)	171
Gwasanaethau Tai						
Digartrefedd	1,108	1,161	53	0	53	(201)
Tai Sector Breifat	393	388	(5)	0	(5)	17
Eraill	402	328	(74)	0	(74)	(24)
	1,903	1,877	(26)	0	(26)	(208)
Gwasanaethau Eiddo						
Eiddo	3,498	3,406	(92)	0	(92)	(36)
Gofalu, Arlwyo a Glanhau	(11)	(35)	(24)	0	(24)	(2)
	3,487	3,371	(116)	0	(116)	(38)
Tai ac Eiddo	5,606	5,431	(175)	0	(175)	(75)

Tud. 164

Tai ac Eiddo

Rheolaeth - tanwariant o ganlyniad i drosiant staff yn gyfrifol am y sefyllfa.

Gwasanaethau Tai - unwaith eto eleni yn Digartrefedd rhagwelir bwysau sylweddol ar y gwasanaeth Llety Dros Dro yn deillio o'r argyfwng Covid, o ran symud y digartref oddi ar y stryd, disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn digolledu'r Cyngor am gyfran sylweddol o'r £1.8 miliwn o wariant ychwanegol perthnasol. Pwysau arall amlwg eleni yw costau i gwrdd â chynnal a chadw'r Cynllun Lesu Tai preifat, gyda gwaith dal fyny efo'r ochr cynnal a chadw yn dilyn oediad yn sgil Covid. Yn gydamserol, tanwariant ar gostau staff yn Digartrefedd ac yn y maes Sipsiwn a Theithwyr a Thim Opsiynau Tai dan 'Eraill'.

Gwasanaethau Eiddo - swyddi gwag a secondiadau sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant a ragwelir ar yr ochr Eiddo, gyda chyfuniad o lai o wariant ar eiddo a gwasanaethau a chyflenwadau yn lleddfu'r golled incwm a gorwariant staff yn y maes glanhau.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Adrannau Canolog	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Sefyllfa 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	2,076	1,982	(94)	0	(94)	(100)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	6,616	6,554	(62)	0	(62)	(86)
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,108	7,016	(92)	0	(92)	(100)
Cyfanswm Adrannau Canolog	15,800	15,552	(248)	0	(248)	(286)

Adrannau Canolog

Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol - trosiant staff a swyddi gwag yn gyfrifol am y tanwariant gyda chyfran o'r tanwariant yn deillio o swydd wag y Cyfarwyddwr Corfforaethol.

Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y tanwariant, gan gynnwys tanwariant un-tro oherwydd swyddi gwag a chyfnodau mamolaeth ynghyd â derbyniad incwm mewn nifer o feysydd.

Cefnogaeth Gorfforaethol - trosiant staff a rhagori ar incwm gan nifer o wasanaethau, er hyn, sgil effaith Covid wedi cael goblygiadau negyddol ar incwm mewnol yr Argraffdy, gyda rhagolygon o ddiffyg incwm o £58k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Tanwariant ar wasanaethau a chyflenwadau ar draws yr adran hefyd yn cyfrannu at y sefyllfa tanwariant cyffredinol.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Sefyllfa 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Treth Cyngor a Premiwm Treth y Cyngor	*	*	(302)	302	0	0
Gostyngiadau Treth Cyngor	*	*	(577)	577	0	0
Costau Cyfalaf	*	*	(285)	285	0	0
Derbyniad Llog	*	*	(103)	103	0	0
Cyllidebau a Bidiau a ddychwelwyd gan Adrannau	*	*	(245)	245	0	0
Incwm uwchlaw y gyllideb	*	*	(80)	80	0	0
Eraill	*	*	(650)	650	0	0
Cyfanswm Corfforaethol	*	*	(2,242)	2,242	0	0

Corfforaethol

Treth Cyngor a Premiwm Treth Cyngor - hyd at ddiwedd Awst, bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatau 178 eiddo i drosglwyddo o Dreth Cyngor i Drethi Annomestig (506 yn 2020/21, 397 yn 2019/20, 453 yn 2018/19). Er hyn, rhagwelir sefyllfa ffafriol o gynnyrch treth ychwanegol oherwydd rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2021/22. Mae £6.5m o Breimiwm Treth Cyngor wedi ei raglennu i'w dderbyn yn ystod 2021/22 i'w neilltuo i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.

Gostyngiadau Treth Cyngor - lleihad yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd o'i gymharu â 2020/21 ynghyd â gosod amcangyfrifon darbodus.

Costau Cyfalaf - polisi rheolaeth trysorlys presennol yn golygu gellid osgoi benthyca allanol sydd yn creu tanwariant yn erbyn y gyllideb costau cyfalaf. Awgrymir y dylid dargyfeirio'r tanwariant i gronfa i ddefnyddio i gynorthwyo gydag ariannu'r rhaglen gyfalaf.

Derbyniad Llog - rhagolygon y bydd yn derbyniad llog yn rhagori'r targed disgwylidig.

Cyllidebau a Bidiau a ddychwelwyd gan Adrannau ac Eraill - y pwysau ar nifer o gyllidebau ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd eleni.

Argymhellir fod (£285k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf, gyda gweddill y tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol, sef (£1,957k) yn mynd i'r Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo i wynebu'r heriau ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor yn arbennig felly o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

Grant gan y Llywodraeth yn Sgîl Argyfwng COVID19

Atodiad 3

		Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru					Saib Swyddi (Furlough)				
		Digolledu Gwariant Ychwanegol			Digolledu Colled Incwm				Cyfraniad at Gyflogau		
Mis	Cais	Gwerth y Cais	Grant Wedi Dderbyn	Cais	Gwerth y Cais	Grant Wedi Dderbyn	Cais	Gwerth y Cais		Grant Wedi Dderbyn	
		Byw'n lach	Gweddill y Cyngor		Byw'n lach	Gweddill y Cyngor					
		£'000	£'000		£'000	£'000		£'000	£'000		
Ebrill	1	483	474	1	1,020	783	1	116	5	116	5
Mai	2	811	760				2	35	5	35	5
Mehafin	3	824	821				3	26	4	26	4
Gorffennaf	4	1,434	1,078	2	-	-	4	27	3	27	3
Awst	5	754	-				5	26	2	26	2
Medi	6	-	-				6	-	-	-	-
CYFANSWM		4,306	3,133		1,020	783		230	19	230	19

Tud. 168

Trosgolwg o'r Holl Geisiadau:

	Gwerth y Cais £'000	Grant Wedi Dderbyn £'000
CYFANSWM	5,573	4,165
Elfen Byw'n lach	789	789
Gweddill y Cyngor	4,784	3,376

Eitem 7

CYFARFOD:	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD:	14 HYDREF 2021
TEITL:	RHAGLEN GYFALAF 2021/22 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2021
PWRPAS:	Adroddiad Monitro ar Wariant ac Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf
GWEITHREDIAD:	Derbyn yr wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet
AELOD CABINET:	CYNGHORYDD IOAN THOMAS
SWYDDOG CYSWLLT:	FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Rhaglen Gyfalaf 2021/22 - Adolygiad Diwedd Awst 2021) i'r Cabinet ar 12 Hydref 2021 ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, craffu penderfyniadau'r Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

Atodiadau:

Adroddiad Cabinet 12/10/2021: Rhaglen Gyfalaf 2021/22 - Adolygiad Diwedd Awst 2021

ADRODDIAD I'R CABINET
12 HYDREF 2021

Aelod Cabinet: Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

Pwnc: Rhaglen Gyfalaf 2021/22 –
Adolygiad Diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2021)

Swyddog Cyswilt: Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

Penderfyniad a geisir

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2021) o'r rhaglen gyfalaf.
 - Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:
 - defnydd o amryw ffynonellau i ariannu gwir lithriadau gwerth cyfanswm o £25,837,000 o 2020/21,
 - cynnydd o £61,000 mewn defnydd o fenthycyca,
 - cynnydd o £9,959,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau,
 - cynnydd o £69,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf,
 - cynnydd o £1,482,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw,
 - cynnydd o £21,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf, a
 - cynnydd o £807,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.
-

1. Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2021/22. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 6:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £124.015m am y 3 blynedd 2021/22 – 2023/24.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £38.236m ers y gyllideb agoriadol, gyda £25.837m o'r cynnydd oherwydd llithriadau o 2020/21 (adroddwyd eisoes fel rhan o'r llithriadau a grantiau trafndiaeth newydd yn adolygiad diwedd blwyddyn ar 18 Mai 2021).

Rhan 5: Manyllder grantiau ychwanegol ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol.

Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth.

2. Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £71.6m yn 2021/22 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £26.1m (37%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.
- Mae effaith argyfwng Covid19 yn parhau ar y rhaglen gyfalaf ac i'w weld yn y ffigyrau a adroddir yn Atodiad C, gyda dim ond 16% o'r gyllideb sydd wedi ei wario hyd at ddiwedd Awst eleni, o'i gymharu â 13% dros yr un cyfnod flwyddyn yn ôl a 19% ddwy flynedd yn ôl (2019/20, cyn amhariad Covid19).
- Mae £9.1m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2021/22 i 2022/23 a 2023/24, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

3. Rhaglen Gyfalaf 2021/22 i 2023/24

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig ar ddiwedd Awst 2021.

ADRAN	ADOLYGIAD DIWEDD AWST				CYFANSWM £'000	CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL £'000	ADDASIAD LLITHRIAD £'000	NEWIDIADAU ERAILL £'000
	2021/22	2022/23	2023/24					
	£'000	£'000	£'000	£'000				
Addysg	8,374	12,871	4,309	25,554	1,628	1,470	158	
Amgylchedd	14,771	971	121	15,863	14,433	9,250	5,183	
Cefnogaeth Gorfforaethol	-	-	-	-	(106)	(106)	-	
Cyllid	1,441	782	838	3,061	(145)	(145)	-	
Economi a Chymuned	3,221	1,025	144	4,390	2,160	436	1,724	
Tai ac Eiddo	17,681	12,957	6,929	37,567	10,690	9	10,681	
Oedolion, Iechyd a Llesiant	5,292	1,450	625	7,367	1,399	1,372	27	
Plant a Chefnogi Teuluoedd	1,982	250	-	2,232	1,732	768	964	
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	10,374	4,728	3,133	18,235	4,687	3,435	1,252	
Ymgynghoriaeth	7,088	287	43	7,418	430	453	(23)	
Corfforaethol	1,328	500	500	2,328	1,328	8,895	(7,567)	
CYFANSWM	71,552	35,821	16,642	124,015	38,236	25,837	12,399	

4. Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £12.399m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers sefyllfa'r gyllideb wreiddiol. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

ARIANNU	ADOLYGIAD DIWEDD AWST				CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL	ADDASIAD LLITHRIAD	NEWIDIADAU ERAILL
	2021/22	2022/23	2023/24	CYFANSWM			
	£'000	£'000	£'000	£'000			
Benthyca gyda chefnogaeth	8,164	6,610	6,610	21,384	-	-	-
Benthyca Arall	6,977	2,975	3,289	13,241	902	841	61
Grantiau a Chyfraniadau	26,140	9,973	266	36,379	22,439	12,480	9,959
Derbyniadau Cyfalaf	869	13	0	882	641	572	69
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	2,288	356	0	2,644	1,034	(448)	1,482
Cronfa Cyfalaf	6,078	4,111	204	10,393	5,115	5,094	21
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	21,036	11,783	6,273	39,092	8,105	7,298	807
CYFANSWM	71,552	35,821	16,642	124,015	38,236	25,837	12,399

5. Grantiau Ychwanegol

Ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol, ddiwedd Mawrth, llwyddodd y Cyngor i ddenu'r grantiau canlynol ychwanegol o £10,060k. Mae nifer o addasiadau gan gynnwys lleihad o £54k ar gynlluniau oedd yn is na'r amcan gwreiddiol yn dod â chyfanswm y symudiad i £9,959k (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £4,769k Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol gan Lywodraeth Cymru
- £1,088k Grant Targeddu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI) a'r Gronfa Ariannu Cyfatebol (TMF) i ariannu Cynllun Nyth ym Mangor
- £964k Grantiau Llywodraeth Cymru i'r maes Gofal Plant - Dechrau'n Deg a Gofal Plant
- £902k Grant Llywodraeth Cymru tuag at bwyntiau gwefru trydan a solar
- £579k Grantiau Economi Gylchol a Symbyliad gan Lywodraeth Cymru at amrywiol gynlluniau
- £575k Grantiau o'r Gronfa Teithio Llesol gan Lywodraeth Cymru
- £568k Grant Rhaglen Tai Arloesol tuag at safle Segontium, Caernarfon
- £206k Grant Galluogi, maes tai, gan Lywodraeth Cymru i hwyluso byw'n annibynnol
- £155k Grant Rhaglen Trawsffurfio Trefi gan Lywodraeth Cymru tuag at Hwb Menter Gymunedol Penygroes

- £146k Grant Llywodraeth Cymru tuag at welliant mynediad gwledig
- £108k Grant Croesawu y Cwsmer yn Saff

6. **Argymhellion**

Gofynnir i'r Cabinet:

- dderbyn y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 i 2023/24, a
- cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (rhan 4 uchod).

7. **Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad**

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2021/22 – 2023/24.

8. **Ystyriaethau Perthnasol**

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

9. **Camau Nesaf ac Amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

Barn yr Aelod Lleol

Dim yn berthnasol.

Barn y Swyddogion Statudol**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau:

- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
 - Atodiad B: Symudiadau o 2021/22 i 2022/23
 - Atodiad C: Gwariant 5 mis cyntaf 2021/22
-

Manylion y Prif Newididau

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf :

	2021/22	2022/23- 2023/24
	£'000	£'000
Grantiau a Chyfraniadau		
• Grant Ysgolion Ganrif 21 – ailbroffilio ac addasu Cynlluniau Ysgolion Trefferthyr ac Ein Harglwyddes (<i>Adran Addysg</i>).	(4,767)	(4,713)
• Grant Croesawu y Cwsmer yn Saff (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	108	
• Grant Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI) a'r Gronfa Ariannu Cyfatebol (TMF) i ariannu Cynllun Nyth, Bangor (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	388	700
• Grantiau Economi Gylchol a Symbyliad Llywodraeth Cymru tuag at amrywiol gynlluniau (<i>Adran Economi a Chymuned ac Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>).	579	
• Grantiau Llywodraeth Cymru i'r maes Gofal Plant – Dechrau'n Deg a Gofal Plant - ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau (<i>Adran Plant a Theuluoedd</i>).	964	
• Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau (<i>Adran Amgylchedd</i>).	4,769	
• Grantiau o'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau (<i>Adran Amgylchedd</i>).	575	
• Grant Llywodraeth Cymru tuag at welliant mynediad gwledig (<i>Adran Amgylchedd</i>).	146	
• Grant Llywodraeth Cymru tuag at bwyntiau gwefru trydan a solar (<i>Adran Amgylchedd</i>).	902	
• Grant Galluogi, maes tai, gan Lywodraeth Cymru i hwyluso byw'n annibynnol (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	206	
• Grant Rhaglen Trawsffurfio Trefi gan Lywodraeth Cymru tuag at Hwb Menter Gymunedol Penygroes (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	155	

<ul style="list-style-type: none"> Grant Rhaglen Tai Arloesol tuag at safle Segontiw, Caernarfon (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>). 	568	
Benthyciadau Arall		
<ul style="list-style-type: none"> Cerbydau Priffyrdd a Bwrdeistrefol (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>). 	61	
Derbyniadau Cyfalaf		
<ul style="list-style-type: none"> Amrywiol gynlluniau gan gynnwys ariannu cyfatebol Canolfan Ailgylchu Llandygai (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>). 	70	
Refeniw Adrannol		
<ul style="list-style-type: none"> Cyfraniadau Ysgolion tuag at amrywiol gynlluniau gan gynnwys cerbydau (<i>Adran Addysg</i>). 	193	
<ul style="list-style-type: none"> Hwb Rhannu Bwyd Cymunedol (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>). 	100	
<ul style="list-style-type: none"> Cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau (<i>Adran Amgylchedd</i>). 	63	
<ul style="list-style-type: none"> Trosglwyddo elfen o'r gyllideb refeniw i ariannu cynlluniau Cynnal a Chadw sydd bellach yn gyfalaf o ran natur (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>). 	1,067	
Cronfa Cyfalaf		
<ul style="list-style-type: none"> Cynllun Ysgolion Ganrif 21 - ailbroffilio Cynllun Ysgol Treferthyr (<i>Adran Addysg</i>). 	(1,146)	1,146
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill		
<ul style="list-style-type: none"> Cynllun Ysgolion Ganrif 21 - ailbroffilio Cynllun Ysgol Treferthyr (<i>Adran Addysg</i>). 	(218)	218
<ul style="list-style-type: none"> Adnewyddu cerbydau ac offer - Unedau Priffyrdd a Bwrdeistrefol (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>). 	828	

Manylion Ail-broffilio

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

	2021/22 £'000	2022/23 £'000
Cynlluniau Ysgolion (Ganrif 21 ac Eraill) (<i>Adran Addysg</i>)	(3,331)	3,331
Cynlluniau Trafnidiaeth (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(176)	176
Gwelliannau Trefol (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(20)	20
Ail-wynebu Meysydd Parcio (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(219)	219
Pwyntiau Gwefru Cerbydau (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(356)	356
Cynlluniau Addasiadau Swyddfeydd (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(123)	123
Cynlluniau Cynnal a Chadw wedi eu cyfalafu (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(226)	226
Cynlluniau Rheoli Carbon y Cyngor (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(1,351)	1,351
Cynllun Gwaredu Asbestos (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(400)	400
Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(2,925)	2,925
Uwchraddio'r System Ariannol (<i>Adran Cyllid</i>)	(14)	14

Noder:

Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.

Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

Gwariant Cyfalaf 5 Mis Cyntaf 2021/22

CRYNODEB	RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Awst) 2021/22 £'000	GWIR WARIANT 5 MIS HYD AT 31/08/2021 £'000
Addysg	8,374	1,360
Amgylchedd	14,771	2,918
Cefnogaeth Gorfforaethol	-	-
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	1,441	249
Economi a Chymuned	3,221	1,017
Tai ac Eiddo	17,681	2,695
Oedolion, Iechyd a Llesiant	5,292	420
Plant a Chefnogi Teuluoedd	1,982	182
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	10,374	2,411
Ymgynghoriaeth	7,088	-
Corfforaethol	1,328	-
CYFANSWM	71,552	11,252

Noder:

Mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni (16%) yn uwch na'r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 5 mis 2020/21 yn 13%), ond yn is na dwy flynedd yn ôl (19% yn 2019/20, cyn amhariad Covid19).

Eitem 8

CYFARFOD: PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

DYDDIAD: 14 HYDREF 2021

TEITL: TROSOLWG ARBEDION:
ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU
ARBEDION

PWRPAS: Adrodd ar y Sefyllfa Ddiweddaraf

GWEITHREDIAD: Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau cyffredinol sy'n deillio o'r llithriadau, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion

AELOD CABINET: CYNGHORYDD IOAN THOMAS

SWYDDOG CYSWLLT: FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Trosolwg Arbedion: Adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion) i'r Cabinet ar 12 Hydref 2021.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion, ystyried penderfyniadau'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

Atodiadau:

Adroddiad Cabinet 12/10/2021: Trosolwg Arbedion: Adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion

ADRODDIAD I'R CABINET

Dyddiad	12 Hydref 2021
Aelod Cabinet	Y Cyngorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid
Pwnc	Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion
Swyddog Cyswllt	Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1 Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2021/22, 2020/21 a blynyddoedd blaenorol.
- 1.2 Nodi bod effaith Covid19 wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng, a hynny wedi golygu na fu modd parhau efo'r trefniadau herio perfformiad ac arbedion dros gyfnod yr argyfwng.

2. CYFLWYNIAD / CEFNDIR

- 2.1 Mae'r adroddiad yma yn adroddiad trosolwg o sefyllfa arbedion y Cyngor ar gyfer 2021/22, 2020/21 a blynyddoedd blaenorol.
- 2.2 Adroddir ar gynnydd yn erbyn cynlluniau arbedion sydd werth £966,720 yn 2021/22 a £2,996,190 yn 2020/21, ynghyd â'r arbedion sydd eto i'w cyflawni o flynyddoedd blaenorol, yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Awst 2021.
- 2.3 Bellach gellir adrodd fod cyfanswm o dros £32.7 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu ers 2015/16, sydd yn 94% o'r £34.8m gofynnol dros y cyfnod. Llwyddwyd i wireddu bron i 69% o'r arbedion diwygiedig ar gyfer 2020/21 gyda 42% o arbedion 2021/22 eisoes wedi eu gwireddu neu ar drac i gyflawni'n amserol eleni.
- 2.4 Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

3. AIL-ASESU ARBEDION

- 3.1 Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol sydd eisoes wedi adnabod arbedion effeithlonrwydd sylweddol er mwyn isafu toriadau mewn gwasanaeth i drigolion Gwynedd. Yn Ionawr 2021, adolygwyd y cynlluniau arbedion i asesu pa gynlluniau hanesyddol oedd bellach yn anghyraeddadwy, a lluniwyd rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2021/22 yn dilyn cymryd camau i ddileu, llithro ac ail broffilio'r cynlluniau arbedion.

3.2 Mae'r tabl isod yn dangos gwerth yr arbedion a gafodd eu dileu neu eu gohirio i 2022/23:

Tabl 1: Arbedion wedi eu dileu neu eu gohirio i 2022/23

	Gohirio i 2022/23 £	Dileu £
Cynlluniau 2017/18 - 2020/21	1,037,750	848,040
Cynlluniau 2021/22	511,250	595,450
CYFANSWM	1,549,000	1,433,490

4. CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 – 2019/20

4.1 Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion diwygiedig sydd wedi ei osod iddynt o 2015/16 - 2019/20, **cyfanswm o bron i £31m. Calonogol yw gallu adrodd bod dros £30m, neu 98% o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu**, ond mae risg o wireddu'r arbedion rhai o'r cynlluniau'n parhau.

4.2 Mae'r llithriad ymylol yma yn bennaf ar rai o gynlluniau 2019/20, gyda'r her o'u gwireddu'n parhau.

4.3 Mae 9 cynllun bychan gwerth cyfanswm o £187k wedi llithro ond nid yw'r Adrannau yn rhagweld problem i'w gwireddu.

4.4 Mae'r 6 cynllun sy'n weddill sef gwerth £487k gyda risgiau i'w cyflawni. 4 cynllun gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a 2 gan yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol. Mae ymateb i'r argyfwng Covid wedi golygu llithro rhai elfennau o gynlluniau arbedion, ond posib fod angen nawr ystyried os oes wirioneddol fodd cyflawni'r arbedion ynteu a oes angen cynnig cynlluniau a dulliau amgen ar gyfer gwireddu'r arbedion.

5. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2020/21

5.1 Mae **Atodiad 2** yn crynhoi'r sefyllfa o ran gwireddu cynlluniau arbedion 2020/21, yn seiliedig ar sefyllfa wrth gau'r cyfrifon am y flwyddyn. O'r 129 o gynlluniau gwerth cyfanswm o bron i £3m sydd wedi eu proffilio am y flwyddyn, mae 99, sef **gwerth bron i £1.8m neu 60% wedi eu gwireddu**. Mae 30 o gynlluniau 2020/21 unai yn llithro neu gyda rhai risgiau i'w cyflawni.

5.2 Mae cynnydd pellach wedi ei wneud erbyn hyn ers y sefyllfa wrth gau'r cyfrifon am y flwyddyn ariannol.

5.3 Mae gwerth cyfanswm o £867k o gynlluniau arbedion yn llithro ond bellach yn symud yn eu blaen tra fod gwerth £345k o gynlluniau ble mae'r Adrannau yn rhagweld risgiau i'w cyflawni.

- 5.4 O'r cynlluniau sydd â risg o gyflawni mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyda 2 gynllun gyda tharged o £75k yr un sef *Cydweithio â'r trydydd sector i sicrhau darparwr newydd i gymryd drosodd y ddarpariaeth gofal dydd yng Nghricieth a Blaenau Ffestiniog ac Adolygu pecynnau gofal anableddau corff gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen*. Mae'r Adran yn gweithio i symud y cynlluniau yn eu blaen ond mae risgiau yn parhau efo elfennau o'r gwaith.
- 5.5 Mae risgiau i gyflawni arbedion 3 cynllun gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol sef *Cynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau* (£25k) a chynllun *Cau Cilgwyn* (£35k), sydd yn symud yn eu blaen yn 2021/22. Y cynllun arall yw *Canolfannau Ailgylchu: codi ffi ar fasnachwyr* a chynllun *Codi ffi ar waredu deunyddiau DIY* (£90k). Mae'r Adran yn edrych ar effeithiau archebu slotiau yn y Canolfannau ar hyn o bryd er mwyn gweld os bydd arbedion yn deillio o'r trefniadau newydd, gyda'r canolfannau bellach wedi cau ar ddydd Sul, ddylid hefyd arwain at leihau'r costau.
- 5.6 Mae'r cynllun *Sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle a chynyddu ffioedd lansio ar draws traethau Gwynedd* o £10 i £15 gwerth £45k gan yr Adran Economi a Chymuned efo risgiau o gyflawni. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i ymgorffori nifer o safleoedd newydd i mewn i Orchymyn Parcio Gwynedd.
- 5.7 Oherwydd blaenoriaethau eraill yn ystod 2020/21, ni fu cymaint o gynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion y flwyddyn, wrth i'r adrannau ymateb i ofynion ychwanegol wrth ymateb i'r argyfwng, a hynny wedi golygu na fu modd parhau efo rhai o'r trefniadau arbedion dros gyfnod yr argyfwng.

6. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2021/22

- 6.1 Mae **Atodiad 3** yn crynhoi'r sefyllfa o ran gwireddu cynlluniau arbedion 2021/22. Mae'r cyfanswm targed arbedion yn £967k gyda gwerth £408k, sef 42% o gynlluniau eisoes wedi eu gwireddu a £216k pellach sef 22% ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- 6.2 Yn amlwg mae'r adrannau wedi canolbwyntio ar ymateb i'r argyfwng yn ystod cyfnod yr argyfwng.
- 6.3 Bu llithriad ar 4 cynllun ar draws y Cyngor gwerth cyfanswm o £214k ond maent yn symud yn eu blaen sydd yn cynnwys 1 cynllun yr un gan yr Adran Amgylchedd ac Oedolion, Iechyd a Llesiant a 2 gynllun gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.
- 6.4 Rhagwelir risgiau i gyflawni arbedion 3 cynllun ar draws y Cyngor gwerth cyfanswm o £129k sydd yn cynnwys cynllun *Cynhyrchu incwm drwy atal twyll* (£20k) gan yr Adran Gyllid, *Adolygu'r trefniadau gweithredu* Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (£34k) a *Chynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau* gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (£75k). Mae'r Adrannau yn gweithio i symud ymlaen gyda'r cynlluniau yma.

7. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2022/23 YMLAEN

- 7.1 Rhestrir arbedion 2022/23 ymlaen, fesul Adran yn **Atodiad 4**, ond mae'n gynamserol i adrodd ar statws y cynlluniau yma ar hyn o bryd.

8 CASGLIAD

- 8.1 Mae'n anorfod bod gwireddu £32.7m o arbedion (allan o gyfanswm o £34.8m) ers Ebrill 2015 wedi bod yn heriol ac rwy'n ddiolchgar i'r holl adrannau a'r Aelodau Cabinet am sicrhau'r llwyddiant yma.
- 8.2 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf y cynlluniau arbedion ers Ebrill 2015 efo 94% o'r holl gynlluniau wedi eu gwireddu.

Tabl 2: Crynodeb o statws holl gynlluniau arbedion ers Ebrill 2015

Statws yr Arbediad	Porth	£m	%
Wedi gwireddu	1	32.7	94.1
Ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol	2	0.2	0.6
Oediad, ond yn symud yn ei flaen	3	1.0	2.8
Rhai risgiau i gyflawni - yn llithro neu methu	4	0.9	2.5
Risgiau sylweddol i gyflawni yn llawn neu yn rhannol	5	0.0	0.0
Cyfanswm arbedion		34.8	

- 8.3 Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion. Yn ogystal, nodi bod effaith Covid wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion a chefnogi'r adrannau i symud ymlaen efo'r rhaglen arbedion er gwaethaf yr argyfwng.

Barn yr Aelod Lleol

Dim yn berthnasol

Barn y Swyddogion Statudol

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau:

Atodiad 1 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2015/16 - 2019/20 fesul Adran

Atodiad 2 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2020/21 fesul Adran

Atodiad 3 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2021/22 fesul Adran

Atodiad 4 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2022/23 ymlaen fesul Adran

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2019/20 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2019/20 £	Cynlluniau wedi eu gwireddu £	Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro £ - nifer		Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni £ - nifer		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Addysg	1,522,150	1,522,150	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Ysgolion	4,037,000	4,037,000	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Amgylchedd	2,467,783	2,430,283	37,500	1	-		Llithriad ar y cynllun <i>Cynyddu'r nifer meysydd parcio sy'n rai talu ac arddangos a chynyddu ffioedd parcio</i> gwerth £37.5k yn 2019/20.
Cefnogaeth Gorffonethol	2,094,628	2,094,628	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Cyllid	1,585,906	1,585,906	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Economi a Chymuned	2,713,012	2,670,512	42,500	3	-		Bu llithriad gyda 2 gynllun <i>Cysoni trefniadau/adolygu ffioedd parcio</i> gwerth cyfanswm o £30k a <i>Dileu 1 swydd o'r Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata</i> £12.5k.
Oedolion, Iechyd a Llesiant	6,385,641	6,013,641	48,000	2	324,000	4	Mae'r cynllun <i>Awtomeiddio prosesau cyllidol yr Adran</i> wedi ei gyflawni'n rhannol ac er mwyn cwrdd â'r diffyg o £64k, mae angen ystyried os oes modd cyflawni'r arbediad trwy ddulliau amgen. O ran y cynllun <i>Integreiddio a Thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hyn</i> mae £210k o darged yn 2019/20 ac mae sawl ffactor yn cyfrannu at yr her barhaus o'i gyflawni. Bu llithriad ar 2 gynllun sef <i>Cynyddu incwm a lleihau costau eraill</i> (£30k) ac <i>Uno Dysgu a Datblygu ac Uned Datblygu Gweithlu</i> (£18k). Mae rhai risgiau o gyflawni arbedion 2 gynllun pellach sef <i>Cydweithio â'r trydydd sector i gymryd drosodd y ddarpariaeth gofal dydd yng Nghricieth a Blaenau Ffestiniog</i> (£25k) ac <i>Adolygu pecynnau gofal anabledau corff gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen</i> (£25k) ond mae'r Adran yn gweithio i symud ymlaen gyda rhain.

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2019/20 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2019/20 £	Cynlluniau wedi eu gwireddu £	Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro £ - nifer		Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni £ - nifer		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Plant a Chefnogi Teuluoedd	2,204,488	2,204,488	-		-		Bu i Cabinet 26 Ionawr 2021 gymeradwyo dileu targed arbedion cynllun <i>Dechrau i'r Diwedd</i> gwerth £370k hyd at ddiwedd 2019/20. Mae gweddill y cynlluniau wedi eu gwireddu.
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	5,308,720	5,100,720	45,000	2	163,000	2	Mae risg na fydd yr arbedion o'r cynllun <i>Trefniadau Fflyd</i> yn cael eu cyflawni yn llawn bellach ac mae'n debygol bydd rhaid edrych am gynlluniau amgen i gwrdd â rhan o'r targed (£133k yn 2019/20). Yn ogystal mae £30k o arbedion 2019/20 ar y cynllun <i>Newid Trefniadau Canolfannau Ailgyrchu</i> ble mae'r Adran yn edrych ar effaith trefn newydd yn y Canolfannau. Bu oediad gyda 2 gynllun arall ond mae rhain bellach yn symud yn eu blaen.
Ymgynghoriaeth	513,500	513,500	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	367,380	353,580	13,800	1	-		Mae llithriad ar y cynllun <i>Arbedion yng nghyllideb y Crwner</i> gwerth £13.8k gan ei fod yn seiliedig ar ragamcaniad a wnaethpwyd rhai blynyddoedd yn ôl ond sydd eto heb ddigwydd.
Tai ac Eiddo	436,100	436,100	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Is-gyfanswm	29,636,308	28,962,508	186,800	9	487,000	6	
Arbedion Rheolaethol	1,200,360	1,200,360	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
CYFANSWM	30,836,668	30,162,868	186,800	9	487,000	6	Yn nhermau ariannol (£), mae 98% o gynlluniau arbedion 2015/16 - 2019/20 wedi eu gwireddu.

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2020/21 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2020/21		Cynlluniau wedi eu gwireddu		Cynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
	£ - nifer		£ - nifer		£ - nifer		
Addysg	367,210	6	367,210	6	-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Amgylchedd	283,430	21 *	145,310	17	138,120	4	Gwireddwyd 17 o gynlluniau a bu llithriad ar 4 cynllun sef <i>Cyflawni arbedion drwy brynu'n rhatach</i> gwerth £20k, <i>Cynyddu'r ffi ar gyfer asesu ansawdd dŵr</i> £12.5k, <i>Cynyddu'r nifer meysydd parcio sy'n rai talu ac arddangos a chynyddu ffioedd parcio</i> £82.5k a <i>Rhesymoli ac Integreiddio'r Swyddfa gefn yr Adran Amgylchedd</i> £23.12k.
Cefnogaeth Gorfforaethol	256,840	12	256,840	12	-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Cyllid	170,730	11	150,730	10	20,000	1	Gwireddwyd 10 cynllun a bu llithriad ar y cynllun <i>Cynhyrchu incwm drwy atal twyll</i> sydd gyda targed gwerth £20k yn 2020/21.
Economi a Chymuned	183,410	18 *	95,910	14	87,500	4	Mae amrediad o gynlluniau'r Adran wedi eu gwireddu. O'r 4 sy'n weddill, mae 3 yn symud yn eu blaen sef 2 gynllun sy'n ymwneud â pharcio (<i>Cysoni ffioedd i safleoedd newydd ac Adolygu ffioedd a threfniadau yn Storiel</i>) a <i>Dileu 1 swydd o Wasanaeth Twristiaeth a Marchnata</i> .
Oedolion, Iechyd a Llesiant	583,770	12 *	179,410	6	404,360	6	Mae'r Adran yn rhagweld rhai risgiau i gyflawni rhai cynlluniau arbedion gan gynnwys 2 gynllun sef <i>Cydweithio â'r trydydd sector i sicrhau darparwr gofal dydd newydd yng Nghricieth a Blaenau Ffestiniog</i> (£75k) ac <i>Adolygu pecynnau anabledau corff gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen</i> (£75k). Yn ogystal mae yna 4 cynllun lle bu oediad sef <i>Gwell cydgorddio gwasanaeth gyda'r Adran Plant a theuluoedd ar adeg oed trosglwyddo</i> (£15k), <i>Gwella prosesau gwaith drwy gynnal adolygiad Ffordd Gwynedd a defnyddio modiwlau cyllid y system TG newydd o fewn yr Adran Oedolion</i> (£40k), <i>Adolygiad pecynnau Gofal Iechyd Parhaus</i> (£150k) ac <i>Ail strwythuro y Gwasanaeth Busnes a lleihau ymhellach y gefnogaeth a roddir i dimau rheng flaen</i> (£49.36k).

Tud. 187

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2020/21 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2020/21		Cynlluniau wedi eu gwireddu		Cynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
	£ - nifer		£ - nifer		£ - nifer		
Plant a Chefnogi Teuluoedd	91,250	4	91,250	4	-		Bu i Cabinet 26 Ionawr 2021 gymeradwyo dileu targed arbedion 2020/21 cynllun <i>Dechrau i'r Diwedd</i> gwerth £318k. Mae gweddill y cynlluniau arbedion wedi eu gwireddu.
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	729,440	22 *	198,690	9	530,750	13	Mae risgiau o gyflawni arbedion 3 cynllun sef <i>Canolfannau Ailgyrchu - newid trefniadau</i> , <i>Cynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau</i> a chynllun <i>Cau Cilgwyn</i> . Mae'r Adran yn edrych i weld os yw'r cynlluniau am wireddu'r arbedion yn llawn neu'n rhannol. Bu oediad ar 10 cynllun sydd werth cyfanswm o £380,750, rhain i weld yn symud yn eu blaen ac nid yw'r Adran yn rhagweld problemau gwireddu.
Ymgynghoriaeth	89,170	5	89,170	5	-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	35,860	10 *	29,640	9	6,220	1	Bu oediad mewn gwireddu arbedion y cynllun <i>Lleihau 2 ddiwrnod ar gefnogaeth weinyddol etholiadau a chyfreithiol</i> .
Tai ac Eiddo	205,080	8	180,080	7	25,000	1	Bu llithriad yn rhaglen y cynllun <i>Lleihau dibyniaeth ar lety dros-dro trwy fuddsoddi mewn llety pwrpasol</i> , ond mae'r cynllun yn symud yn ei flaen ac nid yw'r Adran yn rhagweld problem gwireddu.
CYFANSWM	2,996,190	129	1,784,240	99	1,211,950	30	Yn nhermau ariannol (£), mae 60% o gynlluniau arbedion 2020/21 eisoes wedi eu gwireddu.

* cynnwys cynllun/cynlluniau wedi gwireddu yn rhannol mewn un blwyddyn ariannol ond eto i wireddu yn llawn.

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2021/22

Adran	Cyfanswm Arbedion 2021/22 £ - nifer		Cynlluniau wedi eu gwireddu £ - nifer		Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol £ - nifer		Cynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni £ - nifer		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Addysg	65,000	1	65,000	1	-	-	-	-	Mae'r un cynllun oedd efo targed yn 2021/22 wedi ei wireddu.
Amgylchedd	73,750	4	16,250	2	20,000	1	37,500	1	Mae'r cynllun <i>Cyflawni arbedion drwy brynu'n rhatach (e.e. offer swyddfa a TG)</i> ar drac i gyflawni'n amserol. Bu oediad ar y cynllun <i>Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan</i> mewn meysydd parcio, ond mae bellach yn symud yn ei flaen.
Cefnogaeth Gorfforaethol	117,750	3	17,250	1	100,500	2	-	-	Mae 2 gynllun ar drac i gyflawni'n amserol sef <i>Dileu un swydd swyddog adnoddau dynol ac un swydd ymgynghorydd adnoddau dynol (Ileihad staffio o 20%) drwy newid ein model gweithredu</i> (£60k yn 2021/22) a <i>Dileu'r Gwasanaeth Datblygu Sefydliad</i> (£40.5k yn 2020/21).
Cyflid	100,000	3	80,000	2	-	-	20,000	1	Mae risgiau i gyflawni arbedion y cynllun <i>Cynhyrchu incwm drwy atal twyll</i> (£20k yn 2021/22). Cymeradwywyd gynlluniau amgen i ddisodli'r cynllun hanesyddol <i>Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol</i> (£75k yn 2021/22) yng Nghabinet 28/9/21.
Economi a Chymuned	-	-	-	-	-	-	-	-	Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2021/22.
Oedolion, Iechyd a Llesiant	78,750	2	-	-	-	-	78,750	2	Mae'r Adran yn rhagweld rhai risgiau i gyflawni arbedion y cynllun <i>Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion</i> (£33.75k). Bu oediad ar y cynllun <i>Gwell cydgordio gwasanaeth gyda'r Adran Plant a theuluoedd ar adeg oed trosglwyddo</i> ond mae'n symud yn ei flaen (£45k).
Plant a Chefnogi Teuluoedd	23,170	1	23,170	1	-	-	-	-	Mae'r un cynllun oedd efo targed yn 2021/22 wedi ei wireddu.

Adran	Cyfanswm Arbedion 2021/22		Cynlluniau wedi eu gwireddu		Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol		Cynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
	£ - nifer		£ - nifer		£ - nifer		£ - nifer		
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	206,250	3	-		-		206,250	3	Mae risgiau o gyflawni arbedion y cynllun <i>Cynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau</i> (£75k yn 2021/22). Mae sefyllfa Covid wedi amharu ar gytundebau masnachol ac felly yn annhebygol o gyflawni'r arbediad eleni. Bu llithriad mewn gwireddu'r arbedion cynllun <i>Pont Abermaw – peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros y bont</i> (£26.25k yn 2021/22). Mae'r Adran yn parhau i fod mewn trafodaethau gyda Network Rail. Yn ogystal bu llithriad ar y cynllun <i>Newid Teledu Cylch Cyfyng sydd gyda gofalwyr yn monitro i gyfundrefn 'heb ofalwyr'</i> (£105k in 2021/22).
Ymgynghoriaeth	-		-		-		-		Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2021/22.
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyffwrthiol	-		-		-		-		Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2021/22.
Tai ac Eiddo	302,050	5	206,670	3	95,380	2	-		Dau gynllun ar ôl i'w cyflawni sydd ar drac i gyflawni'n amserol.
CYFANSWM	966,720	22	408,340	10	215,880	5	342,500	7	Yn nhermau ariannol (£), mae 42% o gynlluniau arbedion 2021/22 eisoes wedi eu gwireddu a 22% pellach ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yn amlwg mae'r adrannau wedi canolbwyntio ar ymateb i'r argyfwng yn y cyfnod ers Ebrill 2020.

APPENDIX 4

OVERVIEW OF 2022/23 ONWARDS SAVINGS SCHEMES PER DEPARTMENT

Department	Total 2022/23 onwards Savings	
	£ - number	
Education	-	
Environment	12,500	1
Corporate Support	100,000	1
Finance	25,000	1
Economy and Community	255,000	2
Adults, Health and Well-being	1,235,250	4
Children and Supporting Families	303,590	1
Highways and Municipal	497,500	4
Consultancy	-	
Corporate Management Team and Legal	-	
Housing and Property	-	
TOTAL	2,428,840	14

Eitem 9

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	17 HYDREF 2021
TEITL	CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL
PWRPAS YR ADRODDIAD	AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 30 MEDI 2021
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2021 hyd 30 Medi 2021.

2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 30 Medi 2021:

Disgrifiad	Nifer
Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol (2020/21)	4
Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol (2021/22)	10

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 30 Medi 2021, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	LEFEL SICRWYDD	ATODIAD
Rheoli Asedau TG yn Ystod Argyfwng (2020/21)	Cyllid	Ar draws yr Adran	Digonol	Atodiad 1
Cynllun STEM Gogledd (2020/21)	Economi a Chymuned	Cefnogi Busnes	Uchel	Atodiad 2
Ffioedd Cartrefi Preifat (2020/21)	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Preswyl a Dydd	Uchel	Atodiad 3
Gorfodaeth Ffyrdd a Pharcio (2020/21)	Amgylchedd	Gwarchod y Cyhoedd	Digonol	Atodiad 4
Systemau a Diogelwch TG – Digonolrwydd Data	Cyllid	Ar draws yr Adran	Uchel	Atodiad 5
Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2020-2021	Cyllid	Cyfrifeg	Uchel	Atodiad 6
Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2020-2021	Cyllid	Cyfrifeg	Uchel	Atodiad 7
Datganiad Cyfrifyddu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2020-2021	Cyllid	Cyfrifeg	Uchel	Atodiad 8
Taliadau i Weithwyr Gofal (Rhan2)	Cyllid	Pensiynau a Chyflogau	Uchel	Atodiad 9
Taleion Newydd	Cyllid	Pensiynau a Chyflogau	Uchel	Atodiad 10
Grantiau Cefnogi Busnes Llywodraeth Cymru	Cyllid	Refeniw	Uchel	Atodiad 11
Cronfa'r Degwm	Economi a Chymuned	Adfywio Cymunedol	Uchel	Atodiad 12
Grant Cymorth Tai	Tai ac Eiddo	Digartrefedd a Tai Cefnogol	Uchel	Atodiad 13
Trefniadau Glanhau	Tai ac Eiddo	Tir ac Eiddo'r Cyngor	Cyfyngedig	Atodiad 14

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

LEFEL SICRWYDD	UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
	DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
	CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
	DIM SICRWYDD	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 30 Medi 2021:

- Datganiadau Cyflogaeth (*Corfforaethol*)
- Cynlluniau Parhad Busnes a Gwersi a Ddysgwyd (*Corfforaethol*)
- Côt Rheoli Ariannol (*Corfforaethol*)
- Dyletswyddau Economaidd Gymdeithasol 2021 (*Corfforaethol*)
- Trefn Gwynion (*Corfforaethol*)
- Dynodiadau iaith (*Corfforaethol*)
- Defnydd o Gardiau Pryniant (*Corfforaethol*)
- Iechyd a Diogelwch Meysydd Chwarae (*Addysg*)
- Taliadau Bonws i Weithwyr Gofal (*Cyllid*)
- Grant Cymorth Busnes (*Economi a Chymuned*)
- Trefniadau Rheoli Prosiectau (*YGC*)

4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2021 hyd at 30 Medi 2021, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

RHEOLI ASEDAU TG YN YSTOD ARGYFWNG

1. Cefndir

1.1 Oherwydd y pandemig COVID-19, mae nifer fawr o staff y Cyngor oedd yn gweithio yn ei swyddfeydd wedi gweithio o'u cartrefi ble'n bosib. Golyga hyn bod gwasanaeth TG y Cyngor wedi gorfod hwyluso hyn trwy sicrhau bod y cyfarpar ar gael, yn ddiogel ac yn cael ei ddefnyddio'n gywir gan staff.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i reoli asedau TG y Cyngor yn ystod argyfwng COVID-19. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio polisiau perthnasol, gwirio'r hyfforddiant sydd ar gael i staff y Cyngor a chysoni cofrestrau asedau TG y Cyngor.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	2
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Derbyniwyd mynediad at fersiwn drafft o'r polisi '*Mobile Working Policy*' y Cyngor. Nodir mai nod y polisi yw lleihau risgiau mewn perthynas â'r canlynol:

Gweithio o bell, gweithio o adref, defnyddio dyfeisiadau eu hunain, gweithrediadau cyfreithiol yn erbyn y Cyngor oherwydd colli neu gam-drin data a niwed i enw da'r Cyngor oherwydd colli neu gam-drin data. Mae cynnwys y polisi yn ymddangos yn briodol ac yn cyflawni ei nod.

- 5.2 Archebwyd nifer o drwyddedau ychwanegol i wasanaeth *Virtual Private Network* (VPN) i alluogi niferoedd mwy o staff y Cyngor i weithio o'u cartrefi. Bydd peiriannau'r Cyngor yn caniatáu staff i ddefnyddio offer ychwanegol megis llygod ac allweddellau eu hunain cyn belled nad oes modd storio a symud data o'r offer (mae argraffydd gyda darllynydd cerdyn SD yn enghraifft o hyn). Mae trefn mewn lle fel bod angen i unrhyw aelod o staff sydd yn gweithio o adref gysylltu gyda swyddog o'r tîm diogelu gwybodaeth er mwyn gwneud cais i argraffu dogfennau o'u cartref. Bydd y tîm diogelu gwybodaeth yn penderfynu os yw'r cais yn angenrheidiol a phriodol o safbwynt diogelu data a gwybodaeth.
- 5.3 Derbyniwyd copi o gofrestr ffônau symudol y Cyngor. Ymddengys bod y gofrestr gyda chofnod o'r rhif ffôn, *network* y ffôn, IMEI, rhif SIM ac enw'r unigolyn sy'n gyfrifol am y ffôn. Mae rhif cyflog wedi ei gofnodi ar y gofrestr ond nid ar gyfer y rhan fwyaf o achosion. Eglurodd y Swyddog Swyddfa Rhaglen a Rheolaeth Categori bod hyn yn ymarfer newydd ers rhai misoedd gan eu bod wedi sylwi nad oes modd gwahaniaethu rhwng rhai aelodau o staff. O sampl o 15 aelod o staff a derfynodd eu cyflogaeth gyda'r Cyngor rhwng 01/04/2020 a 26/10/2020 ac oedd yn debygol o fod yn ddefnyddwyr TG, gwelwyd bod hyd at bedwar ffôn symudol ar y gofrestr yn parhau yn eu henwau. Cyfrifoldeb Rheolwyr Llinell yw hysbysu'r Gwasanaeth TG pan fydd staff yn gadael ac/neu fod eu cyfarpar ddim yn cael eu defnyddio mwyach.
- 5.4 Caiff cofnod o asedau TG y Cyngor a gaiff eu defnyddio gan staff megis gliniaduron a chyfrifiaduron eu cadw yn system '*TopDesk*'. O'r un sampl nodir ym mhwynt 5.3 uchod, gwelwyd bod saith allan o bymtheg cyn-aelod o staff gyda chyfrifiadur neu liniadur gyda'u rhifau cyflog hwy fel y 'defnyddiwr diweddaraf' yn y gofrestr asedau, gyda'r gweddill heb cofnod ar y gofrestr yn awgrymu nad yw'n berchennog o ased neu bod yr ased wedi cael ei ddsbarthu i aelod arall o staff ar ôl iddynt ymadael. Yn dilyn ein ymholiad i'r dyfeisiadau oedd yn ymddangos yn enwau cyn-aelod o staff, gwelwyd statws bod dau yn '*Donated*', un '*Available*' a phump '*In-Use*'. Mae categori '*Donated*' yn golygu bod ased wedi'i waredu ond heb ei ailgylchu (wedi eu rhoi i ysgolion y Cyngor neu sefydliadau tebyg). Golyga '*Available*' bod yr ased ar gael i aelod o staff a golyga '*In-use*' bod yr ased mewn defnydd gan yr aelod o staff cysylltiedig. Nid yw'n dderbyniol bod pum ased sy'n gysylltiedig â chyn-aelodau o staff wedi'u rhestru fel '*In-Use*'.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth a'r Uwch Swyddog Statudol Diogelu Gwybodaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Sicrhau bod y Polisi Gweithio o Bell yn cael ei gymeradwyo, ar gael i staff a bod y staff yn ymwybodol o'r polisi ar gyfer gweithio o adref.
- Datblygu modiwl o fewn Hunanwasanaeth Staff i alluogi Rheolwyr i weld yr asedau TG o fewn eu gwasanaeth maent yn gyfrifol amdanynt a diweddarau statws asedau ar TopDesk.

CYNLLUN STEM GOGLEDD

1. Cefndir

1.1 Mae STEM ('Science, Technology, Engineering and Mathematics in education and training') Gogledd yn brosiect sy'n cael ei ariannu yn rhannol gan gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru, yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion 11-19 oed ar draws Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy ddysgu mwy am Wyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg. Mae STEM yn derbyn cefnogaeth gan Gyngor Gwynedd, Cyngor Ynys Môn a Chyngor Conwy yn ogystal â Magnox a'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear. Mae disgwyl i'r prosiect redeg tan ddiwedd 2022.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer cyflawni amcanion cynllun STEM, drwy ychwanegu gwerth i'r cwricwlwm ac anelu i ysbrydoli ac annog disgyblion i ystyried pwysigrwydd pynciau STEM a'u perthnasedd i yrfaeoddd posib y dyfodol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r trefniadau sydd mewn lle i wireddu'r amcanion, gan gynnwys sicrhau bod cytundebau priodol yn bodoli, bod ceisiadau grant yn cael eu gwneud yn amserol ac yn gyflawn, a bod y targedau perfformiad yn cael eu monitro'n briodol.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Derbyniwyd copi o'r llythyr cynnig/cytundeb rhwng Cyngor Gwynedd a'r Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) wedi ei arwyddo yn ddyddiedig 13 Gorffennaf 2018.
- 4.2 Mae Cyngor Gwynedd yn cyfrannu hyd at £150,000 o gyllid gyfatebol ar gyfer y cynllun ac yn gyfrifol am dderbyn yr holl gyfraniadau cyllid cyfatebol gan y partneriaid. Gwelwyd dogfennau yn cefnogi a chymeradwyo yr arian gan y 3 sir, Cyngor Gwynedd, Cyngor Môn a Chyngor Conwy.
- 4.3 Gwelwyd bod cofrestr risg wedi ei greu ac yn cael ei ddiweddarau bob chwarter. Gwelwyd dystiolaeth bod y fersiwn diweddaraf wedi ei greu ar 01/02/2021. Gwelwyd bod pob risg sy'n gysylltiedig â'r rhaglen STEM wedi cael eu hasesu gan ddefnyddio system Asesiad Risg Cyngor Gwynedd.

- 4.4 Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am y gyllideb ar draws y rhanbarth, yn ogystal â pharatoi a chyflwyno'r hawliadau chwarterol rhanbarthol i WEFO. Gwiriwyd sampl o hawliadau a gwelwyd bod pob rhan yn gyflawn. Derbyniwyd ddogfennau anfonwyd i WEFO ar gyfer y cyfnod Tachwedd 2020 – Ionawr 2021 sy'n cefnogi'r hawliadau, a gwelwyd eu bod yn briodol gan ddangos trywydd clir i'r banc.
- 4.5 Gwelwyd dystiolaeth gan ymgynghorwyr allanol bod cynnydd y Cynllun STEM yn erbyn y targedau a sefydlir gan WEFO yn dda hyd yn hyn, gan gydnabod bod y pandemig wedi tarfu'n sylweddol ar y gweithgareddau. Mae'r Swyddog Monitro a Chyllid yn defnyddio taenlenni excel ar gyfer monitro gwariant, incwm a 'simplified costs' yn rheolaidd ac er mwyn monitro'r buddiolwyr. Adroddir gwybodaeth monitro yn ffurfiol i WEFO bob chwarter fel rhan o'r broses hawlio ac adrodd.

FFIOEDD CARTREFI PREIFAT

1. Cefndir

1.1 Gwelwyd cynnydd sylweddol yn ddiweddar ar y ffioedd ychwanegol â godwyd gan gartrefi gofal preifat. Mae rhain yn ychwanegol i bris lleoliad ac ar gyfer gwasanaethau megis torri gwallt, teithio i apwyntiadau, a phapurau newydd. Y pryder yw nad yw'r preswylwyr yn derbyn y gwasanaethau ar pob achlysur, gyda'r cartrefi yn manteisio ar y cyfle i ennill arian ychwanegol.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod yr adolygiad o ffioedd cartrefi preifat a'r costau ychwanegol a gynhaliwyd gan yr Adran a'r manylion a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 9fed Mawrth 2021 yn gywir ac yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa gyfredol.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Yn dilyn cyfarfod gyda'r Uwch Reolwr Busnes a'r Rheolwr Tîm Prosiectau Iechyd, Oedolion a Llesiant, cadarnhawyd fod ymchwiliad manwl eisoes wedi ei gynnal ar ffioedd cartrefi preifat, gyda adroddiad yn nodi'r opsiynau syddar gael wedi eu cyflwyno i'r Cabinet yn ddiweddar. Yn sgil hyn, penderfynwyd peidio ail-adrodd y gwaith hynny, ond yn hytrach gwirio fod yr holl wybodaeth a'r data a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad wedi ei ddehongli yn gywir, a bod yr adroddiad gyflwynwyd i'r Cabinet yn adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa.

4.2 Mae'r ymchwiliad i ffioedd cartrefi preifat ar waith ers 2019 gyda rhwystradau yn sgîl y pandemig wedi arafu'r cynnydd. Ers hynny mae'r adran wedi cynnal cyfarfodydd gyda rheolwyr y cartrefi ac wedi danfon holiaduron ar gyfer cael gwell dealltwriaeth o'u sefyllfa ariannol. Yn ogystal, maent wedi gwirio prosesau cynghorau eraill ar draws Cymru er mwyn deallt a gweld oblygiadau newid prosesau ar yr adran, y preswylwyr ac ar y cartrefi.

4.3 Y consensws yw nad yw'r ffi safonol a delir gan y Cyngor ar gyfer preswylwyr yn ddigonol ar gyfer cyrraedd gofynion costau staffio, hyfforddiant a.y.b, gyda'r ffioedd ychwanegol a godwyd yn ffordd o ennill rhagor o arian i gynnal y busnes.

- 4.4 Mae'r data a'r wybodaeth uchod wedi ei gyflwyno i'r Cabinet ac wedi ei drafod yng nghyfarfod Mawrth 9^{fed} 2021, ble penderfynwyd ymateb i'r materion adnabuwyd drwy roi arian ychwanegol i'r darparwyr fel eu bod yn gallu talu gwir cyflog byw i'w staff, gan barhau gyda thrafodaethau ag Llywodraeth Cymru ar ran ariannu'r costau uwch yn y maes, yn benodol costau ariannu staff.
- 4.5 Gwelwyd fod yr holl wybodaeth a thystiolaeth yn y papurau gwaith yn cefnogi'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet.

GORFODAETH FFYRDD A PHARCIO**1. Cefndir**

1.1 Mewn blwyddyn lle ni deithiodd llawer dramor ar wyliau, gwelwyd llawer yn dod i ardaloedd hardd yn Eryri. Gwelwyd achosion yn ystod y flwyddyn o niferoedd mawr o gerbydau yn parcio'n anghyfreithlon ar hyd clirffyrdd megis y lon rhwng Nant Peris a Phenygwryd.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i ymateb i faterion parcio yn dilyn trafferthion gydag ymwelwyr yn gorlenwi mewn llefydd poblogaidd gyda thwristiaeth. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cynlluniau, eu gweithrediad a'r canlyniadau i sicrhau eu bod yn briodol, wedi cael eu gweithredu'n llwyddiannus ac yn ymateb i'r holl broblemau parcio.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	2
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Nodir ar wefan gyhoeddus y Cyngor "Y Cyngor sy'n rheoli parcio ar y stryd a meysydd parcio'r Cyngor yng Ngwynedd. Os na fyddwch yn cadw at y rheolau parcio, byddwch yn derbyn dirwy (Rhybudd Talu Cosb) ar ffenestr eich cerbyd". Mae gwybodaeth glir yma hefyd yn amlygu'r gwahanol ddirwyon a sut i'w hosgoi trwy barcio'n gyfreithlon. Credir bod gwybodaeth ddigonol ar gael i'r cyhoedd am reolaeth parcio'r Cyngor.

- 5.2 Gwiriwyd gynllun ble mae arwyddion ffordd wedi'u gosod ar hyd y lôn o Nant Peris i Benygwryd. Mae arwyddion 'clirffordd' sy'n golygu ni ddylai gerbyd stopio ar unrhyw adeg o gwbl ar y lôn wedi'u gosod yn gyson ar ei hyd. Gwelwyd bod 21 man ble mae arwyddion 'clirffordd' yma. Mae arwyddion yn dangos ceir yn cael eu towio hefyd wedi'u gosod ar y ffordd i rybuddio gyrwyr ymhellach.
- 5.3 Credir bod trefn rota staff yn deg ac yn effeithiol gan ei bod yn sicrhau bod nifer o ardaloedd yn cael sylw yn aml. Mae'r staff i gyd yn barhaol a nid oes cynnydd yn y staff ar gyfer yr haf. Hysbysebwyd swyddi tymhorol yn y gorffennol ond ni dderbyniwyd llawer o ddi-ddordeb. Mae pot arian yn sgil COVID yn golygu bod 3 swydd newydd wedi'u creu yn y gwasanaeth ar sail contract 12 mis i gychwyn. Credir bydd hyn yn lliniaru unrhyw risgiau cysylltiedig â diffyg staffio dros y tymhorau prysuraf.
- 5.4 PPCC (Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru) sydd yn gyfrifol am gasglu arian y dirwyon roddir gan Gyngor Gwynedd. Ar amser yr archwiliad, derbyniwyd adroddiad gan PPCC yn nodi bod 1744 allan o 1823 dirwy wedi'u talu ac un wedi'u apelio ers 01/01/2019. Mae'r drefn apelio i PPCC ar eu gwefan.
- 5.5 Ar amser yr archwiliad, yr Heddlu yn unig oedd gyda hawl i dowio ceir wedi parcio'n anghyfreithlon. Mae polisi towio wedi'i lunio ac yn y cyfnod drafft. Mae gofyn i gynrychiolaeth cyfreithiol o'r Cyngor wirio'r polisi cyn ei gyflwyno i'r cabinet. Mae'n bryder hefyd bod y dirwyon (£25 neu £35 os cant eu talu o fewn 14 diwrnod) yn annigonol i atal gyrwyr barcio'n anghyfreithlon. Nid oes gan y Cyngor hawl i roi dirwyon uwch oherwydd bod y ffigyrau wedi'u nodi gan ddeddf genedlaethol. Gwelwyd lythyr anfonwyd at Lywodraeth Cymru ar 11^{eg} o Dachwedd 2020 yn holi os oes modd i Gyngor Gwynedd gael hawliau i dowio cerbydau wedi parcio'n anghyfreithlon a rhoi cosbau uwch. Mae'r Cyngor yn parhau i ddisgwyl ymateb cadarn ynglŷn â'r ymholiad.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Arweinydd Tîm Parcio a'r Rheolwr Parcio a Gwaith Stryd wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Parhau i gyfathrebu gyda Llywodraeth Cymru i gael mwy o hawliau i Gyngor Gwynedd ddiogelu ffyrdd yr ardal.
- Cyflwyno polisi towio diwygiedig i'r Cabinet.

DIGONOLRWYDD DATA

1. Cefndir

1.1 Statws a roddir gan y Comisiwn Ewropeaidd i wledydd tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) yw digonolrwydd data. Rhoddir y statws pan mae'r Comisiwn yn gwybod bod data personol yn cael ei ddiogelu yn y wlad cystal a fuasai o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd.

1.2 Yn dilyn Brexit, mae risg na fydd trefniadau diogelu data personol y DU yn cael eu barnu'n ddigonol. Gall hyn amharu ar allu'r Cyngor i gael mynediad at ddata personol y mae'n gyfrifol amdanynt os ydynt yn symud trwy'r AEE neu yn cael eu storio yno. Mae'r cyfnod pontio sy'n galluogi data i symud yn rhwydd rhwng y DU a'r AEE wedi dod i ben ar y 30^{ain} o Fehefin 2021.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i gydymffurfio gyda rheoliadau digonolrwydd data yr Undeb Ewropeaidd i osgoi trafferthion yn sgil Brexit. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau asesu ac adrodd ar risgiau perthnasol a gwirio pa gamau gymerwyd i liniaru'r risgiau o beidio â chydymffurfio â'r gofynion perthnasol.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Mae digonolrwydd data wedi ei nodi ar y gofrestr risg Brexit gyda sgôr risg o 4 ac mae'r Pennaeth Cynorthwyol - Technoleg Gwybodaeth fel y swyddog cyfrifol. Y prif risg nodir yw: *'Methu cael mynediad at ddata sy'n cael ei gadw yn yr UE'*. Mae risgiau cysylltiedig â mesurau rheoli addas wedi'u nodi. Mae'r cofnod yn dangos bod ystyriaeth wedi'i roi i'r risgiau perthnasol gan y Cyngor.

4.2 Gwelwyd sawl e-bost gan swyddog TG i reolwyr mewn gwahanol adrannau o fewn y Cyngor yn ymholi os oeddynt yn defnyddio systemau oedd yn storio data personol y tu allan i'r DU. Roedd e-byst hefyd wedi eu hanfon yn uniongyrchol i gwmnïau sy'n gwasanaethu'r Cyngor yn ymholi am eu trefniadau parthed digonolrwydd.

4.3 Adroddwyd ni fydd angen llunio hyfforddiant newydd ar gyfer staff mewn perthynas â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC)/'GDPR' yn sgil unrhyw benderfyniad. Mae fersiwn y DU o RhDDC yn seiliedig ar y rheoliad Ewropeaidd ac felly mae unrhyw hyfforddiant RhDDC sydd wedi ei fynychu yn y gorffennol yn parhau i fod yn berthnasol.

CYFRIFON HARBYRAU

1. Cefndir

1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbyrau Pwllheli, Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb datganiad blynyddol 'Harbyrau' ar gyfer y flwyddyn 2020/21, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiadau cyfrifyddu 'Harbyrau' ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. Mae cyfrifon priodol wedi'u cadw a chynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor.

4.2 Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd gwelwyd fod sampl o daliadau wedi eu cefnogi gydag anfonebau neu dderbynebau priodol, a bod treth ar werth wedi ei drin yn briodol. Oherwydd amgylchiadau COVID, nid oedd modd gwirio ffurflenni a derbyniadau taliadau arian mân. Roedd hefyd trywydd priodol i sampl o drosglwyddiadau eraill a wnaethpwyd drwy drosglwyddiadau mewnol.

4.3 Gweinyddir costau staff drwy Uned Cyflogau Cyngor Gwynedd ble chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. Cofnodir y costau staffio yma yn briodol yn y datganiad a sicrhawyd bod gan sampl o'r swyddogion yma gytundebau cyflogaeth briodol.

4.4 Cefnogir ffigwr asedau sefydlog ar y datganiadau cyfrifyddu gan gofrestr asedau.

**CYFRIFON PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD
(CYNGHORAU GWYNEDD A MÔN)**

1. Cefndir

1.1 Mae'r Pwyllgor Polisi ar y Cyd yn gyd-bwyllgor a sefydlwyd yn unol ag Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 gan Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Mae'n ofynnol i gyfrifon ar wahân gael eu cynhyrchu ar gyfer cyd-bwyllgorau. Gan mai Cyngor Gwynedd sy'n arwain ar y gwasanaeth cyllid a chyfrifeg i'r cyd-bwyllgor hwn, Cyngor Gwynedd sydd felly â'r cyfrifoldeb am gwblhau'r datganiad ariannol.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb datganiad blynyddol y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiadau cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cyngorau Gwynedd a Môn) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd bod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. Mae cyfrifon priodol wedi'u cadw a chynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor.

4.2 Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod y sampl o daliadau â ddetholwyd wedi eu cefnogi gydag anfonebau perthnasol i'r cyfnod dan sylw, a bod treth ar werth wedi ei drin yn briodol. Roedd hefyd trywydd priodol i sampl o drosglwyddiadau eraill a wnaethpwyd drwy drosglwyddiadau mewnol.

4.3 Gweinyddir costau staff drwy Wasanaeth Cyflogau Cyngor Gwynedd ble chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. Cofnodir y costau staffio yma yn briodol yn y datganiad, a sicrhawyd bod gan sampl o'r swyddogion yma gytundebau cyflogaeth priodol.

CYFRIFON BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

1. Cefndir

1.1 Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn grŵp o sefydliadau preifat a chyhoeddus sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo twf economaidd yn Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam. Mae eu hamcanion allweddol yn cynnwys annog buddsoddiad busnes yng Ngogledd Cymru, gan helpu cwmnïau lleol i fanteisio ar gyfleoedd y gadwyn gyflenwi, ac annog sgiliau cysylltiedig â gwaith yn y rhanbarth.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb datganiad blynyddol y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn 2020/21, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiadau cyfrifyddu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. Mae cyfrifon priodol wedi'u cadw, cynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor a gwelwyd y cyflwynwyd cofrestrau risg i'r Bwrdd.

4.2 Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd gwelwyd fod y sampl o daliadau a ddetholwyd wedi eu cefnogi gydag anfonebau, a bod treth ar werth wedi ei drin yn briodol. Roedd hefyd trywydd priodol i sampl o drosglwyddiadau eraill â wnaethpwyd drwy drosglwyddiadau mewnol.

4.3 Gweinyddir costau staff drwy Uned Cyflogau Cyngor Gwynedd ble chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. Cofnodir y costau staffio yma yn briodol yn y datganiad a sicrhawyd bod gan sampl o'r swyddogion yma gytundebau cyflogaeth priodol.

TALIADAU I WEITHWYR GOFAL

1. Cefndir

- 1.1 Cyhoeddodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford, ar 1 Mai 2021 bydd yn rhoi taliad o £500 i dros 64,000 o weithwyr y sector gofal a chymdeithasol ar draws Cymru er mwyn cydnabod eu gwaith caled dros amser heriol y pandemig. Ar y pryd, dywedodd y Prif Weinidog fod staff sy'n darparu gofal yn y cartref ac mewn cartrefi gofal yn aml yn derbyn elfen uwch o risg ac y byddai'r taliadau ychwanegol yn cydnabod hynny. Ar ddechrau Mehefin, cafodd y taliad ei ymestyn i gynnwys staff cegin a chynorthwyr personol mewn cartrefi gofal, gweithwyr asiantaeth, a gweithwyr cymorth gofal cartref.
- 1.2 Mewn datganiad, dywedodd Llywodraeth y DU eu bod wedi rhoi £2.3bn i Lywodraeth Cymru at gefnogi pobl, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus yn ystod y pandemig, fodd bynnag, adroddwyd bod y taliadau yn gysylltiedig â chyflogaeth ac felly yn destun treth incwm ac Yswiriant Cenedlaethol.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i weinyddu taliadau a wneir o dan y cynllun taliad arbennig sef y £500 a dalwyd i weithwyr gofal, yn ogystal â sicrhau bod y taliadau yn ddilys, yn gywir ac wedi cael eu gwneud yn amserol fel bod modd hawlio ad-daliadau yn ôl gan Lywodraeth Cymru yn llawn. Roedd yr archwiliad hefyd yn cwmpasu archwilio'r broses apêl a threfniadau ar gyfer delio â cheisiadau hwyr.
- 2.2 Er mwyn cyflawni hyn, adolygwyd y trefniadau ar gyfer adnabod, cyfathrebu a dilysu taliadau, gwirio'r sampl o daliadau a wnaed i sicrhau eu bod yn gymwys, yn gywir ac amserol, yn ogystal ag adolygu trefniadau ar gyfer y proses apêl, adrodd at Lywodraeth Cymru ac ad-hawlio taliadau. Mae'r adroddiad terfynol hwn yn gwirio bod yr arian wedi cael eu hawlio a'u derbyn yn gywir a chyflawn gan Lywodraeth Cymru ynghyd â chau unrhyw faterion/ymholiadau a ddaeth i'n sylw yn ystod yr adroddiad interim yn cynnwys cadarnhau dyddiad cau yr apeliadau ac adennill taliadau dyblyg.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Gwelwyd bod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu a phrosesu ceisiadau am daliadau i weithwyr gofal. Adroddwyd priodoldeb ar gyfer cyfarwyddiadau dosbarthu i holl weithwyr/rheolwyr, darparwyr allanol ac unigolion cymwysedig i allu dilysu cymhwysedd gan y Cyngor yn yr adroddiad interim (cyhoeddwyd Tachwedd 2020).
- 4.2 Adolygwyd y cais ad-hawlio a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cau, Mawrth 2021 a gwelwyd bod taliadau wedi cael eu derbyn yn gyflawn (hyd at 29/03/21).
- 4.3 Gwelwyd bod taliadau dyblyg wedi cael eu hadnabod a chadarnhawyd o'r taliadau dyblyg bod Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am adennill bump ohonynt. Eglurwyd bod pedwar o'r rhain wedi cael eu adennill drwy anfoneb a derbyniwyd cadarnhad gan y Rheolwr Cyflogau bod un ohonynt wedi cael ei adennill drwy'r gyflogres.
- 4.4 Gwelwyd bod y taliadau wedi cael eu ad-hawlio yn llawn hyd at 31/03/2021 gan gynnwys addasu'r cais ad-hawlio i adlewyrchu'r newidiadau/adennill y pedwar taliad dyblyg. Fodd bynnag, cafodd un o'r taliadau dyblyg ei anfonebu yn Ebrill, hynny yw ar ôl i'r cais ad-hawlio cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, yn ogystal adroddwyd bod cais ychwanegol wedi cael ei dalu ar ddiwedd y cyfnod. Eglurwyd bod Llywodraeth Cymru wedi'i ganiatáu cyn ei weithredu. Gwelwyd bod yr adroddiad/ffigyrau a adroddwyd i Lywodraeth Cymru wedi cael eu haddasu i adlewyrchu y newidiadau hyn, yn cynnwys cais arall am ad-daliad wedi cael ei gwblhau yn gywir a chyflawn.
- 4.5 Cysonwyd y cais ad-daliad a'r gwariant adroddwyd i Lywodraeth Cymru yn erbyn y cyfriflyfr ac ymddengys eu bod yn cysoni gyda'r taliadau gweinyddu wedi'u hawlio.

TALEION PENSIYNAU NEWYDD

1. Cefndir

1.1 Yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21 hyd at Rhagfyr 2020, ymddengys bod 413 o unigolion wedi eu sefydlu fel taleion newydd. Mae Cronfa Bensiwn Cyngor Gwynedd yn gweinyddu pensiynau i dros 50 o sefydliadau/cyflogwyr yn cynnwys cynnal gwiriadau, amcangyfrifo, prosesu a chymeradwyo taleion newydd. Ers y pandemig, mae swyddogion y Gwasanaeth Pensiynau yn gweithio o gartref, gyda swyddog yn dychwelyd i'r swyddfa yn rheolaidd i sganio dogfennau i'r system i'w gweithredu. Cedwir copïau electronig ar system weithredol Altair, ble hefyd gellir archifo dogfennau.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer sefydlu taleion newydd. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o daleion newydd gan sicrhau bod y wybodaeth a thystiolaeth berthnasol wedi ei dderbyn ar gyfer eu prosesu yn gywir.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gwelwyd yn ystod y pandemig bod y gwasanaeth wedi gallu parhau i weithio o dan y drefn newydd heb gyfaddawdu ar ddiogelwch, prosesu dogfennau a thaliadau drwy lif gwaith sydd gyda trywydd archwilio yn bodoli ac ymddengys bod gwahaniaethau mewn ddyletswyddau wedi cael eu gweithredu yn briodol wrth dderbyn, amcangyfrif, prosesu a thalu i aelodau.

4.2 Detholwyd sampl o daleion newydd ar hap o Ebrill 2020 hyd at Rhagfyr 2020. O'r sampl o 20 a wiriwyd gwelwyd bod tystiolaeth ddigonol ar gyfer ymaelodi, bod gwiriadau priodol wedi cael eu cynnal drwy holi am fanylion cyflogaeth hanesyddol aelodau, llythyr amcangyfrifo pensiynau wedi cael ei ddsbarthu a'r ffurflen gais wedi cael ei dychwelyd gyda penderfyniad gan yr aelod. Gwelwyd hefyd ffurflenni TR27 yn awdurdodi taliadau a copi o'r llythyr i'r aelodau yn eu hysbysu o'r taliadau pensiwn.

- 4.3 O'r sampl a ddetholwyd, gwelwyd hefyd bod trywydd archwilio yn bodoli yn dangos bod gwiriadau o fanylion, amcangyfrifon a thaliadau a'u bod wedi eu cynnal gan wahanol swyddogion i sicrhau gwahaniad mewn dyletswyddau.
- 4.4 Gwiriwyd sampl o 12 taleion a gwelwyd bod tystiolaeth priodol wedi'u derbyn ar gyfer amcangyfrifo nifer blynyddoedd o wasanaeth mewn cyflogaeth a'u bod wedi'u prosesu'n gywir a gwelwyd bod y taliadau yn cytuno â'r hyn a hysbyswyd i'r aelod.

GRANTIAU BUSNES LLYWODRAETH CYMRU

1. Cefndir

1.1 Fel rhan o becyn ysgogiad cyllidol Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau Cymru drwy gyfnod y pandemig COVID19, cyflwynwyd dau grant ar gyfer rhoi cefnogaeth gyllidol i fusnesau a sefydliadau dielw i'w helpu i aros yn hyfyw. Mae Cyngor Gwynedd, ynghyd ag awdurdodau lleol eraill wedi cefnogi'r fenter drwy gytuno i weinyddu'r grantiau.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gwirio, gweinyddu a phrosesu ceisiadau am Grantiau COVID-19 cysylltiedig ag Ardrethi Annomestig (NDR) i Fusnesau yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym Mawrth 2020 (gwerth £25,000 a £10,000) er mwyn cynnig cymorth i fusnesau Cymru sydd yn dioddef caledi ariannol yn sgil y pandemig. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o geisiadau llwyddiannus gan wirio eu bod yn gymwys i'r grant, a'r drefn briodol wedi ei ddilyn wrth eu prosesu.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1. Detholwyd sampl o 100 cais llwyddiannus, yn gymysgedd o geisiadau grant 1, gwerth £25,000 a grant 2, gwerth £10,000, gan wirio eu bod yn gymwys, a bod y dystiolaeth angenrheidiol wedi ei dderbyn ar gyfer eu cefnogi. Ar gyfer pob cais yn y sampl, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, roedd y busnes ar y rhestr ardrethi annomestig ar Fawrth 20^{fed}, 2020, a'r ymgeiswyr wedi derbyn taliad prydlon i'r cyfrifon banc cywir.
- 4.2 Gyda nifer o fusnesau yn talu dim treth ar y sail eu bod yn fusnesau bach, ac felly heb fil treth, nid oes gorfodaeth arnynt i adrodd unrhyw newid yn eu sefyllfa, megis os ydynt yn gadael neu werthu'r eiddo. O'r herwydd, roedd nifer o gyfrifon trethi busnes mewn enw busnes a all fod wedi gadael yr eiddo ers blynyddoedd. Rhaid felly oedd adnabod pwy oedd y gwir deilydd ar yr adeg roedd y cais yn cael ei chyflwyno er mwyn adnabod y rheini oedd yn gymwys i'r grantiau. Mae bwriad i ddiweddarau'r system gyda'r wybodaeth ychwanegol dderbyniwyd yn y broses grantiau, e.e. cyfeiriadau e-byst a rhifau ffôn.

- 4.3 Ni welwyd fod pob darn o ohebiaeth a thystiolaeth a dderbyniwyd gan ymgeiswyr wedi ei gadw yn erbyn y cyfrif perthnasol ar DIP, ac yn parhau ym mlychau e-bost y proseswyr. Cadarnhaodd y Rheolwr Trethi, oherwydd cynifer yr e-byst, byddai eu rhoi ar DIP yn amserol. Ar ddechrau'r broses derbyniwyd cymaint o geisiadau, a rhaid roedd eu prosesu ar frys fel bod y busnesau yn gallu parhau i fod yn hyfyw. Ychwanegodd nad oedd y staff yn dileu eu he-byst, felly byddai modd eu gweld yn y dyfodol, os angen.
- 4.4 Bu oddeutu 4,700 o geisiadau llwyddiannus am Grant 2 yn ôl y daenlen a oedd yn cynnwys manylion y taliadau. Roedd yr archwiliad wedi awgrymu 9 achosion o unigolyn wedi derbyn 3 taliad, fodd bynnag, bu ymchwil pellach gan y Rheolwr Trethi a chadarnhaodd bod 7 o'r achosion yma yn deilwng. 'Roedd ymchwil yn parhau i ddau o'r achosion eraill.
- 4.5 Roedd yna nifer uchel o geisiadau yn cael eu cyflwyno yn ddyddiol ar gychwyn y cyfnod prosesu grantiau a rhybudd clir yn cael ei roi i'r ymgeiswyr o'r rheolau a'r uchafswm o ddau grant. Er bod pob taliad wedi ei wirio, eglurwyd nad oedd posib sicrhau bod ceisiadau annilys wedi'u canfod ac felly mae posibilrwydd bod rhai wedi gallu cael eu talu ar gam/o ganlyniad twyll. Mae archwiliad allanol yn cael ei gynnal ar ran y llywodraeth gan Archwilio Cymru i edrych yn benodol ar achosion fel hyn ac unrhyw geisiadau twyllodrus.
- 4.6 Ar amser cynnal yr archwiliad, nid oedd posib cyflwyno rhagor o geisiadau, fodd bynnag roedd nifer o geisiadau heb eu prosesu gan nad oeddent yn cwrdd â'r meini prawf o ran y gwerth ardrethol. Pe byddai Asiantaeth y Swyddfa Brisió yn penderfynu addasu'r gwerth ardrethol neu drosglwyddo'r eiddo i'r rhestr ardrethi annomestig gan ôl ddyddio cyn yr 20^{fed} o Fawrth, 2020 mae'n bosib byddai'r ceisiadau yma yn deilwng am y taliad.

CRONFA'R DEGWM**1. Cefndir**

1.1 Pwrpas Cronfa'r Degwm yw hyrwyddo a chefnogi gweithgareddau gan elusennau cofrestredig. Mae modd i sefydliadau megis Eisteddfodau lleol, gweithgareddau celfyddydol, mudiadau addysg, hamdden a chwaraeon, cadwriaethol ac elusennau sy'n cefnogi pobl wael neu bobl anabl ymgeisio am grant o'r gronfa. Hyd 2019/20, roedd y gronfa yn cwmpasu Gwynedd, Conwy a Môn, gyda Gwynedd yn Awdurdod arweiniol. Erbyn hyn, mae'r gronfa wedi ei datgymalu rhwng yr awdurdodau.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cynnal gwiriad annibynnol o ddatganiad o gyfrifon y Gronfa Degwm am y flwyddyn ariannol 2020/21 yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Pan fo incwm blynyddol elusen dros £25,000, yna rhaid cynnal archwiliad annibynnol o'r cyfrifon yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau. Gan nad oedd incwm o fuddsoddiadau'r gronfa yn uchafu'r trothwy yma ym mlwyddyn ariannol 2019/20, yna ni gynhaliwyd archwiliad mewnol ar y cyfrifon. Fodd bynnag, yn dilyn buddsoddi arian y gronfa er mwyn denu llog uwch, rhagorwyd y trothwy incwm ym mlwyddyn ariannol 2020/21.

4.2 Yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau, gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiad o gyfrifon Cronfa'r Degwm ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau.

GRANT CYMORTH TAI**1. Cefndir**

1.1 Dyrannwyd dros £5 miliwn o grant i Gyngor Gwynedd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 fel rhan o gynllun Cymorth Tai. Mae'r cynllun yn comisiynu ac ariannu nifer o ddarparwyr i gynnig cymorth i unigolion bregus i gadw eu tenantiaeth ac osgoi digartrefedd, gyda'r nod o alluogi'r unigolion i fyw yn annibynnol drwy ddarparu gwasanaethau cefnogol yn gysylltiedig â thai. Gall y gwasanaeth gael ei ddarparu yng nghartref yr unigolyn neu mewn hostel, cartrefi gwarchodol, neu unrhyw dŷ lle ceir cefnogaeth. Mae'r cynllun yn rhoi cymorth i amrediad eang o bobl, megis pobl hŷn, pobl gyda phroblemau trais domestig, pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, pobl gyda phroblemau iechyd meddwl, anghenion camddefnyddio sylweddau yn ogystal ag anabledd dysgu.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb tystysgrif archwilio grant Cymorth Tai ar gyfer 2020-21, drwy wirio'r costau a hawliwyd, yn ogystal â sicrhau bod y Gwasanaeth wedi cydymffurfio ag amodau'r llythyr cynnig grant.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb tystysgrif archwilio grant Cymorth Tai ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

TREFNIADAU GLANHAU

1. Cefndir

1.1 Mae trefniadau glanhau swyddfeydd ac adeiladau'r Cyngor yn dod o dan reolaeth yr Adran Tai ac Eiddo sydd â chyfrifoldeb am dros 50 o leoliadau a hyd at 100 o aelodau o staff yn gweithio mewn rolau rhan amser.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau glanhau swyddfeydd a safleoedd yn briodol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r trefniadau gan sicrhau bod y gwaith wedi ei raglennu yn effeithiol gyda'r adnoddau sydd ar gael, bod canllawiau wedi eu cyfathrebu yn glir i staff er mwyn sicrhau cysondeb a safon, yn ogystal â iechyd a diogelwch y gweithwyr.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	1
CANOLIG	4
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae trefniadau gwaith y gwasanaeth glanhau wedi bod yn gyson, gyda rhan helaeth o'r gwaith yn cael ei ffeilio ar bapur yn unig a chyfathrebu ar lafar neu dros y ffôn. Er bod hyn i'w ddisgwyl gan mai gweithwyr llaw yw'r staff, byddai'n fuddiol adolygu rhai o'r trefniadau i weld os yw'n bosib canfod ffyrdd gwahanol o weithio a manteisio ar y dechnoleg sydd ar gael.

- 5.2 Mae canllawiau cyffredinol ar gael i'r staff er mwyn cyflawni'r gwaith glanhau. Mae'r rhain yn cael eu defnyddio ar gyfer prif swyddfeydd y Cyngor yn ogystal ag unrhyw leoliadau eraill. Nid oes manylder o ran cynnwys a'r amser disgwylidig i gyflawni'r gwaith nac am unrhyw ofynion penodol mewn rhai safleoedd. Ymddengys bod unrhyw fanylder fel hyn yn wybodus i'r staff ond nid o reidrwydd wedi ei ddogfennu.
- 5.3 Nid oes cofnod canolog yn cael ei gadw o fanylion yr holl staff glanhau. Byddai'n fanteisiol i gadw unrhyw fanylion yn 'fyw' ar system megis iGwynedd er mwyn sicrhau mynediad i swyddogion eraill a sicrhau parhad gwasanaeth mewn sefyllfa pan mae swyddogion yn absennol.
- 5.4 Mae unrhyw ganllawiau a'r cytundeb lefel gwasanaeth yn seiliedig ar yr oriau glanhau a goruchwylio a oedd ar gael yn dyddio'n ôl cyn yr ail strwythuro a'r arbedion effeithlonrwydd. Mae rhai agweddau angen eu hadolygu i wirio os oes angen eu diweddarau er mwyn adlewyrchu'r adnoddau sydd bellach ar gael.
- 5.5 Mae darpariaeth y gwasanaeth yn cynnwys rhai cytundebau glanhau tu allan i'r Adran Tai ac Eiddo megis gyda'r Amlogfa neu Asiantaeth Cefnffyrdd. Gwelwyd enghraifft o fanyleb glanhau gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd sydd yn fwy cynhwysfawr na'r canllawiau glanhau cyffredinol ac yn nodi holl anghenion glanhau'r safle. Er bod y staff yn ymwybodol o ofynion eu swydd mae manyleb yn ddefnyddiol iawn ar gyfer staff sy'n newydd neu ddim yn gyfarwydd â'r safle a hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer anghenion monitro, herio perfformiad neu i gyfeirio ato mewn achos o gŵyn neu anghydweld rhwng y gwasanaeth glanhau a'r cleient.
- 5.6 Mae'r fframwaith cyflenwyr a benodwyd gan yr Uned Caffael yn cynnwys Lyreco fel y prif gyflenwr ar gyfer nwyddau glanhau. Yn sgil y pandemig Covid 19 ac yn enwedig ar gychwyn y cyfnod clo cyntaf gyda nwyddau glanhau a diheintio yn angenrheidiol, roedd prinder stoc wedi arwain at archebu drwy unrhyw gyflenwr a all gyflawni'r archeb yn sydyn. Roedd yn hanfodol bod y cyflenwr yn gallu darparu gwasanaeth dibynadwy a phrydlon ac o ganlyniad roedd defnydd o gyflenwyr tu allan i'r fframwaith. Yn ychwanegol gwelwyd bod rhai pryniant wedi eu gwneud yn uniongyrchol gan staff yn ystod y cyfnod yma gyda'r costau yn cael eu hadhawlio drwy'r system hunanwasanaeth. Yn sgil y pandemig lluniwyd trefn lle mae cyflenwadau llawer o'r nwyddau glanhau ychwanegol a diheintio yn cael eu harchebu yn ganolog ac yn cael eu darparu i bob adran fel yr angen.
- 5.7 Nid oes trefn benodol er mwyn rheoli a gwirio stoc nwyddau glanhau cyffredinol. Mae'r stoc yn cael ei archebu ar gais y staff glanhau gan amlaf. Caiff y rhan helaeth o stoc ei ddanfôn a'i storio mewn storfa yn y prif swyddfeydd sy'n golygu bod angen defnyddio adnoddau staff i'w cludo i'r lleoliadau eraill. Byddai ceisio dod i drefn fwy effeithlon gyda storfeydd pwrpasol ymhob safle lle'n briodol yn rhoi'r cyfle i wneud archebion mwy, gyda'r cyflenwyr yn eu cludo'n uniongyrchol gan leihau'r defnydd o adnoddau staff a'r angen i staff gludo cemegau.

5.8 Yn sgil y pandemig Covid 19, roedd gofynion glanhau wedi lleihau tra bod swyddfeydd yn wag mewn rhai lleoliadau. Fodd bynnag, roedd anghenion glanhau ychwanegol mewn manau cyhoeddus ac anghenion diheintio yn ogystal â chynnydd sylweddol mewn lleoliadau megis yr Amlogfa. O ganlyniad roedd yr oriau staff a weithiwyd wedi parhau'n gyson ar y cyfan. Wrth ddadansoddi'r data gwelwyd bod oriau sylfaenol staff wedi gostwng ychydig yn ystod y pandemig ond oriau goramser wedi cynyddu. Nid oedd hyn yn amlwg i ddechrau oherwydd cam-godio yn y cyfriflyfr goramser yn y flwyddyn 2020/21 oedd wedi eu rhoi yn erbyn cod oriau gwaith sylfaenol.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Rheolwr Swyddfeydd a Glanhau wedi ymrwmo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Cadw cofnod canolog o fanylion cyswllt staff ar system megis iGwynedd er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth.**
- **Ail ymweld â'r fframwaith cyflenwyr a thrafod os oes angen addasu'r rhestr o'r cyflenwyr sydd wedi eu cymeradwyo.**
- **Adolygu canllawiau gwaith a chytundeb lefel gwasanaeth a'u diweddarau os yn berthnasol.**
- **Adolygu'r trefniadau gyda chytundebau glanhau allanol a pharatoi manyleb benodol fel rhan o bob cytundeb.**
- **Adolygu trefniadau rheoli stoc a danfon nwyddau.**

Eitem 10

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	17 HYDREF 2021
TEITL	CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2021/22
PWRPAS YR ADRODDIAD	DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2021/22
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	ER GWYBODAETH

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2021/22.

2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN

2.1 Mae Cynllun Archwilio 2021/22 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 30 Medi 2021 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

Statws yr Archwiliad	Nifer
Wedi ei gynllunio	27
Crewyd Papurau Gwaith	3
Gwaith Maes ar y gweill	9
Adroddiad Drafft	4
Adroddiad Terfynol	10
Cyfanswm	<u>53</u>

2.2 Mae'r gwasanaeth yn anelu i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2022. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

Diwedd chwarter 1	8%
Diwedd chwarter 2	20%
Diwedd chwarter 3	50%
Diwedd chwarter 4	95%

2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 30 Medi 2021 oedd **18.87%** - allan o'r **53** archwiliad unigol yng nghynllun 2021/22 roedd **10** wedi eu rhyddhau yn derfynol/cwblhau.

3. ARGYMHELLIAD

- 3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2021/22, cynnig sylwadau a derbyn yr adroddiad.



Cynllun Archwilio Mewnol 2021/22

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
CORFFORAETHOL						
1-CORFF-09/2022/001	Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd	15.00	0.00	15.00	1.81	Wedi ei gynllunio
1-CORFF-11/2022/001	Datganiadau Cyflogaeth	8.00	0.00	8.00	9.28	Adroddiad Drafft
1-CORFF-15/2022/001	Newid Hinsawdd	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
1-CORFF-19/2022/001	Trefniadau Diogelu	15.00	0.00	15.00	2.43	Wedi ei gynllunio
1-CORFF-19/2022/002	Trefniadau Diogelu- Sefydliadau	4.00	0.00	4.00		Wedi ei gynllunio
1-CORFF-20/2022/001	Trefniadau Busnes yn sgil Covid-19	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
1-CORFF-20/2022/002	Cynlluniau Parhad Busnes (ar draws y Cyngor) a Gwersi a Ddysgwyd	20.00	0.00	20.00	15.66	Gwaith Maes ar y gweill
1-CORFF-20/2022/003	Gwasanaeth Profi Olrhain a Diogelu	125.00	0.00	125.00	5.18	Gwaith Maes ar y gweill
1-CPGV-01/2022/001	Brexit	15.00	0.00	15.00	1.66	Wedi ei gynllunio
1-CPGV-01/2022/002	Côd Rheoli Ariannol	15.00	0.00	15.00	12.78	Gwaith Maes ar y gweill
1-CPGV-01/2022/003	Dyletswyddau Economaidd Gymdeithasol 2021	10.00	0.00	10.00	9.68	Adroddiad Drafft
1-CPGV-01/2022/004	Trefn Gwynion	10.00	0.00	10.00	11.80	Adroddiad Drafft
1-CPGV-01/2022/005	Dynodiadau Iaith	12.00	0.00	12.00	1.15	Gwaith Maes ar y gweill
1-CPGV-02/2022/001	Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol	40.00	0.00	40.00	29.61	Gwaith Maes ar y gweill
2-ADN-CGC-DPA/2022	Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau	5.00	0.00	5.00		Wedi ei gynllunio
AE-TAL-06/2022001	Defnydd o Gardiau Prynant	25.00	0.00	25.00	2.89	Crewyd Papurau Gwaith
ADDYSG						
Adnoddau						
4-DAT-X-ADD/2022/001	Grant Datblygu Disgyblion	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio
4-DAT-X-ADD/2022/002	Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
4-DAT-X-ADD/2022/003	Grant Addysg Ôl-16	3.00	0.00	3.00		Wedi ei gynllunio
EADDA02/2022/001	Cwmni Cynnal - Gwasanaethau i Ysgolion	25.00	0.00	25.00		Wedi ei gynllunio
EADDA29/2022/001	Iechyd a Diogelwch Meysydd Chwarae	20.00	0.00	20.00	9.84	Gwaith Maes ar y gweill
Ysgolion						
EADDA35/2022/001	Ysgolion Cyffredinol	5.00	0.00	5.00		Wedi ei gynllunio
AMGYLCHEDD						

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
Gwarchod y Cyhoedd						
2-ADN-GYC/2022/001	Hylendid Bwyd	15.00	0.00	15.00	2.78	Crewyd Papurau Gwaith
Trafnidiaeth a Gofal Stryd						
3-RHE1-X-GRANT/2022	Grant Trafnidiaeth Lleol	12.00	0.00	12.00		Wedi ei gynllunio
Uned Cefn Gwlad a Mynediad						
3-AMG-GWLAD/2022/001	Grantiau Cefn Gwlad	12.00	0.00	12.00		Wedi ei gynllunio
CYLLID						
Ar draws yr adran						
AW-TG-12/2022/001	Systemau a Diogelwch TG – Digonolrwydd Data	15.00	0.00	15.00	14.11	Adroddiad Terfynol
AW-TG-12/2022/002	Trefniadau Adfer Trychineb	15.00	0.00	15.00	6.99	Crewyd Papurau Gwaith
Cyfrifeg						
AN-ACY-02/2022/001	Rheoli Prosiect - Uwchraddio E-Financials	12.00	0.00	12.00		Wedi ei gynllunio
AN-ACY-08/2022/001	Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2020-2021	4.00	0.00	4.00	6.62	Adroddiad Terfynol
AN-ACY-08/2022/002	Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2020-2021	4.00	0.00	4.00	4.27	Adroddiad Terfynol
AN-ACY-08/2022/003	Datganiad Cyfrifyddu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2020-2021	10.00	0.00	10.00	4.95	Adroddiad Terfynol
Pensiynau a Chyflogau						
AL-CYF-01/2022/001	Newid Data Sefydlog	12.00	0.00	12.00	0.14	Wedi ei gynllunio
AL-CYF-18/2022/001	Taliadau i Weithwyr Gofal (Rhan 2)	10.00	0.00	10.00	3.81	Adroddiad Terfynol
AL-CYF-18/2022/002	Taliadau Bonws i Weithwyr Gofal	15.00	0.00	15.00	2.01	Gwaith Maes ar y gweill
AP-PEN-11/2022/001	Taleion Newydd	12.00	0.00	12.00	5.57	Adroddiad Terfynol
Refeniw						
AC-TR-01/2022/001	Grantiau Cefnogi Busnes Llywodraeth Cymru (2021-22)	25.00	0.00	25.00	16.00	Adroddiad Terfynol
ECONOMI A CHYMUNED						
Adfywio Cymunedol						
EADDZ-01/2022/001	Cronfa'r Degwm	3.00	0.00	3.00	3.05	Adroddiad Terfynol
Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau						
EDIW-MU-03/2022/001	Storiol	6.00	0.00	6.00		Wedi ei gynllunio
Cefnogi Busnes						
DDAT-AD-04/2022/001	Grantiau Cymorth Busnes	15.00	0.00	15.00	17.95	Adroddiad Drafft
Morwrol a Pharciau Gwledig						

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
EHAMT-01/2022/001	Cynllun Rheoli Traethau	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio
Strategaeth a Datblygu						
DDAT-AD-05/2022/001	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	20.00	0.00	20.00		Wedi ei gynllunio
DDAT-CON-01/2022/001	Cynllun Llanbedr	12.00	0.00	12.00		Wedi ei gynllunio
OEDOLION, IECHYD A LLESIANT						
Ar draws yr adran						
GCC-02/2022/001	Mesutau Diogelu Rhyddid	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio
Oedolion						
GGWAS-H02/2022/001	Dyledion	30.00	0.00	30.00		Wedi ei gynllunio
Preswyl a Dydd						
GDAPR-H01/2022/001	Diogelu Asedau Preswylwyr	15.00	0.00	15.00	4.64	Wedi ei gynllunio
PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD						
Plant a Theuluoedd						
GGWAS-P03/2022/001	Trefniadau Asesu Risg a Rhaglen Hyfforddiant	12.00	0.00	12.00	6.70	Gwaith Maes ar y gweill
GGWAS-P06/2022/001	Asesiadau Statudol (AMHP)	20.00	0.00	20.00		Wedi ei gynllunio
PRIFYRDD A BWRDEISTREFOL						
Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol						
PBW-02/2022/001	Cynnal Tiroedd	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
PZ01/2022/001	Asesiadau Risg - Cynnal Priffyrdd	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
TAI AC EIDDO						
Digartrefedd a Tai Cefnogol						
GDAPR-SP01/2022/001	Grant Cymorth Tai	10.00	0.00	10.00	9.22	Adroddiad Terfynol
Tir ac Eiddo'r Cyngor						
BA-EID-04/2022/001	Maddaliadau	12.00	0.00	12.00		Wedi ei gynllunio
M-GMG-G02/2022/001	Trefniadau Glanhau	15.00	0.00	15.00	14.58	Adroddiad Terfynol
YMGYNGHORIAETH GWYNEDD						
Ar draws yr adran						
PYMG-CON/2022/001	Trefniadau Rheoli Prosiectau	20.00	0.00	20.00	5.76	Gwaith Maes ar y gweill

Eitem 11

Pwyllgor	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
Teitl yr Adroddiad	Trosolwg o'r Prosiect Prentisiaethau
Pwrpas yr Adroddiad	Rhoi trosolwg o'r Prosiect Prentisiaethau gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau Gwahoddir y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i ystyried y wybodaeth a gyflwynir
Dyddiad y Cyfarfod	14.10.21
Awdur	J Carey Cartwright (Alun Lloyd Williams)
Pennaeth Adran	Geraint Owen
Aelod Cabinet	Cynghorydd Nia Jeffreys

1. Cefndir

1.1 Achos Dros Sefydlu Cynllun Prentisiaethau

- 1.1.1 Mae'n hanfodol cysoni a gwella lefelau sgiliau yng Ngwynedd yn barhaus er mwyn gallu ymateb i'r heriau a ddaw, sicrhau dyfodol positif, a chadw ein pobl ifanc yn lleol. Mae cyfle i'r Cyngor arwain y ffordd drwy gynnig prentisiaethau o'r ansawdd uchaf a hynny'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 1.1.2 Mae prentisiaethau yn un o'r blaenoriaethau Cynllun y Cyngor ar gyfer 2018 – 2023.
- 1.1.3 Mae'n ffordd effeithiol o ymateb i anghenion cynllunio gweithlu'r Cyngor 'I gael y bobl gywir, efo'r sgiliau cywir, yn y llefydd cywir ar yr amser cywir'.
- 1.1.4 Yn dilyn ymchwil i swyddi a gafodd eu llenwi yn 2016 yn y Cyngor, amcangyfrifwyd y buasai tua 54% o'r swyddi hynny yn addas i fod yn rhai prentis.

1.2 Beth yw Prentisiaeth?

- 1.2.1 Cyfle i unigolyn ddysgu drwy weithio mewn unrhyw faes, gan dderbyn hyfforddiant, ennill sgiliau a chymwysterau, tra'n ennill cyflog.
- 1.2.2 Gall yr unigolyn fod mewn swydd newydd sydd wedi ei chreu ar gyfer bod yn brentis neu mewn swydd gyfredol.
- 1.2.3 Gall prentis fod o unrhyw oed dros 16.
- 1.2.4 Mae hyd prentisiaethau yn gallu amrywio, ond fel arfer yn ddwy neu dair blynedd.
- 1.2.5 Mae prentisiaeth yn gyfuniad o brofiadau a hyfforddiant yn y gwaith, ac astudio mewn sefydliad addysgiadol e.e. un diwrnod yr wythnos.

- **Prentisiaeth Sylfaenol** - Lefel 2 (cyfwerth â Lefel TGAU)
- **Prentisiaeth** - Lefel 3 (cyfwerth â Lefel A)
- **Prentisiaeth Uwch** - Lefel 4 a 5 (cyfwerth â HNC/HND/Gradd Sylfaenol)
- **Prentisiaeth Gradd** - Lefel 6 a 7 (cyfwerth â Graddau / Graddau Uwch)

1.3 Ystyriaethau Perthnasol

1.3.1 Adroddiad 'Cysoni'r Model Prentisiaethau ag Anghenion Economi Cymru' yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygu sgiliau hanfodol mewn meysydd blaenoriaeth a'r economi yng Nghymru.

1.3.2 Cyflwynwyd Ardoll Brentisiaethau (0.5% o'r bil cyflogau) yn Ebrill 2017 er mwyn annog cyflogwyr a busnesau i fuddsoddi mewn prentisiaethau.

- Y Cyngor wedi cyfrannu oddeutu £685,000.00 i'r ardoll yn 2019/20, ond yn y cyfnod yma wedi manteisio ar gymwysterau cyfwerth a £680,000.00.
- Bydd y Cyngor yn cyfrannu oddeutu £700,000 i'r ardoll ar gyfer 2021/22. Er na fydd y swm gaiff ei hadennill yr un mor uchel, rydym yn ffyddiog y gallwn ad-hawlio symiau a fyddai'n o leiaf cyfateb a'r ardoll i'r dyfodol.

1.3.3 Talu cyflog teg i brentisiaid newydd, sy'n gyfystyr â'r *Isafswm Cyflog / Cyflog Byw Cenedlaethol*.

1.3.4 Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfraniad tuag at gostau cyflogi prentisiaid, ond mae'r ardoll yn rhoi mynediad at y costau datblygol (sef yr elfennau cymwysterau a hyfforddiant yn unig).

1.3.5 Adroddiad 'Menywod Dawnus ar gyfer Cymru Lwyddiannus' gan Lywodraeth Cymru yn amlygu tan-gynrychiolaeth sylweddol o ferched mewn swyddi lefel uwch (llai na 10%) ac yn sectorau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg).

1.3.6 Ein ddyletswydd fel Rhiant Corfforaethol i sicrhau cyfleoedd i blant mewn gofal, drwy gynnig mynediad i gyfleoedd hyfforddi sydd wedi'i deilwra yn benodol iddyn nhw.

1.3.7 Nifer o wasanaethau wedi datgan dymuniad i gyflogi prentisiaid ac wedi ymrwymo yn rhannol i gyd-gyllido hynny.

1.4 Cymeradwyaeth a Chyllideb i'r Cynllun

1.4.1 Cyfarfod Tîm Arweinyddiaeth 31.07.18:
Cyflwynwyd adroddiad gychwynnol i'r Tîm Arweinyddiaeth yn amlinellu pwysigrwydd prentisiaethau i'r sefydliad, a chyflwyno achos dros sefydlu cronfa i ariannu prentisiaid i'r dyfodol. Gofynnwyd am arweiniad ynglŷn â sefydlu cronfa o £300,000 a fyddai'n galluogi'r Cyngor i gyflogi hyd at 20 prentis newydd ar gytundebau dwy flynedd.

1.4.2 Cyfarfod Tîm Arweinyddiaeth 18.12.18:
Derbyn cadarnhad o gefnogaeth, gydag arweiniad i gyflwyno bid ffurfiol i'r Cabinet am gyllideb er mwyn sefydlu a gweithredu Cynllun Prentisiaethau o fewn y Cyngor.

1.4.3 Cyfarfod Cabinet 22.1.19:
Cabinet yn ymrwymo £300,000 o'r Gronfa Cynllun y Cyngor er mwyn sefydlu cynllun prentisiaethau i gyflogi hyd at 20 prentis newydd yn 2019.

1.5 Heriau Cychwynnol

1.5.1 Canfyddiad o beth ydi prentisiaethau yn amrywio. Mae'n hanfodol newid y meddylfryd am lwybrau galwedigaethol ar draws sectorau a sefydliadau addysgol. Golyga hyn gydnabod gwerth datblygiad galwedigaethol yn yr un ffordd â datblygiad academaidd.

1.5.2 Diffyg darpariaeth ddwyieithog ar gyfer prentisiaethau uwch yng Nghymru.

1.5.3 Darpariaeth ar gyfer rhai meysydd allweddol e.e. cyfieithu, iechyd a diogelwch, un ai ddim ar gael neu'n cymryd amser sylweddol i'w datblygu .

2. **2019-20**

2.1 Recriwtio

2.1.1 Uchelgais ar gyfer 2019-20

- Penodi hyd at 20 prentis erbyn diwedd y flwyddyn.
- Creu prentisiaethau o ansawdd uchel yn y meysydd blaenoriaeth a swyddi allweddol.
- Sicrhau cyfleoedd cyfartal i ferched a dynion gan annog pobl ifanc i fentro.
- Sicrhau darpariaeth Gymraeg o'r ansawdd briodol.

2.1.2 Cynnydd: Erbyn Mawrth 2020 penodwyd 17 o brentisiaid mewn 10 maes gwahanol

- 11 o ferched a 6 o ddynion
- 2 brentis o dan 18, 11 prentis rhwng 18 a 24, 4 prentis 25+

	PRENTISIAETH	LEFEL	SWYDDI
1	Gradd TG Digidol (TG)	Gradd	2
2	Peirianeg Sifil (YGC)	Prentisiaeth	2
3	Cyswllt Cwsmer a Chofrestru (CG)	Prentisiaeth	2
4	Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata (Byw'n Iach)	Prentisiaeth	1
5	Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion	Sylfaenol	2
6	Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion Uwch	Uwch	2
7	Maes Gofal Dysgu a Datblygu Plant	Prentisiaeth	2

8	Peirianeg Sifil (Priffyrdd a Bwrdeistrefol)	Prentisiaeth	1
9	Gwaith Ieuenctid Tîm ôl-16 (Ieuenctid)	Prentisiaeth	1
10	Busnes a Gweinyddiaeth (CG)	Prentisiaeth	2

2.2 Gwersi a Ddysgwyd

- Pwysigrwydd ymgyrch hyrwyddo raenus sydd wedi ei thargedu, gan ddefnyddio nifer o ddulliau gwahanol megis cyfryngau cymdeithasol, ffair Prentisiaethau, erthyglau yn y papurau lleol, wythnos brentisiaethau a'r paneli prentisiaid.
- Mae paratoi a chefnogi rheolwyr Llinell i gefnogi'r prentisiaid yn fuddsoddiad amser gwerthfawr.
- Mae'r prentisiaid angen cefnogaeth gadarn e.e. cyfarfodydd adlewyrchu misol i adlewyrchu ar eu dysgu a datblygiad, a nodi unrhyw drafferthion neu rwystrau.

2.3 Cymeradwyaeth a Chyllideb Pellach i'r Cynllun

2.3.1 Cyfarfod Tîm Arweinyddiaeth 16.03.21:

Cyflwynwyd adroddiad bellach i'r Tîm Arweinyddiaeth yn amlygu llwyddiant cychwynnol y cynllun prentisiaethau a chyflwyno achos dros glustnodi cyllideb bellach. Cymeradwywyd cyflwyno cais i'r Cabinet am £600,000 ychwanegol dros 3 blynedd er mwyn anelu i gynnig o leiaf 20 prentisiaeth y flwyddyn dros gyfnod yr ariannu.

Nodwyd y byddai hyn:

- Yn ychwanegol i'r prentisiaethau a greuwyd eisoes
- Yn golygu gallu darparu'r gefnogaeth a'r weinyddiaeth angenrheidiol (sy'n mynd yn gynyddol anodd o fewn adnoddau)
- Yn caniatáu datblygu'r cynllun i weithio mwy gyda busnesau bach, contractwyr lleol a mentrau cymunedol i sefydlu a chefnogi swyddi prentisiaethau newydd.

2.3.2 Cyfarfod Cabinet 18.05.21:

Cymeradwywyd y cais am £600,000 ychwanegol dros 3 blynedd (yn ogystal a swm o £500,000 ar gyfer Cynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory).

3. **2020-21**

3.1 Recriwtio

3.1.1 Uchelgais ar gyfer 2020-21

- Penodi 18 prentis ychwanegol mewn 9 maes
- Bydd y rhain yn cael eu cyllido yn rhannol gan y buddsoddiad £300,000 gwreiddiol

3.1.2 Meysydd

RHIF	TEITL	ADRAN	LEFEL	SWYDDI
1	Prentis Cyswllt Cwsmer a Chofrestru	Cefnogaeth Gorfforaethol	3	1
2	Prentis Gofal Plant	Plant a Theuluoedd	3	2
3	Prentis Maes Gofal Oedolion (Gogledd)	Oedolion, lechyd a Llesiant	2	1
4	Prentis Maes Gofal Oedolion (De)	Oedolion, lechyd a Llesiant	2	1
5	Prentis Busnes a Gweinyddiaeth	Cefnogaeth Gorfforaethol	3	1
6	Prentis Maes Anableddau Dysgu – Preswyl	Oedolion, lechyd a Llesiant	2	1
7	Prentis Maes Anableddau Dysgu – Cefnogol	Oedolion, lechyd a Llesiant	2	1
8	Prentis Peirianeg Sifil	YGC	3	1
9	Prentis Gradd Ddigidol	Cyllid	6	1
10	Prentis Trydanwr Golau Stryd	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	3	2
11	Prentis Peirianeg Sifil	NMWTRA	3	2
12	Prentis Busnes	NMWTRA	3	1
13	Prentis Gradd Diogelwch Seibr	NMWTRA	6	1
14	Prentis Peirianeg Sifil	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	3	1
15	Prentis Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol	Byw'n Iach	3	1

4. Crynodeb Medi 2021

4.1 Recriwtio

Erbyn hyn, mae 30 prentis wedi eu recriwtio i'r Cynllun prentisiaethau ers cychwyn yn 2019

- 17 prentis wedi eu recriwtio yn 2019-20
 - 9 o brentisiaid 2019-20 eisoes wedi derbyn swydd yn y Cyngor
- 13 prentis wedi eu recriwtio hyd yma yn 2020-21
 - 7 o ferched a 6 o ddynion (gan gynnwys merched yn y meysydd Diogelwch Seibr a Trydanol)
- 7 swydd arall i'w hysbysebu cyn diwedd y flwyddyn 2020-21
 - Mae hyn yn cynnwys 2 swydd ychwanegol i'r uchelgais gwreiddiol a nodwyd ar gyfer y cyfnod (gweler 3.1.2)
 - Prentis Mecanic
 - Prentis Cyfathrebu & Ymgysylltu

Bydd hyn yn gyfanswm o **37 prentis** erbyn diwedd 2021 (os fedrwn ni lenwi bob swydd).

4.2 Llwyddiannau

- Cefnogaeth i'r Cynllun Prentisiaethau wedi bod yn ardderchog - gan aelod seneddol, y cabinet, Penaethiaid Adran, rheolwyr lleoliad, y rhieni a'r sefydliadau addysg.
- Cynllun Prentisiaethau wedi denu nifer uchel o geisiadau safonol.
- Proses recriwtio effeithiol wedi arwain at benodi nifer uwch o brentisiaid na'r disgwyl gan gynnwys merched mewn meysydd technegol.
- Bydd y Cyngor wedi recriwtio 37 o brentisiaid efo'r buddsoddiad gwreiddiol o £300,000 a gafodd ei wneud yn 2019. Mae'r niferoedd yn llawer uwch na'r targed gwreiddiol. Y prif reswm dros hyn yw bod y gwasanaethau wedi gallu cyfrannu yn fwy na'r disgwyl tuag at y cyflog.
- Penodiadau mewn meysydd blaenoriaeth gan gynnwys prentisiaethau gradd yn Technoleg Gwybodaeth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r maes peirianeg sifil.
- Penodwyd prentisiaid sy'n byw dros ardal ddaearyddol eang (Dwyfor 4, Meirionnydd 4, Arfon 21, Ynys Môn 1)
- Er bod diffyg darpariaeth ddwyieithog o ansawdd yn enwedig ar lefelau uwch, mae'r Cyngor wedi annog darparwyr i gynnig y rhan fwyaf o'u darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. I'r perwyl hwn, rydym wedi cyflwyno'r Datganiad o Uchelgais yr Iaith Gymraeg ar gyfer Prentisiaethau Cyngor Gwynedd sy'n amlinellu'r disgwyliadau ieithyddol sydd ar y prentis, y Cyngor a'r darparwr ac yn amlygu ein uchelgais. Mae pob darparwr a phrentis wedi arwyddo'r datganiad i ymrwymo i'r disgwyliadau.
- Mae'r adborth gan reolwyr a thimau am ein prentisiaid wedi bod yn bositif ar y cyfan e.e. adborth am Aimee Parry sy'n gweithio fel prentis Cartref Maesincla - "Ni fedrai ganmol Aimee ddigon. Am ferch ifanc mae hi wedi bod yn ffantastig. Mae'r staff i gyd yn ei chanmol hi. Mae hi'n chwilio am waith ac yn ei wneud heb ddim ffws. Mae Aimee wedi dod yn rhan allweddol o'n tîm ni yma"
- Anfonwyd holiadur bodlonrwydd i'r prentisiaid, ac yn gyffredinol mae'r canlyniadau yn awgrymu bod ein prentisiaid yn fodlon iawn. Dyma drosolwg o'r canfyddiadau:
 - Mae asesiad y prentisiaid cyfredol yn un ai "Da" neu "Ardderchog" ar gyfer rhan fwyaf o elfennau'r brentisiaeth
 - Wrth adnabod geiriau i ddisgrifio eu prentisiaeth, mae'r nifer mwyaf wedi dewis "Agoriad llygaid", "Paratoi fi yn dda at swydd", "diddorol, llwyth o brofiadau" a "Heriol" fel y disgrifiadau mwyaf addas
 - Mae'r prentisiaid wedi ysgrifennu brawddeg i ddisgrifio eu prentisiaeth hyd yn hyn gan gynnwys - "Dw i wedi mwynhau bob eiliad o fod yn brentis Cyngor Gwynedd. Mi rydw i yn teimlo fel bod y brentisiaeth wedi rhoi lot o cymorth i mi gyda fy hunan-ddatblygiad, sydd wedi caniatáu mi i cyrraedd fy wir potensial".

5. Edrych i'r dyfodol

- Byddwn yn dechrau buddsoddi'r £600,000 a gymeradwywyd ym mis Mai ar ôl penodi'r 37 prentisiaeth sydd eisoes wedi'u sefydlu.
- Niferoedd (5 mlynedd) – amcangyfrif 'geidwadol'

		MEDI 2022	MEDI 2023	MEDI 2024	MEDI 2025
Prentisiaid	Newydd	20	20	20	20
	Cyfredol	10	15	20	20
CYFANSWM		30	35	40	40

- Datblygu 'Prentisiaethau ar y cyd'
 - Byddwn yn edrych ar y posibilrwydd o sefydlu prentisiaethau ar y cyd gyda cwmnïau a chontractwyr lleol, mewn meysydd cynnal a chadw (e.e. Saer, Trydanwr, Plymar).
 - Bydd y Cyngor yn cefnogi'r cwmnïau a'r contractwyr i sefydlu'r brentisiaeth ac o bosib cyfrannu tuag at cyflog y prentis.
- Mae'r tîm Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn meintio'r gwaith yn fanwl er mwyn adnabod yr adnodd staff sy'n angenrheidiol i gyfarch y 'gofyn' cynyddol.

Eitem 12

Pwyllgor	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
Teitl yr Adroddiad	Cadw'r Bydd yn Lleol
Pwrpas yr Adroddiad	Cyflwynwyd yr Adroddiad hwn yn dilyn cais y Pwyllgor Archwilio i dderbyn diweddariad ar gynnydd un o'r prosiectau blaenoriaeth o fewn Cynllun y Cyngor sef Prosiect Cadw'r Budd yn Lleol.
Dyddiad y Cyfarfod	14.10.21
Awdur	Arwel Evans, Rheolwr Caffael
Pennaeth Adran	Geraint Owen
Aelod Cabinet	Cynghorydd Nia Jeffreys

Pwrpas y prosiect:

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am brynu ystod eang o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau bod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hynny. Hynny er mwyn sicrhau bod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn aros yng Ngwynedd er budd yr economi leol.

Er mwyn hwyluso hyn, rydym wedi cyflwyno trefniadau caffael newydd yn y Cyngor ers Ebrill, 2016 ac wedi sefydlu Timau penodol sydd yn gyfrifol am gydlyn gweithgareddau caffael. Rydym yn galw'r trefniadau caffael hyn yn 'Rheolaeth Categori'. Mae'r Timau Categori hyn yn canolbwyntio ar weithgareddau Caffael mewn tri maes penodol sef i) Amgylchedd, ii) Pobl a iii) Corfforaethol. Lleolir y timau hyn o fewn adrannau Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Oedolion, Iechyd a Llesiant a Amgylchedd ond maent yn cael eu cefnogi gan y Gwasanaeth Caffael canolog sydd o fewn yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol.


Dros y flwyddyn a hanner diwethaf mewn ymateb i heriau'r pandemig mae'r Timau Categori a'r Gwasanaeth Caffael canolog wedi bod yn rhan o drefniadau sicrhau cyflenwadau Offer Diogelwch Personol ('PPE'). Mae'r tri Thîm Categori wedi bod yn rhan allweddol o'r trefniadau ac yn parhau i fod ynghlwm a'r elfennau prynu, dosbarthu a rheoli stoc. Mae'r Tîm Categori Pobl yn ogystal, yn delio'n uniongyrchol gyda'r cartrefi henoed a gwasanaethau cymdeithasol ehangach. Mae hynny wedi arwain at leihad yn y gweithgarwch Caffael yn gyffredinol dros y cyfnod hynny sydd yn anorod am gael effaith ar gynnydd y prosiect yn y tymor byr.

Mesurau Llwyddiant: Cadw'r Budd yn Lleol:

Y prif fesur er mwyn mesur llwyddiant y prosiect hwn ydi:

- Y canran o wariant lleol caffael gyda busnesau o fewn y Sir (Cynlluniau Gwariant Cyfalaf a Refeniw).

Gweler isod graff sy'n arddangos perfformiad y Cyngor dros y 4 mlynedd diwethaf:



Fel y gweler o'r uchod, mae'r canran wedi gwella dros y cyfnod gyda'r gwariant yn cynyddu o £56m yn 2017/18 i £78m yn 2020/2021 (cynnydd o 39%).

O ran dosbarthiad ar draws y Timau Categori, gellid gweld hynny yn y tabl isod:

Tîm Categori	Canran Lleol – Gwariant Refeniw yn unig		
	2018/19	2019/20	2020/21
Corfforaethol	59% (£22.8m)	55% (£23.3m)	55% (£24.18m)
Amgylchedd	40% (£6m)	35% (£5.5m)	38% (£5.46m)
Pobl	74% (£38.2m)	72% (£42.1m)	71% (£48.36m)
Cyfanswm Gwariant Lleol	£67m	£71m	£78m

Fel y gwelir o'r tabl, mae'r perfformiad yn amrywio fesul Tîm Categori ond mae hynny oherwydd natur y categorïau prynu perthnasol. Er enghraifft, mae mwyafrif y gwariant o fewn y Tîm Categori Pobl yn ymwneud â chomisiynu darpariaeth gofal ac mae'r mwyafrif o'r darparwyr wedi eu lleoli yng Ngwynedd. O ran y Tîm Categori Amgylchedd, nid oes cyflenwyr lleol ar gael o ran deunyddiau craidd i'r maes Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac felly, mae'r gwariant lleol yn is o ganlyniad.

Er mwyn codi'r canran yma mor uchel ag sy'n ymarferol bosib, mae gan yr Adran ystod o ffyrddau gwaith penodol sydd at ei gilydd, yn cyfrannu at wella'r canran o wariant lleol caffael. Ceir grynodedb o'r ffyrddau gwaith hyn yma:

1. Cynlluniau Cefnogi'r Farchnad

Mae ystod o gynlluniau ar waith er mwyn cefnogi'r farchnad i gyflwyno tendrau am waith. Mae rhain yn cynnwys cydweithio gyda'r Adran Economi a Chymuned er mwyn adnabod pa gymorth sydd ei angen ar gyflenwyr lleol. Ar hyn o bryd, mae'r timau yn cefnogi drwy:

- Cefnogi Busnesau Lleol i dendro – pecynnau cymorth i gefnogi cyflenwyr i ennill achrediadau Iechyd a Diogelwch (SSIP), defnyddio cytundebau Peirianeg Sifil (NEC4) ymateb i gwestiynau Deddf Llesiant mewn tendrau.
- Paratoi'r Farchnad - trefnu a chynnal sesiynau cwrdd â'r prynwyr gyda'r timau, amryw o gytundebau adeiladwaith, cludiant a meysydd gofal.

Mae cyfranogiad y farchnad yn amrywio o gynllun i gynllun ond ar y cyfan, mae'n hynod anodd cael y farchnad i ymrwmo i fanteisio ar yr holl gefnogaeth sydd ar gael.

2. Caffael Arloesol - Methodoleg Caffael Gwerth Cymdeithasol

Mae'r ffrwd gwaith yma yn un newydd eleni ac sy'n destun peilot ar hyn o bryd. Y nod ydi cyflwyno methodoleg asesu tendrau newydd drwy'r Cyngor i'r dyfodol fydd yn galluogi'r Cyngor i gynnwys cymal Buddiant Cymdeithasol i Wynedd fel sail er mwyn asesu'r tendrau.

Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu asesu tendrau gan ddefnyddio cyfuniad o bris, ansawdd a buddiant cymdeithasol. Mae hyn yn cyflwyno agwedd sgorio newydd sy'n golygu bod angen i gwmnïau pa fuddiannau y gallent eu cyflwyno i'r Sir uwchben cyflawni'r gofyn craidd y gytundeb e.e. gall cwmnïau gynnig cyflogi staff, darparu cynllun prentisiaethau neu darparu cyfleon profiad gwaith ayb.

Bydd defnyddio'r elfen buddiant cymdeithasol yn golygu bod gan cwmnïau lleol gyfleon newydd er mwyn arddangos eu cyfraniad i'r economi leol o dderbyn cytundeb gan y Cyngor.

Mae'r peilot a gyfeirir ato uchod bellach wedi cyrraedd sefyllfa ble mae'r cytundeb cyntaf wedi ei gynnig i gyflenwr gan ddefnyddio'r methodoleg newydd. Yn yr achos yma, cyfrifwyd bod gwerth y gytundeb yn £181k ond cyfrifwyd y buddiant cymdeithasol i Wynedd fod yn £105k.

O ganlyniad, mae'r cwmni buddugol wedi ymrwmo i gyflogi 3 swyddog sy'n byw yng Ngwynedd, cynnal 4 sesiwn hyfforddiant i fyfyrwyr gofal cymdeithasol, 4 wythnos o brofiad gwaith i 2 myfyriwr, cynnig 20 awr o amser gwirfoddol i gefnogi elusennau lleol ac wedi ymrwmo i 2.5 awr yr wythnos i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu ymhellach.

Heb amheuaeth, pe na fyddai'r Cyngor wedi cynnwys y cymal Buddiant Cymdeithasol yn y tendr, ni fyddai'r buddion hyn wedi bod ar gael i Wynedd. Mae hynny felly, yn arwydd o'r potensial posib o ddefnyddio'r fethodoleg newydd ar draws y Cyngor. Y bwriad yn awr ydi parhau i weithredu'r peilot gan adnabod cyfleon ar draws y tri Tîm Categori Caffael.

3. Deddfwriaeth Caffael i'r dyfodol

Yn sgil Brexit, mae Deddfwriaeth newydd mewn perthynas â caffael yn lleol wedi'w gyhoeddi ar gyfer cytundebau gwerth isel. O ganlyniad, rydym wedi cyflwyno newid i'r rheoliadau caffael sydd bellach yn ein galluogi ni hysbysebu cyfleoedd o fewn y Sir yn unig. Wrth gyflwyno'r trefniadau newydd i'r Timau Categori rydym hefyd wedi ceisio adnabod y prif gategoriâu ble mae'n bosib manteisio ar y drefn yma.

Mae'n deg nodi bod y cyfleon hyn am fod yn gyfyngedig yn sgil y trothwyon gosodwyd gan y Llywodraeth ond mae'n gyfle arall ble gall y Cyngor ei ddefnyddio er mwyn cynyddu y gyfradd Cadw'r Budd yn Lleol.

I grynhoi felly, mae cynnydd da wedi ei wneud dros y pedair blynedd diwethaf er mwyn cynyddu'r canran o wariant y Cyngor sy'n aros yn lleol. Fodd bynnag, mae'r 18 mis diwethaf wedi bod yn rhai heriol iawn ac wedi llesteirio gallu'r Cyngor i wella'r ganran hynny yn uwch. Bydd y gwaith sydd ar droed i adfer yr economi a gweithgareddau dydd i ddydd yn golygu daw cyfleon i wella'r sefyllfa ond bydd manteisio ar hynny yn ddibynnol ar allu'r Cyngor i ymateb yn effeithiol.

Eitem 13

CYFARFOD	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	14 Hydref 2021
TEITL	Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol
PWRPAS	Sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn bodloni ei hun bod y camau gweithredu grëwyd mewn ymateb i argymhellion adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.
AWDUR	Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol

1 Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad

- 1.1 Bydd angen i'r Pwyllgor fodloni ei hun bod trefniadau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod cynigion gwella sy'n codi o adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.

2 Cyflwyniad

- 2.1 Mae cyfrifoldeb ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i ystyried adroddiadau archwilio allanol (cenedlaethol, a lleol i Wynedd), yr argymhellion a gynhwysir ynddynt, a goblygiadau rhain i lywodraethu, rheoli risg neu reolaeth.
- 2.2 Rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn y mater hwn yw i fodloni ei hun bod trefniadau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod y cynigion gwella hyn yn cael eu gweithredu, ac ni ddylai'r Pwyllgor ail-gynnal ymchwiliad i faterion sydd o fewn maes gwaith un o'r pwyllgorau craffu eraill. Fodd bynnag, os nad yw'r Pwyllgor o'r farn bod y trefniadau – gan gynnwys gweithrediad un o'r Pwyllgorau Craffu – yn ddigonol, gall alw unrhyw fater i mewn am ystyriaeth bellach, unai i'r pwyllgor llawn neu i'r Gweithgor Gwella Rheolaethau.
- 2.3 Mae rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor yng nghyd-destun gwaith archwilio perfformiad wedi ei gadarnhau mewn llythyr gan Derwyn Owen, Cyfarwyddwr Archwilio, Archwilio Cymru i holl Gadeiryddion Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio awdurdodau lleol Cymru ym mis Mehefin. Atodir y llythyr hwn fel **Atodiad 1** er gwybodaeth.

3 Ystyriaethau Perthnasol

- 3.1. Cyflwynir yn **Atodiad 2** restr gronolegol o'r arolygiadau a gynhaliwyd gan archwilwyr allanol rhwng 2018 ac Awst 2021 ynghyd â'u cynigion ar gyfer gwella. Mae'r adroddiadau 'lleol/perthnasol i Gyngor Gwynedd' wedi eu rhestru yn gyntaf, yna'r adroddiadau cenedlaethol.
- 3.2 Rydym wedi nodi 'trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion' er mwyn dangos ymhle y mae'r adroddiad a'i argymhellion wedi eu trafod, ac felly sut y cytunwyd ar unrhyw gynllun gweithredu.
- 3.3 Rydym wedi nodi 'Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella' gan ganolbwyntio ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni ers i'r Pwyllgor drafod y mater hwn ddiwethaf fis Tachwedd 2019.

3.4 Rydym wedyn yn nodi ein ‘Casgliad’ o’r cynnydd a wnaed - a oes camau digonol wedi eu cymryd i fodloni’r Pwyllgor bod y gwaith o wireddu’r argymhellion ‘wedi’i gwblhau’, yntau a yw yn parhau ‘ar waith’. Mae’r casgliadau yma wedi eu cytuno gan Grŵp Llywodraethu’r Cyngor. Mater i’r Pwyllgor hwn yw barnu a yw’n cytuno â’r ‘Casgliadau’ a’i peidio. Mae allwedd i ystyr y casgliad ar gychwyn Atodiad 2.

3.5 Mae’r adroddiadau yn Atodiad 2 i gyd yn rai a oedd a’u argymhellion ‘heb ei gychwyn’, ‘wrthi’n cael ei gynllunio’ neu ‘ar waith’ pan drafodwyd y mater ddiwethaf gan y Pwyllgor hwn fis Tachwedd 2019, neu yn adroddiadau a gyhoeddwyd ers hynny. Mae’r Grŵp Llywodraethu o’r farn fod yr adroddiadau sy’n hŷn na 3 oed wedi derbyn sylw neu mae’r argymhellion wedi dyddio fel nad ydynt yn berthnasol mwyach.

4 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

4.1 Mae angen i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sicrhau llywodraethu cywir o fewn y Cyngor drwy fod â gorolwg dros sut y byddwn yn ymateb i gynigion gwella adroddiadau archwilio allanol.

5 Camau nesaf ac amserlen

5.1 Mae’r gwaith o ymateb i’r rhan fwyaf o’r cynigion gwella yn waith parhaus. Os fydd y pwyllgor yn cytuno gyda’r casgliadau ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynigion gwella, yna ni fydd y rhai sydd “wedi’i gwblhau” yn derbyn sylw’r Pwyllgor hwn eto. Bydd y rhai sydd “ar waith” yn dod yn ôl i’r Pwyllgor hwn i’w hystyried eto ymhen tua 6 mis.

6 Rhestr Atodiadau/Llyfryddiaeth

Atodiad 1 – Llythyr gan Derwyn Owen, Cyfarwyddwr Archwilio, Archwilio Cymru i Gadeiryddion Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Atodiad 2 – Cynigion Gwella Adroddiadau Archwilwyr Allanol 2018-2021.

Cllr John Pughe Roberts
Cyngor Gwynedd
Neuadd y Sir
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cyfeirnod: DO21-04

Dyddiad cyhoeddi: 3 Mehefin 2021

Annwyl Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Adroddiadau ac Argymhellion Archwilio Cymru

Gobeithio eich bod yn cadw'n iach.

Efallai eich bod yn cofio bod rhai o staff Archwilio Cymru wedi dod i gyfarfod rhwydwaith cadeiryddion Pwyllgor Archwilio Cymru ddiwedd mis Tachwedd 2020 i sôn am y goblygiadau i bwyllgorau archwilio o ganlyniad i'r hyn a oedd bryd hynny y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Yn y sesiwn hon, fe wnaethom grybwyll yn fyr hefyd ein disgwyliad bod pwyllgorau archwilio yn mynd ati i ystyried ein hadroddiadau yn ymarferol. Diben y llythyr hwn yw egluro ac ehangu ar hyn.

Fel y gwyddoch, mae ein gwaith archwilio perfformiad yn cynnwys astudiaethau cenedlaethol, astudiaethau llywodraeth leol (fel ein hadroddiad diweddar am wasanaethau yn ôl disgrisiwn), gwaith thematig (fel ein hasesiadau cynaliadwyedd ariannol) a gwaith sy'n fwy seiliedig ar risg yn lleol. Rydym yn ymgynghori â chyrrff archwiliedig ynghylch pynciau posibl ar gyfer ein hastudiaethau llywodraeth genedlaethol a lleol, a phenderfynir ar ein gwaith lleol sy'n seiliedig ar risg drwy ein proses sicrhau ac asesu risg. Nodir ein rhaglen waith ar gyfer pob cyngor yn ein cynlluniau archwilio blynyddol.

Rydym wedi canfod bod dulliau cynghorau o ymdrin â'n hadroddiadau archwilio perfformiad, cynigion ar gyfer gwella ac argymhellion astudiaethau Llywodraeth Leol yn amrywio. Mae dulliau cynghorau yn amrywio o adolygiadau rheolaidd, tracwyr archwilio a chynlluniau gweithredu i adroddiadau ac argymhellion nad ydynt ond yn cael eu gweld pan fyddwn yn cyflwyno ein crynodeb archwilio blynyddol. Felly, nid

ydym yn hyderus bod pob cyngor yn gyson yn ystyried canfyddiadau ein hadroddiadau yn ymarferol.

O gofio mai swyddogaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor, byddem yn disgwyl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob cyngor ystyried pob adroddiad ar gyfrif adolygu allanol yn ffurfiol – yn bennaf; Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).


Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, byddem yn disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt. Dylai'r pwyslais yn hyn o beth fod ar ddwyn swyddogion gweithredol a swyddogion i gyfrif er mwyn sicrhau y gweithredwyd ar adroddiadau ac argymhellion. Gall rhai o'n hadroddiadau fod yn berthnasol i'w hystyried gan bwyllgorau craffu hefyd.

Er mwyn helpu cynghorau i wneud hyn, bydd gennym ddull sydd wedi ei dargedu'n well ar gyfer dosbarthu adroddiadau terfynol wrth gyhoeddi, nodi ein disgwyliadau o ran sut y dylai cynghorau ymdrin â'n hargymhellion a darganfod pa un a yw'r disgwyliadau hyn wedi'u bodloni. Hefyd, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), mae'n rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru lunio amserlen sy'n nodi'r dyddiadau neu'r cyfnodau pan fydd Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn ymgymryd â'u gwaith. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r amserlen hon i gynghorau ac i gadeiryddion y Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio bob chwarter. Nid ydym yn bwriadu cyflwyno hyn yn ffurfiol i Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio bob chwarter ond byddwn yn cydgysylltu â chynghorau i drafod ein dull gweithredu lleol.

Bydd staff Archwilio Cymru yn parhau i weithio'n hyblyg i gyflawni ein rhaglen waith. Mewn ymateb i unrhyw gyngor gan y llywodraeth a chyfyngiadau dilynol, byddwn yn parhau i weithio o bell, gan adeiladu ar y trefniadau a wnaed yn 2020, tan y bydd yn ddiogel i aildechrau cyflawni gweithgareddau ar y safle. Rwyf yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau na fydd gwaith staff Archwilio Cymru yn amharu ar y gweithgareddau hanfodol y mae angen i gyrff cyhoeddus eu gwneud i ymateb i'r heriau parhaus a gyflwynir gan y pandemig COVID-19.

Gobeithio y bydd y llythyr hwn o gymorth i chi. Cysylltwch â'n tîm lleol os oes gennych unrhyw anghenion neu bryderon penodol.

Yn gywir



Derwyn Owen
Cyfarwyddwr Archwilio

Cynigion Gwella Adroddiadau Archwilwyr Allanol 2018-2021**RHAN 1 – Adroddiadau lleol neu ranbarthol sy'n asesu gwaith Cyngor Gwynedd****Allwedd i'r casgliadau –**

1. **Heb ei gychwyn** – yr adroddiad heb ei ystyried eto.
2. **Wrthi'n cael ei gynllunio** – cynnal trafodaethau er mwyn penderfynu sut i ymateb i'r argymhellion a chynllunio os/sut i'w gweithredu.
3. **Ar waith** – cytundeb neu gynllun gweithredu yn ei le er mwyn ymateb i'r argymhellion a gwaith wedi dechrau.
4. **Wedi ei gwblhau** – cynllun gweithredu i ymateb i'r argymhellion yn cael ei wireddu ond gellir dadlau na wnaiff y gwaith o gyflawni'r argymhellion byth orffen am ei fod yn waith parhaus / neu: mae'r argymhellion wedi eu gwireddu.

1. Cyngor Gwynedd - Trosolwg a Chraffu - Addas ar Gyfer y Dyfodol? -

Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Medi 2018

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Datblygu prosesau blaenraglenni craffu ymhellach er mwyn:
 - darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;
 - canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau ac egluro hyn i'r cyhoedd; a
 - sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol, ac egluro hyn i'r cyhoedd, ac ystyried dulliau mwy arloesol o gynnal gweithgareddau craffu
2. Adolygu'r math o gymorth craffu sydd ei angen i alluogi'r swyddogaeth graffu i ymateb i heriau'r presennol a'r dyfodol.
3. Egluro swyddogaeth aelodau'r pwyllgor craffu a swyddogion mewn cyfarfodydd adolygu perfformiad gwasanaethau, sicrhau bod aelodau'r pwyllgor yn herio perfformiad gwasanaethau yn briodol ac yn dwyn swyddogion i gyfrif.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Adolygwyd y trefniadau craffu cyn dechrau tymor y cyngor hwn nôl ym mis Mawrth 2017, a chynhaliwyd adolygiad trylwyr o effeithlonrwydd y trefniadau yn ystod 2019/20. Ffurfiwyd gweithgor bychan o aelodau a swyddogion i gynnal yr adolygiad, ac fel rhan o'r gwaith cynhaliwyd gweithdai i ymgynghori gyda'r holl aelodau

etholedig, aelodau'r Fforwm Craffu, gan adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu cyn i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r argymhelliad ar 19 Rhagfyr 2019.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

1. Cynhelir gweithdai blynyddol ar gyfer adnabod blaenraglenni craffu, gan flaenoriaethu'r materion sydd wir angen sylw. Rhoddir cyfle i'r holl aelodau adnabod unrhyw faterion sydd angen eu craffu, ac yna blaenoriaethir y gwaith yn ystod y gweithdai gan sicrhau rhaglen waith synhwyrol ar gyfer y flwyddyn i ddod.
2. Adolygwyd ein trefniadau o ran sicrhau cymorth craffu yn ystod 2019/20 gan sefydlu swydd Ymgynghorydd Craffu ac Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu i gefnogi'r gwaith craffu ar y cyd gyda'r Rheolwr Democratiaeth ac Iaith. Datblygwyd hyfforddiant ar gyfer yr aelodau craffu fel rhan o'r gweithdai a nodwyd uchod, yn ogystal â hyfforddiant penodol ar gyfer darpar Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion craffu wrth gynnal cyfarfodydd rhithiol.
3. Mae cynrychiolwyr o'r pwyllgorau craffu wedi bod yn bresennol mewn cyfarfodydd herio perfformiad mewnol ers 2017, ac yn parhau i fynychu o dan drefniadau newydd sydd wedi dod i rym ers haf 2021. Mae'r aelodau craffu yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd o'r dyletswydd sydd arnynt i herio gwaith swyddogion ac Aelodau Cabinet, ac yn cael eu cefnogi i wneud hynny gan aelodau o'r Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith. Mae'r aelodau craffu yn eu tro yn gallu adrodd yn ôl i'r pwyllgorau craffu ar unrhyw faterion o bryder y maent yn credu sydd angen sylw pellach.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

2. **Cyngor Gwynedd - System Gwybodaeth Adnoddau Dynol** - Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Tachwedd 2018
[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

- (i) Sefydlu rhaglen gwireddu buddion ffurfiol er mwyn gallu gwerthuso nodau'r prosiect datblygu yn briodol.
1. Adolygu opsiynau technoleg o fewn y prosiect:
 - (i) Gwella mynediad i alluogi mwy o staff (er enghraifft y rhai sydd wedi'u lleoli'n anghysbell) i ymgysylltu â'r system.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae'r Bwrdd Prosiect yn cadw golwg ar fuddion y prosiect er mwyn asesu os yw'r datrysiad yn cynnig gwerth am arian i'r Cyngor. Yn sgil hynny, bwriedir gwneud asesiad o'r farchnad yn y dyfodol agos er mwyn gwneud cymhariaeth top desg o'r hyn mae'r Cyngor yn ei ddatblygu'n fewnol yn erbyn beth sydd ar gael gan ddarparwyr masnachol.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae prosiect wedi ei sefydlu ynglŷn â chanfod lefel sgiliau TG staff sy'n gweithio mewn lleoliadau anghysbell er mwyn gweld os ydynt yn gwneud y defnydd gorau o'r System Hunanwasanaeth Staff. Wedi i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi, bwriedir llunio rhaglen waith er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg o ran sgiliau a hefyd argaeledd cyfarpar.

Casgliad

Ar waith.

3. Y defnydd o ddata gan Lywodraeth Leol: Cyngor Gwynedd

Adroddiad lleol i Wynedd gan Archwilio Cymru gyhoeddwyd Ionawr 2019

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

Mae angen i'r Awdurdod ddatblygu dull mwy unedig a chorfforaethol o ddefnyddio data. Felly, mae newid mewn diwylliant ac arweinyddiaeth gryfach mewn perthynas â data yn hanfodol yng Ngwynedd, a bydd yn cefnogi'r gwaith o greu amgylchedd sy'n trin data fel adnodd allweddol. Bydd hyn yn helpu i ymestyn manteision gwneud penderfyniadau dan arweiniad data i bob maes gwasanaeth, yn ogystal â helpu i wella tryloywder a democratiaeth.

Bydd diweddarau'r protocolau rhannu data a darparu sesiynau hyfforddi diweddarau, sy'n canolbwyntio ar yr hyn y gall pobl ei wneud yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud, yn helpu i sicrhau y bydd rheolwyr y gwasanaeth yn gwybod yr hyn y gallant ei rannu ac ar ba adegau y gallant wneud hynny, ac, felly, yn helpu i osgoi unrhyw achos o ochel rhag risgiau diangen ac anghymesur mewn perthynas â rhannu data.

Dylai'r Awdurdod adeiladu ar y gwaith a wneir gan ei uned ymchwil a dadansoddeg er mwyn adolygu ystod ac ansawdd yr wybodaeth sy'n ofynnol gan benderfynwyr, ynghyd â'r fformat ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth honno. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod i bennu safonau o ran adrodd ar ddata er mwyn sicrhau

bod y data a gyflwynir i'r uwch-swyddog a'r Aelodau Etholedig yn hygyrch, yn hawdd eu deall, ac yn cefnogi'r penderfynwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau mewn modd sydd mor effeithiol â phosibl.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Cafodd yr adroddiad a'r argymhellion gwella eu trafod yn y Panel Gweithredol Llywodraethu Gwybodaeth, a'r mater wedi'i gynnwys yng Nghofrestr Risg y Cyngor (lefel Llywodraethu): "Methu uchafu potensial gwybodaeth wrth gefnogi busnes y Cyngor a methu bodloni gofynion statudol".

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Cafodd Cynllun Gwybodaeth y Cyngor 2021-26 ei fabwysiadu gan y Cabinet fis Ionawr 2021. Mae hwn, a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, yn gosod allan cyfeiriad y Cyngor ym maes gwybodaeth dros y blynyddoedd nesaf gan gynnwys y materion a nodwyd yn yr adroddiad.

Casgliad

Ar waith

4. Adroddiad Arolygu: Gwasanaethau Gofal yn y Cartref Gwynedd -

Adroddiad lleol i Wynedd gan Arolygiaeth Gofal Cymru gyhoeddwyd Ionawr 2019

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Hyfforddiant staff (Rheoliad 16 (2)(a)). Gwelsom fod amlder hyfforddiant y staff yn anghyson ac nid oedd cofnodion hyfforddiant y staff wedi'u diweddarau. Cafodd y syniad o ddarparu lefel gyson a chyfartal o hyfforddiant i'r staff hefyd ei argymhell yn yr arolygiad diwethaf. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad ar yr achlysur hwn gan na welsom fod hyn wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl na datblygiad y staff. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod o'r farn y gellid gwella'r ddarpariaeth hyfforddiant a chafodd hyn ei gydnabod gan y tîm rheoli.
2. Adroddiad ar ansawdd y gwasanaeth (Rheoliad 23 (1), (2) a (3)). Gwelsom nad oedd y gwasanaeth wedi cwblhau adroddiad blynyddol ar ansawdd y gwasanaeth ac nid oedd wedi ymgynghori'r â'r bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth na'u cynrychiolwyr. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad ar yr achlysur hwn gan na welsom fod hyn wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl na'r gofal a'r cymorth a ddarperir.

3. Mae angen adolygu cynlluniau cyflenwi gwasanaeth ac asesiadau risg mewn modd amserol.
4. Mae angen i'r gwasanaeth wella'r ffordd y mae'n dogfennu ac yn cofnodi trafodaethau ffurfiol ac anffurfiol â theuluoedd/cynrychiolwyr a'r staff. Bydd hyn yn sicrhau y gellir dilyn llwybr archwilio clir.
5. Sicrhau bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol amserol a chyson ac arfarniad blynyddol, a chadw cofnod cyfredol o'r cyfarfodydd a gynhelir.
6. Mae angen diweddarau taflen wybodaeth y gwasanaeth ac mae angen iddi gynnwys manylion cyswllt cywir AGC.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae'r holl faterion yma wedi cael sylw mewn cyfarfodydd mewnol ac yn allanol gyda phartneriaid i drafod cynigion y Prosiect Gofal Cartref. Mae'r cyfarfodydd yma yn parhau ac maent yn cynnwys sgysiau un i un gyda darparwyr, sgysiau grŵp gyda darparwyr, sgysiau gyda staff ac undebau ac wrth gwrs cyflwyniadau i aelodau'r Cyngor ar y prosiect trwy'r Pwyllgor Craffu Gofal a fforymau eraill. Bydd cylch arall o sgysiau gyda aelodau ar gynnydd y prosiect yn cael eu cynnal yn ystod Medi/Hydref eleni.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae'r Adran wedi ymateb i'r cyfan o'r argymhellion ar sail ceisio cael datrysiadau tymor byr i wella gwasanaethau. Hefyd, rhoddwyd y flaenoriaeth i ddysgu gwersi a sicrhau bod yr holl faterion sydd angen sylw yn cael eu hystyried yn y Prosiect Gofal Cartref sydd yn ail siapio'r ddarpariaeth gofal cartref a'r model/dull gweithio yn y maes gofal cartref ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Yn anffodus mae sefyllfa Covid-19 wedi cael blaenoriaeth dros y rhaglen waith yma ac erbyn hyn mae'r Adran wedi ail-afael yn y gwaith. Hyderir y bydd y trefniadau newydd yn eu lle erbyn gwanwyn 2022 ac y bydd y deilliannau i drigolion y sir ac wrth gwrs i staff gofal yn cael eu gwireddu bryd hynny. Dylid nodi bod y Prosiect Gofal Cartref yn anelu i gael gwelliannau ar draws yr holl ddarpariaeth boed yn fewnol neu allannol.

Casgliad

Ar waith.

5. **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o 'Sefydlu Gwasanaeth Ieuenctid Newydd i Gefnogi Pobl Ifanc' – Cyngor Gwynedd** - Adroddiad lleol i Wunedd gan Arolygiaeth Gofal Cymru gyhoeddwyd Medi 2019

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Er ei fod wedi ymateb i farn defnyddwyr gwasanaethau, mae dull y Cyngor yn adweithiol yn bennaf a chaiff ei lywio gan gyd-destun gweithredol sy'n newid – yn benodol, cyfyngiadau ariannol. Mae canfyddiad y Cyngor am fanteision sefydlu model gweithredu sy'n gallu mynd yn fwy neu'n llai mewn ymateb i anghenion yn ymwneud yn bennaf â'i helpu i ymateb yn rhwyddach i bwysau cyllidebol.
2. Roedd ffynonellau data a ddefnyddiwyd i oleuo'r model newydd yn canolbwyntio'n bennaf ar ddeall anghenion defnyddwyr presennol y gwasanaeth ac ni wnaed rhyw lawer o ddefnydd o ddata i fodelu'r galw ar y gwasanaeth yn y dyfodol.
3. Mae gan y gwasanaeth symudol sydd wedi'i ailfodelu o'r newydd fwy o allu i fod yn bresennol dros dro yn ôl yr angen a lle y bo angen ac mae ganddo fwy o allu i fod yn fwy dynamig o ran ymateb i faterion cymdeithasol gan helpu i'w hatal rhag gwaethygu.
4. Bydd cynyddu defnydd effeithiol o ddata'n rhoi dealltwriaeth well i'r Cyngor am achosion sylfaenol materion a'r galw ar y gwasanaeth. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i feddwl yn ehangach a defnyddio dull mwy cyfannol o ran ymyrryd yn gynnar ac atal.
5. Ychydig o dystiolaeth sydd i adlewyrchu bod y Cyngor wedi ystyried sut y mae'r cam yn cyfrannu at ei amcanion llesiant ehangach, rhai ei bartneriaid, neu'r saith nod llesiant cenedlaethol. Ni ddefnyddiodd y Cyngor ddull integredig wrth ailfodelu ei wasanaeth ieuencid. Er nad oedd amcanion llesiant y Cyngor a phartneriaid wedi'u cadarnhau pan ddechreuodd y broses ailfodelu, roedd ei ddull adweithiol ei natur, a ysgogwyd gan ystyriaethau ariannol, yn golygu na chafodd blaenoriaethau ehangach eu hystyried yn effeithiol.
6. Mae'r Cyngor yn rhoi pwyslais mawr ar gymhwyso'i ddull 'sy'n canolbwyntio ar y dinesydd', sef 'Ffordd Gwynedd', wrth roi'r cam ar waith. Fodd bynnag, yn y cam a adolygwyd, ni all y Cyngor ddangos bod 'Ffordd Gwynedd' yn ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn llawn. Byddai gwneud hynny'n hwyluso mwy o integreiddio.
7. Er ei fod wedi creu rhagor o gyfleoedd ar gyfer cydweithio ar lefel weithredol, ni all y Cyngor ddangos ei fod wedi ystyried sut i weithio'n strategol gyda phartneriaid i gyflawni'r cam. Mae hyn yn adlewyrchu ein canfyddiadau mewn perthynas ag integreiddio.
8. Dywedodd un partner fod newid negyddol wedi bod o ran ymgysylltu â gwasanaeth ieuencid y Cyngor ar ôl iddo gael ei ailfodelu o'r newydd, gan bod

hynny wedi effeithio'n anffafriol ar amcanion a gweithgareddau ataliol y partner. Eto mae hyn yn adlewyrchu ein canfyddiadau mewn perthynas ag integreiddio.

9. Mae diffyg neges glir sy'n datgan y bwriad i gau'r holl glybiau ieuencid presennol yn y fideo 'Gwasanaeth Ieuencid Gwynedd ar gyfer Yfory' yn wendid allweddol o ran sut y gwnaeth y Cyngor gyfleu newidiadau posibl i ddefnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar 18 Tachwedd 2019 nodwyd bod y Cyngor wedi nodi dymuniad i geisio trafodaeth bellach gyda Swyddfa Archwilio Cymru ar gasgliadau a chynigion gwella archwiliad y Gwasanaeth Ieuencid. Gweler cofnod y Cyngor Llawn dyddiedig 3ydd Hydref 2019.

Cyflwynwyd Adroddiad Cynnydd ar ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuencid i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 23 Ionawr 2020. Nid oedd yr adroddiad hwnnw yn cyfeirio at yr argymhellion gwella gan fod y drafodaeth gyda'r Swyddfa Archwilio yn parhau.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Cytunodd Archwilio Cymru i gynnal adolygiad dilynol o weithredu'r model gwasanaeth ieuencid newydd, fel ymateb i bryderon y Cyngor Llawn fod eu adroddiad gwreiddiol heb gymryd ystyriaeth o ansawdd y model ieuencid newydd.

Bwriadwyd cwblhau'r adolygiad yn ystod 2020-21 ond oherwydd argyfwng Covid-19 mae'r gwaith wedi ei ohirio. Cytunwyd ar friff i'r adolygiad ym mis Ionawr 2021 ond mae amserlen i'w gwblhau eto i'w gadarnhau. Mae'r adolygiad yn bwriadu edrych ar ansawdd y ddarpariaeth o dan drefniadau'r model newydd. Nid yw'r Gwasanaeth Ieuencid wedi gweithredu'r model newydd ers cychwyn yr argyfwng oherwydd yr angen iddynt addasu i ymateb i anghenion pobl ifanc, ac oherwydd bod cyfyngiadau y pandemig yn eu hatal rhag darparu rhai elfennau o'r gwasanaeth yn gyfan gwbl. Mae gwaith adfer eisoes ar droed ond nid ydym yn rhagweld y bydd y Gwasanaeth Ieuencid yn adfer i'r model newydd yn llawn am beth amser eto .

Casgliad

Ar waith.

6. **Cyngor Gwynedd – Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o Gyflwyno Gwasanaethau Gofal gyda Phum Tîm Ardal** - Adroddiad lleol i Wynedd gan Archwilio Cymru gyhoeddwyd Ionawr 2020
[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Hirdymor - Mae'r Cyngor yn dathlu'r gwahaniaethau swyddogaethol a welir ym mhob ardal, ond nid yw'n glir a yw'r gwahaniaethau wedi'u bwriadu ai peidio neu a all y Cyngor fod yn sicr bod gan ddinasyddion ledled y sir fynediad teg at wasanaethau.
2. Hirdymor - Heb ddadansoddiad data ystyrion i ddeall y galw a'r effaith yn nhermau angen cyfredol ac yn y dyfodol, mae'r Cyngor yn defnyddio lluniau geiriol ac astudiaethau achos i ddal straeon unigolion. Byddai defnyddio data yn well yn gwella gallu'r Cyngor i lunio'r gwasanaeth ac i benderfynu a yw'n llwyddiannus ai peidio.
3. Hirdymor - Byddai saib ac adolygiad gan ystyried effeithiolrwydd, economi ac effeithlonrwydd atebion cyfredol ym mhob un o'r timau ardal, gan asesu'r hyn sy'n gweithio'n dda a beth sydd ddim cystal, yn helpu'r Cyngor i nodi'r camau nesaf ar gyfer pob lleoliad.
4. Hirdymor - Mae angen i'r Cyngor ddatblygu model adnoddau cynaliadwy ar gyfer y Timau Ardal (pobl, lle, arian) yn y tymor canolig i'r tymor hir, gan leihau ansicrwydd.
5. Atal - Er bod yr agenda ataliol yn rhan gynhenid o weithrediad y pum tîm ardal, gallai'r Cyngor a'i bartneriaid:
 - a. wneud llawer mwy i annog pobl i gyflwyno'n gynharach ac elwa o fanteision ymyrraeth ataliol/gynharach.
 - b. gallai archwilio ymhellach botensial dadansoddeg data i fynd ati i symud ymlaen â'r agenda ataliol. Er enghraifft galw/maint, y mathau o wasanaethau sydd eu hangen a dealltwriaeth ddyfnach o achosion sylfaenol problemau y mae'r gwasanaeth yn ceisio mynd i'r afael â hwy
6. Integreiddio - Mae swyddogion Cyngor y buom yn siarad â nhw yn mynegi ar lafar ymwybyddiaeth o effaith eu gweithgaredd ar amcanion lles eraill y Cyngor a'r nodau llesiant cenedlaethol, ond ni chaiff hyn ei gydnabod na'i gofnodi'n ffurfiol.
7. Integreiddio - Mae'r Cyngor yn ymwybodol o effaith eu gweithgaredd ar amcanion lles BIPBC, ond gallai wneud mwy i ymgysylltu ac integreiddio â rhanddeiliaid eraill a phartneriaid posibl.

8. Integreiddio - Byddai mynd ati i chwilio am a datblygu ystod lawn o bartneriaid mewnlol ac allanol a helpu i gefnogi'r symudiad i ddarparu gwasanaeth cydgysylltiedig gwirioneddol yn dod â budd.
9. Cydweithio - Mynegodd cyrff trydydd sector awydd i ymgysylltu mwy â'r Cyngor, ac roeddent yn awyddus i ddatblygu mwy o gyfleoedd i gyfrannu at yr agenda lles;
10. Cydweithio - Er na fwriedir i hybiau fod yn lleoliad corfforol i unigolion gyflwyno ynddynt, canlyniad y canolfannau o bosibl yw bod pobl yn bresennol yn y lleoliadau hynny, felly mae angen i'r Cyngor ystyried sut y bydd yn rheoli'r sefyllfa hon gan ei bod yn ymddangos nad oes presenoldeb ffurfiol yn rhai o'r hybiau.
11. Cydweithio - Mae staff yn cydnabod gwerth ychwanegol cydweithredu rhagweithiol gyda grwpiau fel meddygon teulu a'r trydydd sector, ond mae angen i'r Cyngor wneud mwy i sicrhau bod buddion o'r fath yn cael eu darparu ym mhob cymuned.
12. Cynnwys - Mae cysylltwyr cymunedol yn mapio cyfleoedd i unigolion ymgymryd â gweithgaredd a chefnogaeth yn y gymuned. Er bod cynlluniau i gyhoeddi'r wybodaeth mewn llyfrynau, mae angen i'r Cyngor wneud y defnydd gorau o allfeydd eraill fel cyfryngau cymdeithasol a chynnwys ar y we.
13. Cynnwys - Awgrymodd rhai o'r cynrychiolwyr o'r trydydd sector fod ymgysylltu â'r Cyngor wedi dod yn anodd, a chyfleoedd i gyfrannu'n fwy cyfyngedig, yn bennaf oherwydd pryderon nad yw corff cydgysylltu'r trydydd sector bellach yn gwbl annibynnol ar ddarparu gwasanaethau a gallai wrthdaro wrth gynrychioli'r ystod o safbwyntiau trydydd sector.
14. Corfforaethol - Mae'r Cyngor yn rhoi pwyslais mawr ar gymhwyso ei ymagwedd sy'n 'canolbwyntio ar ddinasyddion' 'Ffordd Gwynedd'. Wrth reoli'r negeseuon sy'n ymwneud â'i ffordd o weithio, prin ydy'r dystiolaeth neu enghreifftiau o swyddogion yn y Cyngor sydd yn hyddysg yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. O ganlyniad, ni allai nifer o swyddogion ddangos eu bod wedi rhoi ystyriaeth i'r egwyddor datblygu cynaliadwy na'r pum ffordd o weithio. Gallai'r Cyngor ddangos yn well bod 'ffordd Gwynedd' yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio yn llawn drwy ddefnyddio ymadroddion allweddol o fewn ei weledigaeth gyffredinol. Byddai hyn yn dangos yn gliriach sut y caiff yr agweddau hyn eu cynnwys fel rhan o broses gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae nifer o'r cynigion gwella a amlygwyd gan Archwilio Cymru yn yr adroddiad hwn yn sylwadau yn hytrach nag yn argymhellion pendant. Cafodd yr adroddiad ei gyhoeddi yn Ionawr 2020 ac mae'r Adran yn cydnabod bod ymateb i bandemig Covid-19 wedi bod yn flaenoriaeth yn y cyfnod ers hynny. Mae nifer o'r cynigion gwella yn perthyn yn agos iawn i gamau sydd yn cael eu cymryd dan raglenni gwaith eraill o fewn yr Adran megis datblygu'r trefniadau'r Timau Adnoddau Cymunedol, integreiddio gyda'r Bwrdd Iechyd, cefnogi gofalwyr, hyrwyddo gwaith ataliol a chyd-gynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a darparwyr. Maent hefyd yn berthnasol i flaenoriaethau megis Ffordd Gwynedd ac mae'r Adran yn parhau i ymdrechu i wreiddio'r egwyddorion hynny ymhob agwedd o'i gwaith.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae gwella trefniadau casglu a defnyddio data a gwybodaeth yn cael sylw o fewn yr Adran ar gyfer hwyluso y gwaith o ddydd i ddydd ac hefyd ar gyfer bwydo'r drefn herio perfformiad corfforaethol. Tra bod data da yn cael ei gasglu mewn rhai meysydd mae bylchau yn parhau mewn meysydd eraill oherwydd trefniadau hanesyddol, gwendidau systemau neu diffyg trefniadau aml-asiantaethol. Mae camau ar y gweill i geisio goresgyn rhai o'r problemau yma ac i sicrhau y bydd data yn y dyfodol yn sail mwy cadarn ar gyfer siapio a darparu gwasanaethau gofal.

Ymgeisir yn fwriadol i siapio gwasanaethau ar sail anghenion lleol iawn gan hefyd adlewyrchu cefnogaeth a darpariaeth cefnogol ac ataliol sydd yn yr ardaloedd lleol hynny. Nid yw'r Adran yn credu bod trefn 'one size fits all' yn addas oherwydd amgylchiadau gwahanol rhwng cymunedau. Mae'r Adran yn adlewyrchu ar gynnydd yn rheolaidd gan roi cyfle i addasu lle mae'n briodol.

Mae'r cynigion gwella a wnaed mewn perthynas ag integreiddio a chydweithio yn adlewyrchu sylwadau swyddogion yr Adran yn ystod y gwaith o baratoi'r adroddiad. Mae rhaglenni gwaith ehangach yr Adran eisoes yn cynnwys mesurau fydd yn cyfrannu tuag at gyflawni y cynigion a gyflwynir gan Archwilio Cymru. Tra bod elfennau yn cael eu addasu fel yr ydym yn adlewyrchu a dysgu, ni ystyrir bod angen rhaglen waith ar wahân i ymateb i'r materion a godwyd yma.

Mae'r Adran yn rhoi blaenoriaeth uchel i sefydlu perthynas weithio gref gyda phartneriaid ar draws y sectorau ac yn ceisio eu cynnwys wrth adolygu prosesau gwaith a chynlluniau ac wrth ail-ddylunio trefniadau hynny lle bo hynny yn ymarferol. Cydnabyddir bod bob tro lle i gryfhau hyn ac fel yr ydym yn dod allan o gyfnod Covid-19 bydd cyfle i ystyried eto sut gellir adeiladu ar beth sydd yn ei le eisoes boed hynny yn addasiadau i drefniadau gwaith yr Adran neu ymysg y partneriaid.

Credir bod y Cyngor yn ymwybodol iawn o bosibilrwydd nad yw y berthynas a chyd-blethiad rhwng Ffordd Gwynedd ac amcanion Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yn gwbl glir i bawb. Fodd bynnag, mae'r egwyddorion sylfaenol yn y ddau yn bur gyson ac yn ein symud i'r cyfeiriad cywir. Dros amser, fel y bydd trefniadau yn

aeddfedu ymhellach, fe fydd negeseuon a gyfathrebir yn medru gwneud y cysylltiad yn fwy amlwg gyda'r gobaiith y bydd hynny yn codi momentwm cyflawni'r cyd-amcanion.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

7. **Adolygiad o waith awdurdodau lleol i gefnogi'u cymunedau dysgu mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)** – Adroddiad lleol (llythyr) i Wynedd gan Estyn dyddiedig 18 Ionawr 2021.

Mae'r llythyr hwn yn ddilyniant i adroddiad thematig cenedlaethol gyhoeddwyd 15 Ionawr 2021 - [Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19](#)

Derbyniwyd lythyr gan Brif Arolygydd Estyn sy'n disgrifio'r gwaith a wnaed gan Gyngor Gwynedd rhwng Mawrth a Hydref 2020 i ymateb i heriau dysgu dros gyfnod pandemig Covid-19. Ceir ddisgrifiadau o'r gwaith a wnaed ac ambell sylw ar lwyddiant y gwaith; ni cheir argymhellion cadarn ar gyfer gweithredu i'r dyfodol. I grynhoi; nid yw'r llythyr yn amlygu materion o bryder sydd angen gweithredu arnynt.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae'r llythyr wedi ei rannu gyda'r Prif Weithredwr, Aelod Cabinet Addysg, Pennaeth Adran Addysg ac aelodau o Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi. Cyflwynwyd adroddiad blynyddol yr Adran Addysg i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 4 Chwefror 2021, ac roedd rhannau o gynnwys y llythyr yn cael eu dyfynnu yn yr adroddiad hwnnw.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae'r sylwadau sy'n cael eu gwneud yn y llythyr yn derbyn ystyriaeth gan yr Adran a'r Aelod Cabinet ar hyn o bryd tra'n cynllunio sut i gefnogi ysgolion a dysgwyr drwy'r cyfnod nesaf wrth i'r pandemig bellhau.

Casgliad

Ar waith

8. **Archwiliad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2021: Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd** - Adroddiad lleol i Wynedd gan Arolygiaeth Gofal Cymru gyhoeddwyd Mawrth 2021

[Dolen i'r llythyr ar wefan Cyngor Gwynedd](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

Gan nad oes rhestr na chrynodeb o gynigion gwella o fewn y llythyr, ond yn hytrach sylwadau sydd angen eu darllen o fewn eu cyd-destun, bydd angen darllen y llythyr yn ei gyfanrwydd drwy ddilyn y ddolen uchod.

Mae'r llythyr yn datgan – “Prif pwrpas y archwiliad sicrwydd hwn oedd gweld pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant.”

Cyflwynwyd y llythyr, ynghyd ag adroddiad i'w gefnogi, i gyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd fis Mai - [Adroddiad i gyfarfod Cabinet 18 Mai 2021](#) – gan ofyn iddynt dderbyn cynnwys y llythyr. Mae'r adroddiad aeth gyda'r llythyr yn crynhoi y prif faterion y mae'r Cyngor yn credu y dylid rhoi sylw iddynt i'r dyfodol.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae ymateb y Cyngor i'r cynigion gwella sydd yn y llythyr wedi ei gytuno yn dilyn trafodaethau:

- Tîm Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)
- Panel Strategol Diogelu
- Cabinet

Cafodd y llythyr hefyd ei rannu â Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae'r cynigion i wella elfennau o wasanaethau i gyd yn derbyn sylw o fewn rhaglenni gwaith yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Roedd rhai o'r materion hyn eisoes yn derbyn sylw pan dderbyniwyd y llythyr, ac eraill wedi eu hychwanegu o'r newydd.

Mae'r cynnydd mewn perfformiad ar yr holl faterion hyn yn derbyn sylw mewn cyfarfodydd herio perfformiad (ble mae aelodau o bwyllgorau craffu yn bresennol) ac yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

RHAN 2 – adroddiadau cenedlaethol neu gyffredinol sy'n berthnasol i Lywodraeth Leol

1. Sut mae Llywodraeth Leol yn Rheoli Galw - Digartrefedd - Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Ionawr 2018 [Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:
 - sicrhau bod eu staff yn ddigon medrus i ddelio â gofynion newydd cyfryngu, datrys problemau, negodi a dylanwadu gyda phobl ddigartref; ac
 - adolygu ac ad-drefnu eu gwasanaethau i ymgysylltu'n fwy effeithiol â phobl ddigartref a rhai a allai fod yn ddigartref er mwyn atal digartrefedd.

2. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:
 - llunio gwasanaethau er mwyn sicrhau bod cyswllt cynnar â defnyddwyr gwasanaethau;
 - defnyddio dulliau 'brysbennu' i nodi a hidlo unigolion sy'n gofyn am help er mwyn pennu'r ymateb mwyaf priodol i fynd i'r afael â'u hanghenion; a
 - profi effeithiolrwydd gwasanaethau pwynt cyswllt cyntaf er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben.

3. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi safonau gwasanaethau sy'n nodi'n glir beth yw eu cyfrifoldebau a sut y byddant yn darparu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod beth mae ganddynt hawl i'w gael a beth mae'n rhaid iddynt ei wneud drostynt hwy eu hunain. Dylai safonau gwasanaethau:
 - gael eu hysgrifennu mewn iaith hygyrch a syml.
 - bod yn fanwl gywir ynghylch beth y gall ymgeiswyr ei ddisgwyl a beth na allant ei ddisgwyl, a phryd y gallant ddisgwyl iddo gael ei ddatrys.
 - nodi'n glir rôl yr ymgeisydd yn y broses a sut y gallant helpu'r broses i redeg yn fwy llyfn a chyflym.
 - cael eu llunio ar y cyd ag arbenigwyr pwnc a chynnwys pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth(au).
 - integreiddio'n effeithiol â'r broses asesu unigol.
 - cynnig dewisiadau amgen hyfyw i wasanaethau'r awdurdod.
 - nodi'r prosesau apeliadau a chwynion. Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar degwch a chydaddoldeb i bawb dan sylw a dylent fod ar gael i bawb.

4. Er mwyn gwella perfformiad cyfredol rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn gwneud defnydd gwell o'u gwefannau er mwyn helpu i reoli'r galw drwy:

- brofi defnyddioldeb ac effeithiolrwydd y wybodaeth gyfredol ar wefannau gan ddefnyddio ein llinellau ymholi a nodir yn Atodiad 5;
 - cynyddu a gwella ystod, ansawdd a chwmpas gwybodaeth ar y we; gwneud gwell defnydd o raglenni ar-lein; a
 - chysylltu'n fwy effeithiol â gwybodaeth gan ddarparwyr arbenigol ac arbenigwyr cyngor, fel Cyngor ar Bopeth.
5. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn nodi ac yn cytuno ar yr hyn y maent yn ei ddisgwyl gan bartneriaid, gan nodi sut y byddant yn cydweithio er mwyn lleddfu digartrefedd. Dylai'r cytundeb hwn gael ei adolygu'n rheolaidd a dylai perfformiad partneriaid gael ei adolygu er mwyn nodi meysydd i'w gwella.
6. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â gwendidau yn eu dull monitro cydraddolebau, ac yn sicrhau bod eu gwasanaeth digartrefedd yn cofnodi ac yn gwerthuso data priodol yn gywir er mwyn dangos mynediad cyfartal i ddefnyddwyr gwasanaethau y mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd tuag atynt.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae ein trefniadau gwaith mewn perthnasedd â digartrefedd wedi bod yn destun nifer o gyfarfodydd mewnol a chyhoeddus yn ddiweddar gan gynnwys y Pwyllgor Craffu Gofal ym mis Mawrth 2021 a'r Cabinet ar 20 Ebrill 2021. Mae argymhellion yr adroddiad wedi bod yn sail i'r ailstrwythuro o fewn ein hunedau Digartrefedd sydd yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd, wedi cymeradwyaeth y Cabinet ym mis Ebrill.

Mae'r nifer o gyflwyniadau digartrefedd wedi cynyddu yn sylweddol yn ystod y pandemig a bydd yr ailstrwythuro yn ein galluogi i ymateb ac yn cynyddu ein capasiti i roi cefnogaeth ac ymyrraeth gynnar i'r sawl sy'n cyflwyno'n ddigartref.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Ym mis Gorffennaf 2019 bu i'r Cabinet gymeradwyo ein Strategaeth Tai. Ymhellach i hyn, cymeradwywyd ein Cynllun Gweithredu Tai gan y Cabinet yn eu cyfarfod ar y 15 Rhagfyr 2020 sy'n nodi sut y byddwn yn mynd ati i gyflawni'r amcan bod neb yn ddigartref yng Ngwynedd. Mae cydweithio gyda phartneriaid yn ran allweddol o wireddu'r amcan yma.

Rydym wedi cynllunio ar y cyd ag arbenigwr i sicrhau bod ein safonau gwasanaeth a'r wybodaeth yr ydym yn ei roi allan gan gynnwys ein cyfrifoldebau yn ddealladwy.

Un o brosiectau'r Cynllun Gweithredu Tai, sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yw i sefydlu 'Siop un Stop' ar gyfer materion tai ac yn sgil hynny bydd ein gwefan a threfniadau ymgysylltu yn esblygu ymhellach dros y misoedd nesaf.

Casgliad

Ar waith.

- 2. Addasiadau Tai** - Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Chwefror 2018
[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol weithio gydag asiantaethau partner (cyrff iechyd, cymdeithasau tai a Gofal a Thrwsio) i atgyfnerthu eu ffocws strategol wrth ddarparu addasiadau drwy:
 - osod amcanion strategol priodol ar gyfer addasiadau sy'n canolbwyntio ar lesiant ac annibyniaeth;
 - gwella ansawdd yr wybodaeth am y galw am addasiadau drwy ddefnyddio ystod eang o ddata i asesu angen, gan gynnwys ceisio a defnyddio gwybodaeth gan bartneriaid sy'n gweithio yn ardal yr awdurdod lleol; a
 - chysylltu'r system ar gyfer rheoli a chyflenwi addasiadau â pholisïau a chofrestrau tai addasedig er mwyn gwneud y defnydd gorau o gartrefi a addaswyd eisoes.

2. Argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi ddarparu gwybodaeth am addasiadau tai yn Gymraeg ac yn Saesneg, mewn ffurfweddau hygyrch gan gynnwys Braille, ffontiau mawr, fersiynau sain ac ieithoedd eraill. Dylid hyrwyddo gwybodaeth yn eang drwy ystod o gyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, gwefannau a gwybodaeth gyhoeddedig, a hefyd drwy bartneriaid allweddol. Yn ddefnyddol, dylid cynhyrchu gwybodaeth ar y cyd ac alinio polisïau rhwng cyrff cyflenwi er mwyn ehangu eu cwmpas a chynyddu'r defnydd ohonynt.

3. Gan fod nifer helaeth o lwybrau er mwyn cyrchu gwasanaethau, mae angen i sefydliadau cyflenwi sicrhau bod ganddynt systemau cadarn i ymdrin â cheisiadau yn gyflym ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom fod y prosesau a ddefnyddir gan sefydliadau cyflenwi yn amrywio'n helaeth, a'u bod yn aml yn creu anawsterau i bobl anabl a phobl hŷn sydd yn ceisio cymorth (paragraffau 2.16 i 2.19). Argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi symleiddio'r broses ymgeisio drwy greu un ffurflen gais gynhwysfawr ar gyfer pob sefydliad o fewn ardal awdurdod lleol. Dylai'r ffurflen fod ar gael drwy bartneriaid ac ar-lein.

4. Gall amrywiaeth o ffactorau achosi oedi wrth addasu (paragraffau 2.20 i 2.33). Er mwyn gwella prydlondeb wrth gyflenwi, argymhellwn y canlynol:

- bod awdurdodau lleol yn darparu neu'n defnyddio gwasanaethau asiantaeth gwella cartrefi i gynorthwyo pobl anabl a phobl hŷn i fynd ar drywydd eu ceisiadau DFG yn effeithlon;
- bod sefydliadau cyflenwi yn gweithio gydag awdurdodau cynllunio i gyflymu a symleiddio'r broses ar gyfer addasiadau y mae angen cymeradwyaeth ar eu cyfer;
- bod sefydliadau cyflenwi yn defnyddio Aseswyr yr Ymddiriedir Ynddynt i gynnal asesiadau ar gyfer gwaith addasu o natur symlach.

5. Argymhellwn fod sefydliadau cyflenwi:

- yn cyflwyno systemau ffurfiol er mwyn achredu contractwyr i gyflawni gwaith addasu. Dylai'r rhain gynnwys:
 - safonau gofal cwsmeriaid fel cadw apwyntiadau, cadw'r safle'n daclus, rheoli sŵn ac ati;
 - archwilio sefyllfa ariannol, statws treth a TAW;
 - hyrwyddo arferion iechyd a diogelwch da;
 - gofyniad i ddefnyddio cynlluniau gwarant;
 - sicrhau y delir yswiriant digonol; a
 - gofyn am eirdaon.
- defnyddio cytundebau fframwaith a chontractau drwy bartneriaeth i gyflenwi addasiadau;
- mynd i'r afael â gwendidau wrth roi addasiadau ar gontract, diweddarau'r Rhestr Cyfraddau a ddefnyddir i roi gwaith allan ar dendr a chynnal ymarferion tendro cystadleuol er mwyn cefnogi gwerth am arian wrth roi gwaith allan ar gontract;
- datblygu systemau effeithiol i reoli a gwerthuso perfformiad contractau drwy:
 - bennu ystod briodol o wybodaeth er mwyn barnu ynghylch perfformiad a chyflawniad y gwaith, gan gynnwys prydlondeb y gwaith; ansawdd y gwaith; adborth ymgeiswyr/tenantiaid; cost y gwaith (gan gynnwys amrywiadau); record o ran iechyd a diogelwch; ac adborth cwsmeriaid;
 - gwerthuso ac adrodd ar berfformiad yn rheolaidd er mwyn canfod cyfleoedd i wella gwasanaethau; a
 - rhoi adborth ffurfiol i gontractwyr am eu perfformiad, gan drafod materion allweddol fel bodlonrwydd cleientiaid, lefel unrhyw amrywio a pha mor dderbyniol yw hynny, gwaith sy'n gywir y tro cyntaf, asesiad ôl-arolygol a chwblhau ar amser ac yn unol â'r gyllideb.

6. Argymhellwn y dylai awdurdod lleol gydweithio ag asiantaethau partner (cyrff iechyd, cymdeithasau tai a Gofal a Thrwsio) i ddatblygu a gwella'r trefniadau ar gyfer cydweithio. Y nod fydd cynyddu hyd yr eithaf y defnydd a'r budd yn gysylltiedig ag addasiadau o ran cefnogi annibyniaeth drwy gyfuno adnoddau, cydleoli staff a chreu timau cyflenwi integredig.

7. Er mwyn gwella'r defnydd a'r nifer sy'n manteisio ar addasiadau gyda chyrrff iechyd, argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi gytuno ar y cyd ar gyd-safonau gwasanaeth ar gyfer cyflenwi addasiadau ym mhob ardal awdurdod lleol, a chyhoeddi'r cyd-safonau hynny. Dylid nodi'n glir yn y safonau gwasanaeth sut y bydd pob asiantaeth yn mynd ati i gyflenwi addasiadau, ac yn darparu gwasanaethau i sicrhau bod pobl yn gwybod yr hyn y mae ganddynt hawl i'w dderbyn. Dylai Safonau Gwasanaeth:
- fod mewn iaith hygyrch sy'n hawdd ei deall;
 - bod yn fanwl gywir ynghylch yr hyn y gall pobl/na all pobl ddisgwyl ei dderbyn;
 - cael eu llunio ar y cyd i gynnwys yr holl wasanaethau addasu o fewn ardal;
 - nodi cymhwysedd ar gyfer y gwahanol ffrydiau ariannu, y prosesau ymgeisio ac asesu, graddfeydd amser a phrosesau adolygu; a
 - chynnig yr opsiynau posib a'r dewisiadau eraill yn lle addasu, gan gynnwys cysylltu â chofrestrau tai addasedig i wneud y defnydd gorau posib o gartrefi sydd eisoes wedi'u haddasu.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu Tai i Gabinet Cyngor Gwynedd ym mis Rhagfyr 2020 syn cynnwys ein ymrwymiad i addasiadau tai dros y blynyddoedd nesaf. Bu iddo gael ei drafod mewn manylder yn y Pwyllgor Craffu ym mis Ionawr 2020 yn ogystal.

Rydym yn cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda phartneriaid (adrannau'r Cyngor, Bwrdd Iechyd, Gofal a Thrwsio) sy'n cwmpasu'r argymhellion hyn.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Ym mis Rhagfyr 2020, cymeradwywyd y Cynllun Gweithredu Tai gan Gabinet Cyngor Gwynedd gyda £7.2m wedi ei glustnodi dros 6 mlynedd ar gyfer DFG a £600k ar gyfer addasiadau llai (Enable).

Mae'r argymelliadau wedi eu hystyried wrth lunio ein trefniadau gwaith. Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid megis Gofal a Thrwsio, adrannau eraill y Cyngor, â'r Bwrdd Iechyd, gyda cyfeiriadau yn cael eu cyfeirio drwy Therapyddion Galwedigaethol yr Awdurdod.

Mae gennym systemau priodol mewn lle i weinyddu'r addasiadau tai. Mae ein contractwyr wedi eu gwirio drwy broses cadarn ac rydym ar hyn o bryd yn y broses o sefydlu fframwaith newydd o gontractwyr cymwys ac achrededig i weithredu'r addasiadau. Rydym yn penodi asiantaethau i hwyluso'r broses ar gyfer ymgeiswyr mewn achos o addasiadau sylweddol.

Un o brosiectau'r Cynllun Gweithredu Tai, sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yw i sefydlu 'Siop un Stop' ar gyfer materion tai ac yn sgil hynny bydd mynediad at y

gwasanaeth yma drwy ein gwefan a threfniadau ymgysylltu yn esblygu ymhellach dros y misoedd nesaf.

Casgliad

Ar waith.

3. Siaradwch fy iaith: Goresgyn rhwystrau iaith a chyfathrebu mewn gwasanaethau cyhoeddus - Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Ebrill 2018

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus sicrhau y gall pobl gyrchu'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen. Er mwyn bod yn ystyriol o ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth arall, argymhellwn y dylai cyrff cyhoeddus gynnal adolygiad rheolaidd er mwyn canfod pa mor hygyrch yw eu gwasanaethau i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel prif iaith, gan gynnwys pobl fyddar sydd yn defnyddio iaith arwyddion. Gellir defnyddio ein rhestr wirio yn rhan o'r asesiad hwn.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae'r cynnig gwella wedi derbyn sylw wrth ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 a'r Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiad.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Dyma'r gwaith sydd wedi digwydd yn y maes ers Ebrill 2018:

- Yn Adroddiad Blynyddol 2017-18 Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 (a dderbyniwyd gan y Cabinet ym mis Medi 2018) ychwanegwyd Amcan ychwanegol sef "Gwella ein darpariaeth gwybodaeth ar gyfer pobl sydd ddim yn defnyddio Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf".
- Wrth baratoi Amcanion ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 (fabwysiadwyd gan y Cabinet fis Medi 2020) penderfynwyd mai'r ffordd orau ymlaen fyddai gweithio ar Amcan i gasglu gwybodaeth am anghenion a dyhead lleol (sef Amcan 2 y Cynllun). Cynlluniwyd ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn casglu'r wybodaeth ond bu'n rhaid oedi'r gwaith rhywfaint oherwydd pandemig Covid-19, gan nad oedd yn bosib cwrdd wyneb yn wyneb, oedd yn ei gwneud yn llawer anoddach i ni dargedu grwpiau o ddefnyddwyr megis y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel prif iaith, a phobl fyddar..

- Cynhaliwyd holiadur ar-lein rhwng Chwefror a Mai 2021 i ganfod y rwystrau sy'n wynebu ein defnyddwyr gwasanaeth wrth ymwneud efo'r Cyngor a byddwn yn parhau i wneud hyn yn gyson yn y dyfodol. Mae bwriad hefyd i wneud gwaith pellach rhwng Medi a Rhagfyr gan dargedu grwpiau penodol a defnyddio dulliau gwahanol o ymgysylltu.
- Mabwysiadwyd Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiad gan y Cabinet ar 6 Gorffennaf 2021. Mae'n cynnwys yr egwyddor o ddarparu gwybodaeth mewn fformatau amgen a byddwn yn codi ymwybyddiaeth ynglŷn â chynnwys y Polisi rhwng Medi 2021 ac Awst 2022. Er mwyn helpu i wireddu hyn rydym wrthi'n diweddarau gwybodaeth am sut i ddarparu fformatau amgen ar fewnwyd y Cyngor, gyda'r gwaith yn cael ei gyflawni rhwng Awst a Hydref 2021.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

4. Comisiynu Gwasanaethau Llety i Oedolion ag Anableddau Dysgu yn Strategol - Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Mai 2018 [Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol barhau i ganolbwyntio ar atal pobl rhag mynd yn ddibynnol ar leoliadau drutach mewn cartrefi gofal drwy ddarparu cymorth effeithiol yn y cartref ac amrywiaeth o lety camu ymlaen drwy wneud y canlynol:
 - gwella'r modd y caiff gweithgarwch atal ei werthuso er mwyn i awdurdodau lleol ddeall beth sy'n gweithio'n dda a pham.
 - gan ddefnyddio mapio gwasanaethau atal o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n cwmpasu asiantaethau eraill a darparwyr gwasanaethau.
 - gwella prosesau cyfeirio at help ychwanegol er mwyn i ofalwyr a rhwydweithiau cymorth allu bod yn fwy cydnerth a hunan-ddibynnol. Dylai hyn gynnwys annog gofalwyr i lunio cynlluniau gofal hirdymor er mwyn cynnal a diogelu llesiant eu dibynnydd.
 - rhannu gwaith dadansoddi risg a data cynllunio hirdymor ag awdurdodau lleol eraill, darparwyr gwasanaethau a phartneriaid er mwyn cytuno ar ddealltwriaeth gyffredin o'r ystod o opsiynau.
2. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wella eu dull o gynllunio gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu drwy adeiladu ar asesiadau poblogaeth y Byrddau

Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a chytuno ar flaenoriaethau yn y dyfodol.

3. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud mwy i integreiddio trefniadau comisiynu gyda phartneriaid a darparwyr ac ystyried gwaith y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol drwy wneud y canlynol:
 - deall y ffactorau sy'n atal neu'n rhwystro integreiddio pellach;
 - gwella ansawdd cydgylluniau strategol ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu (gweler hefyd baragraffau 3.11 i 3.14);
 - sefydlu modelau buddsoddi a strwythurau ariannol cynaliadwy, trefniadau cydgyllunio'r gweithlu a dull cyllidebu amlflwydd; a
 - datblygu fframweithiau llywodraethu a rhannu data priodol gyda phartneriaid lleol allweddol sy'n cynnwys proses glir ar gyfer rheoli risg a methiant.

4. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud mwy i gynnwys pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr yn y broses o gynllunio gofal a chytuno ar lwybrau at fwy o annibyniaeth drwy wneud y canlynol:
 - cynnwys pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr yn gyson yn y broses o ysgrifennu, monitro a datblygu cynlluniau gofal;
 - cynnwys gofalwyr a grwpiau eirioli yn systematig yn y gwaith o werthuso ansawdd gwasanaethau;
 - cynnwys pobl ag anableddau dysgu mewn prosesau caffael; a
 - sicrhau y caiff gohebiaeth ei hysgrifennu mewn iaith briodol sy'n hawdd ei deall er mwyn gwella dealltwriaeth o ganllawiau a gwybodaeth a chynyddu eu heffaith.

5. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol gydweithio â darparwyr, y trydydd sector a chyflenwyr er mwyn deall heriau a rhannu data ac arbenigedd drwy wneud y canlynol:
 - gwella ansawdd, ystod a hygyrchedd gwybodaeth dendro; a
 - gweithio gyda darparwyr i lywio marchnadoedd lleol drwy feithrin dealltwriaeth gyffredin o'r cyfleoedd, y risgiau a'r blaenoriaethau o ran darparu gwasanaethau anableddau dysgu yn y dyfodol.

6. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol ddatblygu set fwy priodol o ddangosyddion perfformiad a mesurau llwyddiant sy'n ei gwneud hi'n haws monitro a dangos effaith gweithgarwch gwasanaethau drwy wneud y canlynol:
 - llunio mesurau a dangosyddion perfformiad gwasanaethau a chontractau ar y cyd â darparwyr gwasanaethau, pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr;
 - sicrhau bod gan gomisiynwyr ddigon o wybodaeth am gostau a digon o wybodaeth ansoddol am yr ystod lawn o opsiynau sydd ar gael o ran lleoliadau a gofal;

- rhoi data i gomisiynwyr er mwyn dangos manteision ariannol hirdymor dewisiadau comisiynu, mae hyn yn cynnwys meddu ar y systemau a'r dechnoleg briodol;
- integreiddio'r canlyniadau a'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau o gynlluniau gofal mewn mesurau perfformiad;
- gwerthuso gwahanol fathau o ymyriadau a lleoliadau ac wedyn dysgu ohonynt; a
- cynnwys gwasanaethau anabledau dysgu yn adolygiadau craffu awdurdodau lleol er mwyn herio perfformiad a nodi gwelliannau.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Roedd y mater yma yn cael sylw cyn i'r gwaith cenedlaethol yma gael ei gomisiynu. Mae'r maes yma wedi bod yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd mewnol dros gyfnod o flynyddoedd gyda gwaith penodol yn cael ei wneud i sefydlu darlun clir o anghenion llety yn y maes anabledd dysgu. Mae ffocws y trafodaethau yma wedi bod ar ganfod a rhaglennu ymyraethau lleol i ymateb i'r galw yn hytrach nag ar faterion strategol. Mae argymhellion cyffredinol yr adroddiad yma wedi bod yn rhan o gyd-destun y trafodaethau mewnol yma.

Cyflwynwyd adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu Gofal ym mis Gorffennaf 2021.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae'r Adran wedi edrych ar y wybodaeth a'r data lleol sydd yn rhoi darlun cywir i geisio rhagweld y gwir alw am lety i unigolion ag anabledau dysgu yng Ngwynedd. Mae hyn wedi cynnwys dadansoddiad o anghenion unigolion sy'n derbyn gwasanaeth a phobl ifanc yn yr oed trosglwyddo. Mae'r Adran hefyd wedi parhau i adolygu achosion all-sirol gyda'r amcan tymor hir o geisio darparu cefnogaeth iddynt yn agos at adref lle mae hynny yn ymarferol bosib.

Mae rhaglen waith yr Adran yn cynnwys edrych ar ddarpariaeth tai yn y gymuned a darpariaeth o leoliadau mwy arbenigol ar gyfer diwallu anghenion mwy dwys. Gyda'r ddwy elfen yma mae'r Adran yn cyd-weithio'n agos gyda'n partneriaid sydd yn cynnwys cymdeithasau tai, darparwyr gwasanaethau gofal ac wrth gwrs unigolion a'u teuluoedd. Mae'r Grŵp Trawsffurfio Gwasanaethau Anabledau Dysgu sydd yn cynnwys darparwyr a chynrychiolaeth gofalwyr hefyd wedi bod yn cyfrannu.

Mae trafodaethau ar y gweill i wella darpariaeth llety a gofal yn Y Frondeg, Caernarfon gyda bwriad hefyd i ehangu'r ddarpariaeth ar sail model newydd a chreu cyfleon i hwyluso unigolion i gael gofal yn nes at adref.

Mae buddsoddiad sylweddol wedi ei wneud yn Nhan y Marian, Pwllheli i gynnig darpariaeth llety gofal ysbaid i gefnogi gofalwyr a'u teuluoedd ac mae buddsoddiad pellach yn cael ei wneud i uwchraddio y cartref ei hun.

Mae trafodaethau ar y gweill gyda'r cymdeithasau tai, yr Adran Tai ac Eiddo a darparwyr gofal i uwchraddio llety presennol a chynnig darpariaeth pwrpasol newydd ar gyfer unigolion sydd eisoes yn cael eu cefnogi ac eraill all gael budd o ofal yn y gymuned.

Mae'r angen ar gyfer darpariaeth llety addas i unigolion ag anableddau dysgu a/neu anableddau corfforol yn ystyriaeth greiddiol wrth siapio cynlluniau ar gyfer tai cymdeithasol ac ar gyfer lleoliadau iechyd a gofal. Mae hyn yn cynnwys datblygiadau posib Hwb Iechyd a Gofal Dyffryn Nantlle ac ail-ddatblygu safle Penrhos ger Pwllheli.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

5. Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig - Adroddiad

Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Rhagfyr 2018

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Mae rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn esblygu ond mae yna gyfleoedd i fynegi cydweledigaeth gliriach a mwy uchelgeisiol ar gyfer Cymru wledig (gweler paragraffau 2.2 i 2.9 a 2.28 i 2.31). Argymhellwn fod gwasanaethau cyhoeddus sy'n bartneriaid i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymateb yn fwy effeithiol i'r heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwyneb trwy:
 - asesu cryfderau a gwendidau eu cymunedau gwledig gwahanol gan ddefnyddio Offeryn Prawfesur Gwledig Llywodraeth Cymru ac adnabod y camau lleol a strategol y mae arnynt angen eu cymryd i gefnogi cynaliadwyedd cymunedol a chytuno arnynt; a
 - sicrhau bod y Cynllun Llesiant Lleol yn cyflwyno gweledigaeth sy'n fwy gobeithiol ac uchelgeisiol ar gyfer 'lle' gyda chydflaenoriaethau a gydgyhyrchwyd gan bartneriaid, ar y cyd â dinasyddion, i roi sylw i heriau y cytunwyd arnynt.
2. Er mwyn cynorthwyo i gynnal cymunedau gwledig, mae ar wasanaethau cyhoeddus angen meddwl yn wahanol yn y dyfodol (gweler paragraffau 3.1 i 3.12). Argymhellwn fod cynghorau yn darparu ymateb sy'n fwy effeithiol i'r heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu trwy:
 - sicrhau bod gan gomisiynwyr gwasanaethau ddata ar gostau a gwybodaeth ansoddol ar y dewis llawn o opsiynau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau; a
 - defnyddio barn dinasyddion am ba mor fforddiadwy, hygyrch, digonol, derbyniol ac 'ar gael' y mae gwasanaethau'r cyngor i deilwra sut i ddarparu ac integreiddio gwasanaethau.

3. Er mwyn cynorthwyo i gynnal cymunedau gwledig, mae ar wasanaethau angen gwneud pethau'n wahanol yn y dyfodol (gweler paragraffau 3.1 i 3.12). Argymhellwn fod cynghorau yn gwneud mwy i ddatblygu cydnerthedd cymunedol a hunangymorth trwy:
- weithio gyda chyrff perthnasol fel Canolfan Cydweithredol Cymru i gefnogi menter gymdeithasol a modelau busnes mwy cydweithredol;
 - darparu allgymorth cymunedol wedi'i deilwra ar gyfer y rheini sy'n wynebu rhwystrau niferus sy'n eu hatal rhag defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a chael gwaith;
 - gwella ac adnabod rôl cynghorau tref a chymuned trwy fanteisio ar eu gwybodaeth leol a'u cefnogi i wneud mwy;
 - annog ymagwedd fwy integredig at ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig trwy sefydlu hybiau cymunedol sy'n rhychwantu gwasanaethau cyhoeddus, rhwydweithiau arbenigedd a chlystyrau o wasanaethau cynghori ac atal;
 - galluogi gweithredu lleol trwy gefnogi trosglwyddiad asedau cymunedol ac adnabod yr asedau hynny y byddai'n addas eu trosglwyddo, a sicrhau bod y systemau cywir ar waith i wneud i bethau ddigwydd; a
 - gwella arweiniad yn y gymuned trwy ddatblygu rhwydweithiau o ddiddordeb, hyfforddiant a choetsio ac annog unigolion i wirfoddoli.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Nid yw'r adroddiad wedi ei drafod yn nghyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Ymateb i Gynnig Gwella 1 – Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn asesu cyflwr ein cymunedau fel rhan o'r Aseidiadau Llesiant 2021/22. Bydd hyn yn gyfle i holl bartneriaid y BGC ddatblygu dealltwriaeth o'r materion llesiant sy'n effeithio ar ein cymunedau. Bydd y BGC yn rhoi ystyriaeth i gamau cydweithredol er mwyn ymateb iddynt trwy ei Gynllun Llesiant fydd i'w gyhoeddi yn 2023.

Mae'r BGC wedi cymryd i ystyriaeth y cwestiynau o offeryn Prawfesur Gwledig Llywodraeth Cymru a phe byddai'r BGC yn cyflwyno newid polisi byddent yn gallu gwneud defnydd o'r offeryn.

Cynigion gwella 2 a 3 - mae Adran Economi a Chymuned wedi gweithio yn agos iawn gyda Arloesi Gwynedd Wledig i greu hybiau cymunedol. Ar hyn bryd mae 'gofod gwneud', 'caffis trwsio' a chyfleusterau 'hot desking' yn cael eu sefydlu mewn 8 cymuned yn y sir. Mae'r adnoddau yma'n plethu i mewn gyda gweithgareddau ac adnoddau sydd eisoes yn eu lle.

Yn hanesyddol mae rhai o asedau'r Cyngor wedi eu trosglwyddo i gymunedau neu grwpiau cymunedol – e.e Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu wedi ei drosglwyddo i Antur Nantlle i'w rhedeg fel busnes 'bunk house'; hen lyfrgell yn Neiniolen wedi cael ei drosglwyddo i Menter Fachwen.

Drwy waith Arloesi Gwynedd Wledig a Rhaglen LEADER mae gweithdai penodol wedi bod yn cael eu cynnal i gymunedau sydd yn adnabod heriau e.e sut i gadw'r Gymraeg yn gryf yn ardal Nefyn; gweithdai yn ymwneud a thaclo problem gwastraff yn Nyffryn Nantlle. Mae rhaglen hefyd yn cael ei datblygu i gynig sesiynau gwybodaeth/hyfforddiant i gymunedau ar sut i adnabod her a sut i ymateb iddynt drwy edrych ar egwyddorion o fod yn arloesol.

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn gweithio ar greu Cynllun Adfywio newydd ar gyfer y sir. Mae'r sir wedi ei rhannu i 13 ardal ac mi fydd cynllun ardal lleol yn cael ei baratoi ar gyfer pob un o'r 13 ardal. Rydym yn y cam cyntaf o ymgynghori gyda grwpiau cymunedol gweithredol a chynghorau cymuned a thref er mwyn canfod barn ar y themâu sy'n bwysig i gymunedau a sut gellir adeiladu ar fodel o gydweithio er mwyn gweithredu ar y blaenoriaethau hynny.

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn ystyried anghenion cymunedau gwledig wrth gynllunio ei holl waith, ac mae Ffordd Gwynedd a gofynion y Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol yn golygu y byddwn yn cofnodi sut mae anghenion cymunedau gwledig yn cael eu cyfarch. Mae gwaith ar droed i ddiweddarau'r ffurflen asesu effaith cydraddoldeb er mwyn cyfarch hyn.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

6. Darparu Gwasanaeth Llywodraeth Lleol i Gymunedau Gwledig:

Trosglwyddo Asedau Cymunedol - Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Rhagfyr 2018
[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Mae angen i awdurdodau lleol wneud mwy i sicrhau bod y broses o Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn symlach ac yn fwy deniadol, helpu i feithrin gallu Cynghorau Cymuned a Thref, rhoi rhagor o arweiniad iddynt o ran sicrhau cyllid, a gofalu eu bod yn cefnogi modelau datblygu cymunedol eraill, er enghraifft mentrau cymdeithasol sy'n cefnogi gwerth cymdeithasol a chyfranogiad dinasyddion. At hynny, rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn monitro ac yn cyhoeddi nifer yr achosion o Drosglwyddo Asedau Cymunedol ac yn mesur effaith gymdeithasol trosglwyddiadau o'r fath.

2. Mae gan awdurdodau lleol gyfle sylweddol i ddarparu gwell help a chymorth, a hynny mewn modd mwy amlwg, cyn, yn ystod, ac ar ôl y broses o drosglwyddo asedau cymunedol. Down i'r casgliad bod yna gryn le i wella'r gwaith cynllunio busnes a pharatoi ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol, yn ogystal â'r ôl-ofal. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:
- nodi rôl trosglwyddo asedau cymunedol wrth sefydlu canolfannau cymunedol, rhwydweithiau arbenigedd a chlystyrau o wasanaethau cynghori ac atal;
 - gweithio gyda chynghorau tref a chymuned i feithrin eu gallu i ymgymryd â rhagor o gynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol;
 - nodi'r asedau sy'n addas i gael eu trosglwyddo, ac egluro'r hyn y mae angen i'r awdurdod ei wneud i'w galluogi i gael eu trosglwyddo;
 - sicrhau bod eu polisïau o ran Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cwmpasu'r canlynol yn ddigonol: ôl-ofal, cefnogaeth hirdymor, cymorth ôl-drosglwyddo, cyfeirio at fynediad at gyllid, a rhannu'r dysgu ynghylch yr hyn sy'n gweithio'n dda; a
 - cefnogi arweinyddiaeth yn y gymuned trwy ddatblygu rhwydweithiau o ddiddordeb a hyfforddiant, ac annog unigolion i wirfoddoli.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Gweler sylwadau ar gyfer adroddiad rhif 5 uchod.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Gweler sylwadau ar gyfer adroddiad rhif 5 uchod. Mae yna nifer fawr o gynlluniau i gefnogi cymunedau gwledig ar waith, ac mae rhai o'r rhain yn ymwneud â darparu adnoddau sy'n addas i bwrpas. Nid yw hynny bob tro yn golygu trosglwyddo asedau sy'n eiddo i'r Cyngor, ond fe ddaw'r anghenion yn fwy amlwg wrth gwblhau'r gwaith ar lunio Cynlluniau Adfywio.

Casgliad

Ar waith.

- 7. Aeddfedrwydd llywodraeth leol o ran y defnydd o ddata** - Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Rhagfyr 2018
[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:
 - sicrhau bod ganddynt weledigaeth eglur sy'n trin data fel adnodd allweddol;
 - sefydlu safonau a chodau data corfforaethol y mae pob gwasanaeth yn eu defnyddio ar gyfer eu data craidd;
 - ymgymryd ag archwiliad i bennu'r data sy'n cael eu cadw gan wasanaethau ac i nodi unrhyw gofnodion a cheisiadau am wybodaeth dyblyg; a
 - chreu cyfrif cwsmer integredig canolog fel porth i wasanaethau.
2. Er ei bod yn bwysig bod awdurdodau'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol, mae Rhan 2 o'r adroddiad yn nodi'r angen iddynt hefyd rannu data â phartneriaid er mwyn sicrhau bod dinasyddion yn cael gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Er nad yw hyn yn golygu bod y ddeupeth hyn yn annibynnol ar ei gilydd, mae ansicrwydd ynghylch cyfrifoldebau diogelu data yn golygu nad yw rhai swyddogion yn rhannu data, hyd yn oed lle bo cytundeb mewn bodolaeth i roi gwybodaeth i bartneriaid. Rydym yn argymhell bod awdurdodau yn gwneud y canlynol:
 - darparu hyfforddiant diweddarau i reolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallant rannu data ai peidio, a'r math o ddata y gallant eu rhannu; ac
 - adolygu a diweddarau protocolau rhannu data er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data.
3. Yn Rhan 3 o'n hadroddiad, rydym yn dod i gasgliad bod adnoddau digonol a gallu digonol yn heriau parhaus. Fodd bynnag, heb uwchsgilio staff i wneud gwell defnydd o ddata, mae awdurdodau yn colli cyfleoedd i wella eu heffeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd. Rydym yn argymhell bod awdurdodau yn gwneud y canlynol:
 - dynodi staff sydd â rôl yn y broses o ddadansoddi a rheoli data i gael gwared ar ddyblygu, ac i ryddhau adnoddau i feithrin a datblygu'r gallu i ddefnyddio data; a
 - buddsoddi yn sgiliau dadansoddi, cloddio a segmentu data y staff, a chefnogi eu datblygiad.
4. Mae Rhan 4 o'n hadroddiad yn amlygu bod gan awdurdodau ragor i'w wneud mewn perthynas â chreu diwylliant gwneud penderfyniadau dan arweiniad data, ac o ran datgloi potensial y data y maent yn eu cadw. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:
 - gosod safonau adrodd ar ddata i sicrhau bod y safonau data gofynnol yn ategu'r broses o wneud penderfyniadau; a
 - sicrhau bod mwy o ddata agored ar gael.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Cafodd yr adroddiad a'r argymhellion gwella eu trafod yn y Panel Gweithredol Llywodraethu Gwybodaeth, a'r mater wedi'i gynnwys yng Ngofrestr Risg y Cyngor (lefel Llywodraethu): "Methu uchafu potensial gwybodaeth wrth gefnogi busnes y Cyngor a methu bodloni gofynion statudol".

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Cafodd Cynllun Gwybodaeth y Cyngor 2021-26 ei fabwysiadu gan y Cabinet fis Ionawr 2021. Mae hwn, a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, yn gosod allan cyfeiriad y Cyngor ym maes gwybodaeth dros y blynyddoedd nesaf gan gynnwys y materion a nodwyd yn yr adroddiad.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

8. Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru - Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Mehefin 2019 [Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Bod awdurdodau cynllunio lleol:
 - (i) yn profi arferion ymgysylltu a chynnwys ar hyn o bryd ac yn ystyried yr ystod lawn o opsiynau eraill sydd ar gael i sicrhau bod gweithgareddau cynnwys yn addas ar gyfer y diben
 - (ii) yn defnyddio 'Cynlluniau Lle' fel cyfrwng i ymgysylltu â chymunedau a dinasyddion a'u cynnwys mewn dewisiadau a phrosesau penderfynu ym maes cynllunio
2. Gwella capasiti trwy weithio'n rhanbarthol i:
 - (i) datblygu canllawiau cynllunio atodol ar y cyd
3. Rydym yn argymhell bod awdurdodau cynllunio lleol yn gwella effeithiolrwydd pwyllgorau cynllunio trwy:
 - (i) adolygu eu cynllun dirprwyo i sicrhau bod pwyllgorau cynllunio'n canolbwyntio ar y materion strategol pwysicaf sy'n berthnasol i'w hawdurdod;

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae'r argymhellion wedi eu trafod fel rhan o'r gwaith o gynnal Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd, ac adolygu'r cynllun dirprwyo. Gweler y manylion wrth ddisgrifio'r 'cynnydd' isod.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

1. Rydym eisoes yn cynnal y Pwyllgor Cynllunio, Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, sesiynau hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth, cynnig cyngor / trafodaethau gyda datblygwyr yn rhithiol.
Byddwn yn ystyried cyfleoedd i gyfrannu tuag at Gynlluniau Lle os ydynt yn codi, ond nid oes cyfleoedd / cynigion wedi codi hyd yma. Nodir nad oes gofyn statudol i baratoi Cynlluniau Lle.
2. Rydym wedi sefydlu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd gyda Chyngor Sir Ynys Mon ers 2011, ac wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn 2017. Ers hynny mae 9 Canllaw Cynllunio Atodol (ar y cyd) wedi eu mabwysiadu.
3. Adolygwyd y cynllun dirprwyo cynllunio yn dilyn Ymchwiliad Craffu yn 2017 gyda'r cynllun newydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau cyn ei gytuno gan y Cyngor ym mis Mai 2018. Mae adroddiad pellach wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn 2020 i roi diweddariad ar weithrediad y Cynllun Dirprwyo ac i egluro'r trefniadau ar gyfer ymgynghori gyda cheisiadau ac fe gefnogwyd yr argymhellion a'r trefniadau gwaith cysylltiedig.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

- 9. Y 'Drws Blaen' i ofal cymdeithasol i oedolion** - Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Medi 2019
[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r drws blaen, rydym yn argymhell y canlynol - awdurdodau lleol:
 - adolygu eu dulliau presennol, ystyried eu cynulleidfa, a sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd da ar gael yn brydlon er mwyn atal anghenion rhag dirywio a phobl rhag cyflwyno eu hunain am gymorth mewn 'argyfwng';
 - gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i helpu i sicrhau bod pobl sy'n cael gafael ar wasanaethau trwy atgyfeiriadau gan bartneriaid, neu ddulliau eraill, yn cael yr wybodaeth orau i'w helpu;

- sicrhau bod gwasanaethau eirioli yn cael eu comisiynu a'u cynnig yn rhagweithiol i'r rhai y mae eu hangen arnynt ar y pwynt cyswllt cyntaf;
- ysgwyddo cyfrifoldeb yn lleol ac arwain y gwaith o gydlynu a golygu gwybodaeth leol a gyhoeddir ar Dewis Cymru yn lleol.

2. Er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r drws blaen, rydym yn argymhell y canlynol - awdurdodau lleol:

- mapio'r gwasanaethau ataliol sydd ar gael yn eu hardal er mwyn cael gwell dealltwriaeth o lefelau presennol y ddarpariaeth a nodi bylchau a dyblygiadau;
- cynnwys partneriaid y trydydd sector wrth gyd-lunio atebion ataliol i ddiwallu anghenion pobl a sicrhau y gall pobl gael gafael ar y gwasanaethau hyn mewn modd teg;
- gweithio gyda phartneriaid y trydydd sector er mwyn teilwra a chomisiynu gwasanaethau newydd lle nodir bylchau; a
- gweithio gyda phartneriaid i wella data er mwyn gwerthuso effaith gwasanaethau ataliol ar unigolion, ac ar y boblogaeth yn fwy cyffredinol.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae'r materion a godwyd yn yr adroddiad yma wedi bwydo mewn i drafodaethau ar gynlluniau datblygu a thrawsffurfio ehangach yr Adran ac mae hynny wedi ac yn cael sylw trwy raglenni gwaith ac adroddiadau eraill. Mae rhai ohonynt hefyd wedi bod yn rhan o adroddiadau sydd wedi eu cyflwyno l'r Pwyllgor Craffu Gofal. Dylid er enghraifft, nodi bod yr angen i gryfhau a gwella y drws ffrynt i wasanaethau gofal a datblygiad gwasanaethau ataliol wedi cael cryn sylw trwy y Bwrdd Cefnogi Pobl.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae'r materion wedi ac yn cael sylw fel rhan o waith ehangach yr Adran ac yn wir trwy ymdrechion corfforaethol ar sail blaenoriaethau'r Bwrdd Cefnogi Pobl. Mae'r gwaith adrannol yn cynnwys y gwaith ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd i sefydlu a datblygu'r Timau Adnoddau Cymunedol a'r gwaith trawsffurfio sylweddol sydd ar y gweill. Mae hefyd yn plethu gyda'r Prosiect Gofal Cartref. Ystyrir bod y gwaith i wella'r drws ffrynt a datblygu gwasanaethau ataliol yn greiddiol i'r elfennau yma.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

10. Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus – Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Hydref 2019
[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

Rydym yn argymhell bod BGCau:

- yn cynnal asesiadau ffurfiol i ganfod yr effaith bosibl ar bobl â nodweddion gwarchoddedig a'r Gymraeg ac yn adolygu camau gweithredu y cytunwyd arnynt i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw effeithiau andwyol;
- yn gwella tryloywder ac atebolrwydd trwy wneud cyfarfodydd, agendâu, papurau a chofnodion BGCau yn hygyrch ac ar gael i'r cyhoedd;
- yn cryfhau trefniadau cynnwys trwy weithio'n unol â'r canllawiau yn yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru; ac
- yn adrodd yn ôl ar ganlyniad gweithgarwch cynnwys gan nodi ble y gwneir newidiadau o ganlyniad i fewnbnw dinasyddion a rhanddeiliaid.

I wella trefniadau craffu, rydym yn argymhell:

- bod BGCau a chyrrff cyhoeddus yn defnyddio canfyddiadau'r Papur Trafod: Chwe thema i helpu i wneud craffu'n 'Addas ar gyfer y Dyfodol' gan Archwilydd Cyhoeddus Cymru i adolygu eu perfformiad presennol a nodi ble y mae angen iddynt gryfhau trefniadau a gweithgarwch trosolwg; a
- bod BGCau yn sicrhau bod pwyllgorau craffu'n ymgysylltu'n ddigonol ag ystod ehangach o randdeiliaid perthnasol sy'n gallu helpu i ddwyn BGCau i gyfrif.

I helpu i adeiladu capasiti, cysondeb a darparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch rydym yn argymhell:

- bod BGCau yn cymryd y cyfle i gyflawni rhwymedigaethau mewn cynlluniau a strategaethau eraill trwy'r Cynllun Llesiant Lleol;
- bod Llywodraeth Cymru yn galluogi BGCau i ddatblygu modelau gweithio hyblyg gan gynnwys:
 - cyfuno, lleihau ac integreiddio eu gwaith gyda fforymau eraill megis Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol; a
 - rhoi hyblygrwydd i BGCau gael, rheoli a gwario arian grant ar yr amod bod BGCau yn sicrhau bod ganddynt drefniadau diogelu a systemau priodol ar waith i reoli cyllid; rheolaethau effeithiol ar gyllidebau a rhaglenni grantiau; a systemau adrodd wrth y cyhoedd, trosolwg a chraffu i reoli gwariant.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Trafodwyd yr argymhellion yn ystod cyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar 11eg Rhagfyr 2019 ac mae'r canlyniad yn cael ei ddisgrifio yn y 'cynnydd' isod. Rhoddwyd gwybod i'r pwyllgorau craffu canlynol fod y BGC yn trafod yr argymhellion:

- Pwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd : 5ed Rhagfyr 2019
- Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio Cyngor Sir Ynys Môn: 12fed Tachwedd 2019.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Ymateb y BGC gan ddilyn trefn y pwyntiau bwled uchod:

- Mae tîm cefnogi'r BGC eisoes wedi rhoi ystyriaeth ac yn cydnabod yr angen am Asesiadau Effaith Iaith a Chydraddoldeb. Bydd yr asesiadau effaith yn cael eu datblygu os fydd prosiectau yn cael eu cyflwyno i sylw'r BGC fydd yn argymhell newid polisi neu wasanaeth, a hynny er mwyn mesur a deall effaith y penderfyniadau fydd yn cael eu gwneud gan y BGC.
- Mae gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn wefan sy'n weithredol o dan yr enw: <https://www.llesiantgwyneddamon.org> . Mae manylion o gyfarfodydd y Bwrdd a'r cofnodion wedi eu cynnwys ar y wefan.
- Mae gwaith ar Asesiadau Llesiant y BGC yn cael ei gynllunio yn unol â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Mae tîm cefnogi'r BGC yn adnabod cyfle fan hyn i wneud mwy o ddefnydd o'u dulliau cyfathrebu er mwyn rhoi gwybod i'n dinasyddion am waith a chynnydd y BGC. Bydd arbrofi efo'r dulliau – fe dywedoch chi ac fe wnaethom ni er mwyn dangos yr hyn ddywedyd gan ein dinasyddion wedi cyfrannu at ein penderfyniadau.
- (2 bwynt bwled craffu) - Mae'r BGC yn cydweithio efo Pwyllgorau Craffu Gwynedd ac Ynys Môn ar amserlenni craffu (alinio â chyfarfodydd y BGC) a'r meysydd i'w craffu.
- (capasiti) – Mae'r BGC wedi bod yn arweiniol iawn mewn perthynas â'r weithred dan sylw. Mae is-grŵp Iechyd a Gofal Gorllewin Cymru, sy'n atebol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn, ac yn cydweithio â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu cynllunio ar gyfer y boblogaeth hŷn yn addas ar gyfer anghenion lleol.
- Mae'r ddogfen 'Cymru Iachach' yn llywio trefniadau llywodraethu a chynlluniau'r Is-grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig i Wynedd ac Ynys Môn.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

11. Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith – Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Tachwedd 2019

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn amlygu, er bod gan gyrff cyhoeddus ddealltwriaeth gynyddol am wasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r galw amdanynt, bod bylchau sylweddol yn dal i fodoli a bod ymgysylltiad â goroeswyr a dioddefwyr i adolygu a datblygu gwasanaethau yn anghyson. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymhell bod gwaith i asesu anghenion a mapio'r ddarpariaeth gwasanaethau gan gyrff cyhoeddus yn cael sylw o'r newydd a bod y modd y caiff pobl eu cynnwys yn cael ei ehangu a'i wella i gynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol er mwyn creu darlun mwy cywir o'r ddarpariaeth gyfredol o ran gwasanaethau ac adnabod bylchau.

2. Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn disgrifio sut y mae dioddefwyr a goroeswyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn aml yn ei chael yn anodd ymgodymu â system dameidiog o ran y gwasanaethau a ddarperir. I gynorthwyo dioddefwyr a goroeswyr i gael mynediad at wasanaethau a'u defnyddio rydym yn argymhell bod cyrff cyhoeddus:
 - yn cynhyrchu gwybodaeth gynhwysfawr a pherthnasol mewn amrywiaeth o gyfryngau am yr ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael i amddiffyn a chefnogi dioddefwyr a goroeswyr; ac
 - yn creu llwybr ar y cyd i gael mynediad at wasanaethau a chymorth ar gyfer dioddefwyr a gweithwyr proffesiynol ac yn hysbysebu trefniadau mynediad yn eang

3. Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn nodi, er ei bod yn bwysig eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ar ddiogelu data, bod angen i sefydliadau rannu data gyda phartneriaid hefyd i ddiwallu anghenion dioddefwyr a goroeswyr yn well. Rydym yn argymhell bod awdurdodau:
 - yn sicrhau bod staff sy'n debygol o ddod i gysylltiad â dioddefwyr a goroeswyr yn cael hyfforddiant priodol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol;
 - yn darparu hyfforddiant diweddarau ar gyfer rheolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallant ac na allant rannu data, a pha ddata y gallan ac na allan ei rannu; ac
 - yn adolygu ac yn diweddarau protocolau rhannu data i sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data

4. Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn nodi, er bod peth cynnydd da wedi cael ei wneud gyda gweithio'n rhanbarthol, nad oes ysgogwyr priodol yn eu lle bob amser i gefnogi'r broses o drawsnewid gwasanaethau yn unol â'r ddeddfwriaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. I sicrhau bod manteision rhanbartholi'n cael eu gwireddu, rydym yn argymhell bod asiantaethau darparu (awdurdodau lleol, cyrff iechyd, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub a'r trydydd sector) yn adolygu eu dull o weithio'n rhanbarthol i integreiddio gwasanaethau'n well a chynyddu i'r eithaf yr effaith gadarnhaol y gallant eu cael er ddioddefwyr a goroeswyr.
5. Mae Rhan 3 o'r adroddiad yn amlygu nad yw'r mecanweithiau cyllido cymhleth a byrdymor, diffyg data ac ymgynghori annigonol â rhanddeiliaid, o gymorth i gomisiynu gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol mewn modd cynaliadwy. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn adolygu eu trefniadau comisiynu i:
 - gael gwared ar ddyblygu a gorgyffwrdd rhwng gwahanol ddulliau yn yr awdurdod a chyda phartneriaid;
 - rhesymoli trefniadau gweinyddu i wella effeithlonrwydd a gwerth am arian;
 - symleiddio a safoni trefniadau comisiynu i leihau baich gweinyddu ar yr holl bartion; a
 - phennu mesurau perfformiad, targedau a meincnodau priodol i farnu effaith a deilliannau gwasanaethau a gomisiynir.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Yr adroddiad a'r argymhellion wedi'u trafod yn y Grŵp Gweithredol Diogelu a'r Panel Strategol Diogelu gan arwain at y camau gweithredu/cynnydd sy'n cael ei ddisgrifio isod.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae'r isod wedi eu rhifo i gyfateb i'r cynigion gwella uchod:

1. Mae ymdrechion i fapio'r holl ddarpariaeth yn rhanbarthol yn digwydd ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl diweddariad mewn cyfarfod grwp llywio yn fuan.
2. Mae gwybodaeth ynglŷn a'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael wedi ei rannu ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn rheolaidd. Hefyd, mae gwybodaeth cynhwysfawr ynglŷn â gwasanaethau cymorth lleol ar y dudalen 'Diogelwch Cymunedol' ar wefan y Cyngor.
3. Mae hyfforddiant diogelu data wedi'i drefnu i bob aelod o staff yr Adran Oedolion a Llesiant. Mae'r mater o bryd y mae'n gywir i dorri cyfrinachedd er mwyn diogelu yn rhan bwysig o'r hyfforddiant yma. Mae pecyn e-ddysgu Trais yn y Cartref ar gael i staff. Yn 2019, gofynnwyd i holl aelodau staff Cyngor Gwynedd gwblhau'r e-fodiwl.

Cynnydd i roi ar waith y fframwaith hyfforddi cenedlaethol – Ask and Act. Erbyn hyn, mae 4 o hyfforddwyr wedi'i hyfforddi yn ystod cyfnod 2018-2020 (meysydd Oedolion, Addysg a Cefnogaeth Gorfforaethol). Hefyd, datblygwyd rhaglen hyfforddi Gofyn a Gweithredu (*Ask and Act*) newydd 'o bell' (rhithiol), a bu'n rhaid disgwyl i'w chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

4. Mae'r asiantaethau perthnasol wedi adolygu eu dull o weithio'n rhanbarthol, erbyn hyn mae cyfarfodydd MARAC (*Multi-Agency Risk Assessment Conference*) wythnosol yn ogystal a rhai misol, ac mae'r Cyngor hefyd yn rhan o grwpiau llywio lleol a rhanbarthol. Yn rhanbarthol, mae'r Vulnerability and Exploitation Board yn arwain ar faterion trais yn y cartref a diogelu, a'r gwaith erbyn hyn yn y prif-lif.
5. Argymhelliad rhif 5 yn dod o dan y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol. Nid oedd cyllideb i gomisiynu gwasanaethau yn fewnol. Mae'r Uwch-Swyddog Diogelwch Cymunedol yn eistedd ar y bwrdd yma o ran dylanwadu gwariant.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

12. Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb –

Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Gorffennaf 2020

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

Dylai cyrff cyhoeddus a phartneriaid yn y trydydd sector sicrhau eu bod yn defnyddio data i gynllunio'r gwasanaethau cywir ar gyfer y dyfodol, ac i sefydlu protocolau rhannu data effeithiol i sicrhau eu bod yn ymateb yn effeithiol ac yn ddiogel i'r broblem o bobl yn cysgu allan. Rydym yn argymhell bod cynghorau a'u partneriaid:

- yn buddsoddi mewn sgiliau dadansoddi data i ddeall yn well beth yw'r sefyllfa gyfredol a rhagweld y galw yn y dyfodol i atal digartrefedd yn y dyfodol;
- adolygu a diweddarau protocolau rhannu data i sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data'n effeithiol; a
- chyflwyno un broses casglu data ac asesu data i roi cymorth i ategu prosesau penderfynu diogel wrth ymdrin â phobl sy'n cysgu allan.

Gan bod cyrff cyhoeddus yn ymateb i bobl mewn argyfwng, maent yn aml yn ymdrin â materion aciwt ar wahân i'w gilydd ac anaml y maent yn mynd i'r afael ag achos sylfaenol yr argyfwng. Er mwyn gwneud hyn mae gofyn i gyrff cyhoeddus ddylunio a chreu modelau darparu gwasanaethau sy'n ymatebol. Rydym yn argymhell bod cyrff cyhoeddus yn defnyddio ein hofferyn hunan-fyfyrion anghenion cymhleth i wella sut y

gallant fynd i'r afael ag anghenion cymhleth ar y cyd yn y dyfodol (caiff yr offeryn ei nodi yn Atodiad 2).

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae digartrefedd a chysgu allan yn cael ei drafod mewn nifer o gyfarfodydd gan gynnwys ein Panel Gweithredu Cynllunio Argyfwng a cyfarfodydd mewnol a thrawsadrannol eraill wrth gydweithio i sicrhau nad oes neb yn cysgu allan yng Ngwynedd.

Mae argymhellion yr adroddiad wedi bod yn sail i'r ailstrwythuro o fewn ein hunedau Digartrefedd sydd yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd, wedi cymeradwyaeth y Cabinet ym mis Ebrill, ac wedi cael sylw manwl y Cabinet yn ei gyfarfod ar 20 Ebrill 2021, â'r Pwyllgor Craffu ym mis Mawrth 2021.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Rydym yn cydweithio gyda nifer o asiantaethau trydydd sector i roi cefnogaeth i unigolion. Rydym yn dadansoddi data er mwyn adnabod tueddiadau a byddwn yn adeiladu ar y gwaith hyn ar ôl penodi swyddog data newydd i gefnogi'r adran, sy'n cael ei hysbysebu ar hyn o bryd.

Mae'r argymhellion wedi bod yn berthnasol i'r ailstrwythuro yn ein hunedau digartrefedd, ac rydym yn cydweithio'n agos gyda'r bwrdd iechyd gan gynnwys cydgyflogi aelod o staff arbenigol i roi cefnogaeth iechyd meddwl i unigolion.

Casgliad

Ar waith.

13. Masnacheiddio mewn Llywodraeth Leol - Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Hydref 2020 [Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Mae ymgymryd â gweithgareddau masnacheiddio yn gofyn i gynghorau feddu ar allu digonol a'r sgiliau cywir, ac i fod â systemau cadarn ond ystwyth ar waith. Argymhellwn fod cynghorau'n defnyddio'n hofferynnau hunanwerthuso i ddatblygu strategaeth sy'n gweddu i'r graddau y maent am ddilyn y syniad o fasnacheiddio.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae trafodaethau ar fasnacheiddio wedi eu cynnal fesul achos perthnasol – gweler isod. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu cynnal ymysg uwch-swyddogion, y Cabinet, Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae Cyngor Gwynedd wedi masnacheiddio mewn meysydd megis Ymgynghoriaeth Gwynedd a Byw'n Iach, ayb, ond heb fentro i fenthyg er mwyn buddsoddi mewn prosiectau eraill megis eiddo manwerthu lleol.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

14. Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru - Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Hydref 2020
[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Dylai pwyllgorau archwilio, neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny, a swyddogion sy'n arwain y Fenter Twyll Genedlaethol adolygu rhestr wirio hunanarfarnu'r Fenter Twyll Genedlaethol. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn meddu ar wybodaeth lawn am waith cynllunio a chynnydd eu sefydliad yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-22.
2. Lle mae archwilwyr lleol wedi nodi meysydd penodol lle gellid gwneud gwelliannau, dylai'r cyrff cyhoeddus weithredu ar y rhain cyn gynted â phosibl.
3. Dylai'r holl gyfranogwyr fod yn ymwybodol o risgiau o dwyll sy'n dod i'r amlwg, e.e. oherwydd COVID-19, a chymryd camau priodol i'w hatal a'u canfod.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Byddem yn adrodd fel bo angen i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am risgiau o dwyll penodol. Lle mae archwilwyr lleol wedi nodi meysydd penodol lle gellid gwneud gwelliannau, mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn adroddiadau penodol ar y rhain.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Yn ddiweddar, nid yw canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi amlygu twyll o sylwedd mewn unrhyw faes.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.